# Adroddiad annibynnol ar weithrediad y weithdrefn deunydd caeedig o dan Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013

Gorffennaf 2022

# Adroddiad annibynnol ar weithrediad y weithdrefn deunydd caeedig o dan Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013

Cyflwynwyd i'r Senedd o dan adran 13(5) Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013

Gorffennaf 2022

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2022**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle’r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy’n dal yr hawlfraint honno.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn drwy e-bostio humanrights@justice.gov.uk .

ISBN 978-1-5286-3179-2

E02717323 07/22

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi’i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


Byrfoddau 2

Rhagarweiniad 3

Adran 1: Nodau Rhan 2 Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 7

Adran 2: Darpariaethau Rhan 2 Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 sy'n destun yr Adolygiad hwn 14

Adran 3: Y profiad o bryderon am weithrediad Rhan 2 y Ddeddf yn y dyfodol, a leisiwyd wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd 39

Adran 4: Pryderon am weithrediad y Ddeddf a godwyd yn yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth 66

Adran 5: Casgliadau Cyffredinol 110

Adran 6: Argymhellion 118

Atodiad 1 – Cylch gorchwyl yr adolygiad o ddarpariaethau'r "weithdrefn deunydd caeedig" yn Neddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 126

Atodiad 2 – Galwad am dystiolaeth gan ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA ar ran yr adolygydd 128

Atodiad 3 – Crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth 137

Atodiad 4 – Rhan A – Rhestr o achosion CMP 163

Atodiad 4 – Rhan B – Crynodeb o'r achosion JSA a adroddwyd 183

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ADR | Ffyrdd Eraill o Ddatrys Anghydfod |
| CMP | Gweithdrefn(au) Deunydd Caeedig |
| CPR | Cymru a Lloegr – Rheolau Trefniadaeth Sifil |
| DV | Fetio Uwch |
| ECHR | Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol |
| FPR | Rheolau Trefniadaeth Teulu |
| GLD | Adran Gyfreithiol y Llywodraeth[1] |
| HMG | Llywodraeth Ei Mawrhydi |
| JSA | Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 |
| LPP | Braint Broffesiynol Gyfreithiol |
| LSANI | Asiantaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCND | Nac yn Cadarnhau Na'n Gwadu |
| NICTS | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon |
| CA / CAwyr | Cynrychiolydd / Cynrychiolwyr Agored |
| PII | Imiwnedd Budd y Cyhoedd |
| PSNI | Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon |
| RCJ | Y Llysoedd Barn Brenhinol |
| Rules CJ NI | Gogledd Iwerddon – Rheolau'r Llys Barnweiniaeth |
| AA / AAau | Adfocad(au) Arbennig |
| SASO | Swyddfa Gymorth yr Adfocadau Arbennig |
| SSHD | Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref |
| SIAC | Y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig |
| TPIM | Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth |

[1] Oni nodir yn wahanol, dylid dehongli cyfeiriadau at GLD yn yr adroddiad hwn fel cyfeiriadau at GLD ar ran HMG.

# Rhagarweiniad

1. O dan Adran 13 y JSA[2] rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi person i adolygu gweithrediad adrannau 6-11 y Ddeddf, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl 5 mlynedd o ddyddiad y 25 Mehefin 2013 pan ddaeth yr adrannau perthnasol o'r JSA i rym. Rhaid i'r adolygiad felly ymdrin â'r cyfnod rhwng 25 Mehefin 2013 a'r 24 Mehefin 2018. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi adroddiad yr adolygydd gerbron y Senedd.

2. Ar 25 Chwefror 2021, cyflwynodd y Gwir Anrh. Robert Buckland CF AS, oedd yn Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar y pryd, Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig[3] i Senedd y DU yn ei hysbysu bod yr adolygiad wedi'i sefydlu, ei gylch gorchwyl a fy mhenodiad i fel yr adolygydd annibynnol.

3. Cyflwynir gylch gorchwyl yr adolygiad yn Atodiad 1. Mae'r cylch gorchwyl yn nodi'n glir, felly hefyd y Ddeddf, bod yr adolygiad hwn yn ymwneud â'r profiad o weithrediad adrannau 6-11, ac nid â'r egwyddor a ddylai gweithdrefn CMP y JSA fod wedi cael ei deddfu.

4. Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr alwad am dystiolaeth. Rhoddir crynodeb cyffredinol o'r ymatebion a dderbyniais i'r alwad am dystiolaeth (rhwng 7 Ebrill a 30 Mehefin 2021) ar gyfer yr adolygiad hwn yn Atodiad 3. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb wnaeth ymateb am eu hamser yn paratoi eu

---

2 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/18/section/13/enacted

3 https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2021-02-25/hcws803

dadleuon. Gofynnwyd cwestiynau pellach i SASO, HMG, gan gynnwys Swyddfa GI a'r GLD, a CAwyr rhwng Gorffennaf a Hydref.

5. Mae Atodiad 4 (rhan A) yn cynnwys atodlen o achosion, yn ymwneud ag adrannau 6-11 y JSA, a ddechreuodd yn ystod yr adolygiad. Rhoddir sylwebaeth ddisgrifiadol ar y rhan fwyaf ohonynt yn Atodiad 4 (rhan B). Mae'r rhifau achos yn yr Adroddiad hwn yn cyfeirio at yr achosion sydd wedi eu rhifo yn Atodiad 4. Rwy'n ddiolchgar i SASO, y GLD a NICTS am roi'r atodlen at ei gilydd.

6. Rwyf wedi ystyried achosion lle y gwnaed cais adran 6 yn ystod yr adolygiad o'r JSA ond a barhaodd ar ôl iddo ddod i ben. Nid wyf wedi ystyried achosion lle y cafodd ddatganiad adran 6 ei gymhwyso ar ôl i gyfnod yr adolygiad ddod i ben, heblaw os yw'r achos yn ychwanegu at y dehongliad o'r JSA neu'n cyflwyno problem sy'n rhan annatod o weithrediad y JSA ac sydd angen ei hystyried. Rwyf wedi ystyried sut y cafodd rhai o'r pryderon a leisiwyd gan y SASO ac eraill eu datrys, neu beidio, ar ôl diwedd cyfnod yr adolygiad.

7. Nid yw'r adolygiad yn ymwneud ag adran 15 y JSA o dan yr hon y rhoddwyd awdurdodaeth mewn apeliadau neu adolygiadau barnwrol o benderfyniadau'n ymwneud â gwahardd, dinasfreinio a dinasyddiaeth o dan awdurdodaeth SIAC. Nid yw'n ymwneud ychwaith â darpariaethau statudol eraill ar gyfer CMP, nag â'r awdurdodaeth cyfraith gyffredin sydd gan y llysoedd i ddarparu ar gyfer gweithdrefnau deunyddiau caeedig mewn amgylchiadau fel yn *R (Haralambous) v Llys y Goron St Albans* [2018] UKSC 1. Casglodd y Goruchaf Lys fod gan yr Uchel Lys y pŵer, er efallai heb unrhyw awdurdod statudol penodol, i ystyried deunydd

caeedig fel rhan angenrheidiol o adolygu cyfreithlondeb penderfyniad Ynad mewn gweithdrefn *ex parte* i roi gwarant.

8. Rwy'n ystyried y sefyllfa yn yr Adran Deulu, sydd hefyd ag awdurdodaeth cyfraith gyffredin i ddefnyddio proses deunydd caeedig, oherwydd pryderon nad oes unrhyw reolau llys o dan y JSA, a allai o bosib fod yn berthnasol i achosion yn yr Adran honno.

9. Nid yw'r adolygiad hwn yn ymwneud yn gyffredinol ag adrannau 17 a 18 y JSA, sy'n delio ag awdurdodaeth "*Norwich Pharmacal*", lle y gofynnir i Lywodraeth y DU ddatgelu deunydd sensitif er mwyn dod â hawliad yn erbyn parti arall am gamweddu honedig yn erbyn yr hawlydd. Gall y Llywodraeth roi tystysgrif o dan adran 17(3)(e) yn nodi y byddai datgelu o dan awdurdodaeth "*Norwich Pharmacal*" yn mynd yn groes i fudd y cyhoedd o ran amddiffyn diogelwch gwladol a buddiannau cysylltiadau rhyngwladol y Deyrnas Unedig. Mae'r dystysgrif hon yn atal y llys rhag gorchymyn datgelu. Fodd bynnag, mae'r dystysgrif yn agored i gael ei hadolygu gan lys, o dan adran 18. Mae'r adolygiad hwn yn ymwneud â gweithrediad adrannau 6-11 yng nghyswllt adolygiad o dystysgrif a roddwyd o dan adran 17(3)(e). Fodd bynnag, cefais wybod gan y GLD, a ddylai wybod, nad oes unrhyw adolygiadau o dystysgrifau o dan adran 18 wedi bod. Ni ddywedaf ddim mwy yn yr adroddiad hwn felly am y rhan yma o fy nghylch gwaith.

10. Arweiniodd un cwestiwn yn yr alwad am dystiolaeth at bryder gan rai ymatebwyr bod ehangu'r CMP ymhellach i'w chymhwysiad o dan y JSA yn cael ei ystyried. Nid hynny oedd diben y cwestiwn. Yr ehangu y cyfeiriwyd ato oedd ehangu'r CMP o'i gymharu â'r hyn ydoedd cyn y JSA, yn benodol yn SIAC, i'r llysoedd sifil o dan y JSA, yn dilyn

penderfyniad y Goruchaf Lys yn *Al-Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch ac Eraill* [2011] UKSC 34.

11. Mae fy adroddiad yn dechrau drwy ddisgrifio’r nodau a osodwyd gan Lywodraeth ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf. Mae’r ail bennod yn disgrifio gweithrediad Rhan 2 ac yn cyfeirio at reolau’r llys a phenderfyniadau barnwrol ar ei dehongliad. Mae’n bwysig sefydlu beth sy’n ofynnol gan y Ddeddf a sut y penderfynodd y Llysoedd y dylid ei chymhwyso. Yn drydydd, rwyf wedi ystyried pryderon y Senedd wrth i’r Mesur fynd drwy’r Senedd, i weld i ba raddau y cawsant eu gwireddu ar lawr gwlad. Yn bedwerydd, rwyf wedi ystyried pryderon y rhai wnaeth ymateb i’r alwad am dystiolaeth am weithrediad y Ddeddf, ond nid pryderon rhai sy’n anghytuno yn y bôn ag egwyddor gweithdrefnau CMP. Yn olaf, cyflwynaf fy nghasgliadau yn adran 5. Gwneir argymhellion mewn gwahanol rannau o adran 4 cyn eu casglu ynghyd yn adran 6.

**Syr Duncan Ouseley**

# Adran 1: Nodau Rhan 2 Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf yn rhoi crynodeb twt o nodau'r rhan yma o'r JSA fel a ganlyn:[4]

> "15. Nododd y Papur Gwyrdd gynnydd yn nifer ac amrywiaeth yr achosion barnwrol sy'n ymwneud â gweithgareddau'n gysylltiedig â diogelwch gwladol. Mewn llawer o'r achosion hyn, ni ellir sefydlu'r ffeithiau'n llawn heb gyfeirio at ddeunydd sensitif. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r deunydd hwn mewn llys agored heb y risg o wneud niwed i ddiogelwch gwladol. Cyfyd anawsterau mewn achosion lle y mae unigolion yn honni bod y Llywodraeth wedi camweddu, ac mewn achosion yn herio camau a gymrodd y Weithrediaeth neu benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth. Ambell waith mae achosion wedi cael eu datrys drwy ddefnyddio gweithdrefn deunydd caeedig, gyda chaniatâd y ddwy ochr. Fodd bynnag dyfarnodd y Goruchaf Lys yn *Al Rawi ac Eraill v Y Gwasanaeth Diogelwch ac Eraill [2011] UKSC 34* nad oes gan lys hawl i ddefnyddio gweithdrefn deunydd caeedig mewn hawliad iawndal sifil arferol. Dyfarnodd y llys yn *Al Rawi* mai mater i'r Senedd oedd penderfynu a ddylai gweithdrefn deunydd caeedig fod ar gael mewn achosion o'r fath.
>
> 16. Barnodd y Papur Gwyrdd, mewn achosion yn ymwneud â deunydd sensitif, y gallai'r llys gael ei atal rhag dod i ddyfarniad ar sail bod ym meddiant yr holl wybodaeth oherwydd na allai wrando'r

[4] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/18/pdfs/ukpgaen_20130018_en.pdf

holl dystiolaeth yn yr achos.  O dan y system bresennol, yr unig ffordd y gall y llysoedd atal deunydd fel cudd-wybodaeth rhag cael ei datgelu mewn llys agored yw drwy imiwnedd budd y cyhoedd. Mae cais llwyddiannus o dan imiwnedd budd y cyhoedd yn arwain at eithrio'r deunydd hwnnw'n llwyr o'r achos. Nid yw unrhyw ddyfarniad a wneir ar ddiwedd yr achos yn cael ei oleuo gan y deunydd hwnnw, waeth pa mor ganolog neu berthnasol ydyw i'r achos.

17. Y drafferth yn ôl y Papur Gwyrdd oedd mai'r unig ddewis a fyddai gan y Llywodraeth oedd gwneud niwed i ddiogelwch gwladol drwy ddatgelu'r deunydd neu grynodebau ohono; neu geisio amddiffyn achos lle'r oedd peth wmbreth o ddeunydd perthnasol wedi cael ei eithrio'n aml. Os na ellir datgelu'r deunydd yn ddiogel, gallai'r Llywodraeth gael ei gorfodi i ildio neu setlo achosion waeth pa mor haeddiannol ydynt, a thalu iawndal, neu ofyn i'r llys daflu'r achos allan. Yn bwysicach na hynny, gallai hawlwyr a'r cyhoedd yn y diwedd fod heb unrhyw ganfyddiadau clir lle y gwnaed honiadau difrifol oherwydd na allodd y llys ystyried yr holl dystiolaeth."

2. Dyfynnir y disgrifiad canlynol o nodau Rhan 2 o'r Papur Gwyrdd dyddiedig 19 Hydref 2011,[5] "Cyfiawnder a Diogelwch", ac o ddatganiadau ac ymatebion y Llywodraeth yn y Senedd, gan gynnwys mewn Pwyllgorau, wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd.[6]

3. Yn y bôn, y cwestiwn oedd sut i ddelio â'r ffaith bod angen i Lywodraeth ddibynnu ar ddeunydd na ellid ei ddatgelu heb wneud niwed i fuddiannau diogelwch gwladol. Yr egwyddor ddeddfwriaethol oedd y dylid dod o hyd

[5] https://www.gov.uk/government/consultations/justice-and-security-green-paper

[6] https://bills.parliament.uk/bills/1016

i ffordd lle y gallai Llywodraeth ddibynnu ar y deunydd hwnnw, felly hefyd bartïon eraill, ond gyda chyfyngiadau ar ei ddatgelu, a rhagofalon ar ei ddefnyddio, os nad oedd wedi'i ddatgelu i barti a'u cynrychiolydd cyfreithiol. Mabwysiadwyd y CMP i'r pwrpas hwn. Byddai o leiaf yn caniatáu gwerthusiad barnwrol o'r deunydd, gyda chymorth yr Adfocad Arbennig, ac yn arwain at gasgliad rhesymol hyd yn oed os nad oedd y rhesymau oedd ar gael i bartïon di-Wladwriaeth a'r cyhoedd yn ymwneud â'r deunydd oedd heb ei ddatgelu'n gyhoeddus.

4. Myn gyfiawnder fod honiadau difrifol a wneir yn derbyn asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn cael eu datrys gan lys ac nid drwy setliad a orfodir ar y Llywodraeth, oherwydd y gallai ond amddiffyn ei hun drwy ddatgelu, i'r cyhoedd ac ymgyfreithwyr gelyniaethus, deunydd a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol. Yn wir, ni ellid amddiffyn hawliad ar seiliau cadarn neu a oedd yn llwyr neu'n rhannol gau, pe bai'r amddiffyniad yn mynnu ar ddatgelu deunydd niweidiol i ddiogelwch gwladol. Roedd a byddai'r Llywodraeth yn cael ei gorfodi i ildio hawliadau y gallai fod wedi gallu eu hamddiffyn yn llwyr neu'n rhannol, drwy dalu symiau mawr o arian i hawlwyr a allai fod yn anhaeddiannol; a gwneud hynny hyd yn oed gyda'r risg bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i bwrpasau a fyddai'n elyniaethus i les y DU, oherwydd gellid ond amddiffyn hawliadau o'r fath drwy niweidio diogelwch gwladol. Nid oedd eisiau i achosion setlo dim ond oherwydd nad oedd tystiolaeth berthnasol gerbron y llys.

5. Roedd y Llywodraeth yn disgrifio'r dewis deddfwriaethol fel dewis rhwng "cyfiawnder drwy weithdrefn deunydd caeedig neu ddim cyfiawnder o gwbl." Nod y Ddeddf oedd cau "bwlch niweidiol yn rheol y gyfraith" yng ngeiriau'r Gwir Anrh. Mr Kenneth Clarke, CF, Gweinidog heb Bortffolio,

oedd yn arwain y Mesur ar ran y Llywodraeth, mewn Pwyllgor dyddiedig 4 Mawrth 2013 Hansard, col 698.Roedd yn cael ei weld fel dewis rhwng cyfiawnder y gellid ei gyflawni drwy weithdrefn deunydd caeedig a chyfiawnder y gellid ei chyflawni drwy broses PII a dulliau gweithdrefnol eraill heb orfod troi at weithdrefn deunydd caeedig. Yn anochel, ni allai'r un dewis fod yn berffaith ar gyfer y math o achosion y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth i ddelio â nhw. Fel y disgrifiwyd yn y dadleuon, “byd o atebion ail-orau yw hwn”.

6. Nod cysylltiedig ond gwahanol oedd osgoi colli, heb gyfiawnhad, hyder y cyhoedd ym mherfformiad ac ymddygiad yr asiantaethau cudd-wybodaeth ac asiantaethau eraill, niwed i'w henw da ymhlith grwpiau neu gymunedau penodol, a morâl eu staff, oedd yn y fantol pan oedd symiau mawr o iawndal yn cael eu talu heb ddyfarniad bod cyfiawnhad i'r hawliad. Byddai risg o hyd, pa mor anghyfiawn bynnag y dywedai'r diffynnydd oedd yr hawliad, y byddai'r hawliad yn cael ei weld fel un cyfiawn dim ond drwy dalu symiau o'r fath. Gellid ecsbloetio'r setliadau ariannol mewn propaganda gelyniaethus. Byddai CMP yn gwneud y gwasanaethau cudd-wybodaeth yn fwy atebol yn y llysoedd, fel y gallai llys ystyried deunydd na allai cyn hynny fod wedi gallu ei ystyried.

7. Nod deddfwriaethol arall oedd na ddylai'r broses o Weinidogion yn cyflwyno tystysgrifau PII, er y byddai'n dal i fod ar gael, fod y prif ddull o amddiffyn diogelwch gwladol mewn achosion sifil arferol, oherwydd gallai archwilio ac ystyried dogfennau fod yn broses a allai gymryd amser hir iawn i Weinidogion. Nid oedd unrhyw bwynt i Weinidogion gyflawni'r ymarfer PII hirfaith pe bai'n rhaid wedyn dilyn gweithdrefn CMP lle y byddai'r deunydd diogelwch gwladol yna'n cael ei dadansoddi mor fanwl ag y bo'n ofynnol o dan y weithdrefn ddatgelu, ac fel sy'n digwydd o dan

weithdrefnau CMP eraill. Pe bai deunydd PII diogelwch gwladol, oedd yn ganolog i hawliad neu amddiffyniad, byth yn rhan o’r broses ddatgelu mewn CMP, ni fyddai’n hawdd gweld pwynt cael CMP.

8. Nid oedd y system PII ychwaith yn cynnig ateb digonol i’r broblem oherwydd byddai tystysgrif Gweinidogol, gyda llys yna’n cadarnhau’r dystysgrif honno y byddai’r Gweinidog yna’n siŵr o ddadlau drosti, yn eithrio o’r achos yr union ddeunydd y byddai’r Llywodraeth yn ceisio neu angen dibynnu arno. Dyfarnwyd bod gan Weinidogion ddyletswydd i wneud hawliad PII am ddeunydd diogelwch gwladol. Nid eu lle hwy oedd hepgor y ddyletswydd honno er budd cyfreitha teg, nac ychwaith er mwyn ennill mantais i’w hachos. Byddai gweithredu PII yn golygu na fyddai dyfarniad ar sail y ffeithiau llawn. Y broblem go iawn gyda thystysgrifau PII oedd mai canlyniad hawliad llwyddiannus am PII oedd nad oedd y deunydd yn chwarae unrhyw ran yn yr achos, i’r naill ochr na’r llall. Felly ni fyddai diffynnydd yn gallu dibynnu ar ddeunydd y byddai ei ddatgelu’n niweidiol i ddiogelwch gwladol. Roedd hyn yn anfantais fawr yr oedd y Ddeddf yn ceisio ei hunioni.

9. Roedd y Llywodraeth hefyd yn cydnabod y gallai diffyg deunydd perthnasol, er enghraifft os oedd wedi’i heithrio o dan PII, achosi anghyfiawnder i’r hawlydd. Gallai deunydd a fyddai’n ddefnyddiol i’r hawlydd beidio â bod ar gael o gwbl. Gyda PII, gallai ymddygiad gwarthus fod yn imiwn rhag cael ei ddatgelu i unrhyw un yn cynrychioli buddiannau’r hawlydd.

10. Dywedid yn aml, gan gynnwys gan rai o blaid PII fel ateb yn lle CMP, na chafodd deunydd PII diogelwch gwladol erioed ei ddatgelu o dan yr ymarfer cydbwyso a wnaed yn *Wiley* rhwng y budd i’r cyhoedd o sicrhau

gwrandawiadau agored a theg, ac amddiffyn diogelwch gwladol. Yr hyn a fyddai yna'n digwydd, fel y dadleuai'r Llywodraeth, oedd y byddai'r deunydd yn cael ei eithrio o'r achos.[7]

11. Y nod felly oedd na ddylai'r amcan angenrheidiol o amddiffyn diogelwch gwladol atal diffynyddion, p'un ai'n Weinidogion, yr asiantaethau cudd-wybodaeth neu'r heddlu, rhag defnyddio'r dystiolaeth berthnasol i amddiffyn eu hunain yn erbyn honiadau, ond yn hytrach gynorthwyo barnwr i ddod i gasgliad ar sail yr holl ddeunydd perthnasol. Pe na ellid gwrando hawliad o gwbl, byddai hynny'n annheg i'r hawlydd ac yn groes i fudd y cyhoedd, nid yn unig o ran gweinyddu cyfiawnder ond o ran sicrhau archwiliad a dyfarniad barnwrol ar honiadau gwirioneddol ddifrifol yn ymwneud ag ymddygiad cyrff llywodraethol. Pe bai'r hawliad yn cael ei wrando, ni allai gael ei wrando'n deg pe bai'r diffynnydd yn cael ei atal, drwy gymhwyso proses eithrio PII, rhag cyflwyno ei amddiffyniad. Nid oedd y broses PII wedi rhyddhau deunydd diogelwch gwladol yn y gorffennol; ac ni allai dyfeisiau neu weithdrefnau eraill yn hawdd gynorthwyo i ddefnyddio'r deunydd diogelwch gwladol angenrheidiol heb achosi niwed. Y nod deddfwriaethol oedd nid eithrio tystiolaeth a fyddai fel arall wedi cael ei datgelu i'r hawlydd a'r barnwr yna'n dyfarni arni, ond caniatáu cynnwys tystiolaeth na allai'r diffynnydd fel arall ei defnyddio ac na fyddai'r barnwr fel arall yn ei gweld. Byddai'r diffynyddion yn cael eu gorfodi i setlo. Gellid talu iawndal, sylweddol weithiau, i rai nad oedd yn ei haeddu ac a allai ei ddefnyddio i gyflawni mwy o derfysgaeth. Byddai niwed i enw da'r Llywodraeth a'r gwasanaethau cudd-wybodaeth yn

7 Dyfarnwyd yn *R v Chief Constable of West Midlands Police, ex parte Wiley* [1994] UKHL 8, [1995] 1 AC 274 y gallai'r llys orchymyn datgelu dogfennau cyfrinachol oni bai fod budd y cyhoedd yn eu cyfrinachedd yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd mewn sicrhau cyfiawnder. Arweiniodd hyn at gydbwysedd *Wiley*.

debygol. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd tegwch yn gofyn mabwysiadu ateb a fyddai'n rhoi canlyniad oedd yn llai annheg na chanlyniadau y byddai'r weithdrefn gonfensiynol yn eu rhoi.

# Adran 2: Darpariaethau Rhan 2 Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 sy'n destun yr Adolygiad hwn

1. Nid yw'r CMP o dan y JSA yn ddull newydd o weithredu. Nid yw'r JSA na'r CMP yn creu achos dros weithredu na hawl i ddod ag achos na ellid yn flaenorol fod wedi cael ei ddwyn, nac ychwaith yn rhwystro unrhyw achos y gellid yn flaenorol fod wedi cael ei ddwyn. Mae'r CMP yn weithdrefn y gellir ei gorchymyn mewn "achos sifil perthnasol". "Achos sifil perthnasol" yw unrhyw achos sydd "gerbron" yr Uchel Lys, y Llys Apêl, y Llys Sesiwn neu'r Goruchaf Lys, ac nid yn "achosion mewn mater neu achos troseddol". Maen nhw felly'n cynnwys achosion wedi eu dechrau yn y ffyrdd arferol, yn ceisio'r rhwymedïau sydd ar gael mewn achosion sifil cyfraith breifat, fel arfer iawndal, neu rwymedïau adolygiad barnwrol ar gyfer penderfyniadau, gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan gyrff cyhoeddus. Mae'r rhestr llysoedd, a allai wrando "achosion sifil perthnasol", yn dangos y gallai achosion fod yn achosion sifil perthnasol mewn llys gwrandawiad cyntaf ac ym mhob cam apêl. Yn wir, gallent ddod yn achos o'r fath am y tro cyntaf mewn cam apêl. Byddai'n rhaid i achosion gerbron llys is, fel Llys Sirol, lle'r oedd parti'n ceisio defnyddio'r CMP, gael eu trosglwyddo'n gyntaf i'r Uchel Lys.

## "Achosion sifil" ac "Achos neu fater troseddol"

2. Mae penderfyniadau barnwrol wedi eu gwneud ar y ffiniau rhwng "achosion sifil" ac "achos neu fater troseddol". Yn *R (Al-Fawwaz) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* 2015, (achos 5 yn Atodiad 4),

penderfynodd yr Uchel Lys ganiatáu datganiad adran 6 ar gais di-her gan yr Ysgrifennydd Cartref, mewn achos lle y gofynnwyd am adolygiad barnwrol o'i gwrthodiad, ar sail diogelwch gwladol, i gytuno i Lythyrau Gofyn gan Farnwr yn Efrog Newydd, yng nghyswllt deunydd gan MI5, y dywedwyd eu bod yn berthnasol i achos yr hawlwyr yn Efrog Newydd a gyhuddwyd o gynllwynio'n ymwneud â bomio Llysgenadaethau UDA yn Nwyrain Affrica. Dyfarnodd Wyn Williams J nad oedd cysylltiad yn unig ag achos troseddol mewn awdurdodaeth arall yn gwneud yr hawliad yn un mewn "achos neu fater troseddol". Yng nghyd-destun y Ddeddf, y cwestiwn oedd pa swyddogaeth graidd oedd yn cael ei chyflawni gan y llys yn yr achos dan sylw.

3. Yn *R (Belhaj) v Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus* 2018, (achos 20 yn Atodiad 4), y cwestiwn oedd a oedd "achos neu fater troseddol" wedi'i gyfyngu i achosion a allai arwain at euogfarn neu ryddfarn neu a oedd yn cynnwys achosion lle y byddai gwrthodiad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i erlyn yn cael ei herio. Dyfarnodd y Llys Adrannol nad herio'r penderfyniad i beidio ag erlyn unigolyn oherwydd honiadau o fod wedi cyd-gynllwynio i anfon Mr Belhaj allan o'r wlad yn anghyfreithlon a'i arteithio yn Libya, wedi'i ddwyn fel "achos neu fater troseddol" ac felly na ellid gofyn am CMP yng nghyswllt yr achos adolygiad barnwrol. Dywedodd y Goruchaf Lys, gan wrthdroi penderfyniad y Llys Adrannol, fod yn rhaid ystyried yr ymadrodd "achos neu fater troseddol" yn ei ystyr arferol a naturiol, ac nid un wedi'i gyfyngu gan gyd-destun y JSA. Roedd yr her wedi'i wneud mewn "achos neu fater troseddol". Trafodwyd yr achos hwn ymhellach yn *McGuinness (Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn ymyrryd)* [2020] UKSC 6, a ddyfarnodd ba lys oedd ag awdurdodaeth i wrando apêl yng nghyswllt her adolygiad barnwrol i

ryddhau'r llofrudd Michael Stone ar drwydded; nid oedd hon yn apêl mewn "achos neu fater troseddol" felly mater i'r Llys Apêl ei wrando oedd yr apêl. Ystyriwyd nad oedd y penderfyniad yn gwrthdaro â *Belhaj* a chasglodd na ddylid rhoi cymhwysiad rhy eang i'r penderfyniad hwnnw ychwaith.

4. Fel y nodaf nes ymlaen, mae braidd yn ansicr a yw achosion yr Adran Deulu'n dod o fewn cwmpas "achosion sifil perthnasol" y JSA".

## Dechrau'r broses CMP

5. Mae'r CMP yn dod yn rhan o "achosion sifil perthnasol" drwy gais o dan adran 6(1) am ddatganiad bod yr achos yn "achos lle y gall cais deunydd caeedig gael ei wneud i'r llys." Yn aml iawn, gelwir y cais am ddatganiad yn weithdrefn porth. Gellir penodi AA ar gyfer y cais hwn. Mae'r datganiad CMP yn caniatáu gwneud cais am ganiatâd i ddal deunydd yn ôl y byddai ei ddatgelu'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol.

6. Nid yw'r datganiad yn benderfyniad ar ba ddeunydd y dylid ei ddatgelu i'r partïon eraill yn yr achos, nac ychwaith ar ba ddulliau eraill y dylid eu defnyddio, os o gwbl, yng nghyswllt rhannau o'r deunydd sensitif. Mae'n caniatáu gallu ystyried yr angen am hynny nes ymlaen, pryd y byddai gwybodaeth lawn o'r materion dan sylw ac o'r dystiolaeth lawn. Nid yw'r datganiad yn benderfyniad y bydd rhan o'r gwrandawiad neu'r achos haeddiannau'n cael ei gynnal yn gaeedig. Ar ôl gwneud y datganiad, mae'r hawlydd NEU a'r cyhoedd yn cael eu heithrio dim ond o'r rhannau o'r achos a fyddai'n trafod y deunydd caeedig, hynny yw yn y bôn y deunydd y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cael caniatâd i'w ddal yn ôl neu'n gofyn am ganiatâd i'w ddal yn ôl.

7. Roedd yn bwnc llosg wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd o ran pwy a allai wneud y cais. Mae Adran 6 yn caniatáu i'r cais gael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, p'un ai yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn barti yn yr achos neu beidio, neu gan unrhyw un o bartïon yr achos neu gan y llys ohono'i hun. Efallai na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn barti i'r achos eto na'n gwybod y gallai amddiffyniad parti gynnwys y posibilrwydd o ddatgelu "deunydd sensitif" fel y diffiniwyd hwnnw. Gallai hyn ddigwydd lle'r oedd yr heddlu'n ddiffynyddion. Mae rheolau'r llys yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei hysbysu ac yn dod yn barti yn yr achos os oes cais wedi'i wneud gan berson arall.

8. Ni wnaed unrhyw ddatganiad gan y Llys ohono'i hun, heblaw efallai yn Achos 42 yn ymwneud ag achos gwardiaeth.

9. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bob rhan o'r DU. Yn ôl adroddiadau blynyddol y Llywodraeth i'r Senedd ar ddefnyddio CMP o dan y JSA,[8] cafwyd 54 o geisiadau am ddatganiad yn y DU dros bum mlynedd cyfnod yr adolygiad: rhai'n ymwneud â nifer o hawlwyr. Gwnaed 35 yng Nghymru a Lloegr ac 19 yng Ngogledd Iwerddon. Ni wnaed yr un yn yr Alban. Rhoddir mwy o fanylion yn Atodiad 4. Mae cyfanswm yr achosion yn Atodiad 4, sef 55, yn wahanol oherwydd fy mod wedi cynnwys tri achos a ddechreuodd ar ôl i'r adolygiad ddod i ben, ac roedd gan achosion eraill, yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon, nifer o hawlwyr ond yn dod o dan yr un cais neu ddyfarniad. Rwyf wedi ad-drefnu sut y maen nhw'n cael eu cyfrif.

---

8 https://www.gov.uk/government/collections/use-of-closed-material-procedure-reports. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr adolygiad wedi cael mynediad at yr adroddiad rhwng 2013/14 a 2019/20.

10. Nid oes diffiniad o'r "Ysgrifennydd Gwladol", sy'n gallu gwneud y cais o dan adran 6(2). Nid yw'n un Ysgrifennydd Gwladol penodol ond yr un sy'n berthnasol i bwrpas y cais. O ran adran 6(8), rhaid i'r datganiad adnabod y parti y byddai angen iddynt ddatgelu'r deunydd sensitif.

## Y rhag-amod statudol

11. Cyn y gall y llys wneud y datganiad, rhaid iddo fod yn fodlon bod rhag-amod a dau amod yn dilyn hynny wedi cael eu cwrdd. Roedd cryn ddadlau am adran 6(7) wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd: a ddylid disbyddu holl bwerau PII cyn ystyried CMP? Yn ddigon syml, mae adran 6(7) yn darparu, cyn i'r llys ystyried cais am ddatganiad, bod yn rhaid ei fodloni bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyntaf wedi ystyried gwneud hawliad am PII yng nghyswllt y deunydd y mae'r cais yn seiliedig arno, neu wedi ystyried cynghori person arall i wneud hawliad o'r fath. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi ystyried yr holl ddeunydd a allai, oherwydd ei berthnasedd i'r prif achos, fod yn destun hawliad PII yn niffyg CMP. Y cwbl y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ystyried yw'r hyn y dibynnir arno i bwrpas y cais am y datganiad adran 6, oherwydd unwaith y gwneir y datganiad, mae datgelu'n dilyn llwybr gwahanol ar gyfer deunydd diogelwch gwladol.

## Yr amodau statudol ar gyfer gwneud datganiad

12. Mae adran 6(4) yn cynnwys yr amod cyntaf sydd angen ei gwrdd cyn gwneud datganiad. Gellir ei gwrdd mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf yw drwy ddangos y byddai "angen i barti ddatgelu deunydd sensitif i berson arall yn ystod yr achos (p'un ai oedd y person hwnnw neu honno'n barti yn yr achos neu beidio)". Mae hyn yn delio â'r sefyllfa lle, o dan y rheolau

ac arferion datgelu sy'n berthnasol i'r math o achosion sifil, a heb gymhwyso rheolau arbennig iddo, y byddai angen i "ddeunydd sensitif" gael ei ddatgelu. Mae'r amrediad, i bob golwg, o "ddeunydd sensitif" wedi'i gyfyngu gan y diffiniad yn adran 6(11) i "ddeunydd y byddai ei ddatgelu'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol." Mae "deunydd sensitif" yn ôl y diffiniad hwn yn gulach na'r deunydd y gallai tystysgrif PII gael ei rhoi a'i chadarnhau gan y llys yn ei gylch. Y buddiannau ehangach hynny yw niwed i gysylltiadau rhyngwladol, niwed i les economaidd y wlad, ac atal a chanfod troseddu.

13. Nid oes raid i'r deunydd sensitif y dibynnir arno fod yn ganolog i achos y diffynnydd. Mae'n ddigon pe bai'n rhaid i'r deunydd gael ei ddatgelu i'r hawlydd o dan y rheolau datgelu arferol mewn cyfreitha sifil. Rwyf yn crynhoi'r rheolau hynny fel: a yw'r deunydd yn berthnasol i'r achos? Os yw'n gwbl glir ei fod yn berthnasol ac y byddai'n rhaid ei ddatgelu i'r partïon oni bai am y CMP, bydd yr amod dros y CMP wedi'i gwrdd.

14. Yr ail ffordd o fodloni'r amod cyntaf yw drwy ddangos y byddai'n rhaid i barti ddatgelu deunydd sensitif, perthnasol i'r achos, heblaw lle'r oedd posibilrwydd y gellid gwneud hawliad PII yng nghyswllt y deunydd, neu lle nad oedd yn ofynnol ei ddatgelu os nad oedd y parti'n dewis dibynnu arno, neu os oedd eithriad statudol yn achos deunydd wedi'i ymyrryd â fo ar ganol ei anfon, neu oherwydd unrhyw rwystr statudol arall i ddatgelu, na fyddai'n berthnasol pe gwneid datganiad o dan adran 6. Mae'r amod hwn felly'n rhwystro rheolau eithrio eraill, a fyddai fel arall yn atal datgelu, rhag cael eu defnyddio er mwyn eithrio datganiad adran 6 ar y sail na allai neu na fyddai'r deunydd, yr oedd y diffynnydd eisiau dibynnu arno, yn cael ei ddatgelu beth bynnag.

15. Felly, pe bai'r deunydd, er enghraifft, yn ddeunydd y gellid gwneud hawliad PII yn ei gylch, ni fyddai'r posibilrwydd hwnnw'n atal gwneud datganiad adran 6. Nid pwrpas hyn oedd eithrio'r posibilrwydd o ddefnyddio PII. Y nod oedd atal y posibilrwydd y byddid yn dweud bod datgelu'n golygu bod datganiad adran 6 yn ddiangen, ar y sail na fyddai'r deunydd efallai'n cael ei ddatgelu beth bynnag oherwydd y gellid gwneud hawliad PII ar ei gyfer, a fyddai'n cael ei gadarnhau. Byddai hynny wedi tanseilio pwrpas y Ddeddf. Mae'r un peth yn wir am ddeunydd wedi'i ymyrryd â fo ar ganol ei anfon, drwy ei gwneud yn ofynnol diystyru'r eithriad statudol ar ei ddefnyddio fel tystiolaeth, wrth ystyried beth y gallai fod angen i barti ei ddatgelu.

16. Sut bynnag y mae'r amod cyntaf yn cael ei gwrdd, yr ail amod y byddai hefyd angen bodloni'r llys yn ei gylch yw y byddai er budd "gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol yn yr achos" bod datganiad adran 6 yn cael ei wneud. Mae'r llysoedd wedi gwrthod dadleuon na ellir bodloni'r amod oherwydd yr annhegwch y dywedir sy'n annatod yng ngweithrediad CMP; mae angen rhywbeth mwy na hynny. Byddai'r ail amod fel arall yn tanseilio holl bwrpas y Ddeddf, a ddehonglwyd fel bod yn creu ei chydbwysedd ei hun rhwng yr amrywiol fuddiannau cyhoeddus sydd yn y fantol. Mae hefyd wedi'i ddehongli, mewn un achos, fel cynorthwyo'r llys i ystyried a allai proses PII, ar sail y ffeithiau a'r amgylchiadau mewn achos penodol, fod yn broses decach, heb danseilio pwrpas y Ddeddf.

17. Mae adran 6(6) yn cynnwys cyfyngiad pwysig ar beth sy'n rhaid ei ddangos er mwyn cwrdd â'r amodau. Nid oes raid i gais am ddatganiad fod yn seiliedig ar yr holl ddeunydd a allai gwrdd â'r ddau amod, nac ychwaith ar yr holl ddeunydd y byddai'n rhaid i'r parti oedd yn gwneud

cais am y datganiad ei ddatgelu. Mae'n ddigon os yw'r deunydd y mae'r ceisydd yn dibynnu arno yn ei gais yn bodloni'r llys bod y ddau amod yn cael eu cwrdd.

18. Gallai dulliau eraill yn lle CMP gael eu hystyried yng ngham y datganiad oherwydd efallai na fyddai angen datganiad o gwbl. Mae'r llysoedd wedi amrywio o ran manylion, mewn llys agored yng ngham y datganiad, y dulliau eraill a ystyriwyd ganddynt; trafododd ddulliau eraill mewn egwyddor, fel y problemau gyda chylch cyfrinachedd, neu PII. Mae'r anawsterau'n aml yn amlwg, hyd yn oed mewn egwyddor. Nid oes angen eu hesbonio'n fanwl bob tro pan fyddant yn cael eu hystyried. Wrth gwrs, un drafferth gyda defnyddio rhai dulliau eraill gyda'r deunydd sensitif yn y cam hwn yw na fydd y llys efallai wedi ei ystyried i gyd neu heb ei ystyried gan ddeall y materion perthnasol i gyd yn llawn. Gellir ystyried y pwyntiau hyn, ac fel arfer bydd yn llawer gwell eu hystyried pan fydd materion datgelu'n cael eu datrys, ar ôl gwneud y datganiad.

## "Diogelwch gwladol"

19. Nid oes diffiniad o'r ymadrodd "byddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol" neu o'r geiriau: "diogelwch gwladol" a beth a fyddai niwed i'w fuddiannau. Gwnaed y pwynt mai'r cwestiwn yw a fyddai datgelu'r deunydd yn gwneud niwed i fuddiannau diogelwch gwladol, ac nid a fyddai'n creu risg o wneud niwed i fuddiannau diogelwch gwladol. Ond nid yw'n glir bod llawer yn troi ar hynny ar lawr gwlad.

## Y disgresiwn statudol

20. O dan adran 6(1), hyd yn oed os bodlonir y ddau amod ar gyfer gwneud datganiad, mae gan y llys ddisgresiwn er hynny i beidio ei wneud. O dan ddrafft gwreiddiol y Mesur, roedd angen i’r llys wneud y datganiad pe bai’r amodau’n cael eu cwrdd. Cafodd ei ddiwygio i roi disgresiwn i’r llys. Mae’r disgresiwn i beidio â gwneud datganiad CMP wedi cael ei ystyried, ond nid ei ymarfer. Dyfarnodd y llysoedd nad yw’n hawdd gweld ym mha amgylchiadau y byddai’n gwrthod gwneud datganiad pe bai’r rhag-amod a’r ddau amod statudol wedi cael eu cwrdd, yn enwedig oherwydd nad oes angen iddo ar unrhyw bwynt fod wedi gweld yr holl ddeunydd y gallai’r ceisydd fod eisiau dibynnu arno, a gofyn am ganiatâd i’w gadw rhag y parti arall. Yn y bôn, y dadleuon yn yr achosion dros ymarfer y disgresiwn yn erbyn gwneud datganiad yw bod y CMP yn weithdrefn annheg ac anghymeradwy. Mae hon yn ddadl mewn egwyddor yn erbyn CMP, fel y noda’r llysoedd. Ni wnaeth y Senedd greu disgresiwn cyffredinol bod y llysoedd yn cael penderfynu a ellid defnyddio proses CMP fel mater o egwyddor; ni wnaeth ychwaith nodi pa ffactorau a ddylai arwain at ymarfer y disgresiwn. Byddai wedi bod yn amlwg na ellid ymarfer y disgresiwn er mwyn tanseilio pwrpas y Ddeddf. Yr hyn a feddyliwyd oedd y byddai’n well peidio â gorfodi’r llys i wneud y datganiad, rhag ofn i rywbeth annisgwyl gyfiawnhau gwrthod er bod yr amodau wedi eu cwrdd.

## Ar ôl y datganiad: y sefyllfa gyffredinol

21. Unwaith y bydd datganiad wedi’i wneud, mae’r weithdrefn sy’n dilyn mwy neu lai’n cael ei hwyluso gan reolau’r llys yn nhair awdurdodaeth y DU, gyda’r cynnwys yn cael ei benderfynu gan adrannau 8 ac 11. Mae adran 8

yn ymwneud â rheolau llys ar ddatgelu mewn “achosion llys adran 6”. Mae’r rheolau gweithdrefn hyn yn ymwneud yn bennaf â datgelu, neu beidio, deunydd perthnasol a fyddai, heb hawliad PII, yn cael ei ddatgelu fel tystiolaeth, i’r llys ac i’r partïon eraill, pe na bai gweithdrefn CMP na rhwystr statudol arall. Mae “achosion adran 6” hefyd yn cynnwys achosion ar gyfer y datganiad ei hun; adran 11(4). O dan adran 10, yn amodol ar ddarpariaethau adrannau 8, 9 ac 11, mae’r rheolau llys arferol ar ddatgelu a fyddai fel arall yn berthnasol, yn parhau i fod yn berthnasol i’r achosion.

22. Mae adran 11 yn cynnwys gofynion cyffredinol eraill yn ymwneud â chynnwys rheolau’r llys. Adran 11(1) yw un o’r rhai pwysicaf. Rhaid i wneuthurwr y rheolau ystyried bod “angen sicrhau na ddatgelir gwybodaeth lle y byddai’n gwneud niwed i fuddiannau diogelwch gwladol”. Nid yw hyn, ac nid yw wedi’i ddehongli felly, yn rheidrwydd i ystyried a ddylid gwneud hynny neu beidio ond rheidrwydd i sicrhau’r canlyniad hwnnw yn y rheolau. Mae adran 11(2) yn caniatáu i reolau llys ddarparu ar gyfer dull y profi, tystiolaeth, a oes angen gwrandawiad, dyfarniadau agored a chaeedig, achosion y byddai parti a’u cynrychiolwyr cyfreithiol wedi eu heithrio ohonynt, ac AA. Maen nhw hefyd yn caniatáu i’r llys roi crynodeb o’r dystiolaeth a roddwyd yn absenoldeb parti, i’r parti a eithriwyd. Ond ni fyddai hyn yn caniatáu datgelu unrhyw dystiolaeth o’r sesiynau caeedig a fyddai’n gwneud niwed i fuddiannau diogelwch gwladol. Nid yw’r ddarpariaeth hon yn ymddangos yn unrhyw un o reolau’r llys. Fodd bynnag, mae’n anodd gweld pe bai tystiolaeth yn cael ei rhoi mewn sesiwn gaeedig, ac na fyddai ei datgelu’n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol, a’r dystiolaeth mor berthnasol fel y dylai’r parti a eithriwyd neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol gael gwybod amdani, na fyddai’r

AA yn gwneud cais am ganiatâd i roi'r dystiolaeth iddynt neu na fyddai'r AA yn cael caniatâd gan y llys i wneud hynny.

23. Fodd bynnag, rhaid ac mae rheolau gweithdrefnol yn rhoi cyfle i "berson perthnasol" gael gwneud cais i'r llys "am ganiatâd i beidio â datgelu deunydd", heblaw i'r llys, yr AA penodedig a'r Ysgrifennydd Gwladol os yw ef neu hi'n barti i'r achos ond nid yn "berson perthnasol"; adran 8(1)(a). "Person perthnasol" yw person y byddai'n ofynnol iddynt ddatgelu deunydd sensitif; adrannau 6(8) ac 11(5). Mae'r iaith felly'n gofyn bod angen caniatâd gan y llys i beidio â datgelu'r deunydd sensitif i'r parti a fyddai'n cael eu heithrio, neu i'w cynrychiolwyr cyfreithiol.

24. Yng Nghymru a Lloegr, mae Rhan 82 y Rheolau Trefniadaeth Sifil[9] yn berthnasol i geisiadau am ddatganiad a'i ddirymu o dan adrannau 6(2) a 7(4), i geisiadau am ganiatâd i beidio â datgelu deunydd, i achosion adran 6 yn fwy cyffredinol, ac i apeliadau..

25. Daw'r weithdrefn yng Ngogledd Iwerddon o dan Orchymyn 126 Rheolau'r Llys Barnweiniaeth;[10] mae Gorchymyn 126 bron yn union yr un fath â CPR 82 ond yn dewis defnyddio "bydd" yn lle "rhaid". Nid oes angen cyfeirio ar wahân at y Gorchymyn yn y fan hyn, nac at ei wahanol ddarpariaethau, Gorchymyn 78, ar gyfer trosglwyddo achosion deunydd caeedig o'r Llys Sirol i'r Uchel lys.

---

9 https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/part-82-closed-material-procedure

10 Tudalen 665 o https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/the-rules-of-the-court-of-judicature-northern-ireland-1980-february-2021.pdf

26. Daw'r weithdrefn yn yr Alban o dan Reolau'r Llys Sesiwn, Pennod 104.[11] Mae hon wedi'i strwythuro'n wahanol i'r CPR a Rheolau Llys Barnweiniaeth GI, ond yn trafod yr un pethau, ac eto nid oes angen cyfeirio ati ar wahân. Yn wir, nid oes achosion o'r fath o gwbl wedi bod yn yr Alban eto.

27. Er mwyn hwylustod, yn yr Adroddiad hwn fe gyfeiriaf at y CPR.

28. O dan CPR82.2(2), fel sy'n ofynnol o dan adran 11(1), "rhaid i'r llys sicrhau na ddatgelir gwybodaeth mewn ffordd a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol." Yr amcan pwysicaf yn Rhan 1, a chyn belled â phosib yn y rheolau eraill, yw y dylent weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'r rheidrwydd hwnnw. O dan CPR82.2(3), yn amodol i'r rheidrwydd yn CPR92.2(2), "rhaid i'r llys sicrhau bod y deunydd sydd ar gael iddo'n ei gynorthwyo i benderfynu'r achos yn iawn."

29. O dan CPR82.6 rhaid cynnal gwrandawiadau'n breifat, drwy ofyn bod y llys yn eithrio unrhyw barti a'u cynrychiolydd cyfreithiol o unrhyw wrandawiad neu ran o wrandawiad os yw'n credu bod angen gwneud hynny i atal datgelu deunydd os byddai ei ddatgelu'n niweidiol i ddiogelwch gwladol. Dylid wedyn cynnal y gwrandawiad yn breifat ond yng ngŵydd unrhyw AA a benodwyd i gynrychioli buddiannau unrhyw barti a eithriwyd. Gellir hefyd cynnal gwrandawiad yn breifat am unrhyw reswm da arall, fel y byddai'n bosib gydag unrhyw dreial arferol. Fodd bynnag, oni chyfarwyddir yn wahanol, rhaid hysbysu pob parti bod y gwrandawid yn digwydd, ble a phryd, hyd yn oed os ydynt wedi eu heithrio ohono; CPR82.7.

[11] https://www.scotcourts.gov.uk/rules-and-practice/rules-of-court/court-of-session-rules

30. Nid oes raid penderfynu ar bob rhan o'r CMP mewn gwrandawiad, ond rhaid gwrando rhai agweddau ar CMP fel: ceisiadau am ddatganiad ac am ddirymu datganiad, adolygiad ffurfiol o'r datganiad, ac adolygiad o benderfyniad y llys ohono'i hun.

31. Mae'r CPR yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â manylion gwneud cais adran 6(2), y gwrandawiad cyfarwyddo ar gyfer cais o'r fath, y cyfarwyddyd ar ôl gwneud y datganiad, a'r adolygiad o ddatganiad.

## Penodi AA a rôl yr AA

32. Mae adran 9 yn delio â phenodi'r AA. Gall y Twrnai Cyffredinol neu'r Adfocad Cyffredinol yn y rhan berthnasol o'r DU "benodi person i gynrychioli buddiannau parti mewn unrhyw achos adran 6 yr eithriwyd parti (ac unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol y parti) ohono". "Achosion adran 6" yw achosion lle y gwnaed datganiad o dan adran 6. Maen nhw hefyd yn cynnwys yr achosion y cyfeiriwyd atynt yn adran 11(4), sef yr achosion yn delio â'r cais am, neu amdan gais am ddatganiad, neu gais am ddirymu neu amdan ddirymu datganiad, a chais deunydd caeedig.

33. Nid oes rheidrwydd i benodi adfocad o'r fath; roedd yn cael ei gydnabod na fyddai parti efallai eisiau un. Nid yw'r dymuniad hwnnw i beidio â chael AA wedi codi o dan y JSA, ac nid oes achosion ychwaith wedi bod lle y defnyddiodd y swyddog cyfreithiol priodol ei ddisgresiwn i wrthod penodi un. Cafodd y geiriau "cynrychioli buddiannau'r parti" eu dewis i adlewyrchu'r diffyg perthynas broffesiynol arferol rhwng adfocad a chleient, fel y mae adran 9(4) yn ei ddangos.

34. Mae CPR82.9, 10 ac 11 yn delio, fel bo'n ofynnol, â phenodi'r AA, amseriad y penodiad, a swyddogaeth yr AA. Mae'r penodiad yn

ymwneud nid yn unig â rôl yr AA mewn gwrandawiadau datgelu ond yn y treial neu'r gwrandawiadau haeddiannau eu hunain, neu unrhyw wrandawiadau eraill yr eithriwyd y parti *a hefyd* eu cynrychiolwyr cyfreithiol ohonynt. Felly ni fyddai gan yr AA unrhyw rôl uniongyrchol mewn gwrandawiad lle'r oedd y CAwyr yn bresennol ond dan ddyletswydd cyfrinachedd, ac yr eithriwyd yr hawlydd ohono. Byddai hyn yn wir gydag unrhyw gylch cyfrinachedd.

35. Mae amrywiol reolau llys, sy'n adlewyrchu'r rheidrwydd i beidio â datgelu deunydd a allai fod yn niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol, yn caniatáu i'r AA gyfathrebu'n rhydd â'r person y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau, hyd at y pwynt pryd y cyflwynir unrhyw ddeunydd, y gofynnodd y person perthnasol am ganiatâd i beidio ei ddatgelu, iddynt. Mae amseru hyn yn aml yn fater o negodi ond gallai gael ei gyfarwyddo gan y llys. Ar ôl hynny, bydd y drws yn cau ac ni fedrant gyfathrebu â'r personau y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau na'u cynrychiolwyr cyfreithiol, nac ag unrhyw berson arall, oni bai fod yr AA wedi derbyn cyfarwyddyd gan y llys yn awdurdodi y gellir cyfathrebu â'r person y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol. "Cais deunydd caeedig" yw cais am ganiatâd i beidio â datgelu deunydd heblaw i'r llys neu i'r AA. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r AA gael eu holl gyswllt â'r CA neu gleient y CA cyn i'r deunydd caeedig gael ei gyflwyno i bwrpas y datganiad adran 6. Wrth gwrs, maen nhw'n chwarae rhan ym mhenderfyniad y llys ynghylch a ddylid gwneud y datganiad. Os penodir dau AA, CF a chwnsler iau, ac nid yw hyn yn anghyffredin, gellir cyflwyno'r deunydd caeedig ar un ond nid ar y llall, felly gall un barhau i gael trafodaethau â'r CA a'r cleient ond bydd y llall yn delio â'r deunydd

caeedig sydd eisoes wedi cael ei gyflwyno. Ni all yr AA gyfathrebu dim am y deunydd caeedig, ar y pwynt hwnnw.

36. Mae rhai eithriadau: maen nhw'n cael cyfathrebu â'r llys, y person perthnasol, yr Ysgrifennydd Gwladol a'i gynrychiolwyr, y Twrnai Cyffredinol, a'r swyddogion gweinyddol. Gall y person(au) y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau'n anfon unrhyw ddatganiad neu wybodaeth a fynnant at yr AA, ac nid oes angen cyfarwyddyd y llys ar yr AA i gydnabod derbyn dogfennau a anfonir atynt.

37. Oni bai fod eithriad, bydd yr AA yn gofyn am gyfarwyddyd y llys, o dan CPR82.11, sy'n hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r person perthnasol o'r cais, ac o gynnwys a ffurf y math o gyfathrebu sydd mewn golwg. Gall y person perthnasol a'r Ysgrifennydd Gwladol wrthwynebu i'r cynnwys, yn llwyr neu'n rhannol, neu i'w ffurf. Bydd y llys yna'n datrys y mater, ac yn cymhwyso'r gofyniad yn CPR82.2 na ddylid datgelu gwybodaeth a allai fod yn niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol. Rhaid delio ag unrhyw wrthwynebiad i gyfathrebu y bwriada'r AA ei gael â'r person a gynrychiolir yn arbennig, neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol, mewn gwrandawiad ac yn amodol i'r un eithriadau sy'n berthnasol i'r angen am wrandawiad er mwyn penderfynu cais am ganiatâd i ddal deunydd sensitif yn ôl; CPR82.14.

38. Nid yw'n anghyffredin i AAau ofyn am ganiatâd i roi cyngor, i'r bobl y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau, ar haeddiannau apêl sy'n seiliedig ar seiliau sy'n codi yn rhan gaeedig yr achos neu a fyddai, ynghyd â'r seiliau agored, yn dod yn seiliau cadarn. Ond ni fedrant, drwy gynnig cyngor o'r fath, ddatgelu unrhyw ran o'r seiliau a fyddai'n golygu

datgelu deunydd a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol. Ni roddir caniatâd fel mater o drefn.

39. Mae CPR82.10 yn caniatáu i'r AA, yn ogystal â chyflwyno dadleuon, ddangos tystiolaeth a allai fod yn ysgrifenedig neu'n llafar, a chroesholi tystion mewn unrhyw wrandawiad yr eithriwyd y parti y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau, a'i gynrychiolwyr cyfreithiol, ohono.

## Ar ôl y datganiad: y weithdrefn ar gyfer caniatáu dal deunydd yn ôl

40. O dan adran 8 y Ddeddf, rhaid i'r rheolau trefniadaeth perthnasol roi cyfle i gais gael ei wneud i'r llys am ganiatâd i beidio â datgelu deunydd heblaw i'r llys, yr AA penodedig, a'r Ysgrifennydd Gwladol (os yw'r olaf yn barti ond nid yr un sy'n dal y deunydd dan sylw). Mae CPR82.13 yn cwrdd â'r gofyniad hwnnw. Ni all y person perthnasol ddibynnu ar ddeunydd sensitif mewn gwrandawiad oni bai fod AA wedi'i benodi; CPR82.13(1)(b). Rhaid i'r person perthnasol ffeilio'r deunydd sensitif dan sylw gyda'r llys a'i gyflwyno i'r AA ar yr amser y cyfarwyddir gan y llys, ynghyd â'r rhesymau dros ofyn am ganiatâd i'w ddal yn ôl yn y fath fodd.

41. Mae'r weithdrefn ar gyfer caniatáu i ddeunydd beidio â chael ei ddatgelu wrth galon y CMP. Mae CPR82.14 yn egluro'r weithdrefn o adnabod a datrys materion yn ymwneud â pha ddeunydd sy'n "sensitif", y gellir ei ddatgelu neu gyfleu ei hanfod, neu gynigion eraill ar gyfer datrys y materion. Rhaid i'r llys roi caniatâd i'r deunydd sensitif beidio â chael ei ddatgelu os yw'n "ystyried y byddai datgelu'r deunydd yn niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol." Rhoddir effaith i hyn yn CPR82.14(1). Os rhoddir caniatâd i beidio â datgelu deunydd, rhaid i'r llys ystyried ei

gwneud yn ofynnol bod y person perthnasol yn rhoi crynodeb o’r deunydd hwnnw i bob parti arall a’u cynrychiolwyr cyfreithiol, ond mae’n rheidrwydd ar i’r llys atal y crynodeb rhag cynnwys unrhyw ddeunydd y byddai ei ddatgelu’n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol, CPR82.14(2). Nid yw CPR82.14 ynddo’i hun yn ymarfer cydbwyso, ond mae darpariaethau adran 14(2)(c) yn berthnasol ac felly ni ellir darllen adran 8 na rheolau’r llys i olygu “ei bod yn ofynnol i lys neu dribiwnlys weithredu mewn ffordd sy’n anghyson ag Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.” Mae Erthygl 6 yn delio â’r hawl i dreial teg.

42. Rhaid i’r cais am ganiatâd i beidio â datgelu’r deunydd gael ei wneud bob tro yn absenoldeb holl bartïon yr achos a’r CAwyr, heblaw’r AA a’r Ysgrifennydd Gwladol, os yw ef neu hi’n barti ond nid yr un sy’n berson perthnasol.

43. O dan CPR82.14, rhaid delio â’r cais am ganiatâd i ddal deunydd sensitif yn ôl mewn gwrandawiad lle y gellir gwrando ar yr AA, y person perthnasol a’r Ysgrifennydd Gwladol, oni bai (a) os yw’r AA yn hysbysu nad yw eisiau herio’r cais i beidio â datgelu’r deunydd, neu (b) os yw’r llys wrth benderfynu’r cais adran 6(2), neu gais blaenorol am ganiatâd i ddal deunydd yn ôl, mewn gwirionedd eisoes wedi dyfarnu bod y deunydd dan sylw yn neu y byddai’n ddeunydd sensitif ac yn fodlon y byddai erbyn hynny’n gyfiawn rhoi caniatâd iddo gael ei ddal yn ôl heb wrandawiad, neu (c) os yw’r Ysgrifennydd Gwladol, y person perthnasol a’r AA i gyd yn cytuno y gellir penderfynu’r mater ar sail y papurau heb gynnal gwrandawiad.

44. Mewn gwirionedd mae’r broses ddatgelu, sy’n un o swyddogaethau pwysicaf yr AA, yn dechrau drwy ddatgelu’r holl ddeunydd perthnasol i’r AA, y llys a’r Ysgrifennydd Gwladol os nad yw ef neu hi’n barti. Mae pob rhan o’r deunydd na honnir y byddai datgelu’r rhannau hynny’n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol yn cael eu datgelu i’r partïon eraill a’u cynrychiolwyr cyfreithiol. Wrth gwrs, gellid dadlau a yw’r broses o ddatgelu’r deunydd i’r AA wedi bod yn llawn a thrylwyr; gallai datgelu i’r AA ddigwydd mewn mwy nag un rhan. Os yw’r AA a’r diffynnydd yn anghytuno am ddatgelu’r deunydd i’r CAwyr a’r hawlydd, bydd yr AA yn nodi’r rhannau hynny mewn Atodlen a bydd y person perthnasol yn ymateb iddi. Bydd llawer yn cael ei gytuno, a lle’r llys fydd dyfarnu ar weddill y materion. Yn aml iawn mae negodi beth y gellir neu na ellir ei ddweud neu ail-eirio, sut i gyfleu hanfod deunydd yn ddiogel, neu na ddylid dibynnu arno a beth y gellir ei ddweud i gyfleu’r pwynt y bydd yr hawlydd yn ei drafod heb wneud niwed i ddiogelwch gwladol.

45. Ystyrir ‘cyfleu hanfod’ yn gyffredin fel rhan o’r broses ddatgelu i weld a ellir cyfleu hanfod y pwynt heb wneud niwed i ddiogelwch gwladol. Gellir hefyd cymeradwyo pa gwestiynau y gellir eu hanfon at hawlydd i’w cyfeirio at faterion sydd angen eu hateb ond mewn ffordd nad yw’n niweidiol i ddiogelwch gwladol. Ystyrir dulliau eraill, fel aros yn ddienw neu ‘dduo’ testun’, ar y pwynt hwnnw hefyd. Mae’r dyfarniadau caeedig yn aml ar ffurf penderfyniad fesul pwynt, yn aml wedi’i roi yn y gwrandawiad, ar y gwahanol faterion y mae’r atodlen ceisiadau datgelu gan yr AAau, ac ymatebion y diffynyddion, yn eu gadael i’w penderfynu.

46. Nid yw gwrthod caniatâd i berson perthnasol i ddal deunydd sensitif yn ôl, neu grynodeb ohono, yn gyfystyr â gorchymyn bod y deunydd neu’r crynodeb yn cael eu datgelu. Nid oes raid i’r person perthnasol

gyflwyno'r deunydd na'r crynodeb; CPR82.14(9)(a). Mae gan y person perthnasol hawl o hyd i wrthod datgelu'r deunydd na chafodd ganiatâd ei roi i wrthod ei ddatgelu, neu grynodeb ohono.

47. Os yw'r person perthnasol yn gwrthod datgelu deunydd na roddwyd caniatâd i'w ddal yn ôl, o dan adran 8(3)(b) mae'n ofynnol bod gan y llys awdurdod i sicrhau nad yw'r person perthnasol yn dibynnu ar y deunydd neu'r crynodeb hwnnw.

48. Fodd bynnag, y broblem bellach a gallai hynny ei chreu oedd y gallai'r deunydd a fyddai'n cael ei ddal yn ôl fod wedi bod yn ffafriol i'r parti a eithriwyd, naill ai drwy ddadlau'r rhan yma o'i achos neu drwy danseilio achos diffynnydd y Wladwriaeth. O dan adran 8(3)(a), felly, rhaid awdurdodi'r llys i gyfarwyddo na ddylai'r person perthnasol ddibynnu ar "y pwyntiau hynny" neu eu bod i wneud consesiynau a ddynodir gan y llys neu gymryd camau eraill a ddynodir gan y llys.

49. Mae CPR82.14 yn delio â hyn. Os yw'r llys yn gwrthod caniatâd i ddal y deunydd yn ôl, a'r person perthnasol wedi gwrthod ei ddatgelu, hyd yn oed fel crynodeb, ac mae'r llys yn ystyried ei fod yn ddeunydd a allai gael effaith niweidiol ar yr achos i'r person perthnasol neu gynorthwyo achos y parti arall yn yr achos, mae gan y llys bŵer i gyfarwyddo na ddylai'r person perthnasol ddibynnu ar y pwyntiau hynny yn achos y person perthnasol neu y dylai wneud consesiynau neu gymryd camau a gyfarwyddir gan y llys; CPR82.14(9)(b)(i). Mewn unrhyw achos arall, lle y mae'r llys yn gwrthod caniatâd i ddal deunydd yn ôl ond y person perthnasol yn gwrthod ei ddatgelu na chrynodeb ohono, gall y llys gyfarwyddo nad yw'r person perthnasol i ddibynnu ar y deunydd y

gwrthododd ei ddatgelu, nac ar y crynodeb os gwrthododd y person â datgelu'r crynodeb; CPR82.14(9)(b)(ii).

50. Fodd bynnag, nid oes unrhyw achos wedi bod o ddeunydd yn cael ei ddal yn ôl ar ôl i ganiatâd i'w ddal yn ôl gael ei wrthod. Yn ôl ymateb y Llywodraeth i'r alwad am dystiolaeth, nid yw hyn wedi digwydd.

51. Yn wir, os nad yw'r person perthnasol yn bwriadu dibynnu ar ddeunydd sensitif, ac nid yw'r deunydd hwnnw'n effeithio'n andwyol ar achos y person perthnasol na'n helpu achos y parti arall, gall y llys er hynny gyfarwyddo nad yw'r parti perthnasol i ddibynnu ar y deunydd hwnnw heb fod angen iddynt roi crynodeb ohono i'w person a gynrychiolir yn arbennig a'r CAwyr; CPR82.14(8).

## Ar ôl y datganiad: faint o ddeunydd sydd angen ei ddatgelu

52. Un o'r prif broblemau gyda datgelu yw faint o ddeunydd sydd angen ei ddatgelu. Mae darpariaethau adran 14(2)(c), sy'n atal llys rhag gweithredu mewn ffordd sy'n anghyson â hawliau treial teg Erthygl 6 yr ECHR, yn cael blaenoriaeth ar ofynion adran 8(1)(c) ac 11(1), a rheolau'r llys. Mae'r cyfyngiad hwn ar weithrediad y CMP wedi ei gydnabod ers drafft cyntaf y Mesur. Mewn ffordd, ond nid efallai'n cael ei lwyr gydnabod yn y dadleuon, mae'n rhan o'r cydbwysedd rhwng y ddau fudd anghytûn, sef sicrhau treial teg a gwarchod diogelwch gwladol.

53. Mae un safon, y cyfeirir ati'n aml fel safon *AF (Rhif 3)*, yn deillio o'r penderfyniad yn *AF (Rhif 3) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2009] UKHL 28], [2010] 2 AC 269, ac achos Gorchymyn Rheoli. Yn gyffredinol, ar gyfer y safon hon, mae angen cyflwyno digon o wybodaeth

fel bo'r unigolyn yn gallu rhoi cyfarwyddiadau effeithiol i'w gynrychiolwyr yng nghyswllt yr honiadau yn ei erbyn. Cafodd ei defnyddio mewn achosion lle'r oedd y Wladwriaeth yn gorfodi cyfyngiadau sylweddol ar ryddid sylfaenol unigolyn, fel drwy Orchmynion Rheoli, TPIM, a Gorchmynion Rhewi Asedau. Mae'n amlwg bod cyfleu gwybodaeth yn ei hanfod, a dulliau eraill, yn cael eu hystyried yn yr achosion hyn. Gallai'r safon hon, lle bo'n berthnasol, olygu bod yn rhaid datgelu deunydd sy'n niweidiol i ddiogelwch gwladol, neu'n fwy manwl yn yr achos hwn, bod yn rhaid gwrthod caniatâd i'w ddatgelu. Rhaid i'r parti perthnasol yna ei ddatgelu, neu unrhyw grynodeb sy'n ofynnol, neu beidio â dibynnu arno. Byddai yna efallai'n gorfod ildio'r achos.

54. Nid yw cymhwyso Erthygl 6 yn golygu bod *AF (Rhif 3)* o reidrwydd yn berthnasol. Fodd bynnag, o dan y JSA, lle mai'r hawlwyr sy'n dod ag achos llys, fel arfer dyfarnwyd nad yw gofynion *AF (Rhif 3)* yn berthnasol. Dyfarnwyd bod safonau eraill yn gyson â chymhwyso Erthygl 6, gan ddibynnu ar ffeithiau ac amgylchiadau'r achos. Nid oes un safon unffurf ddiwyro i'w chymhwyso i bob cyd-destun, ffeithiau ac amgylchiadau. Mae'r penderfyniad yn *Tariq v Y Swyddfa Gartref* [2011] UKSC 35, [2012] 1 AC 452 - achos fetio gweithiwr - yn dangos y pwynt hwn.

55. Wrth gwrs mae hyn yn tybio bod yr achosion sifil dan sylw'n dod o fewn Erthygl 6 fel hawliadau'n ymwneud â phenderfynu "hawliau sifil". Nid yw pob achos sifil yn ymwneud â phenderfynu hawliau sifil ac mae cwmpas y geiriau hyn wedi bod yn destun anghytundeb rhwng y Llys yn Strasbwrg a'r Goruchaf Lys. Fe'i gwelir mewn achos JSA yn *K, A & B v Yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Amddiffyn a Materion Tramor a'r Gymanwlad* 2017 (achos 28–30 yn Atodiad 4).

## Ar ôl y datganiad: perthnasedd dulliau eraill yn y broses ddatgelu

56. Nid yw'r Ddeddf yn defnyddio'r CMP yn niffyg popeth arall oherwydd nid oedd y Llywodraeth yn ystyried bod dulliau eraill yn ffyrdd defnyddiol o gyflawni nod sylfaenol y JSA. Yn ystod achos datgelu, gellir ystyried y cwestiwn o grynodeb, cyfleu hanfod gwybodaeth, 'duo', aros yn ddi-enw, cylchoedd cyfrinachedd, a defnyddio PII. Nid ydynt wedi eu heithrio o'r mesurau y gallai'r llys eu hystyried, pe byddai'n meddwl y gallent fod yn ddefnyddiol i achos.

57. Nid yw aros yn ddi-enw fel arfer yn golygu y gellir datgelu llawer, ond yn amlwg yn fater y byddai'r AA yn ei godi. Nid yw rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin yn anghyffredin mewn achosion SIAC, Gorchymyn Rheoli neu TPIM, ond eto nid yw'n gyfrwng i ddatgelu llawer. Gall 'duo' fod yn ddefnyddiol, ond fel aros yn ddi-enw, pur anaml y mae'n mynd at wraidd y mater.

58. Ni ddefnyddiwyd PII a chylchoedd cyfrinachedd mewn achos JSA gyda deunydd diogelwch gwladol. Mae anawsterau'r dulliau hyn yn hysbys ddigon, a'u hyrwyddwyr ddim bob tro'n eu deall, ond cawsant eu rihyrsio'n bur faith wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd, a'u hystyried mewn dyfarniadau o dan y JSA.

59. Nid yw'r Ddeddf na rheolau'r llys yn atal y llys rhag ystyried, ar unrhyw bwynt, p'un ai wrth wneud cais am ddatganiad, neu yn ystod y broses ddatgelu neu wrth adolygu'r datganiad ar ôl cwblhau'r broses, a ddylid gofyn am hawliad PII yng nghyswllt peth o'r deunydd a chymryd yr ymateb, i wahoddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud hawliad PII, i ystyriaeth wrth benderfynu sut i ymarfer ei amrywiol bwerau. Ond y

broblem sylfaenol wrth gymhwyso rheolau PII i ddeunydd diogelwch gwladol yw eu bod yn mynd yn groes i nod sylfaenol y JSA. Mae'n annhebygol iawn y byddai llys yn gwrthod derbyn tystysgrif yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'r deunydd hwn yn cael ei eithrio o'r treial. Dyna'r union broblem y dyfeisiwyd Rhan 2 o'r JSA i'w hatal.

60. Mae'r cylch cyfrinachedd yn aml wedi'i gynnig fel ateb, ond heb ei ddefnyddio mewn achosion CMP. Yn hytrach, mae wedi'i ystyried ond yna wedi'i wrthod gan farnwyr am resymau diymwad. Mewn un achos, *XYZ*, penderfynodd y barnwr ohirio'r posibilrwydd o'i ddefnyddio ar gyfer penderfyniad nes ymlaen ar ddeunydd penodol, ond achos prin iawn oedd hwnnw. Mae'n dioddef o'r anfantais mewn egwyddor nad yw gwrandawiadau 'preifat' yn gyfiawnder agored, sy'n wrthwynebiad mewn egwyddor i'r CMP. Byddai'r ddau'n arwain at ddyfarniadau cyhoeddus cyfyngedig.

61. Nid yw cylch cyfrinachedd yn caniatáu i'r hawlydd roi cyfarwyddyd effeithiol i'w gyfreithwyr ar yr achos yn ei erbyn, sef y prif wrthwynebiad arall i'r CMP mewn egwyddor. Mae'n creu rhaniad rhyngddynt ar wahân i broblemau eraill, yn benodol o ran gwarchod deunydd, risg o ddatgelu'n ddiarwybod, drwy gadw'n dawel neu'n dilyn pwysau i ddatgelu deunydd, a fetio uwch ar gyfer y CAwyr, gan arwain at ganlyniadau a allai fod yn annifyr neu greu embaras proffesiynol i rai a fyddai, ac na fyddai'n pasio'r fetio uwch. Gallai hyn arwain at broblemau mewn achosion nes ymlaen i'r CAwyr a dderbyniodd ddeunydd diogelwch gwladol mewn achos blaenorol, fel y mae AAau wedi'i ganfod, ac y byddaf yn ei drafod nes ymlaen.

## Ar ôl y datganiad: adolygu a dirymu

62. Mae adran 7 yn bwysig i weithrediad y weithdrefn. O dan adran 7(3), mae'n ofynnol adolygu'r datganiad adran 6 yn ffurfiol unwaith fydd ymarfer datgelu cyn-dreial yr achos wedi cael ei gwblhau. Rhaid i'r datganiad hefyd gael ei adolygu'n barhaus gan y llys, a allai ar unrhyw adeg ei ddiddymu o dan adran 7(2), "os yw'n ystyried nad yw'r datganiad mwyach er budd gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol." Gallai'r llys benderfynu dirymu ohono'i hun neu drwy wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol, p'un ai yw'n barti yn yr achos neu beidio, neu unrhyw barti yn yr achos. Bydd rheolau'r llys yn darparu ar gyfer sut y dylid cynnal yr adolygiad ffurfiol hwnnw.

63. Ond nid yw'r broses adolygu wedi arwain at unrhyw achosion o ddirymu. Efallai fod hynny oherwydd y bydd ei gweithrediad posib, er gwell neu waeth i'r naill ochr neu'r llall, neu i'r ddwy ochr, wedi effeithio ar sut y dilynodd y ddwy ochr y broses ddatgelu flaenorol.

## Dyfarniadau

64. Mae CPR82.16 a 17 yn ymdrin â dyfarniadau agored a chaeedig. Mae'r llys yn rhoi dyfarniad yn y ffordd arferol, heblaw nad yw'n gallu datgelu ei resymau os byddai gwneud hynny'n datgelu gwybodaeth a fyddai'n niweidiol i ddiogelwch gwladol. Dylid nodi unrhyw resymau o'r fath mewn dyfarniad ar wahân a fyddai ond ar gael i'r person perthnasol, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r AA. Mae'n ofynnol i'r llys roi rhybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r person perthnasol o'i fwriad i gyflwyno'r hyn fydd yn ddyfarniad agored ar y parti a gynrychiolir yn arbennig. Mae ganddynt 5 diwrnod i ofyn i'r llys ailystyried telerau'r dyfarniad os ydynt

yn credu bod y dyfarniad yn cynnwys deunydd, pe bai'n cael ei ddatgelu, a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol. Rhaid cyflwyno'r dyfarniad arfaethedig, ac unrhyw gais o'r fath i'r llys, i'r AA. Mater i'r barnwr ei benderfynu yw'r cais wedyn. Nid oes rheol gyfwerth yn caniatáu i'r AA ddadlau bod y dyfarniad caeedig yn cynnwys deunydd a ddylai gael ei roi yn y dyfarniad agored. Ond nid oes unrhyw beth i atal sylwadau o'r fath gan y AA ac mae'n ofynnol i'r llys eu hystyried, fel y mae'n ei wneud.

65. Mae darpariaethau eraill y JSA yn ymwneud â'r adolygiadau blynyddol a'r adolygiad hwn o weithrediad adrannau 6-11 y Ddeddf, a ddechreuodd yn llawer hwyrach nag y dylai fod wedi dechrau.

# Adran 3: Y profiad o bryderon am weithrediad Rhan 2 y Ddeddf yn y dyfodol, a leisiwyd wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd

## Cwmpas

**A. Un o'r pryderon a leisiwyd amlaf oedd a oes gwir gyfiawnhad i'r CMP o ystyried y nifer o achosion a allai ddod o fewn ei gwmpas. Faint o achosion sydd wirioneddol yn cyfiawnhau'r ymadawiad sylweddol hwn o gyfiawnder agored a naturiol, a pha fath o broblemau oedd yn codi? Oedd y broblem yn fwy nag un ddamcaniaethol?**

1. Roedd y Llywodraeth, yn ei hymateb i adroddiad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol yn Ionawr 2013, yn amcangyfrif bod bryd hynny 20 o achosion iawndal sifil 'byw', rhai'n ymwneud â nifer o unigolion, lle'r oedd gwybodaeth diogelwch gwladol yn ganolog iddynt. Roedd tri achos o'r fath wedi eu setlo'r flwyddyn cynt, a saith o rai newydd wedi eu dechrau. Nid oedd yn awgrymu mai nifer yr achosion 'byw' bryd hynny oedd y cwbl a allai godi dros y blynyddoedd.

2. Mae Atodiad 4 yn rhoi manylion llawn nifer yr achosion lle y gwnaed cais am CMP a lle y cafodd datganiad ei ganiatáu. Nid yw'n hollol gyflawn ond yn ddigon cyflawn i roi ateb clir i'r pryder hwn. Yn ôl adroddiadau blynyddol y Llywodraeth i'r Senedd ar ddefnyddio CMP o dan y JSA, cafwyd 54 o geisiadau am ddatganiad adran 6 dros gyfnod yr adolygiad hwn: ar gyfartaledd, ychydig dros 10 y flwyddyn yn ystod pedair blynedd

olaf y cyfnod. Ers hynny mae'r nifer wedi lleihau gan haneru yn y flwyddyn neu ddwy ar ôl cyfnod yr adolygiad. Ni chredaf fod hyn yn anghyson â'r hyn y gallai'r Senedd yn rhesymol fod wedi'i ragweld o'r wybodaeth a dderbyniodd. Cymerais y ffigurau ar gyfer ceisiadau am ddatganiad, yn hytrach na ffigurau'r datganiadau eu hunain, oherwydd cafodd y rhan fwyaf eu caniatáu, ac roedd oedi rhwng y cais a'r penderfyniad (dylwn sôn bod rhai penderfyniadau neu orchmynion wedi eu gwneud ar sail y papurau, neu drwy ganiatâd, na chawsant eu cofnodi mor aml mewn Adroddiadau Blynyddol ac yn atodlen achosion Atodiad 4 â dyfarniadau llawn.

3. O'r 52 o achosion a restrir yn Atodiad 4 a ddechreuodd yn ystod cyfnod yr adolygiad a lle y gwnaed cais adran 6 ar eu cyfer: Roedd 17 yn achosion iawndal wedi eu dwyn yng Nghymru a Lloegr, 16 ohonynt yn seiliedig ar honiadau am ymddygiad y DU dramor (Libia 8, Somalia 3, Irac 5, yn cynnwys triniaeth carcharorion neu eu trosglwyddo i Affganistan), ac 1 hawliad am driniaeth 'prepiwr' honedig o Ogledd Iwerddon. Roedd 19 o'r 52 yn hawliadau adolygiad barnwrol wedi eu dwyn yng Nghymru a Lloegr: Roedd 11 yn ymwneud â chyfreithlondeb canslo pasbortau neu wrthod rhoi dogfennau teithio i derfysgwr neu eithafwr am resymau diogelwch gwladol, ac un hawliad dinasyddiaeth wedi'i gysylltu i achos SIAC; 2 yn ymwneud â gorchmynion rhewi asedau yng nghyswllt achos iawndal oedd hefyd yn destun datganiadau adran 6; 3 (un achos mewn realiti) yn ymwneud â thriniaeth ffynonellau cudd-wybodaeth dirgel honedig yn Affganistan; 1 yn ymwneud â thrwyddedu gwerthu arfau i Sawdi Arabia (wedi'i gofnodi ynghyd â'r her ôl-gyfnod adolygu cysylltiedig); 1 yn herio'r penderfyniad i beidio ag erlyn unrhyw un am eu rôl honedig mewn anfon Mr Belhaj i wlad dramor; 1 yn

ymwneud â phenderfyniad datgelu mewn achos SIAC; 1 yn herio gwrthod cais gan yr Unol Daleithiau o dan 'lythyrau gofyn', lle'r oedd deunydd cudd-wybodaeth yn ystyriaeth; 1 yn codi o'r digwyddiad pan saethwyd PC Yvonne Fletcher yn "Llysgenhadaeth" Libia. Roedd un achos wardiaeth mewn achos llys teulu.

4. Roedd y gweddill, 13, yn hawliadau wedi eu dwyn yng Ngogledd Iwerddon. O'r rhain roedd 9 yn hawliadau iawndal nad oedd dim bron mewn 2 ohonynt yn egluro'r mater dan sylw; 3 yn ymwneud â 'phrepwyr' honedig yn cymryd rhan mewn troseddu; 1 â methiant honedig Heddlu Gogledd Iwerddon i atal lladrad gan y P-IRA; 1 ag asiant honedig a rôl honedig ei 'reolwyr' mewn llofruddiaeth; 1 â chyfreithlondeb galw carcharor y Gwir IRA yn ôl i garchar; 1 â charcharu'n anghyfreithlon. Roedd 3 yn hawliadau adolygiad barnwrol: 1 yn ymwneud â gwrthodiad y Llywodraeth i gynnal cwest i'r bomio yn Omagh; 2 yn ymwneud â gwrthod iawndal am anafiadau troseddol. 1 yn ymwneud â hawliad cam-arestio (lle'r oedd y datganiad wedi'i wrthod).

5. Er na chafodd yr amrediad neilltuol o achosion, lle'r oedd datganiad adran 6 wedi'i wneud, ei ragweld, gan gynnwys achosion yn 2020, nid yw'r Ddeddf wedi darparu mewn unrhyw ffordd wirioneddol ar gyfer agor y drws i achosion yr oedd y Senedd yn rhagweld na fyddai'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso iddynt. Mae'n anodd, o gofio telerau'r Ddeddf, gweld sut y byddai hynny'n digwydd; pe bai'r achosion yn cwrdd â thelerau'r Ddeddf, y dadleuon dros ei chymhwyso yw'r rhai a dderbyniwyd gan y Senedd pan ddeddfodd y JSA. Os ydynt yn disgyn y tu allan i'w thelerau, ni ellir cymhwyso'r Ddeddf. Mae'r gyfreitheg o dan y Ddeddf yn dangos gofal a phwyll mawr gyda'i chymhwyso'n hytrach na brwdfrydedd i'w chymhwyso'n eang.

6. Mae’n bwynt cyson a wneir gan farnwyr sydd wedi caniatáu datganiadau, a lle y mae dyfarniad ar gael, roedd y deunydd diogelwch gwladol hwnnw’n ganolog i’r achosion hynn. Ni welais yr un achos lle’r oedd datganiad CMP wedi’i ganiatáu a lle’r oedd y llys yn ystyried bod y dystiolaeth diogelwch gwladol yn ddibwys neu’n ymylol i’r achos. Yn hytrach bu’r llysoedd, drwy fod yn ymwybodol na welsant yr holl ddeunydd diogelwch gwladol perthnasol o bell ffordd, yn ofalus i sicrhau bod y deunydd yn cyfiawnhau’r datganiad, ac yn ei gyfiawnhau ar y pwynt y gofynnwyd amdano, gan gynnwys drwy ofyn am amddiffyniad drafft caeedig i helpu i adnabod y gwir broblemau. Lle’r oedd y dyfarniadau terfynol ar gael, mae pwysigrwydd canolog y deunydd caeedig yn glir o’r dyfarniadau agored.

**B. A ellid ehangu’r CMP i ystod ehangach o achosion lle na fyddai cyfiawnhad dros yr ymadawiad?**

7. Mae hawliadau iawndal yn ymwneud ag ymateb honedig Llywodraeth y DU i eithafiaeth Islamaidd dreisgar, yn bennaf drwy ymddygiad honedig Llywodraeth y DU dramor, yn amlwg yn agwedd bwysig ar y dadleuon oedd wrth wraidd y Ddeddf, ond fel yr wyf i’n deall y dadleuon, yn fwy yn ôl beth oedd yn cael ei weld i fod yn dangos y broblem yn glir yn hytrach na’n ddiffiniad o’i chyfyngiadau. Nid oes unrhyw beth yn y datganiadau yn y ddadl gan Weinidogion y Llywodraeth i awgrymu mai’r achosion hynny fyddai pen draw bwriedig cwmpas y CMP o dan y JSA, ac ychydig iawn gan eraill i awgrymu mai felly y câi ei gweld ychwaith. Ni awgrymwyd unrhyw resymeg dros gyfyngu cwmpas y CMP yn y ffordd hon, ac ni ddefnyddiwyd unrhyw iaith yn y Ddeddf a allai gael ei dehongli felly.

8. Yn amlwg, nid oedd cwmpas y CMP o dan y Ddeddf wedi'i gyfyngu i hawliadau iawndal preifat ond yn cynnwys hawliadau adolygiad barnwrol, gyda neu heb hawliad cysylltiedig am iawndal.

9. Mae dau faes, beth bynnag, lle y cododd ymatebwyr gwestiynau am gwmpas gweithrediad y Ddeddf ar lawr gwlad, ac mae'n gyfleus i ni drafod y rhain yma.

## Gogledd Iwerddon

10. Y cyntaf yw nifer yr achosion sy'n codi yng Ngogledd Iwerddon, yn bennaf yn sgîl pethau a ddigwyddodd yn ystod yr Helyntion neu derfysgaeth fwy diweddar.

11. Er nad oedd Gogledd Iwerddon, a'r achosion a ddeilliodd o'r Helyntion a therfysgaeth fwy diweddar, yn rhan fawr o'r dadleuon, nid oedd amheuaeth y byddai'r CMP ar gael yng Ngogledd Iwerddon. Prif bryder ASau Gogledd Iwerddon am y Ddeddf oedd na ddylai fod yn berthnasol i gwestau; ac nid ydyw. Roedd Gogledd Iwerddon hefyd yn rhan o'r ddadl ynghylch a ddylid cymhwyso'r weithdrefn i alw carcharorion yn ôl i garchar ac a ddylai barnwr wrando treial lle'r oedd ef neu hi wedi gweld deunydd caeedig ymlaen llaw oedd yna wedi'i gau allan o'r treial. Roedd y Comisiwn ar Weinyddu Cyfiawnder, sy'n NGO hawliau dynol ym Melffast, wedi cyflwyno dadleuon i'r Senedd ar Ail Ddarlleniad y Mesur, yn disgrifio'n gywir amrediad a sensitifrwydd yr achosion "etifeddol" yng Ngogledd Iwerddon a fyddai'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf: adolygiadau barnwrol ac ymchwiliadau i farwolaethau'n ymwneud â'r cwffio, yr amrediad o achosion iawndal sifil yn deillio o farwolaethau a chamdriniaeth, a galw cyn-garcharorion parafilwrol yn ôl i garchar.

Byddai achosion yn honni bod y ‘prepwyr’ hefyd yn chwarae rôl weithredol. Byddai tystiolaeth gaeedig yn broblem i greu hyder yn y system gyfreithiol a barnwrol i raddau a fyddai’n annhebygol ym Mhrydain Fawr.

12. Teimlai un ymatebwr, wrth ymateb i’r alwad am dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn, fod cwmpas gweithrediad y Ddeddf wedi cael ei ehangu y tu allan i’w gwmpas bwriedig o achosion diogelwch gwladol, i gynnwys achosion “sifil a theulu”. Roedd yn cael ei chymhwyso’n anghymesur yng Ngogledd Iwerddon, yn ymwneud ag achosion etifeddol yr Helyntion; roedd 36% o’r 41 o geisiadau am ddatganiadau adran 6 rhwng 2013 a 2017 yn ymwneud â Gogledd Iwerddon (mae hyn yn rhoi darlun teg er nad yw’r ffigurau efallai’n hollol gyson â’r Adroddiadau Blynyddol, a byddwn yn ailadrodd fy sylw blaenorol ar hyn; bwriedir i Atodiad 4 fod yn fwy manwl-gywir). Roedd yr oedi sylweddol oherwydd CMP mewn achosion hanesyddol, lle’r oedd yr achwynwyr fel arfer yn bobl hŷn, yn golygu na fyddent efallai’n byw i weld y canlyniad: roedd angen terfynau amser a rheolaeth fwy effeithiol o achosion.

13. Fe wnaeth ymatebwr arall y pwynt bod achosion etifeddol fel arfer yn ymwneud ag ymddygiad honedig ‘prepwyr’ neu asiantau’r Wladwriaeth mewn grwpiau parafilwrol. Y pryder sylfaenol oedd na fyddai’r broses yn caniatáu treial teg ac unioni llawn am weithredoedd anghyfreithlon. Teimlent fod y CMP wedi’i ddefnyddio i ‘rwystro’ y broses o fynd at y gwirionedd.

14. Efallai’n hawdd na chafodd nifer yr achosion o Ogledd Iwerddon eu rhagweld, ond mae’r rhai y gwnaed datganiad adran 6 yn eu cyswllt yn disgyn yn gyffyrddus o fewn iaith a phwrpas y Ddeddf. Nid oes rheswm i

dybio, pe bai'r nifer wedi cael ei ragweld, y byddent wedi cael eu heithrio o gwmpas y Ddeddf nac y byddai darpariaeth ddeddfwriaethol arbennig wedi'i gwneud ar eu cyfer. Ni welaf unrhyw beth yn y gwahanol ddyfarniadau i awgrymu yr achosodd yr achosion hyn unrhyw annhegwch penodol, er bod iddynt sensitifrwydd neilltuol o ystyried y rhaniadau enwadol a'r diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r gwasanaethau cudd-wybodaeth sydd wrth eu gwraidd. Hyd y gwelaf, mae'r Ddeddf wedi gweithio yn ôl ei bwriad yn yr achosion hynny, ac nid yw'n hawdd gweld sut y byddid wedi delio'n deg ac effeithiol â'r achosion hynny heb y CMP.

15. Mae un maes lle y gallai methu â deall nifer yr achosion yng Ngogledd Iwerddon fod wedi cael effaith, a dylid rhoi sylw i hyn. Mae'n ymwneud â'r gefnogaeth sydd ei hangen i weithredu'r system AA, arafwch y system DV, ac amgylchiadau gweithio'r AAau yng Ngogledd Iwerddon, y gwneir nifer o bwyntiau yn eu cylch yn ymatebion SASO, sy'n destun pryder ac angen sylw. Mae hyn wedi arafu cynnydd achosion. Dof yn ôl at hyn nes ymlaen. Ni welais unrhyw dystiolaeth bod nifer y barnwyr sydd ar gael i wrando achosion o'r fath wedi effeithio ar yr oedi. Derbyniaf y pryder bod nifer o'r Achwynwyr yn oedrannus ac am i'w hachosion gael eu penderfynu cyn gynted â phosib, er mwyn eu tawelwch meddwl. Gallai fod lle i ddiwygio Rheolau Llys Barnweiniaeth GI i gynorthwyo rheoli achosion, gan gynnwys cyflwyno a gorfodi terfynau amser mwy llym.

## Achosion teulu

16. Mae'r ail faes yn ymwneud ag achosion teulu. Yn *Al-Rawi* derbyniodd y Goruchaf Lys fod arfer eisoes yn bodoli, er yn bur anghyffredin yn yr

Adran Deulu, lle'r oedd gan achosion CMP sail cyfraith gyffredin ond nid statudol. Dyfarnwyd bod gan yr Adran Deulu awdurdodaeth cyfraith gyffredin i ddefnyddio'r weithdrefn. Roedd nifer o ymatebwyr wedi codi'r broblem hon. Yn ôl yr AA nid yw achosion CMP yn cael eu mabwysiadu'n anfynych mewn achosion teulu, o dan bwerau cyfraith gyffredin. Dim ond un achos sydd wedi bod, yn ystod neu ar ôl cyfnod yr adolygiad, lle y gallai'r JSA fod wedi cael ei chymhwyso, er yn niffyg rheolau llys. Mae'r dyfarniad ar hwnnw'n gwbl gyfrinachol, fel llawer o achosion yr Adran Deulu. Ychydig iawn a wyddom am yr achos, y weithdrefn a ddefnyddiwyd, na'r partïon.

17. Mae peth dadlau wedi bod mewn achosion teulu ynghylch a oedd y JSA yn berthnasol i'r Adran Deulu. Os yw'r JSA yn berthnasol, dylai rheolau trefniadaeth fod wedi cael eu cyhoeddi flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r CPR yn berthnasol i'r Adran Deulu. Nid oes rheolau Adran Deulu'n berthnasol i weithdrefnau CMP o dan y JSA. Drafftiwyd diwygiadau i Reolau'r Weithdrefn Deuluol yn 2017 ond nid ydynt yn derfynol ac nid yw'r MoJ wedi cymryd unrhyw gamau i roi'r rheolau mewn grym. Nid yw'n glir pam, neu a gawsant eu drafftio o dan y JSA neu o dan bwerau cyfraith gyffredin, neu'r ddau.

18. Os nad yw'r JSA yn berthnasol i'r Adran Deulu ar y sail nad yw achosion yr Adran honno'n "achosion sifil perthnasol" o dan y JSA, gallai fod dadl gyfreithiol ynghylch a yw'r JSA, ynddi ei hun, wedi cael blaenoriaeth ar y weithdrefn gyfraith gyffredin a ddatblygwyd yn yr Adran Deulu, a dadl bolisi ynghylch a ddylid diwygio Rhan 2 y JSA fel ei bod yn berthnasol i'r Adran Deulu.

19. Mae'r amgylchiadau lle y gallai buddiannau diogelwch gwladol fod yn rhan o achosion teulu'n cynnwys ail-wladoli plant dan oed o wledydd lle y mae deunydd o blaid pryderon diogelu, neu wardiaeth dros blant sy'n cael eu paratoi ar gyfer, neu eu hamddiffyn yn annigonol rhag, agweddau eithafol treisgar, neu os yw un rhiant yn 'prepian' am weithgareddau eithafol rhiant arall, a'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn rhan o'r sefyllfa mae'n debyg. Maen nhw'n awgrymu y byddai angen rheolau arbennig i'r Adran Deulu, p'un ai a fyddai'r Ddeddf yn berthnasol i'r Adran neu beidio. Nid mater o'r Adran Deulu yn mabwysiadu'r CPR a fyddai. Ni welais hyn yn cael ei nodi fel problem yng Ngogledd Iwerddon.

20. Mae'n werth cyfeirio at yr achosion a adroddwyd yn yr Adran Deulu sy'n cyffwrdd ar y pwnc hwn. Mae *A (Cam-drin Rhywiol: datgelu)* [2012] UKSC 60 [34] yn trafod y posibiliadau o awdurdodaeth CMP cyfraith gyffredin yn yr Adran Deulu, a'i chyfyngiadau. Roedd *XY a Z (Datgelu i'r Gwasanaeth Diogelwch)* [2016] EWHC 2400 (Teulu), MacDonald J, yn ymwneud â datgelu datganiad tyst y fam a dyfarniad cyfrinachol gan awdurdod lleol i'r Gwasanaeth Diogelwch, i weld pa wybodaeth bellach (o gwbl) oedd gan MI5 am eithafiaeth Islamaidd y rhieni. Roedd amodau'n atal MI5 rhag defnyddio na phasio'r wybodaeth ymlaen i'w bwrpas ei hun, ond roedd y Llys yn cydnabod y gallai ofyn am ganiatâd y Llys i wneud hynny. Sut y gellid penderfynu cais o'r fath? Yn [89-92], tynnodd y Llys sylw at y ffaith nad oedd unrhyw reolau llys yn berthnasol i'r Llys Teulu. Roedd ansicrwydd felly am y sail gyfreithiol dros, a'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu mewn, unrhyw CMP Llys Teulu. Ystyriwyd fodd bynnag y gellid mae'n debyg gwneud trefniadau addas o ystyried canllawiau 2015 Llywydd yr Adran Deulu ar "Radicaleiddio

mewn Achosion Teulu". Roedd *R (Gweithdrefn Deunydd Caeedig: Cyllid Adfocadau Arbennig)* [2017] EWHC 1793 (Teulu) yn ymwneud â'r cyfrifoldeb am dalu costau'r AA. Roedd yr heddlu wedi ceisio dibynnu ar ddeunydd caeedig, gyda phawb yn cytuno y dylid delio â hyn mewn gwrandawiadau caeedig, yn ymwneud â chynllwynio i ladd y gŵr; penodwyd AA i gynrychioli buddiannau'r fam; y cwestiwn oedd pwy a ddylai dalu ei chostau. O baragraff 2 y dyfarniad, ymddengys nad yw'r CMP o dan y JSA ond o dan awdurdodaeth cyfraith gyffredin yr Adran Deulu ei hun. Yn 2015 roedd Llywydd yr Adran Deulu wedi cynhyrchu canllawiau ar "Rôl y Twrnai Cyffredinol mewn penodi Adfocadau i'r llys neu Adfocadau Arbennig (AAau) mewn Achosion Teulu".

21. Barnwyr Uchel Lys a ddeliodd ag achosion y mae "Radicaleiddio mewn Achosion Teulu" yn berthnasol iddynt. Mae'n eu hatgoffa o ba mor sensitif yw peth o'r deunydd dan sylw, ac y gallai ei ddatgelu wneud niwed i fudd y cyhoedd a hyd yn oed rhoi bywydau mewn perygl. Ni ddylid gofyn am ddim mwy o ddatgelu gan yr heddlu neu asiantaethau eraill nag y bo angen i ddatrys yr anghydfod. Byddai'n rhaid ystyried PII a CMP a defnyddio AA. Roedd cydweithrediad rhwng yr asiantaethau diogelu i'w ddisgwyl. Dylai'r systemau teulu a chyfiawnder troseddol gydweithredu i sicrhau y gweinyddir cyfiawnder yn briodol yn y ddwy system. Nid yw hyn yn rhan o ganllawiau'r JSA.

22. Roedd ymateb y Llywodraeth i'r alwad am dystiolaeth yn fy ngwahodd i ystyried pa reolau trefniadaeth a ddylai fod yn eu lle ar gyfer CMP Adran Deulu. Roedd yn cymell y dylid dyfeisio rheolau trefniadaeth, yn lle bo'r weithdrefn yn destun penderfyniadau ad hoc mewn achos neilltuol.

23. Os yw'r JSA, ac nid oes gennyf farn am hyn, yn berthnasol i achosion Adran Deulu fel "achosion sifil perthnasol", mae felly'n hen bryd i ni ddiwygio Rheolau'r Weithdrefn Deuluol a rhaid cyhoeddi hyn ar fyrder i ddileu achos hirsefydlog o dor-dyletswydd statudol. Os nad yw'r JSA yn berthnasol i achosion yr Adran Deulu, gellid dadlau na fyddid yn dymuno parhau'r ansicrwydd am ba weithdrefnau i'w cymhwyso i'r achosion deunydd caeedig y mae ganddi awdurdodaeth cyfraith gyffredin i'w hystyried, a'r partïon priodol ynddynt. Fodd bynnag ni thynnwyd fy sylw at broblem benodol ac nid oes gennyf amgyffred iawn o faint o achosion a allai gael eu heffeithio na sut. Mae dadl efallai o blaid, o ystyried awdurdodaeth cyfraith gyffredin yr Adran Deulu, ei bod yn parhau i esblygu ei harferion a'i gweithdrefnau ei hun, cyn i'w phrofiad arwain at godeiddio arferion da yn gyfarwyddiadau a rheolau trefniadaeth. Ni chredaf y dylwn wneud unrhyw argymhelliad ar y pwynt hwn. Mater i'r MoJ a Llywydd yr Adran Deulu i'w ystyried a fyddai hynny.

**C. Dylid ond defnyddio'r weithdrefn i amddiffyn buddiannau diogelwch gwladol, ac nid yr ystod ehangach o faterion sensitif, sef diogelu cysylltiadau rhyngwladol, lles economi'r wlad neu atal neu ganfod troseddu, sy'n bethau y gallai PII ddelio â nhw.**

24. Defnyddiwyd y CMP ond lle y daeth barnwr i'r casgliad fod diogelwch gwladol yn broblem, a lle'r oedd y barnwr o'r farn bod angen mabwysiadu CMP er mwyn amddiffyn diogelwch gwladol. Nifer fach iawn o achosion sydd wedi bod lle y mae cais am ddatganiad wedi methu, sy'n awgrymu nad yw diffynyddion yn ceisio camddefnyddio'r weithdrefn. Ni chafodd y ceisiadau prin a wrthodwyd eu gwrthod am geisio camddefnyddio'r weithdrefn ond, yn hytrach, oherwydd nad oedd angen y gweithdrefnau CMP neu ni ddangoswyd bod eu hangen eto (e.e. *ZMS*

achos 34). Methodd un ymgais ar sail camddeall gwybodaeth pwy am beth oedd yn berthnasol, wrth asesu cyfreithlondeb arestio rhywun, ond er hynny gwrthododd y barnwr y datganiad (e.e. *Logan*, achos 45). Byddai'r AA wedi gallu cynghori y dylid apelio pe credid y gallai datganiad adran 6 fod wedi cael ei ganiatáu heb unrhyw gyfiawnhad diogelwch gwladol, neu gyfiawnhad annigonol.

25. Mae achosion wedi bod lle'r oedd buddiannau diogelwch gwladol yn bodoli ochr yn ochr â buddiannau eraill na allai ddod o fewn cwmpas diogelwch gwladol, ond a oedd yn dod o dan gwmpas ehangach PII, h.y. diogelu cysylltiadau rhyngwladol neu les economaidd neu atal neu ganfod troseddu. Wrth gwrs nid yw'r rhain yn 'gategorïau' penodol bob tro; gallai pob un ymwneud â diogelwch gwladol: mae terfysgaeth yn ymwneud â throseddau difrifol; a diogelwch gwladol yn ymwneud â delio â gwledydd eraill mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys rhannu cudd-wybodaeth. Fodd bynnag, wrth ddod i'r casgliad y byddai datgelu'r deunydd yn niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol, daw hyn o dan y Ddeddf.

26. Gellir hawlio PII yn y ffordd arferol yng nghyswllt y buddiannau eraill sy'n destun PII os ydynt yn disgyn y tu allan i gwmpas diogelwch gwladol. Byddai PII dal yn berthnasol iddynt a gallai arwain at eithrio'r deunydd hwnnw, yn amodol i gydbwysedd *Wiley*, gyda neu heb CMP. Un o effeithiau adran 14(2)(b) sy'n cadw rheolau PII cyffredin yw y byddai PII yn berthnasol i ddeunydd o'r fath. Nid mater o'i phasio i'r CMP yn ddiffwdan a fyddai. Gwnaed ceisiadau PII yng nghyswllt deunydd PII di-ddiogelwch gwladol yn *CF* a *Mohamed* (achosion 1 a 2), ac *ZMS* a *HTF* (achos 34). Gwnaed ceisiadau PII hefyd yn *Khaled* (achosion 14 a 15), *Maftah (*achos 17), *YR* (achos 32), ac *AA* (achos 33A).

**D. Ni ddylid defnyddio'r iaith "diogelwch gwladol" i guddio rhywbeth a oedd ond wedi creu embaras, oedd yn resynus, neu'n ymddygiad anghyfreithlon mewn cyfraith ddomestig neu ryngwladol.**

27. Ni welais unrhyw dystiolaeth o ddefnyddio hawliadau "diogelwch gwladol" i 'guddio' ymddygiad anghyfreithlon, oedd yn resynus neu ond wedi achosi embaras, ond heb ymwneud â buddiannau diogelwch gwladol.

28. Yn ôl un ymateb i'r alwad am dystiolaeth, defnyddiwyd y CMP i 'guddio' tystiolaeth o rôl Llywodraeth y DU mewn achosion difrifol o gam-drin hawliau dynol, gan greu risg o guddio camweddau'r Wladwriaeth rhag y broses graffu, gan ddyfynnu *CF* a *Mohamed* (achosion 1 a 2) a *Belhaj* (achosion 19-20) ac yn fwy uniongyrchol grŵp achosion *Kamoka* (achosion 10-18), lle'r oedd nifer o Libiaid yn gofyn am iawndal gan MI5 am rôl honedig MI5 yn ceisio eu hallgludo ac yn honni bod y Llywodraeth yn gwybod bod risg wirioneddol y gallent gael eu harteithio. Taflwyd y ddau gyntaf allan am nad oedd yr hawlwyr wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau. Setlwyd y gweddill, *Belhaj* gan gynnwys ymddiheuriad. Mae'r ddadl y defnyddiwyd CMP i'r pwrpas o guddio'n tybio nad oedd y deunydd dan sylw'n ddeunydd diogelwch gwladol. Ond eto cafodd ddatganiadau eu gwneud gan y llysoedd. Mae'n tybio fel arall y byddai'r deunydd wedi cael ei ddatgelu'n gyhoeddus o dan broses PII, sy'n eithriadol annhebygol ar gyfer deunydd diogelwch gwladol. Gallai'r Llywodraeth er hynny ei amddiffyn o dan PII drwy ildio'r hawliad. Rwy'n ymwrthod â thystiolaeth yr ymateb hwn.

29. Wrth gwrs, lle y gallai diogelwch gwladol ac ymddygiad anghyfreithlon, gresynus neu sy'n creu embaras fod yn gymysg, gellir gofyn am a

chaniatáu datganiadau o dan adran 6. Mae honiadau o'r fath yn gyffredin mewn achosion CMP. Yn gyntaf, gallai'r cwestiwn a oedd gan gyrff Llywodraeth y DU ran mewn, neu'n ymwybodol o unrhyw gamymddygiad gan drydydd partïon, fod wrth galon y mater o ddiogelwch gwladol yn yr achos. Yn ail, ni ellid gwrando neu wrando'r materion hynny'n deg drwy PII oherwydd byddai hynny'n eithrio'r dystiolaeth diogelwch gwladol y gallai'r naill ochr neu'r llall fod wedi bod eisiau dibynnu arni. Gallai faint neu natur y camymddwyn hefyd fod yn greiddiol i atebolrwydd ac iawndal. Cyfeiria'r dyfarniadau agored ar ddatganiadau adran 6 yn aml at hollbwysigrwydd y CMP i ddyfarniad barnwrol ar y materion hynny. Ni ellid fel arall amddiffyn yr honiadau oherwydd byddai'r PII yn eithrio tystiolaeth yr amddiffyniad. Dim ond un enghraifft yw *CF.*

**E. Nid yw cwmpas "diogelwch gwladol" na'i fuddiannau'n gwbl glir.**

30. Nid oes diffiniad, yn fwriadol felly, o'r geiriau hyn. Dywedai'r Llywodraeth fod "diogelwch gwladol" yn fynegiant digon clir y gallai barnwr ei ddehongli'n hyblyg a phriodol.

31. Nid oedd yr un o'r achosion yn ymwneud â phenderfyniad ynghylch ystyr "diogelwch gwladol" na dadl ynghylch a oedd y deunydd a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau'r datganiad yn ddeunydd "diogelwch gwladol" o gwbl. Ni fynegodd yr un o'r barnwyr farn bod y penderfyniad ar ganiatáu datganiad neu ar ddatgelu wedi'i lesteirio gan ddiffyg diffiniad statudol. Mae arwyddion o ran beth yr ystyriodd y Llywodraeth fod y term yn ei gynnwys yn yr hyn a ddywedodd Mr Brokenshire, Is-Ysgrifennydd Seneddol yr Adran Gartref, mewn Pwyllgor ar 5 Chwefror 2013, Hansard col 184, ac yn Neddf Diogelwch Gwladol 1989 a Deddf Gwasanaethau Cudd-wybodaeth 1994. Un cwestiwn oedd a allai "diogelwch gwladol"

gynnwys hawliadau yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn am ddifrod eilaidd gan fom neu ddrôn. Mater i'r barnwyr ei benderfynu a fyddai hynny pe bai'n codi.

32. Roedd pryder hefyd y byddai'r CMP yn cael ei defnyddio lle y byddai niwed i fuddiannau diogelwch gwladol yn ymylol neu'n ddibwys. Ni wireddwyd y pryder hwnnw. Mae'r datganiadau sydd wedi eu caniatáu, ac y dyfarnwyd arnynt, wedi cyfeirio at natur a maint y dystiolaeth diogelwch gwladol y mae'r diffynnydd eisiau dibynnu arni. Roedd hyn yn llawer mwy nag ymylol neu ddibwys. Dof i'r casgliad, mewn achosion heb ddyfarniad, na heriwyd y rhan fwyaf o'r ceisiadau, sydd ynddo'i hun yn awgrymu'n gryf nad oedd y dystiolaeth diogelwch gwladol yn ymylol na'n ddibwys, ond yn ddifrifol ac arwyddocaol i'r achos.

**F. Ni eithriwyd y CMP o gael ei defnyddio mewn achosion habeas corpus, ond y disgwyl oedd y byddai achosion o'r fath yn brin.**

33. Nid oes cais wedi bod am CMP yn ystod cyfnod yr adolygiad a, hyd y gwn i, dim cais y tu allan i'r cyfnod, yng nghyd-destun cais am habeas corpus.

**G(i) Byddai angen i bob darn o dystiolaeth, a fyddai'n cael ei defnyddio yn yr achos caeedig yn unig, gael ei harchwilio fesul darn i weld a fyddai ei datgelu'n niweidiol i ddiogelwch gwladol, a pha ddulliau eraill y gellid eu mabwysiadu er mwyn gallu cyflwyno'r dystiolaeth, neu hanfod y dystiolaeth, i'r partïon a eithriwyd a'u cynrychiolwyr cyfreithiol.**

34. Yn wir, hyn sy'n digwydd wrth gymhwyso'r Ddeddf a'r rheolau trefniadaeth, er wrth gwrs, byddai'r penderfyniad y byddai datgelu darn o dystiolaeth yn niweidiol i ddiogelwch gwladol yn goleuo'r penderfyniad

am dystiolaeth arall a fyddai'n codi'r un broblem o ran y risg y byddai ei datgelu'n ei chyflwyno.

**G(ii) Byddai tystiolaeth a oedd yn ail neu'n drydedd law'n cael ei derbyn fel mater o drefn, heb i unrhyw bwysau fod yn cael neu gael eu rhoi iddi, ac na fyddai'n bodloni'r rheolau llys arferol ar dderbynioldeb tystiolaeth. A fyddai ffordd wahanol o ymdrin â baich y profi a safon y profi?**

35. Mae derbynioldeb tystiolaeth yn fater i'r ddeddfwriaeth bresennol a'r CPR, yn amodol i'r newidiadau a wneir gan y Ddeddf, er enghraifft gyda thystiolaeth wedi'i hymyrryd â hi ar ganol ei hanfon. Mae barnwyr mewn sefyllfa dda i benderfynu ar faterion derbynioldeb a pha bwysau i'w rhoi i ba dystiolaeth. Nid oes angen gweithredu na newid deddfwriaethol pellach i'r rheolau trefniadaeth. Byddai'r un cyfyngiadau'n berthnasol i dystiolaeth barn mewn sesiwn gaeedig â mewn sesiwn agored. Gall tystion ddod i gasgliadau, wedi eu hegluro a'u cyfiawnhau. Gallai llawer ddibynnu ar y mater dan sylw: mewn achos adolygiad barnwrol, y cwestiwn tebygol yw a oedd gan wneuthurwyr y penderfyniad seiliau rhesymol dros wneud y penderfyniad, sy'n golygu cael sail resymol dros unrhyw gasgliadau y byddent yn dod iddynt, neu y gwnaethant eu derbyn gan eraill. Mae hyn yn gyffredin gydag achosion adolygiad barnwrol. Lle y mae'r mater yn ymwneud â chwestiynau o ffaith sydd i'w penderfynu gan y barnwr, mater i'r barnwr yw pa gasgliadau y dylid neu na ddylid dod iddynt ar sail y dystiolaeth, pwy all neu all ddim gael eu cynorthwyo gan y casgliadau y daeth neu y mae'r diffynnydd yn ceisio dod iddynt ar sail y deunydd hwnnw. Gall AAau gyflwyno dadleuon ynghylch pa gasgliadau y gellir neu na ellir dod iddynt neu y dylid neu na ddylid dod iddynt.  Gallent dynnu sylw at y cyfyngiadau ar yr hawlydd drwy gynnig

eglurhad arall, sef nad yw'r hawlydd yn ymwybodol o'r mater y mae'r brif dystiolaeth yn ymwneud â hi ac y byddid yn dod i gasgliad ar ei sail.

36. Ni welais unrhyw beth yn y dyfarniadau agored na chaeedig i awgrymu bod baich y profi neu safon y profi'n cael ei drin yn wahanol, yn y naill ran o'r hawliad na'r llall, i'r hyn a fyddai'n digwydd pe byddid yn ymdrin â'r achos yn llwyr drwy'r weithdrefn agored arferol. Nid oes dim yn y Ddeddf na'r rheolau trefniadaeth a fyddai'n caniatáu gwahaniaeth o'r fath.

**G(iii) A fyddai tystiolaeth a gafwyd drwy arteithio'n cael ei derbyn?**

37. Nid oes gan y Llywodraeth hawl i ddefnyddio tystiolaeth a gafwyd, mae'n debyg, drwy arteithio; *A (Rhif 2) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2005] UKHL 71, [2006] 2 AC 221. Cyn y gallai'r Llywodraeth neu lys ddod i'r casgliad hwn, ar ôl *A (Rhif 2)* mae'n ofynnol cyflawni ymchwiliad o gwmpas ac ymarferoldeb ansicr i ffynhonnell y dystiolaeth i ddangos nad yw'n debygol y cafwyd y dystiolaeth drwy arteithio. Byddai'n rhaid i hyn gael ei wneud gan neu ar ran y Llywodraeth. Am resymau pragmataidd, fel yr eglura, nid yw'r Llywodraeth yn gwneud hyn. Yn hytrach, fel y gwnaeth yn SIAC yn achos *A (Rhif 2*), datblygodd y Llywodraeth arfer arall a ddisgrifir gan yr AA fel yr arfer a ddefnyddir bron yn ddieithriad gan y Llywodraeth. Nid yw'n ceisio dibynnu arno os oes seiliau rhesymol dros gredu *y gellid* bod wedi'i chael drwy arteithio. Yn ôl ymateb y GLD, pan fydd seiliau rhesymol dros amau y gallai tystiolaeth fod wedi'i chael drwy arteithio, y "bydd" y Llywodraeth yn ymchwilio i'r mater. Ni wn am unrhyw achos lle, ar ôl ymchwilio mor ymarferol realistig â phosib, yr aeth y llys ymlaen i benderfynu a oedd yn debygol y cafwyd

y dystiolaeth drwy arteithio neu beidio. Yn hytrach, fe fabwysiadodd ei dull pragmataidd.

38. Yn SIAC, er na welais y mater yn codi o dan y JSA, mae'n ofynnol o dan y Nodyn Ymarfer i'r Llywodraeth ddatgelu deunydd 'difeio' hyd yn oed os oedd ei darddiad yn golygu na allai ddibynnu arno ei hun. Rwy'n argymell nes ymlaen y dylid gwneud Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer gweithdrefnau CMP o dan Ran 2 y Ddeddf. Gallai hyn fod yn rhan ohono.

39. Nid oes dim yn *A (Rhif 2)* sy'n rhwystro'r Llywodraeth rhag dibynnu ar dystiolaeth o'r fath wrth ddod i gasgliadau a allai gael eu herio yn y llys nes ymlaen, yn benodol mewn adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, nid yw'n cael dibynnu arni i amddiffyn ei phenderfyniad mewn adolygiad barnwrol.

**G(iv) Sut y byddai dibynadwyedd tystiolaeth yn cael ei brofi?**

40. Nid yw'r dyfarniadau agored yn dangos i unrhyw dystion yr amddiffyniad gael eu croesholi gan adfocadau agored, a dim hawlwyr wedi rhoi tystiolaeth lafar mewn achosion o'r fath: ni ddaethpwyd ag unrhyw hawliad am iawndal i dreial. Ar wahân i hyn, mae problemau amlwg os na ellir rhoi atebion i groesholiad gan CA mewn gwrandawiad agored, a'r croesholi'n cael ei wneud heb wybod dim am y dystiolaeth bellach y gallai'r tyst ei rhoi mewn gwrandawiad caeedig. Mae cyfyngiadau amlwg o ran pa mor bell y gellid holi am fater mewn sesiwn agored pe bai ond yn ildio ateb cyffredinol ond di-fudd, sy'n rhywbeth na allai'r adfocad agored holi mwy amdano. Efallai na fyddai'r croesholi'n helpu achos yr hawlydd o gwbl a gellid gwneud penderfyniad tactegol i beidio â holi mwy. Gallai'r AA fod mewn sefyllfa well, neu beidio, i groesholi lle na ellir

cael cyfarwyddyd, neu o leiaf ddim yn hawdd, gan y parti a eithriwyd, wrth i'r croesholi symud ymlaen. Nid yw AAau yn croesholi mewn sesiynau caeedig; yn aml iawn, mae materion yn codi mewn sesiwn gaeedig na allai hawlydd roi tystiolaeth ddefnyddiol na chyfarwyddyd yn eu cylch beth bynnag.

41. Nid yw'r dyfarniadau agored, ar sail eu haeddiant, yn dangos bod unrhyw hawlwyr wedi rhoi tystiolaeth lafar mewn hawliadau adolygiad barnwrol ychwaith. Fel arfer tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir yn yr hawliadau hyn, ac roedd yr hawlwyr wedi cyflwyno datganiadau tyst ysgrifenedig. Mae cyfyngiadau amlwg ar iddynt roi tystiolaeth lafar beth bynnag. Gallent gael eu croesholi a hwythau ddim yn gwybod pa dystiolaeth a roddir mewn sesiwn gaeedig a allai fynd yn groes i'w hatebion, tystiolaeth y gallent ei hegluro ond nad ydynt yn cael cyfle i wneud. Gallai hyn fod yn rheswm credadwy dros beidio â rhoi tystiolaeth, sy'n rhywbeth na ellir ei brofi. Felly ni ellir ymdrin â sefyllfa glir o dystiolaeth anghyson drwy groesholi, nac asesu hygrededd drwy arwyddion fel ymarweddiad y tyst.

42. Fodd bynnag, nid ymarweddiad person yw'r unig arwydd o hygrededd nac yn un arbennig o ddefnyddiol: mae'r cyfyngiadau ar ddefnyddioldeb y dull hwn yn hysbys ddigon, yn enwedig lle y mae gwahaniaethau ym mhatrwm yr ymatebion ymddygiad hynny a ddylai ddangos hygrededd a dibynadwyedd, ac yn fwy fyth lle y rhoddir atebion drwy gyfieithydd. Mae hygrededd, dibynadwyedd a chywirdeb cof yn aml yn fwy defnyddiol i'w barnu ar sail gwrth-ddweud, rhoi esboniadau'n hwyr, bod yn afresymegol drwy wrth-ddweud tystiolaeth fewnol, annhebygolrwydd gwrthrychol, ac o'u mesur yn erbyn tystiolaeth allanol fel dogfennau neu yn ôl pa mor

debygol yw bod tyst yn fwy gwybodus, cywir neu ddibynadwy, neu gyda rhesymau dros ddweud anwiredd.

**G(v) A oes hawlwyr wedi galw tystion mewn achosion caeedig?**

43. Galwyd tystion arbenigol gan yr AA mewn un achos *(K, A, B).* Ni wn am unrhyw achos lle y rhoddodd dyst anarbenigol dystiolaeth dros hawlydd yn rhan gaeedig yr achos.

**H. Nid oes dyletswydd lwyr ar Swyddogion y Gyfraith i benodi AA**

44. Y bwriad oedd defnyddio diffyg dyletswydd lwyr o'r fath i ddelio â hawlydd nad oedd eisiau cael AA. Fe ddigwyddodd mewn amgylchiadau eraill ond ni ddeuthum ar ei draws mewn unrhyw achos JSA. Er i'r AAau dynnu sylw at broblemau gyda phenodi a chefnogi AAau yng Ngogledd Iwerddon, ni welais unrhyw achos lle'r oedd y Swyddog Cyfraith perthnasol wedi gwrthod penodi AA lle'r oedd yr hawlydd eisiau un. Nid yw hyn yr un fath â'r hawlydd yn dweud bod arnynt eisiau AA penodol, na'r un fath ag oedi cyn penodi AA oherwydd prinder adfocadau a aeth drwy'r broses DV. Nid yw dyletswydd lwyr yn debygol o ddatrys y naill broblem na'r llall. Soniaf am y pethau hyn nes ymlaen.

**I. A all deunydd gael ei dduo, hyd yn oed i AA?**

45. Mae hyn heb os wedi digwydd mewn achosion CMP eraill, fel yn SIAC, lle y cafodd deunydd ei dduo ar sail perthnasedd, er enghraifft lle y mae dogfen hefyd yn cynnwys pwyntiau digyswllt neu fanylion adnabod hynod sensitif. Eglurwyd y cyfiawnhad dros dduo'r deunydd; a gwelodd y barnwr beth oedd wedi'i dduo er mwyn bodloni ei hun ei fod yn wirioneddol amherthnasol. Mater i'r barnwr sy'n delio â datgelu yw bodloni ei hun bod cyfiawnhad dros y duo ar sail amherthnasedd. Mae

hyn hefyd wedi codi mewn o leiaf un achos JSA lle'r oedd y llys yn dadlau, yn y dyfarniad caeedig, er mwyn arbed amser yn herio'r pwynt hwn, na ddylid duo gwybodaeth ar seiliau amherthnasedd yn unig. Gallai'r AA ei anwybyddu fel bod yn amherthnasol. Ni fyddai'r mater o ddatgelu i'r CAwyr yn codi.

**J. Byddai'r broses yn atal setliadau oedd yn datrys y mwyafrif llethol o hawliadau sifil ar ôl y broses ddatgelu arferol, pryd y gellid asesu'r gobaith o lwyddo ar sail wybodus; ond ni fyddai'r partïon yn y sefyllfa honno o dan y CMP.**

46. Y ffaith yw bod pob hawliad iawndal CMP heblaw am un wedi setlo, mwy na'r disgwyl mae'n debyg. Cafwyd setliadau, gan gynnwys drwy dynnu'r hawliad yn ôl, mewn achosion eraill. Mae'r canlyniadau hynny'n arwain at broblemau eraill ond nid yw'r CMP wedi atal rôl bwysig setlo yn yr achosion yr oedd yn berthnasol iddynt. Mae mater yn codi gyda rôl AAau mewn unrhyw broses gyfryngu, a dof at hyn nes ymlaen.

**K. Dylai fod barnwr datgelu ar wahân fel na fyddai barnwr y treial yn cael ei effeithio o wybod pa ddeunydd y gwrthododd y llys roi caniatâd i ddiffynnydd ei ddal yn ôl, ond y gwrthododd ei ddatgelu.**

47. Gall hyn fod yn broblem lle y gwelodd farnwr y treial ddeunydd mewn gwrandawiad PII nad yw'r hawlydd yna'n ei weld. Byddai ond yn codi yn y CMP lle'r oedd y barnwr yn gwrthod rhoi caniatâd i ddiffynnydd ddal deunydd yn ôl, ond lle'r oedd y diffynnydd – yn unol â'i hawl – yn gwrthod ei ddatgelu. Ni ddigwyddodd hyn oherwydd ni ddaliwyd deunydd o'r fath yn ôl, a phe bai'n digwydd byddid yn dilyn prosesau eraill, gan gynnwys gwneud consesiynau'n ofynnol. Nid yw'r AAau yn ei godi fel problem. Fodd bynnag, mae'n glir bod barnwyr ac adfocadau, fel yn *Logan* (achos

45) yn effro i'r broblem bosib hon a gellid disgwyl iddynt beidio â gwrando treial pe byddent yn gweld tystiolaeth ar fater a fyddai'n ei gwneud yn annheg yn eu barn hwy iddynt wrando'r treial. Nid oes angen rheol ar gyfer hynny, dim ond ymwybyddiaeth o'r broblem a allai godi, ac ar ôl ystyried beth sydd gan yr AA a'r diffynnydd i'w ddweud, llunio barn ynghylch a ddylid cael barnwr treial gwahanol yn yr achos. Nid oes angen cael "barnwr datgelu" ar wahân bob tro.

**L. Dylai fod yn agored i farnwr ystyried rôl bosib PII, oherwydd gallai fod achosion lle y gallai'r barnwr fod yn fodlon y gellid eu gwrando'n deg heb fod angen CMP, drwy eithrio deunydd o dan PII.**

48. Nid yw'r ffaith ei bod yn gymharol hawdd i Weinidog fodloni'r amod yn adran 6(7) yn golygu nad yw'r barnwr yn ystyried PII wrth wneud datganiad adran 6 neu mewn penderfyniad ar ddatgelu. Nid oes angen a ni phrofwyd bod angen gofyniad penodol i farnwyr ystyried proses PII ar gyfer y pwrpas hwnnw. Mae'r achosion yn aml iawn yn ystyried a allai PII fod yn ateb. Fodd bynnag daeth barnwr i gasgliad, oherwydd sylwedd y deunydd diogelwch gwladol perthnasol, y byddai dilyn proses PII yn tanseilio pwrpas y weithdrefn a ddeddfwyd gan y Senedd. Mae sylwadau'r barnwyr fwy neu lai'n cadarnhau'r syniad y defnyddir y CMP yn niffyg PII ond yn eithrio nodweddion hanfodol rhag cael eu hystyried a llawer o'r manylder cyd-destun y mae angen i'r diffynnydd ddibynnu arno fel amddiffyniad. Roedd y Ddeddf ei hun, yng ngolwg y Senedd a'r llysoedd, yn cael ei gweld i fod yn taro cydbwysedd rhwng gwarchod buddiannau diogelwch gwladol a sicrhau tegwch mewn achos (e.e. *McGartland* achos 4).

49. Roedd un ymatebwr yn feirniadol o ddull y farnwriaeth o weithredu'r ddarpariaeth hon gan awgrymu y dylai barnwyr fynnu ar fwy o fanylder a rhesymau fel sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol i bwrpas adran 6(7). Ni welais unrhyw beth i feirniadu'r dull barnwrol o ddehongli neu gymhwyso iaith y Senedd a ddefnyddir yn y Ddeddf. Gallai'r Senedd fod wedi mynnu mwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond ni wnaeth. Ymddengys bod llawer o'r feirniadaeth yn deillio o'r farn y dylai'r broses PII fod wedi cael ei mabwysiadu yn lle'r CMP. Mater o egwyddor yw hyn, a wrthodwyd gan y Senedd, ond nid un y dylid ei chyflwyno gan farnwr mewn ffordd a fyddai'n tanseilio pwrpas y Ddeddf.

**M. Dylai fod gan y llys bŵer i beidio â gorchymyn CMP, hyd yn oed os bodlonir yr amodau yn adran 6.**

50. Arweiniodd hyn at roi disgresiwn statudol i'r llys i wrthod caniatáu datganiad, hyd yn oed os oedd yr amodau yn adran 6 yn cael eu bodloni Ond nid oes unrhyw achos wedi bod lle y defnyddiwyd y disgresiwn i beidio â gwneud y datganiad. Nid yw'r disgresiwn yn cael ei ymarfer os nad yw'r amodau statudol wedi cael eu bodloni. Fel y noda'r llysoedd, e.e. *XH* (achos 7), dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid ymarfer y disgresiwn i beidio â gwneud datganiad unwaith y byddai'r ddau amod wedi cael eu bodloni. Er bod cael pwerau disgresiwn yn ddealladwy, i ddarparu ar gyfer amgylchiadau annisgwyl, ni chafodd ei ddeddfu ar gyfer cyfres benodol o amgylchiadau, na rhai a gododd o gwbl.

## N. A fyddai'r cyfryngau'n ddigon ymwybodol o'r penderfyniadau ar geisiadau am ddatganiad ac ar gamau dilynol?

51. Nid oes unrhyw fesurau arbennig o hysbysu'r cyfryngau o geisiadau adran 6 na phenderfyniadau ar geisiadau am ddatganiad, nac o unrhyw wrandawiadau neu ddyfarniadau agored ar gamau eraill, neu'n wir ar y prif haeddiannau. Ymdrinnir â'r rhain fel pob achos arall; mae'r cyfryngau'n sganio'r rhestri achosion dyddiol; gallai'r partïon eu hysbysu; gellid gofyn i swyddfa'r wasg farnwrol. Gallai'r partïon agored eu hysbysu, pe byddent yn dewis, o ba orchmynion a wnaed. Ni welaf unrhyw arwydd bod hyn wedi creu unrhyw drafferthion i'r cyfryngau. Bydd rhannau o achos o hyd yn y CMP fydd yn cael eu gwrando mewn sesiwn agored. Rhestrir cyflwyno dyfarniadau agored yn y ffordd arferol, gyda chopïau ar gael. Fel arfer, os oes dyfarniad caeedig, fe ddylai fod dyfarniad agored, ac eithrio lle y mae'r dyfarniad caeedig ond yn ymwneud â'r manylion datgelu. Dylai dyfarniad neu gyfres o ddyfarniadau o'r fath a wneir ar y pryd, gael eu cofnodi mewn gorchymyn, eu hanfon at y CAwyr a dod bod ar gael i'r cyhoedd fel gydag unrhyw orchymyn llys arall. Wrth gwrs, ni fyddai'n nodi beth oedd cynnwys y gorchymyn, dim ond bod penderfyniadau ar ddatgelu wedi eu gwneud. Ni welaf unrhyw ddadl dros hysbysu'r cyfryngau'n benodol am yr achosion hyn, na'r gorchmynion neu ddyfarniadau ynddynt, mewn ffordd wahanol i'r hyn sy'n digwydd gydag achosion agored eraill. Os yw rhywrai nad ydynt yn barti eisiau gweld gorchymyn llys, gellir gwneud cais yn y ffordd arferol o dan CPR Rhan 5.

52. Dylai'r dyfarniad agored nodi unrhyw beth yn y dyfarniad caeedig na fyddai ei ddatgelu'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol. Mae'r Gwasanaeth Diogelwch neu Gudd-wybodaeth yn fetio'r dyfarniad agored

drafft i sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw beth niweidiol i ddiogelwch gwladol. Mae'r dyfarniad caeedig, ar ôl y broses arferol o gywiro unrhyw wallau yn y drafft, yn mynd i'r partïon caeedig ar yr un pryd. Gall AAau dynnu sylw at unrhyw ran o'r dyfarniad caeedig y maen nhw'n dadlau y gellid ei gynnwys yn y dyfarniad agored cyn ei ryddhau. Gall y barnwr, ar ôl ystyried barn y diffynnydd ar y goblygiadau i ddiogelwch gwladol, gael barn am y pwyntiau hyn.

## Crynodeb

53. Fy arfarniad cyffredinol o'r pryderon hyn a gododd wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd yw na chawsant eu gwireddu ar lawr gwlad. Efallai na chafodd nifer yr achosion yng Ngogledd Iwerddon ei ragweld ond roedd yn amlwg y byddai achosion yn ymwneud â Helyntion y gorffennol, ac yn codi ar ôl Cytundeb Stormont, yn dod o fewn cwmpas Rhan 2 y JSA. Ni thrafodwyd achosion teulu ac ychydig iawn y mae'r JSA yn cyffwrdd arnynt o gwbl er bod ansicrwydd ynghylch cwmpas yr awdurdodaeth cyfraith gyffredin ddiamheuol a'i ymwneud, os o gwbl, â'r Ddeddf. Roedd yn anochel y byddai achosion yn codi na ellid rhagweld eu natur yn hawdd. Mae llawer o'r achosion yng Nghymru a Lloegr yn ymwneud ag eithafiaeth Islamaidd ac ymateb honedig y DU i hynny, yma a thramor. Nid yw cyfanswm yr achosion mor fawr fel y byddai'n cyfiawnhau unrhyw bryder am gamddefnyddio'r weithdrefn. Nid oedd yn thema mewn penderfyniadau barnwrol. Ni chwynodd yr AAau y gofynnwyd am ddatganiadau adran 6 yn ddi-sail nac i guddio unrhyw gamweddu.

54. Yr hyn na chafodd ei ragweld oedd nifer yr achosion a setlodd; ar y llaw arall, pryder y Senedd oedd y byddai'n gweithio i rwystro'r broses setlo arferol. Nid yw'r ffaith bod achos wedi'i setlo'n dangos bod y CMP yn

ddigyfiawnhad. Mae'n dangos, yn yr achosion hynny, na fyddai cyfiawnhad dros ddadlau bod setliad annheg wedi'i orfodi ar ddiffynnydd anfodlon, heblaw efallai lle y gallai neu y byddai angen datgelu deunydd diogelwch gwladol mewn achos datgelu *AF (Rhif 3)*.

55. Nid yw diffyg diffiniad o "ddiogelwch gwladol" wedi profi i fod yn broblem ar lawr gwlad.

56. Ni welaf unrhyw reswm dros amau y gallai barnwyr ddelio â materion derbynioldeb, pwysau a hygrededd, er na fyddai'r broses arferol o dystiolaeth lafar a chroesholi wedi cael ei dilyn. Dengys eu dyfarniadau eu bod yn hollol ymwybodol o'r cyfyngiadau ar yr hawlydd a gwyro o'r drefn arferol o gynnal treial teg.

57. Penodwyd AA ym mhob achos.

58. Nid yw diffyg proses PII wedi golygu na wnaeth barnwyr ystyried ei photensial na photensial dulliau eraill. Ond mae hyn yn codi'n bennaf yn y cam datgelu ac ni ellir yn hawdd ei wneud yn y cam datganiad, cyn i'r holl dystiolaeth gael ei rhoi i'r AA a'r broses ddatgelu fanwl wedi'i chwblhau. Roedd y ddadl yn y Senedd yn canolbwyntio ar y cam datganiad ond nid yn y cam hwnnw y mae'r dulliau hyn fel arfer yn cael eu hystyried yn synhwyrol.

59. Ni welaf unrhyw gyfiawnhad dros y feirniadaeth mewn sylwadau rhai ymatebwyr bod y rhag-amod, ac yn bwysicach, y ddau amod statudol, yn cael eu bodloni'n ddiamheuol. Yn lle awgrymu dull statudol a barnwrol gor-hyblyg, mae'n awgrymu bod y farnwriaeth annibynnol yn derbyn achosion sy'n haeddu, mewn gwirionedd, cael datganiad. Pryder mwy fyddai pe bai diffynyddion, yn barhaus, yn dwyn achosion a wrthodwyd

gan farnwyr fel rhai y tu allan i'r Ddeddf, neu ddim yn seiliedig ar ddeunydd diogelwch gwladol.

# Adran 4: Pryderon am weithrediad y Ddeddf a godwyd yn yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth

## A. Amseriad yr Adolygiad hwn

1. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr y pwynt hollol gywir y dylai'r adolygiad hwn fod wedi dechrau'n gynt. Dylai fod wedi dechrau "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol" ar ôl 24 Mehefin 2018. Ni ddechreuodd yn gynt na'r 25 Chwefror 2021, bron i dair blynedd yn ddiweddarach. Nid yw hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yn ôl ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder, achoswyd yr oedi gan y ffaith nad hi yw'r adran noddi ar gyfer yr Asiantaethau Diogelwch a Chudd-wybodaeth, ac nad hi ei hun sy'n cynhyrchu'r data. Roedd pwy a ddylai adolygu, a sut y dylid talu am yr adolygiad, wedi bod yn destun trafodaeth gyda chyrff perthnasol tan fis Tachwedd 2020. Ni welaf unrhyw werth mewn sôn mwy am yr oedi hwn.

## B. Cyflawni'r adolygiad hwn

2. Cwynai'r AAau yn eu hymateb i'r alwad am dystiolaeth fod y Llywodraeth wedi ceisio cyfyngu ar gyswllt rhwng un o'r ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth, a SASO, i bwrpas yr adolygiad hwn, ar y sail bod risg y gallai deunydd diogelwch gwladol gael ei ddatgelu'n ddamweiniol. Fe wnaed y pwynt gan yr AAau eu bod, ar sawl achlysur, wedi siarad ag amrywiol gyrff yn gyhoeddus, a hynny'n wybod i'r Llywodraeth, heb unrhyw awgrym na ddylent wneud hynny.

3. Nid wyf i mewn sefyllfa i, ac nid yw'r dasg yn gofyn i mi, ddyfarnu ar anghydfod o'r fath. Fodd bynnag, ni welais ac ni chefais wybod gan unrhyw AA am dystiolaeth bod deunydd diogelwch gwladol wedi'i ddatgelu damweiniol. Mae eu sylw o fod wedi siarad yn gyhoeddus am eu swyddogaeth a'u hachosion yn gywir. Ni chefais wybod am unrhyw achos lle yr ystyriwyd iddo gynnwys unrhyw ddatganiad oedd yn niweidiol i ddiogelwch gwladol.

4. Cwynai'r AAau hefyd am ddiffyg cydweithrediad y Llywodraeth wrth gynhyrchu bron iawn holl gynnwys yr atodlen achosion yn Atodiad 4 (Rhan A). Mae'r ddogfen hon yn hanfodol i adolygu'r Ddeddf ac rwy'n ddiolchgar i'r AAau am eu rôl yn ei chynhyrchu. Fe ymatebodd y GLD a'r NICTS i fy nghais am fwy o gymorth drwy ddarparu llawer iawn o wybodaeth bellach a manylion defnyddiol, ac rwy'n ddiolchgar hefyd iddynt hwythau.

## C. A ddylid ail-adrodd adolygiadau pum mlynedd?

5. Diben yr adolygiad pum mlynedd hwn yw gweld sut y gweithiodd y Ddeddf dros amser, pa broblemau a gododd ar lawr gwlad, a sut y llwyddodd neu beidio i gyflawni'r amcanion oedd mewn golwg. Ni welaf unrhyw bwrpas penodol mewn adolygiad pellach o'r fath oni bai fod newid o bwys yn codi. Ond mater i'r Senedd yw hynny yng ngoleuni'r Adroddiadau Blynyddol rheolaidd y bydd yn eu derbyn.

## D. Yr Adroddiadau Blynyddol

6. Dylai'r rhain barhau oherwydd dylai'r Senedd a'r cyhoedd gael eu hysbysu o ba achosion y mae'r weithdrefn hon yn delio â nhw, sy'n

wahanol iawn i rai arferol. Ond mae'r Ddeddf eisoes yn darparu ar gyfer hyn.

7. Cafwyd beirniadaeth gyfiawn o faint o amser sy'n pasio rhwng diwedd y flwyddyn adrodd a chynhyrchu'r adroddiad am y flwyddyn honno. Mae'r oedi wedi gwaethygu, o'r 4-6 mis dros gyfnod yr adolygiad i 17 a 10 mis ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol hyd at 24 Mehefin 2020. Nid yw'r cyfnodau olaf hyn yn "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol" ar ôl 24 Mehefin yn y flwyddyn berthnasol. Byddai oedi o chwe mis ar y mwyaf yn cytuno â'r frawddeg hon.

8. Fodd bynnag, mae'r oedi'n ymwneud yn rhannol â'r cynnwys. Rhoddir y ddyletswydd statudol ar Ysgrifennydd Gwladol amhenodol ond ymddengys mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder sydd wedi cymryd yr awenau. Ond nid oes gan yr MoJ y wybodaeth berthnasol. Mae'n comisiynu adroddiad gan y GLD, sy'n cymryd mis neu fwy i gynhyrchu drafft i'w gylchredeg i'r cyrff llywodraeth perthnasol, ar gyfer cwblhau a chadarnhau'r wybodaeth. Cynhyrchwyd yr adroddiad cyntaf, yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen yn statudol, ond dim mwy, o fewn deufis. Roedd beirniadaeth ddealladwy nad oedd y wybodaeth yn dra defnyddiol, ac yn ei hymateb, roedd yr MoJ wedi ceisio darparu mwy. Fe wellodd hyn yr Adroddiadau'n fawr ond aeth eu cynhyrchu'n broses hirach. Er hynny ni ddylai hynny fod wedi cymryd mwy na 3-4 mis, pe bai'r system ar gyfer cofnodi'r wybodaeth berthnasol yn ei lle.

9. Roedd un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth hefyd yn feirniadol o'r wybodaeth brin yn yr Adroddiadau Blynyddol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf: y dylent gynnwys mwy o fanylion, wedi ystyried y goblygiadau i ddiogelwch gwladol, am amgylchiadau gofyn am neu roi datganiad. Fel

arall, roedd y CMP o dan y Ddeddf yn llai tryloyw nag y dylai fod. Roedd ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth wedi gwneud pwynt tebyg.

10. Y brif broblem gyda chynnwys yr adroddiad yw ei bod yn amhosib tracio gweithrediad y Ddeddf yng nghyswllt achosion unigol, nac ychwaith yn ôl eu pwnc. Mae'n anodd cysylltu'r hyn sy'n digwydd pob blwyddyn i'r hyn a ddigwyddodd mewn blynyddoedd cynt. Mae hyn yn rhannol oherwydd na chrëwyd y gofyniad statudol gyda hynny mewn golwg. Mae'r strwythur yn anwybyddu'r ffaith bod camau perthnasol yn digwydd mewn mwy nag un flwyddyn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys yr holl orchmynion, yn enwedig rhai a wneir drwy gydsynio neu ar sail y papurau. Synnais o weld effaith y cyfyngiadau hynny ar berfformiad yr adolygiad hwn.

11. **ARGYMHELLIAD: Gwella'r Adroddiadau Blynyddol drwy fabwysiadu fformat cyffredinol Atodiad 4 (Rhan 4) i'r adolygiad hwn, heb fod yn rhy benodedig am y mater. Dylid cofnodi data ar daenlen syml fel y daw i mewn. Ni ddylai fod angen archwilio pob ffeil achos ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Dylid cael un pwynt cyswllt, a ddylai fod o fewn y GLD, sy'n gweithredu ar ran llawer o bartïon yr amddiffyniad. Dylai fod gan y GLD wedyn systemau yn eu lle, y tu allan i'w ffeiliau achos, ar gyfer cofnodi pwnc cyffredinol yr achos, y partïon (yn ddi-enw os gorchmynnwyd hynny) mewn achos, dyddiadau datganiadau a cheisiadau adran 6, y penderfyniadau ar ddatgelu, adolygu neu ddirymu, a wnaed dyfarniad dros dro, terfynol, caeedig neu agored, a'r canlyniadau gan gynnwys a setlwyd yr achos. Dylai'r data adnabod gorchmynion a wnaed drwy gydsynio neu'n ddiwrthwynebiad, ond nid oes angen cofnodi cais neu ganiatâd gan yr AA i gyfathrebu â'r CAwyr. Dylai'r data nodi ar gyfer pob dyfarniad agored a oedd dyfarniad caeedig neu beidio.**

**Dylid rhoi cyfeiriadau niwtral ar gyfer dyfarniadau agored. Wrth i achosion barhau o un flwyddyn i'r llall, byddai'r adroddiadau'n dilyn fformat treigl, gydag achosion a ddaeth i ben yn cael eu gollwng a data newydd achosion presennol yn cael ei ychwanegu. Mae hyn wrth gwrs i gyd yn dibynnu ar unrhyw orchmynion llys a wneir mewn achos. Dylai chwaer-adrannau'r GLD yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban wneud yr un peth ac anfon y wybodaeth ymlaen at y GLD fel y gall yr MoJ eu casglu ynghyd yn hwylus.**

## E. Penodi AAau: y 'gwiriad llygru' a cheisiadau am AA penodol

12. Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu'r arfer o wirio a wnaeth y rhan a chwaraeodd yr AA penodedig mewn achosion caeedig blaenorol roi gwybodaeth o ddeunydd caeedig i'r AA hwnnw neu honno, fel bod risg y gallai gael ei ddatgelu'n ddiarwybod i'r CAwyr neu eu cleient, pan fyddant yn cwrdd i drafod achos newydd, fel yr oedd CPR82.11(1) a Gorchymyn GI 126.10(1) wedi'i ragweld cyn y mae'r deunydd caeedig yn yr achos yn cael ei roi i'r AA. Gelwir hwn yn "wiriad llygru". Ni ddarperir ar ei gyfer yn y Ddeddf na rheolau'r llys. Mae'n golygu y gallai'r CAwyr wynebu'r benbleth o beidio â siarad â'r AA penodedig neu orfod cael un arall wedi'i benodi yn lle'r un a ddewiswyd. Gall y broses hefyd gymryd wythnosau, hyd yn oed mewn achos cymharol syml. Yn ôl yr AAau, mae canlyniadau'r gwiriadau'n ymddangos yn anghyson, yn fympwyol hyd yn oed; ni roddir rhesymau; gallent ofyn am wrthdroi'r penderfyniad, ond ni wyddent am unrhyw un oedd wedi cael ei wrthdroi.

13. Ar y llaw arall, mae'r Llywodraeth yn ceisio darbwyllo CAwyr i beidio â gofyn am AA penodol. Mae rheswm amlwg pam fod y CAwyr yn gofyn am AA sydd â phrofiad diweddar yn y maes sy'n berthnasol i'r hawliad.

Ni welaf pam y dylid darbwyllo CAwyr i beidio â gofyn am AA penodol ac nid wyf innau am gymell yn erbyn hynny, heb sôn am wneud unrhyw argymhelliad. Ond mae gofyn am AA penodol, yn enwedig ond nid yn unig os yw'n seiliedig ar fod yn flaenorol gyfarwydd â'r staff neu'r ardal ddaearyddol dan sylw, yn pwysleisio efallai bod angen "gwiriad llygru". Bydd y CAwyr yn gwybod am y risg o oedi a gwrthod os gwneir cais o'r fath, a allai ynddo'i hun gyfiawnhau "gwiriad llygru".

14. Credaf fod yr arfer hwn eisoes wedi'i fabwysiadu ar gyfer achosion yn SIAC, er enghraifft; mae wedi parhau gyda Deddf 2013. Gallaf weld bod angen rhyw fath o wiriad tebyg lle y gallai deunydd diogelwch gwladol o'r achos blaenorol fod yn rhan o'r achos diweddarach. Mae sail briodol dros bryderu'n wirioneddol, y mae'r arfer yn ceisio ei gywiro, ac na ellir ei ateb dim ond ar y sail bod yr AAau i gyd wedi bod drwy'r broses DV. Credaf hefyd fodd bynnag y dylid, yn niffyg unrhyw awgrymiadau heb sôn am dystiolaeth, ymddiried mewn AAau i fod yn wyliadwrus a gwybodus am y risg o ddatgelu'n ddiarwybod drwy gwestiynau, atebion, tawelwch neu ystumiau. Ond efallai na fyddai hynny'n ddigon. Ni chredaf fodd bynnag y gellir gadael y pwynt ar hynny. Felly gwnaf yr argymhelliad canlynol ac eto, heb fod yn rhy benodedig o ran ei ffurf.

15. **ARGYMHELLIAD: Dylid egluro'r arfer hwn mewn canllawiau wedi eu cymeradwyo gan y Twrnai Cyffredinol a'r Adfocadau Cyffredinol, a byddai hefyd yn syniad da eu cytuno â SASO, ar y sail bod "gwiriad llygru" yn offeryn rhesymol i amddiffyn diogelwch gwladol yn y cysylltiad rhwng CAwyr, eu cleientiaid a deunydd caeedig. Dylai'r canllawiau gyfleu o dan ba amgylchiadau y byddai'r gwiriad yn cael ei wneud, ei amserlen fwriedig, bod angen ymateb cryno ond gwybodus gyda rhesymau, ac adolygiad sydyn. Swyddogion y**

**Gyfraith a ddylai fod yn gyfrifol, yn rhagweithiol, am y broses, oherwydd nhw sy'n penodi'r AA. Ni ddylai'r gwiriad fod yn awtomatig ar gyfer pob penodiad, ond byddai cais am AA penodol yn ymddangos i fod yn 'sbardun' rhesymol dros wneud "gwiriad llygru".**

16. **Dylai cofnod o ba AA oedd wedi cynrychioli buddiannau pwy ac ym mha achos alluogi'r corff sy'n gyfrifol am y deunydd cudd-wybodaeth i rybuddio'n ddi-oed os oes posibilrwydd y gallai problem godi, a phenodi AA nad oes problem bosib o'r fath wedi bod yn eu cylch.**

## F. Newidiadau gweithdrefnol: cais am ddatganiad adran 6

### F(i) Cyflwyno amddiffyniad caeedig drafft

17. Wrth ymateb i'r alwad am dystiolaeth, fe gododd y Llywodraeth y pwynt ei bod yn ofynnol gan rai llysoedd bod amddiffyniad caeedig drafft yn cael ei gyflwyno cyn gwneud datganiad o dan adran 6. Nid yw'r Ddeddf na'r rheolau trefniadaeth yn darparu ar gyfer hyn. Roedd y llysoedd yn gofyn am amddiffyniad caeedig drafft lle'r oeddent yn ystyried y byddai amddiffyn caeedig drafft neu grynodeb drafft yn cynorthwyo i ddyfarnu ar y cais am ddatganiad adran 6, ynghylch a oedd yr amodau statudol ar gyfer datganiad yn cael eu cwrdd. Mae'r cwestiwn wedi codi lle'r oedd dadlau ynghylch pa faterion oedd yn cael eu herio o ystyried y deunydd oedd ar gael i'r cyhoedd, a pha ganolog i'r materion a heriwyd a fyddai'r deunydd caeedig. Gwnaed gorchmynion o'r fath yn *Kamoka*, *Belhaj* ac *Abdule*, er enghraifft, (achosion 10–11, 19 a 37). Roedd y Llywodraeth

yn poeni bod hyn yn tanseilio egwyddor y Ddeddf; ac fe gyflwynai risg i ddiogelwch gwladol oherwydd yr ansicrwydd am status amddiffyniad o'r fath a fyddai'n cael ei gyflwyno cyn y datganiad CMP. Roedd hefyd yn anghymesur pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu peidio â herio'r achos, pe gwrthodid y datganiad adran 6. Gallai'r materion yr oedd angen i'r llys eu hystyried er mwyn gwneud datganiad adran 6 gael eu disgrifio'n ddigonol yn y Datganiad Rhesymau oedd yn cyd-fynd â'r cais am ddatganiad.

18. Ar y llaw arall, roedd yr AAau eisiau rheol newydd yn gofyn cyflwyno amddiffyniad caeedig drafft bob tro.

19. Yn amlwg gall amddiffyniad caeedig drafft fod yn ddefnyddiol i adnabod materion y gellid barnu'r cais adran 6 yn eu herbyn. Ni ellir ystyried ei fod o reidrwydd yn anghymesur. Ond mae'n amlwg hefyd nad oes ei angen bob tro. Mae barnwyr wedi ystyried bod angen un arnynt i bwrpas y datganiad, ar wahân i'r Datganiad Rhesymau. Gwelaf bob rheswm i'w galluogi i wneud y dyfarniad hwnnw lle bo'r achos yn cyfiawnhau hynny, ar sail eu dadansoddiad yng ngham y datganiad. Dylid ei ystyried drwy gais penodol gan y CAwyr, yn gweithredu ar gyngor yr AAau y byddai'n ddefnyddiol. Rwy'n deall, oni bai ei fod yn cael ei orchymyn yn awtomatig, neu os nad oes gwrthwynebiad i'r cais adran 6, y gallai cais am orchymyn i gyflwyno amddiffyniad caeedig olygu gorfod gohirio gwrando'r cais adran 6, i roi amser i gydymffurfio ag unrhyw orchymyn ar gyfer amddiffyniad drafft caeedig. Gallai'r barnwr hefyd ddelio â'r mater hwn ar sail y papurau, ymlaen llaw. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n debygol y bydd ond yn bwynt byr. Mae arbediad amser posib drwy gael gofyniad awtomatig yn cael ei wrthbwyso gan yr amser a wastraffir yn eu paratoi'n ddiangen.

20. **ARGYMHELLIAD: Dylai rheolau'r llys ddarparu fel y gallai'r llys ei gwneud yn ofynnol bod amddiffyniad caeedig drafft neu grynodeb drafft yn cael ei gyflwyno, neu y gellid pledio mater penodol mewn drafft, cyn iddo ystyried neu ddyfarnu ar gais adran 6. Dylai'r rheol hefyd ddarparu na all y drafft fod yn destun unrhyw gais i'w ddatgelu fel deunydd agored neu gymhariaeth â fersiynau di-ddrafft diweddarach.**

**F(ii) Y deunydd y dibynnir arno yn y cais adran 6**

21. Roedd yr AAau yn dadlau y dylai fod yn ofynnol i'r diffynnydd / ceisydd am y datganiad, o dan y rheolau trefniadaeth, gyflwyno nid yn unig eu detholiad o'r deunydd caeedig yr oeddent am gyfeirio ato yn y treial, ond detholiad addefedig gynrychiadol o ystod lawn y deunydd hwnnw, ynghyd â syniad o natur yr hyn nad oeddent yn ei gyflwyno yn y cam hwnnw.

22. Ni welaf unrhyw angen dros na mantais mewn "detholiad cynrychiadol". Ym mhob achos lle y caniatawyd datganiad, roedd y deunydd y dibynnid arno'n cyfiawnhau'r datganiad. Mae'n anodd gweld beth y gellid ei ennill i'r pwrpasau hynny o ystyried deunydd ychwanegol. Ni welaf sut y gellid barnu natur "gynrychiadol" y deunydd, neu beidio, yng ngham y datganiad adran 6. Os yw'r deunydd sensitif ond yn rhan fach o'r deunydd, bydd y gweddill yn cael ei ddatgelu fel deunydd agored. Bydd y broses ddatgelu'n penderfynu beth na ellir aros yn gaeedig ond y gellid parhau i ddibynnu arno. Gallai adolygiad benderfynu a oes dal angen CMP.

23. Gallai'r llys ddeall y sefyllfa'n well pe bai'n cael gwybod beth yw natur yr hyn na chyflwynir yng ngham y datganiad, os nad yw'n cael ei oleuo ar

hyn o bryd. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy narbwyllo bod angen. Gall y llys o hyd ofyn am fwy o wybodaeth, a disgwyl iddi gael ei rhoi; ond ni welais ddim i awgrymu fod llys yn penderfynu ar gais yn teimlo'n ansicr am y penderfyniad hwnnw oherwydd diffyg gwybodaeth bellach, neu'n teimlo nes ymlaen y rhoddwyd darlun camarweiniol iddo yng ngham caniatáu'r datganiad.

**F(iii) Ceisiadau lluosog am ddatganiadau adran 6**

24. Cytunaf â'r Llywodraeth y dylai'r rheolau trefniadaeth nodi'n glir y dylai unrhyw ddatganiad adran 6 a wneir yn yr Uchel Lys barhau er mwyn delio ag unrhyw apêl neu apêl bellach. Dylai'r llys apêl fod yn gallu ei adolygu neu ei ddiddymu i bwrpas gwrando apêl. Nid wyf yn glir a yw hyn wedi bod yn broblem i apêl o unrhyw benderfyniad gwrandawiad cyntaf. Os nad yw'n glir, nid wyf yn siŵr pa eiriau sy'n creu'r amwysedd. Efallai fod y broblem, os yw'n bodoli, yn codi o'r iaith yn adrannau 6 a 7 yn hytrach nag o'r rheolau. Nid yw darpariaethau datganiad Rhan 2 y Ddeddf wedi bod gerbron y Goruchaf Lys eto, sydd â'i rheolau ei hun. Ni chefais fy narbwyllo bod angen argymhelliad neilltuol ar hyn o bryd ond pe bai'r broblem yn codi a bod angen diwygio'r Ddeddf neu'r rheolau, ymddengys bod dadl synhwyrol dros y newid.

25. Roedd y Llywodraeth hefyd yn dadlau y dylid ond cael un datganiad adran 6 mewn unrhyw un gyfres o achosion i osgoi'r hyn a ddigwyddodd yn *Kamoka* (achos 10-11) lle'r oedd y datganiad adran 6 cyntaf wedi'i gyfyngu i'r cais a daflwyd allan. Pan fethodd y cais a daflwyd allan, bu'n rhaid gwneud ail gais adran 6 ar gyfer y prif wrandawiad.

26. Gallaf weld y byddai un cais yn ddymunol yn gyffredinol. Ond ni allaf weld y dylai fod unrhyw reol bendant a diwyro ar y peth. Un pwrpas

gwneud cais i daflu hawliad allan yw lleihau'r gost a'r amser y mae'n ei gymryd i herio'r achos. Rhaid gadael hyn i farn rheolaeth achos y barnwr mewn unrhyw achos.

## G. Newidiadau gweithdrefnol a swyddogaethau'r AA

27. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y byddai mwy o eglurder ynghylch rôl AAau yn fanteisiol. Nid wyf yn siŵr a oedd eisiau hynny fel bo angen rhestr hollgynhwysfawr o swyddogaethau'r AA. Roedd yr amheuon yn cynnwys eu rôl mewn ADR a chyfryngu, drafftio plediadau, drafftio dadansoddiad cyfreithiol agored i'w gyfathrebu drwy'r dull LPP (fel y'i gelwir) i'r parti agored, a chyfarwyddyd arbenigwyr agored. Fe ddeliaf â'r rhain yn eu tro. Ar y cyfan, maen nhw'n cyfiawnhau newidiadau penodol i'r rheolau. Ond ni welaf unrhyw werth mewn rhestr hollgynhwysfawr oni bai y gwn, ac ni wn hynny, nad oes unrhyw beth arall a allai godi y dylid ei ychwanegu.

### G(i) Plediadau Caeedig a Dadleuon Agored

28. Roedd yr AAau yn dadlau y dylid diwygio rheolau'r llys fel y gallent gyflwyno seiliau her neu hawliad a oedd yn codi o'r deunydd caeedig ond nad yw'r CAwyr yn ymwybodol ohonynt. Maen nhw hefyd yn gofyn am yr hawl i ddrafftio a chyfathrebu dadleuon cyfreithiol i'r partïon agored.

29. Cytunaf â'r mater o blediadau caeedig a seiliau herio. Fe ddigwyddodd mewn un achos o leiaf. Af ychydig ymhellach yn fy argymhelliad. Fodd bynnag, ni welaf werth mewn newid y rheolau i ganiatáu cyflwyno dadleuon cyfreithiol agored i'r CAwyr. Nid oes angen i'r AAau ddyblygu dadleuon y CAwyr, pa mor well bynnag fyddai eu gwaith drafftio neu eiriolaeth. Os ydynt yn meddwl bod y CAwyr wedi colli pwynt agored,

gallent geisio cyfathrebu hynny, drwy unrhyw ddull oedd ar gael. Yn amlwg, ni allai cyfathrebu o'r fath ddigwydd ar y pwyntiau cyfreithiol sy'n codi o ganlyniad i fod wedi gweld deunydd caeedig. Ond mae pwynt yn codi am ddefnyddio'r llwybr LPP, sy'n gofyn am newid rhywfaint ar y rheolau, a dof at hyn yn y man.

30. **ARGYMHELLIAD: Dylid diwygio rheolau'r llys fel yr awgryma'r AAau. Dylai fod gan y llys hefyd hawl i'w gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno plediadau caeedig a seiliau herio. Byddai hyn o werth er mwyn crynhoi'r dadleuon a gyflwynir gan yr AA hefyd, o ran y ffeithiau ac er mwyn rhoi fframwaith i'w dadleuon cyfreithiol. Gallai'r seiliau a'r plediadau caeedig hyn ategu'r rhai agored, gan dderbyn pwyntiau newydd neu rai a fynegir fel rhai amgen i'r rhai mewn gwrandawiad agored, yng ngoleuni'r deunydd caeedig. Fodd bynnag ni ddylid caniatáu iddynt wrthdaro â'r plediadau agored na'r seiliau.**

**G(ii) Tystiolaeth**

31. Cyfeiria'r AAau at allu galw tystiolaeth, sy'n fwyaf tebygol o fod yn dystiolaeth arbenigol, ond gan honni bod y pŵer mwy neu lai'n ddychmygol ac ond wedi'i ddefnyddio yn *K, A & B*. Maen nhw'n awgrymu peidio â newid y rheolau ond y dylid tynnu sylw at y gwahaniaeth ymarferol rhwng pŵer o dan y rheolau a sylwedd ei ymarfer. Rwy'n cofnodi'r pwynt. Maen nhw hefyd yn awgrymu y dylent fod yn gallu cyfarwyddo arbenigwyr agored; ond ni welaf pam na ddylid hysbysu'r CAwyr o'r dull tystiolaeth agored hwn, drwy'r dulliau cyfathrebu arferol, fel y gallent ei ddefnyddio.

**G(iii) Rôl AAau mewn cyfryngu**

32. Mae ADR, yn benodol cyfryngu, yn cael ei annog mewn hawliadau iawndal sifil. Fe'i defnyddir mewn achosion lle y gwnaed datganiad adran 6. Mae'n debyg bod rôl setliadau mewn achosion CMP yn fwy na'r disgwyl. Nid oes gennyf fawr o wybodaeth am sut y mae'r broses yn gweithio gyda deunydd caeedig. Yn ôl AAau a ofynnodd am gael mynychu cyfryngu, mae'r diffynyddion yn gwrthwynebu i'w presenoldeb bron bob tro. Felly dim ond barn y diffynnydd am gryfder neu haeddiannau eu hachos sy'n goleuo'r broses, a hynny'n cynnwys y deunydd caeedig, sydd wrth gwrs yn cael ei gadw rhag y CAwyr a'r cyfryngwr. Mae'r AAau yn bryderus bod dadl y diffynyddion yn y cyfarfod cyfryngu'n rhoi darlun unochrog a dadleuol o achos yr amddiffyniad, ac yn dymuno gallu cyfathrebu hynny i'r CAwyr, hyd yn oed drwy gyfathrebu hynny i adfocadau'r diffynyddion yn y cyfarfod cyfryngu'n unig, fel y gallent ailystyried sut y mae'r mater yn cael ei gyflwyno. Yr unig gyfiawnhad dros wrthwynebiad y Llywodraeth fyddai pe bai presenoldeb yr AAau yn creu risg o gyfathrebu rhywfaint o natur y deunydd caeedig i'r CAwyr. Gallai fod angen i unrhyw gyfathrebiad arall i'r CA fod yn ysgrifenedig, hyd yn oed mewn llawysgrifen ac wedi'i glirio ymlaen llaw. Y risg a fyddai'n weddill fyddai pe bai unrhyw beth yn cael ei gyfathrebu'n ddieiriau, drwy ystumiau, iaith y corff neu arwydd arall. Ond ni awgrymwyd erioed fod cyfathrebu dieiriau o'r fath yn digwydd mewn gwrandawiadau agored lle y mae'r AAau a'r CAwyr yn bresennol. Ni welais erioed unrhyw beth i awgrymu hynny.

33. Mae'r Llywodraeth yn erbyn i'r AAau fod yn rhan o gyfryngu na negodi setliad, yn gyntaf ar y sail os yw'r Llywodraeth wedi cyfaddef atebolrwydd llawn (neu os yw iawndal i gael ei asesu ar sail atebolrwydd llawn ond

heb gyfaddefiad o'r fath), mai'r unig faterion ar ôl fyddai maint yr iawndal ac nid oes angen cynnwys yr AAau. Cytunaf â'r rhan hwnnw o'r ymateb ac ni allaf ddeall pam fod yr AAau eisiau cyfranogi yn y materion hynny ychwaith. Ail bwynt y Llywodraeth yw mai'r Cau sydd yn y sefyllfa orau i gynrychioli dadl a safbwynt eu cleient yn y negodi, ac i gymryd cyfarwyddyd. Mae hynny'n wir, ond dim ond i bwynt. Y pwynt hwnnw yw lle y mae'n rhaid asesu cryfder yr achos mewn gwrandawiad caeedig. Ni wn a gyfeirir at gryfder neu wendid y safbwynt hwnnw mewn cyfarfod cyfryngu neu negodi, ond os gwneir, mae hynny'n amlwg yn annheg os na ellir ei wrth-ddweud, neu os cyflwynir arfarniad gwahanol, os oes cyfiawnhad. Os na chyfeirir ato, gall ochr y Llywodraeth lunio a chyflwyno barn ar sail bod ym meddiant yr holl wybodaeth; ond nid y CAwyr. Ystyriaf y gallai annhegwch fod yn bosib oherwydd hynny, a ddylai gael ei ateb lle bo hynny'n bosib. Mae hyn i gyd braidd yn unochrog er anfantais amlwg i'r CAwyr, a rhaid cyfiawnhau absenoldeb AAau o'r broses gyfryngu neu o weithdrefnau ADR eraill, neu o'r broses setlo, drwy gyflwyno dadleuon eraill. Dylwn nodi nad yw'r CAwyr wedi awgrymu'r fath beth.

34. Mae hynny'n arwain at drydydd pwynt y Llywodraeth sydd, meddai, yn atal cytundeb ar a ddylai AAau fod yn bresennol mewn proses gyfryngu, neu fynegi barn, pa mor gyffredinol bynnag, am gryfder yr achos caeedig neu'r achos yn gyffredinol. Risg o ddatgelu'n ddiarwybod yw hyn, a'r broblem o atal cyfathrebu gan AAau i gynrychiolwyr agored (CAwyr) sydd heb eu fetio ar gyfer datgelu niweidiol i ddiogelwch gwladol. Nid risg fympwyol mo hon a rhaid caniatáu ar ei chyfer. Fodd bynnag, gwelaf fod yr AAau yn adnabod pryder os nad realiti'r risg gan ystyried sut i roi gwybodaeth ddefnyddiol i'r CAwyr ond gan dawelu'r pryderon hynny.

Mae'r AAau yn awgrymu y gallai unrhyw gyfathrebu gael ei wneud drwy dîm y Llywodraeth drwy ofyn iddynt gywiro unrhyw wallau yn y farn a fynegwyd am effaith y dystiolaeth gaeedig ar gryfder yr achos, neu gydnabod bod gan yr AAau safbwynt mwy ffafriol. Ni welaf pam na ddylai hynny ddigwydd. Ni ddywedodd y Llywodraeth y byddai'n peidio â chyfeirio at gryfder ei hachos mewn unrhyw broses gyfryngu, ar ôl ystyried y deunydd caeedig, os yw'r CAwyr yn gallu llunio barn am ei gryfder ar sail y deunydd agored. Mae'n anodd gweld y gallai'r broses gyfryngu fynd yn ei blaen yn ddefnyddiol heb i arfarniad o'r fath gael ei gyfathrebu gan ochr y Llywodraeth, yn union neu'n anuniongyrchol drwy natur y trafodaethau. Eto, nid yw'r CAwyr wedi gwneud sylw o'r fath.

35. **ARGYMHELLIAD: Dylai mynychu gweithdrefnau ADR, pe bai'r CAwyr yn dymuno, gael ei ychwanegu at swyddogaethau'r AAau yn rheolau'r llys. Credaf y dylai AAau fod yn gallu mynychu i wneud sylwadau'n breifat i'r diffynyddion ynghylch sut y maen nhw'n cyflwyno pethau mewn gweithdrefnau ADR.**

**G(iv) Rôl yr AAau mewn rhoi cyngor ar setlo**

36. Yn ôl yr AAau, nid ydynt yn cymryd rhan mewn setliadau o gwbl fel arfer. Gallai hynny ymwneud â'r broblem gyda mynychu ADR. Nid oes cyfyngiadau o ran beth all y CAwyr anfon atynt. Dywed yr AAau hefyd nad yw ceisiadau cyfathrebu i'r CAwyr fel arfer yn cael eu gwrthod ar y sail eu bod yn datgelu rhywbeth am haeddiannau'r achos mewn gwrandawiad caeedig, yn enwedig os yw'r sylw'n obeithiol am haeddiannau achos yr hawlydd, ond yn llai felly os yw'r sylw'n besimistig. Nid yw'r CAwyr wedi codi hyn fel problem wrth benderfynu a ddylid setlo, neu ar ba lefel, ac ni wnaethant hynny er i geisiadau pellach gael eu

hanfon atynt yn ymwneud â chyfryngu a setlo. Rwy'n cyflwyno gwrthwynebiadau'r Llywodraeth uchod.

37. Er hynny, ni welaf unrhyw wrthwynebiad, os yw'r CAwyr yn gofyn am gyngor gan yr AA am setlo, i'r AA yn rhoi barn gyffredinol heb resymau am gryfder yr achos neu'r siawns o lwyddo ar atebolrwydd, neu am ba mor dderbyniol yw cynnig. Mae'n anodd i mi weld y byddai fy sylw cyffredinol yn datgelu mwy am y dystiolaeth gaeedig nag am safiad y diffynyddion mewn unrhyw gynnig i setlo. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw ffordd i gyngor o'r fath beidio â phasio drwy broses glirio, a allai fod yn rhwystr sylweddol. Gallai unrhyw sylw cyffredinol fynd drwy'r llwybr "LPP", ar ôl ei glirio. Gallai hwn fod yn faes lle y gallai'r Cyfarwyddyd Ymarfer cymeradwy fod o gymorth. Er enghraifft, gellid drafftio ffurf safonol ar lythyr diogel. Ni wnaf unrhyw argymhelliad mwy penodol ar hyn. Gallai fod angen ei brofi drwy gais i'w benderfynu gan lys, mewn sesiwn gaeedig, o flaen barnwr na fyddai wedyn yn gwrando'r achos.

## H Newidiadau gweithdrefnol eraill

### H(i) Cyfuno partïon

38. Awgryma'r AAau y dylid gallu ychwanegu parti mewn gwrandawiad caeedig os nad yw'r diffynnydd cywir wedi cael ei siwio, ac y gallai ond cael ei siwio gan y CAwyr pe bai deunydd niweidiol i ddiogelwch gwladol yn cael ei ddatgelu. Mae'r broblem wedi codi ar lawr gwlad; nid oes gennyf fanylion ond cymeraf fod cyfiawnhad i'w pryder. Mae angen diwygio rheolau'r llys.

39. **ARGYMHELLIAD: Dylid diwygio rheolau'r llys i ganiatáu ychwanegu parti a enwir dim ond mewn gwrandawiad caeedig, wedi'i gefnogi gan blediadau caeedig.**

### H(ii) Cyfathrebu rhwng AAau a CAwyr heb ganiatâd y llys

40. Cytunaf â'r Llywodraeth y dylid diwygio CPR Rhan 82, a'r rheolau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, yn ffurfiol i gydnabod yr arfer anffurfiol sydd wedi datblygu bod yr AAau a'r diffynyddion yn cytuno'n anffurfiol i geisiadau am ganiatâd i gyfathrebu â'r CAwyr heb drafferthu'r llys bob tro.

41. **ARGYMHELLIAD: Dylid diwygio rheolau'r llys i ddarparu ar gyfer peidio â gofyn i'r llys am ganiatâd i gyfathrebu, os cytunir ar hyn gyda'r diffynnydd.**

### H(iii) Sianel gyfathrebu gyfrinachol yr "LPP"

42. Mae'r LPP, fel y'i gelwir, yn sianel gyfathrebu wedi'i datblygu gan SASO a'r GLD lle y mae tîm y Llywodraeth, y tu allan i dîm cyfreitha'r Llywodraeth, yn clirio deunydd nad yw'n sensitif i ddiogelwch gwladol, fel y gall yr AAau ei drosglwyddo i'r CAwyr. Ni ddarperir ar ei gyfer yn rheolau'r llys. Mae'n osgoi gorfod cael y llys i fod yn rhan o'r broses. Nid yw wedi sefydlu yng Ngogledd Iwerddon eto, a gallai helpu i leihau'r oedi yno.

43. **ARGYMHELLIAD: Dylid erbyn hyn cydnabod sianel gyfathrebu gyfrinachol yr "LPP" yn rheolau'r llys, ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.**

**H(iv) Tystiolaeth yng Ngogledd Iwerddon**

44. Yng Ngogledd Iwerddon, nid oes gofyniad cyffredinol yn Rheolau Llys Barnweiniaeth GI bod datganiadau tystion yn cael eu cyflwyno cyn gwrandawiad. Felly nid oes sgôp i benderfynu ymlaen llaw beth allai neu beth ddylai gael ei ddatgelu i'r CA a'u cleient. Mae anawsterau ymarferol gyda delio â datgelu ar ôl i'r dystiolaeth gael ei rhoi. Gall trafferthion ymarferol ac annhegwch felly godi lle y rhoddir tystiolaeth y tyst mewn gwrandawiad caeedig a allai fod wedi cael ei ddatgelu mewn un agored. Er bod hyn, yn fy marn i, i raddau helaeth yn anochel gydag atebion llafar wrth groesholi mewn gwrandawiadau caeedig, mae sylwedd i bwynt yr AAau. Dylid newid y rheolau ar gyfer CMP yng Ngogledd Iwerddon.

45. Rhaid hefyd, ar gyfer croesholi mewn gwrandawiad caeedig, rhoi rhybudd priodol o'r dystiolaeth sydd i'w rhoi; gallai cyflwyno datganiadau tystion arbed amser paratoi a helpu i ganolbwyntio ar y materion perthnasol.

46. **ARGYMHELLIAD: Dylid newid Rheolau Llys Barnweiniaeth GI fel bod datganiadau ysgrifenedig gan dystion, fydd yn dystiolaeth mewn gwrandawiadau caeedig, yn cael eu cyflwyno i'r AAau, a hefyd gan yr AAau ar gyfer unrhyw dystion caeedig sydd i'w galw ganddynt, mewn da bryd cyn y gwrandawiad caeedig lle y bwriedir eu defnyddio. Dywedaf "mewn da bryd" er mwyn rhoi cyfle i ystyried datgelu pellach, ac os oes mwy'n cael ei ddatgelu, bod cyfarwyddyd yn cael ei gymryd arno.**

## H(v) Newidiadau i Reolau Llys Barnweiniaeth GI i leihau'r oedi

47. Yn adran 3, paragraff 15, cyfeiriais at y posibilrwydd o ddiwygio Rheolau Llys Barnweiniaeth GI i gynorthwyo i reoli achosion yn fwy effeithiol, gan gynnwys drwy gyflwyno a gorfodi terfynau amser mwy llym o ystyried amgylchiadau penodol Gogledd Iwerddon lle y mae oedi gyda chyfreitha etifeddol wedi tanseilio ei bwrpas a'i werth i ymgyfreithwyr oedrannus. Ni allaf argymell newidiadau penodol.

48. **ARGYMHELLIAD: Dylid ystyried diwygio Rheolau Llys Barnweiniaeth GI i weld a ellir lleihau'r oedi mewn achosion etifeddol yn enwedig.**

## H(vi) Dehongli CPR Rhan 82.23 (2) a (4) a fabwysiadwyd gan Bean J, yn *Sarkandi* [2014] EWHC 2359 (Gweinyddol), (achos 3)

49. Ymddengys bod y CPR yn ei gwneud yn ofynnol i gais adran 6 gael ei wrando yn absenoldeb y CAwyr a'r hawlydd, hyd yn oed pan oedd y materion yn gwbl agored. Cafodd ei ddehongli fel y dylid ond cynnal y gwrandawiadau yn eu habsenoldeb lle'r oedd angen hynny. Nid yw'r newid hwn yn ddadleuol. Mae'n nodi'n glir beth yw'r arfer presennol gyda gwrandawiadau agored mewn achosion CMP. Nid yw'n ymddangos i fod yn broblem yn Rheolau Llys Barnweiniaeth GI.

50. **ARGYMHELLIAD: Dylid adlewyrchu'r dehongliad hwn yn glir yn y CPR.**

**H(vii) Cyfuno gwrandawiadau ceisiadau adran 6 a gwrandawiadau datgelu adran 8**

51. Awgrymodd y Llywodraeth y dylid diwygio rheolau'r llys i ganiatáu, ond heb fod yn ofynnol, gwneud cais am ddatganiad o dan adran 6 ar yr un pryd â'r materion datgelu. Nid wyf yn glir beth fyddai'r fantais oni bai fod yr holl ddeunydd caeedig gerbron y barnwr a fyddai'n gwrando'r cais adran 6. Nid yw'n ymddangos bod hynny'n digwydd ar hyn o bryd, ac nid yw'n ofynnol o dan y Ddeddf. Gallaf weld y byddai'n ychwanegu at yr amser cyn gallu gwneud penderfyniad ar y cais. Byddai datgelu er mwyn gallu dyfarnu ar y penderfyniad adran 6 ei hun braidd yn annhebygol, ond gallaf weld y gallai'r mater godi, er enghraifft pe bai'r cais CMP yn dibynnu ar un pwynt neu ddarn o dystiolaeth, lle y byddai canlyniad y cais adran 6 yn dibynnu ar y penderfyniad datgelu. Pe bai hynny'n codi, ac nid wyf yn ymwybodol ei fod wedi, ni chredaf fod y rheolau'n atal y barnwr rhag gwneud gorchymyn priodol. Fel arall, ni welaf lawer o bwynt mewn newid y rheolau.

**H(viii) Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer CPR Rhan 82 a Rheolau Llys Barnweiniaeth GI, yn rhoi canllawiau ymarferol ar weithrediad y CMP.**

52. Awgryma'r Llywodraeth y dylid cael Cyfarwyddyd Ymarfer yn disgrifio canllawiau ymarferol ar weithrediad y CMP. Mae sgôp i wneud hyn: mae Cyfarwyddyd Ymarfer yn nodwedd gyffredin o'r CPR. Mae Nodyn Ymarfer yn SIAC. Yn SIAC, er enghraifft, mae'r Nodyn Ymarfer yn gofyn bod AAau a'r SSHD yn hysbysu'r CAwyr o natur a phwrpas unrhyw gamau caeedig yn yr achos, cyn belled â bod hynny'n gyson â'r rheolau statudol. Ymddengys i mi y gallai Cyfarwyddyd Ymarfer fod yn offeryn

defnyddiol ar gyfer canllawiau ar y cyswllt rhwng y llysoedd, yr AAau, a phartïon eraill, ar sut y dylai'r amrywiol bartïon geisio ymddwyn.

53. Mae'r AAau wedi lleisio pryderon nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau agored am yr achos a wneir drwy e-bost, na mewn trafodaethau rheolaeth achosion, sy'n cynnwys staff y llys; ac nad oedd y diffynyddion yn deall yn aml fod angen diweddaru'r CAwyr mor llawn â phosib. Dylid hefyd cydnabod bod angen diweddaru'r CAwyr o gamau'r CMP. Gallai Cyfarwyddyd Ymarfer gynorthwyo yn y cyswllt hwn.

54. Gallai'r Cyfarwyddyd Ymarfer hefyd nodi sut fath o geisiadau, os o gwbl, am ganiatâd i gyfathrebu â'r CAwyr na fyddai angen mynd at y diffynyddion i'w cytuno'n gyntaf, a phryd y gellid hepgor yr angen am gopïau caled o geisiadau. Gall hyn greu problemau difrifol pan fo'r cyfathrebu'n frys neu'n sensitif i amser; mae mewnbwn yr AAau yn aml wedi'i dderbyn ar ôl y terfyn amser ar gyfer ymateb. Mae'r AAau yn cyfeirio at yr oedi'n delio â cheisiadau ac amser ymateb nad oedd, ar gyfer ceisiadau gweithdrefnol, yn cwrdd â'r targed 24 awr y dywedodd Mr Brokenshire y byddai'r Llywodraeth yn gwneud ei gorau i'w gwrdd, mewn llythyr dyddiedig 31 Hydref 2012.

55. Yn ôl yr AAau, dull y GLD o ddatgelu yw peidio â datgelu popeth a allai gael ei roi mewn gwrandawiad agored ond mai eu hymateb diofyn oedd dal y ddogfen gyfan yn ôl a gadael i'r AA wneud cynigion ar gyfer datgelu. Roedd hyn yn ychwanegu at yr oedi a hefyd yn golygu y gallai'r AA, a allai ond cyfathrebu'n rhydd â'r CAwyr a'u cleient cyn derbyn y deunydd caeedig, yn hawdd fod â llai o ddeunydd nag y dylai fod ganddynt i gymryd cyfarwyddyd arno.  Roedd hyn hefyd yn ychwanegu at amser y broses ddatgelu.

56. Ar y llaw arall, roedd y Llywodraeth yn bryderus bod ceisiadau i gyfathrebu'n cael eu defnyddio'n gynyddol gan AAau i geisio rhyddhau deunydd caeedig. Roedd gwirio'r ceisiadau hyn yn drwm ar amser ac adnoddau. Dylid dod o hyd i ffordd o gyfyngu ar bwrpas a chynnwys y ceisiadau hyn. Gallai hefyd fod pryder am i ba raddau yr achosir oedi gan geisiadau am chwiliadau pellach ac i ddatgelu deunydd i'r AAau a allai, neu ddim, wedyn arwain at wrandawiadau pellach i ddatgelu fel deunydd agored.

57. Ni chredaf y gallaf ddod i unrhyw gasgliad am ble y mae'r bai, os o gwbl, ar y pwyntiau hynny. Fodd bynnag mae angen pwysleisio, mewn Cyfarwyddyd Ymarfer, bod angen gwneud y defnydd mwyaf o'r broses ddatgelu agored ar y cyfle cyntaf posibl, gyda phrofion neu ofynion mwy pendant. Ni all rheolau'r llys ddelio â cheisiadau cyfathrebu gor-uchelgeisiol, ond gallai Cyfarwyddyd Ymarfer nodi egwyddorion neu ddulliau cliriach ar gyfer gwahanol fathau o geisiadau, o'r cais gwybodaeth pur i gais gweithdrefnol, neu gais brys a rhai sydd, heb os, yn codi materion diogelwch gwladol. O ran ceisiadau i ddatgelu ymhellach i'r AAau, y llys yn y pen draw sy'n penderfynu a ddylid caniatáu hyn neu beidio, er i ymdrechion y diffynyddion i osgoi dull gor-gul wrth benderfynu beth oedd yn berthnasol i'w ddatgelu i'r AAau gael ei ganmol mewn un dyfarniad caeedig.

58. Ni chredaf fod angen trafferthu Rheolau'r Llys Sesiwn gydag ychwanegiad o'r fath, oherwydd nid yw'r Llys wedi gwrando unrhyw achosion o dan Ran 2 a gall gymryd pa bynnag sylw ag y gwêl yn briodol o Gyfarwyddiadau Ymarfer eraill, pe bai achos yn codi.

59. **ARGYMHELLIAD: Dylid cael Cyfarwyddyd Ymarfer o dan CPR Rhan 82 a Gorchymyn 126 Rheolau Llys Barnweiniaeth GI a allai, ymhlith pethau eraill, gynnig atebion defnyddiol i'r materion uchod.**

## J. Costau a chymorth cyfreithiol

### J(i) Costau

60. Nid oes rheolau arbennig i ddelio â chostau mewn achosion CMP. Cyfeiria Ward a Jones ("National Security, Law, Procedure and Practice", OUP 2021, Pennod 7, Adran J) at benderfyniadau ar gostau ond gan nodi bod y gyfreitheg ar hyn yn brin, a lle y mae'n bodoli, mai pur anaml y cânt eu hadrodd. Oherwydd mai rheolau costau arferol sy'n berthnasol i achosion CMP, dyfernir costau'r ymgyfreithiwr llwyddiannus yn y ffordd arferol. Yn *XH,* (achos 7), dyfarnwyd costau i'r diffynnydd llwyddiannus, SSHD. Gwrthododd y Llys Apêl ganiatâd i apelio'r penderfyniad costau; nododd fod yr hawlydd wedi mynnu parhau â'i hawliad ar ôl i'r rhesymau am ganslo ei basbort gael eu datgelu ymhellach iddo, ar ôl iddo honni'n aflwyddiannus fod hynny'n anghymesur ac annheg. Yn *Sarkandi*, (achos 3) cafodd yr apelydd / hawlwyr aflwyddiannus eu gorchymyn i dalu costau'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn yr apêl; cafwyd dyfarniadau agored a chaeedig. Yn *Kamoka*, (achosion 10-11), ni wnaed unrhyw orchymyn costau o blaid y Llywodraeth, er iddi lwyddo yn ei chais i daflu'r achos allan. Roedd pwysau'n aml yn cael eu rhoi i arwyddocâd y deunydd caeedig wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, er y credai'r barnwr y byddai unrhyw hawlydd rhesymol wedi bod yn bwyllog iawn cyn gwneud rhai honiadau o ystyried y ffeithiau ar gael yn y deunydd agored.

61. Mae awduron y bennod yn tynnu sylw at benderfyniadau costau lle y defnyddiwyd CMP o dan ddarpariaethau statudol eraill, yn benodol yn ymwneud â Gorchmynion Rheoli, mesurau TPIM neu rewi asedau. Yn yr achosion hynny, roedd y llys yn cydnabod y dylid cael agwedd wahanol at gostau. Credaf fod gan y llysoedd ddigon o bwerau disgresiwn yn barod i ddelio â materion costau lle y methodd hawliad oherwydd tystiolaeth gaeedig, gan farnu arwyddocad hynny yng ngoleuni natur yr honiadau a wneir yn yr hawliad, y dystiolaeth agored, ac yn y camau pryd y dyfarnodd y llys ar gryfder dadleuon yr hawliad neu ei haeddiannau.

62. Mae’r AAau yn codi’r cwestiwn pa orchmynion costau y byddid yn eu gwneud pe bai hawlydd yn methu â churo cynnig Rhan 36 mewn CMP, lle’r oedd tystiolaeth gaeedig yn chwarae rôl bwysig. Nid oes dyfarniad yn delio â hyn oherwydd ni fethodd unrhyw hawliad iawndal cyfraith breifat mewn treial hyd yma. Mae’r AAau hefyd yn bryderus bod y sefyllfa gostau’n aneglur os yw’r AA yn dechrau cymryd camau, apêl er enghraifft, sy’n seiliedig ar dystiolaeth gaeedig. A yw’r CAwyr yn atebol am gostau? A yw’r AAau yn wynebu risg costau? Mae’r risgiau hyn, meddent, yn rhwystr posib i dreial teg mewn achosion CMP.

63. Ni wn am unrhyw achos lle yr arweiniodd y naill fater na’r llall at ddyfarniad. O ran methu â churo cynnig Rhan 36, ni chyflwynodd y CAwyr dystiolaeth o unrhyw broblem a nhw a fyddai yn y sefyllfa orau i wybod a chwaraeodd risgiau o’r fath ran mewn negodi setliad, neu ddyfarniad costau yn eu herbyn. Ni chyflwynodd CAwyr Cymru a Lloegr ymateb ar unrhyw bwynt, er y cawsant eu gwahodd i gyflwyno ymateb yn yr alwad am dystiolaeth. Ni welaf fod y broblem yn fwy nag un theoretig ac ni wnaf unrhyw argymhellion.

64. Ar y pwynt olaf, nid yw'r AAau yn cyfeirio at unrhyw achos lle'r oedd risg y gallent orfod talu costau, neu o gael eu rhwystro rhag cymryd cam neu gynghori bod cam yn cael ei gymryd, oherwydd y risg i'r hawlydd neu iddynt hwy o orfod talu costau. Nid yw'r CAwyr wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth o risg o'r fath ychwaith. Nid yw'n hawdd gweld, y tu allan i orchymyn gwastraffu costau, sut y gallai'r CAwyr neu'r AAau eu hunain fod yn atebol am dalu costau.

65. Ni welaf reswm pam, lle y cymerir camau drwy fod wedi dibynnu ar gyngor gan AA – ac apêl yw'r enghraifft fwyaf amlwg – na ddylai'r apelydd aflwyddiannus orfod wynebu'r risg o dalu costau, yn union fel y byddai pe bai'n dod ag apêl aflwyddiannus ar gyngor ei CAwyr.

**J(ii) Cymorth cyfreithiol**

66. Mae'r AAau yn "deall" bod problemau ymarferol gwirioneddol gyda chymorth cyfreithiol os yw'r diffynnydd yn dibynnu ar ddeunydd caeedig, oherwydd yr ansicrwydd y mae deunydd anhysbys yn ei greu wrth asesu haeddiannau achos. Roedd ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth wedi gwneud yr un pwynt. Ond ymddengys mai'r brif broblem yw'r oedi sylweddol gyda derbyn cymorth cyfreithiol. Ni wn pa mor aml na sylweddol yw'r oedi hwn. Ymddengys bod cymorth cyfreithiol yn cael ei roi i rai cymwys, yn y diwedd. Y CAwyr oedd yn y sefyllfa orau i wneud sylw ar hyn, os oedd problem arwyddocaol. Ni chynigiwyd tystiolaeth ganddynt.

67. Yn ôl ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth, os yw LSANI yn rhoi tystysgrif cymorth cyfreithiol gyfyngedig hyd at, ac yn cynnwys, y cam darganfod, ei bod dal yn ofynnol gofyn am awdurdod penodol i fod yn rhan o'r broses CMP, ond na ddylai fod angen gwneud hynny. Os gwneir

cais am CMP, dylid ei ganiatáu'n awtomatig o dan y dystysgrif cymorth cyfreithiol a'r rheoliadau cymorth cyfreithiol, heb ychwanegu haen arall o weinyddiaeth i gynrychiolydd y ceisydd / achwynydd. Dylai'r cais am CMP gael ei weld fel cam yn y broses ddarganfod heb fod angen cais penodol am awdurdod i'r asiantaeth cymorth cyfreithiol. Roedd ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth wedi mynegi'r un farn gan bwyso am newid y sefyllfa. Ni wn a yw'r sefyllfa'r un fath ym Mhrydain Fawr.

68. Ymddengys i mi fod gorfod gofyn am awdurdod pellach o dan y rheoliadau'n ddiangen, naill ai i gyfranogi yn y weithdrefn ddatgan neu yn y camau eraill a fyddai'n dod wedyn. Nid oes angen amlwg bod yn rhan o'r broses ddatgelu gaeedig ei hun oherwydd yr AAau yn unig fydd yn delio â hynny. Ni chredaf y gallaf wneud unrhyw argymhelliad penodol ar y pwynt hwn. Ni wn pam fod y cam arall hwnnw, sy'n ychwanegu at yr oedi, yn bodoli. Byddwn yn pwyso ar yr awdurdodau cymorth cyfreithiol i ystyried a dileu'r cam oni bai fod pwrpas iddo, ac ni wn am un ar hyn o bryd.

69. **ARGYMHELLIAD: Dylai LSANI, a'r awdurdodau cymorth cyfreithiol ym Mhrydain Fawr os yw'r un peth yn berthnasol iddynt, ystyried dileu'r gofynion bod angen awdurdod penodol i gyfranogi yn y broses CMP, os yw cymorth cyfreithiol eisoes wedi'i awdurdodi. Dylid rhoi cyfiawnhad cyhoeddus dros ei gadw.**

**J(iii) Rheoli costau**

70. Awgrymodd y Llywodraeth y dylid eithrio'r CMP o'r darpariaethau rheoli costau yn CPR 3.12-3.18. Ni ddylid datgelu costau caeedig mewn gwrandawiad agored oherwydd gallai hynny ynddo'i hun fod yn risg i ddiogelwch gwladol hyd yn oed drwy awgrymu maint y deunydd caeedig;

roedd yn anodd datgysylltu gwaith agored a chaeedig, ac felly eu costau. Cytunaf y dylid diwygio'r CPR, mewn hawliadau iawndal, yn unol â hynny. Mae rheoli costau'n dipyn o eithriad mewn achosion adolygiad barnwrol beth bynnag.

71. **ARGYMHELLIAD: Y dylid eithrio achosion CMP o dan y JSA rhag y darpariaethau rheoli costau yn rheolau'r llys.**

**J(iv) Gwarchod costau**

72. Cafodd hyn ei godi gan un ymatebwr ond ni welaf unrhyw ddadl dros gael rheolau arbennig ar ei gyfer. Os yw'n bodloni'r rheolau arferol, bydd gwarchod costau'n berthnasol. Os na, ni welaf reswm pam y dylai rheol arbennig wneud gwarchod costau'n berthnasol.

## L. Adnoddau ar gyfer AAau

73. Mae ymateb y AAau i'r alwad am dystiolaeth yn cyfeirio at addewidion Gweinidogol, yn y Papur Gwyrdd a dogfennau eraill, y byddai cymorth digonol annibynnol gan gyfreithwyr iau a SASO ar gael i'r AAau gael gwneud eu gwaith yn effeithiol a thrylwyr, ar gyfer hyfforddiant pellach a databas chwiliadwy gyda chrynodebau o ddyfarniadau caeedig. Byddai'r databas yn cynorthwyo AAau a chwnslerwyr HMG i ddod o hyd i ddyfarniadau caeedig perthnasol. Roedd hefyd yn rhan o roi statws mwy cyfartal i'r partïon a'r adfocadau. Dywedodd Mr Brokenshire ei fod ar fin ei gwblhau'n derfynol yn Hydref 2012. Erbyn Hydref 2015, cwynai'r AAau fod y diffyg cefnogaeth, diffyg ail-benodi staff oedd wedi gadael SASO, a diffyg adnoddau eraill, yn ddifrifol ac yn achosi llawer mwy nag anhwylustod a thrafferth, gan effeithio ar eu safonau proffesiynol.

74. Codwyd y materion hyn â'r GLD yn 2015, ac yn 2016 â'r Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth, David Anderson, CF. Rhwng Mai 2016 a Thachwedd 2017 roedd y gefnogaeth wedi gwella'n sylweddol. Ar ôl hynny, cododd bryderon difrifol unwaith eto am lefel y staffio ac ail-benodi staff yn SASO. Problem fawr oedd diffyg cyfreithwyr SASO a'r ffrwd o gyfreithwyr sy'n clirio'r broses DV, yr un pryd â chynnydd mawr yn llwyth gwaith SASO; (dylid cofio bod angen AAau ar gyfer llawer mwy na gwaith y JSA, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i SIAC sydd ei hun wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu gwaith gyda cheisiadau cenedligrwydd yn cael eu gwrthod ar seiliau diogelwch gwladol). Un o'r prif broblemau i bob golwg yw bod llawer o ddarpar-gyfreithwyr yn gyndyn o fynd drwy'r broses DV.

75. Cafodd y mater yna ei godi gyda Max Hill CF, yr Adolygydd Annibynnol nesaf o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth. Yn ôl SASO, mewn gwahanol e-byst rhyngddi â'r GLD, "nid yw'r camau a addawyd gan Jonathan Jones, Cyfreithiwr y Trysorlys, wedi eu darparu ac o ganlyniad gadawyd yr AAau heb gymorth digonol gan SASO. Yn amlwg, mae hygrededd unrhyw achosion caeedig wedi'i danseilio os nad yw'r AAau yn derbyn cymorth effeithiol gan SASO." Er y sylwadau gan Mr Hill yn ei adolygiad terfynol yn [10.7-10.10], fel y cyflwynwyd yn nhystiolaeth SASO i mi ar dudalennau 24-25, ac y cytunaf â nhw, y dystiolaeth gan SASO yw bod y cymorth sydd ei angen yn brin o hyd. Soniwyd am hyn ymhellach gan Jonathan Hall CF, olynydd Mr Hill fel Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Derfysgaeth, a gyfeiriodd at y broblem fod swyddfeydd SASO wedi symud i gyfeiriad ymhellach i ffwrdd o'r llys a'r siambrau, gan ychwanegu at y problemau logistaidd. Yr un oedd y sefyllfa dros gyfnod yr adolygiad.

76. Fodd bynnag, ar ôl Mehefin 2018, cafwyd gwelliant nodedig yn y cymorth gan SASO yng Nghymru a Lloegr. Roedd y system yn gallu gweithio fel arfer, hyd yn oed gyda salwch a gwyliau. Ond yr argraff ohonynt yw system heb lawer o wydnwch. Daeth y rhaglen hyfforddiant i ben bron yn llwyr dros gyfnod yr adolygiad, ac ni chafodd ei chynyddu o gwbl, fel yr addawyd iddynt; bu'n rhaid i AAau newydd ddysgu yn y rôl. Ar ôl Mehefin 2018, roedd cyllideb ar gyfer hyfforddiant mewnol hanfodol i AAau newydd ac ail-gyflwynwyd y cwrs undydd, a gynhaliwyd deirgwaith. Roedd hyn, meddent, yn cynnal lefel yr hyfforddiant oedd ar gael cyn y JSA ond heb ychwanegu dim ato, yn groes i'r addewidion a wnaed wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd.

77. Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn haeddu sylw penodol. Mae nifer, annisgwyl efallai, yr achosion CMP yng Ngogledd Iwerddon wedi creu ystod a lefel o broblemau i AAau, ac o ran adnoddau iddynt, sydd yr un mor annisgwyl. Gwnaed pwyntiau pwerus ar eu rhan sydd angen eu hateb, am yr un rhesymau o degwch wrth weithredu'r CMP ag a fyddai'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

78. Mae tystiolaeth SASO ar gyfer 2019 yn berthnasol i weithrediad y Ddeddf, ac mae angen sôn amdani yma. Roedd y lleoliad gwaith yng Ngogledd Iwerddon a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn annhebygol o barhau i fod ar gael. Roedd angen ystafell deunydd caeedig bwrpasol ar SASO ym Melffast, fel mater o frys. Ni allai'r AAau deithio i lefydd anghysbell i adolygu deunydd, a bu'n rhaid iddynt wneud apwyntiadau ar gyfer hynny.

79. Roedd AAau Gogledd Iwerddon hefyd yn bryderus am staffio gan ofyn am aelod SASO llawn amser ym Melffast. Efallai nad oedd digon o waith yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer aelod SASO llawn amser, ond roedd

costau a diffyg cynildeb ynghlwm wrth ddefnyddio'r adnoddau SASO tynn yn Llundain, a gyda staff yn teithio i Felffast.

80. Pwyntiau eraill o bryder yng Ngogledd Iwerddon oedd y diffyg hyfforddiant, llwyr bron, ar gyfer AAau, diffyg mynediad at ddatabas o ddyfarniadau caeedig, y diffyg seilwaith cymorth o ran cyfleusterau TG i ddelio â deunydd caeedig, diffyg system addas ar gyfer trosglwyddo copïau caled a meddal o ddeunydd caeedig rhwng Llundain a Belffast, oedi gyda throsglwyddo deunydd caeedig rhwng SASO ym Melffast a Llundain, bod angen gweithio mewn canolfan ymhell o Felffast, a'i hargaeledd cyfyngedig i AAau, a gorfod dibynnu'n gyffredinol ar gyrff y Wladwriaeth am bob agwedd ar gyfreitha caeedig, gan gynnwys cludo deunyddiau caeedig i'r llys. Cafwyd hefyd sylw beirniadol gan ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth ar lefel y cymorth sydd ar gael i AAau.

81. Mae Swyddfa Gogledd Iwerddon, PSNI a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cyfleusterau i'r AAau ar gyfer gweld deunydd sensitif, gan ddibynnu ar y corff sy'n "hwyluso". Maen nhw weithiau'n defnyddio cyfleusterau gan y NICTS. Nid yw'r system yn gweithio fel ym Mhrydain Fawr, gyda siambrau a'r SASO yn Llundain. Cyflwynir deunydd caeedig gan yr AAau i'r llys fel copi caled yn unig, ac i Swyddfa Cyfreithiwr y Goron.

82. Nid oedd y NICTS yn meddwl y byddai Gogledd Iwerddon, ar ei phen ei hun, yn debygol o gyfiawnhau databas o ddyfarniadau caeedig o ystyried ei niferoedd. Efallai'n wir, ond deddfwriaeth traws-DU yw hon. Dylai databas dyfarniadau caeedig Cymru a Lloegr, ym mha bynnag ffurf y bydd, fod ar gael ar gyfer AAau mewn achosion yn GI, ble bynnag y lleolir hwynt, ac os ydynt yn digwydd, mewn achosion yn yr Alban. Dylai

dyfarniadau caeedig Gogledd Iwerddon fod yn rhan o'r databas hwnnw. Soniaf yn benodol am y databas hwn nes ymlaen.

83. Mae cymorth i AAau yn broblem fawr sy'n codi o'r adolygiad. Yr ysgogiad dros y CMP yw y bydd ei gweithrediad mor deg â phosib, yn gyson â'i phwrpas. Mae AAau yn allweddol i weithrediad teg y CMP. Mae angen iddynt fod yn ddigon o ran nifer, gyda swyddfeydd, hyfforddiant, cyfarpar a staff, gyda mynediad at lyfrgell o ddyfarniadau caeedig ac ar delerau cyfartal, fel y soniaf nes ymlaen, â chwnslerwyr y Llywodraeth. Dengys yr hanes hir o gwynion a mesurau hwyrfrydig a thros dro i gywiro'r sefyllfa ar y diwedd, fod sylwedd gwirioneddol i'w cwynion.  Dylid cofio fod cwyn am eu cyfleusterau'n gŵyn, yn y bôn, am gael cyfleusterau cyfartal i gyfleusterau'r rhai sy'n cynrychioli'r diffynyddion, ac annhegwch y gwahaniaethau.

84. Yr adnoddau yng Ngogledd Iwerddon sydd angen y sylw mwyaf taer. Nid oed nifer ansylweddol o achosion CMP ar gyfer yr awdurdodaeth gymharol fach honno. Maen nhw'n debygol o fod yn sensitif a chymhleth. Mae'n debyg na chafodd yr anghenion eu rhagweld ac na chawsant sylw digon trylwyr.

85. **ARGYMHELLIAD: Dylai Twrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr, ac Adfocad Cyffredinol Gogledd Iwerddon, y GLD a Swyddfa Gogledd Iwerddon, a SASO, roi sylw brys i'r hyn sydd ei angen a dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod yn gyfrifol am sicrhau y darperir yr hyn sydd ei angen, gan neilltuo'r cyllid angenrheidiol. Disgrifir y prif bynciau uchod. Dylai Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol gynnwys atodiad yn egluro pa broblemau cymorth sydd wedi eu datrys yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, a pha broblemau sy'n**

**parhau. Oherwydd na chafwyd unrhyw achosion Rhan 2 yn yr Alban, nid yw'r mater o adnoddau brys yn codi yno.**

86. Lleisiodd yr AAau bryder hefyd am brinder, wedi'i waethygu gan lefel y trosiant, staff sy'n pasio'r broses DV yn yr RCJ, gan gynnwys cyfarpar recordio a staff i'w weithredu. Mae SIAC wedi'i staffio'n well a gyda chyfarpar gwell. Nid oes gennyf amheuaeth am hyn o gwbl. Mae'r broblem yn waeth yng Ngogledd Iwerddon. Mae staff yr RCJ a'r Llys Barnweiniaeth sy'n gwneud y gwaith hwn yn hanfodol. Mae'r CMP yn drwm iawn ar adnoddau. Ni ellir osgoi hynny.

87. **ARGYMHELLIAD: Dylai'r Adroddiad Blynyddol hefyd roi sylw i argaeledd staff a basiodd y broses DV yn y system llysoedd ar gyfer achosion Rhan 2.**

**M(i) Databas o ddyfarniadau caeedig**

88. Er bod databas o'r fath yn rhan o'r broblem adnoddau, mae'n haeddu sylw pellach oherwydd ei bwysigrwydd a'r gwahanol broblemau sy'n codi yn ei sgîl. Rhan bwysig o adnoddau'r AAau ac adfocadau'r GLD yw dyfarniadau caeedig, yn enwedig rhai sy'n delio a materion cyffredin sy'n ymwneud yn aml â datgelu. Maen nhw'n fwy na dyfarniadau'r JSA ac yn cynnwys dyfarniadau caeedig o dan ddeddfwriaeth arall ac yn SIAC, er enghraifft.

89. Dywedodd yr AAau nad oedd unrhyw ddatabas dyfarniadau caeedig ar gael iddynt drwy gydol pum mlynedd yr adolygiad, er yr addewidion wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd a gofyn cwestiynau parhaus ynghylch ble'r oedd o a phryd y byddai'n cyrraedd Mae adfocadau'r Llywodraeth wedi gallu dyfynnu dyfarniadau caeedig; nid yw'r AAau, oni bai eu bod yn

digwydd â gwybod amdanynt. Roedd eu harfau felly'n anghyfartal, a'u mynediad at y gyfraith. Nid y databas addawedig hwn, meddent, oedd y databas dyfarniadau caeedig oedd yn yr RCJ. Dywedodd ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth y dylai fod mynediad priodol a chyfartal at ddatabas neu lyfrgell o ddyfarniadau caeedig.

90. Roedd y Llywodraeth wedi rhoi sicrwydd droeon wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd bod databas chwiliadwy o grynodebau dyfarniadau caeedig ar gael, a fyddai'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, ac ar gael i AAau ac adfocadau HMG. Gellir dod o hyd i ddetholiad digon da yn y Papur Gwyrdd (Atodiad F) yn ymateb HMG (Ionawr 2012) i adroddiad y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, yn yr hyn a ddywedodd Gweinidog y Swyddfa Gartref, Mr James Brokenshire, wrth Dŷ'r Cyffredin ar 4 Mawrth 2012 ac mewn Taflen Ffeithiau a gyhoeddwyd gan HMG yn 2014. Mae telerau'r ddau mwy neu lai'r un fath. Dyfynnaf o'r Daflen Ffeithiau:

> "4. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod y rhai sydd â hawl i weld dyfarniadau caeedig yn gallu gwneud hynny'n effeithlon ac effeithiol. Am y rheswm hwn, mae'r Llywodraeth wedi creu databas chwiliadwy'n cynnwys crynodebau o ddyfarniadau caeedig fel bod adfocadau arbennig (AAau) a chwnslerwyr HMG yn gallu dod o hyd i ddyfarniadau caeedig perthnasol. Nid yw'n ddatabas gyda fersiynau llawn y dyfarniadau caeedig a wnaed gan y llysoedd.
>
> 5. Mae hyn yn gweithredu cynnig yr Adolygiad o Bwerau Gwrthderfysgaeth, a ailadroddir yn y Papur Gwyrdd Cyfiawnder a Diogelwch. Ymgynghorwyd â [SASO] ar greu'r databas a chawsant gyfle i wneud sylwadau ar y fformat a chrynodebau'r achosion unigol.

6. Mae’r databas ar ffurf....taenlen. Fe’i dyluniwyd....er mwyn gallu chwilio yn ôl natur yr achos, e.e. SIAC, TPIM, lefel yr achos, a geiriau allweddol.”

91. Fe’i dyluniwyd er mwyn gallu adnabod dyfarniadau perthnasol yn sydyn, gan helpu i amddiffyn AAau rhag y risg o ‘lygru’ diangen. Pe bai angen i AA neu gwnsler HMG ddarllen y dyfarniad llawn, gallent ofyn am gopi gan SASO neu’r GLD. Y Swyddfa Gartref oedd yn cadw a rheoli’r databas, a ddiweddarir deirgwaith y flwyddyn. Byddai’r crynodebau’n nodi’r egwyddorion cyfreithiol. Ni fyddai crynodeb o achos arbennig o sensitif yn cael ei ychwanegu fel mater o drefn, i leihau’r risg o gysylltu’r crynodeb i’r achos hwnnw. Mae’r Daflen Ffeithiau’n cloi drwy ddweud “Y bwriad yn y dyfodol yw cynnwys crynodeb o bob dyfarniad caeedig yn y databas”.

92. Mae’n glir na wireddwyd y sicrwydd hwnnw ar ôl i’r Mesur fynd drwy’r Senedd. Codwyd y mater gan SASO droeon yn 2015. Ymateb y GLD oedd ei bod yn “anffodus nad yw’r [databas] ar gael eto ond bydd y gwaith cyswllt yn parhau gan obeithio y bydd yn ei le cyn gynted ag y bo’n ymarferol” (mae SASO wedi dyfynnu hyn mewn ymateb i mi).

93. Dywedodd y GLD nad oedd ganddi lyfrgell ar wahân o ddyfarniadau caeedig. Oni bai y defnyddiai lyfrgell dyfarniadau caeedig yr RCJ, roedd dyfarniadau caeedig ond ar gael iddi drwy wneud chwiliad ffeiliau neu “gof corfforaethol.” Roedd gan y Swyddfa Gartref ddatabas o ddyfarniadau ond ni fu’n weithredol ers 2012/13. Ni atebodd y GLD yn uniongyrchol i gadarnhau a gafwyd sicrwydd ganddi, wrth i’r Mesur fynd drwy’r Senedd, oedd yna heb ei wireddu. Eglurodd y GLD wrth ymateb i mi, ac eto ar 22 Rhagfyr 2021, beth a ddigwyddodd.

94. Roedd databas wedi'i greu yn 2012, ac anfonwyd y fersiwn gyntaf at SASO yn Nhachwedd 2012. Yn bennaf, roedd yn cynnwys dyfarniadau gorchmynion rheoli. Yna cafwyd oedi gyda diweddaru'r system a pharatoi crynodebau, a chafodd amrywiol bryderon eu datrys. Erbyn canol 2013 roedd protocol wedi'i gytuno ond ers hynny ni ŵyr HMG beth a ddigwyddodd.

95. Ar ddiwedd 2015, gofynnodd yr Arglwydd Brif Ustus i Mr Ustus Irwin, ar y pryd, sefydlu gweithgor i edrych ar greu llyfrgell gydlynus o ddyfarniadau caeedig yn cynnwys achosion SIAS, yr Uchel Lys, y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio. Fe ddigwyddodd yn dilyn achos terfysgaeth, *R v Incedal* [2016] EWCA Tros. 11. Byddai'r databas caeedig yn cynnig crynodebau agored o egwyddorion a materion yn codi.

96. Roedd y gweithgor yn cynnwys y GLD, SASO a chynrychiolwyr eraill HMG. Ei fwriad oedd y byddai llyfrgell ar gael yn yr RCJ fel adnodd i bawb a fyddai wedi pasio'r gofynion clirio priodol, gan gynnwys y farnwriaeth, adfocadau HMG ac AAau.

97. Gwelodd HMG hyn fel rhywbeth yn allai ddisodli'r databas chwiliadwy caeedig, a fyddai wedyn yn ddyblygiad diangen. Roedd wedi gweld detholiad o'r achosion yn llyfrgell gaeedig yr RCJ, a fyddai ar gael i'w ddefnyddio yn swyddfeydd y GLD a SASO. Ni ddigwyddodd hyn er bod HMG yn derbyn y dylai detholiad o'r fath fod ar gael, gyda mesurau diogelwch addas, yn y swyddfeydd hynny.

98. Rwyf wedi archwilio'r llyfrgell o ddyfarniadau caeedig yn yr RCJ. Mae'n cynnwys dyfarniadau caeedig o dan y JSA, gan SIAC, Gorchmynion Rheoli a mesurau TPIM, achosion rhewi asedau a rhai apeliadau

cyflogaeth. Cedwir y dyfarniadau fel copïau caled. Cedwir fersiynau electronig ar liniaduron caeedig barnwrol yn unig. Nid oes databas chwiliadwy. Nid crynodebau yw'r rhain. Cedwir y llyfrgell deunydd caeedig hon mewn ystafell ddiogel. Nid yw mewn ardal y gall y cyhoedd na'r adfocadau fynd iddi heb reolaeth; nid yw yn yr ardal farnwrol ddiogel. Nid oes yr un AA, cyfreithiwr GLD na barnwr wedi'i defnyddio. Nid oes unrhyw brotocol ar bwy sy'n gallu ei defnyddio, er y byddai angen dangos prawf o basio DV. Nid oes ystafell arbennig i'r adfocadau. Ni reolir mynediad gan y Llywodraeth; rheolir mynediad gan bersonél penodol yn yr RCJ. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 14 Ionawr 2019 yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch-Lywydd Tribiwnlysoedd yn ddogfen gyhoeddus.

99. Er hynny, ni ddangoswyd i mi fod peidio â chael y databas wedi cael unrhyw effaith wirioneddol ar fod ag 'arfau anghyfartal', os yw'n gywir nad oes gan adfocadau HMG ddim mwy o fynediad at ddatabas chwiliadwy na'r AAau.

100. Mae SASO a'r GLD yn derbyn copïau o bob dyfarniad caeedig, gan gynnwys rhai a gyflwynir mewn achosion deunydd caeedig y tu allan i'r JSA, sef SIAC, TPIM a Thribiwnlysoedd Apeliadau Cyflogaeth. Yn wir, SASO a ddarparodd y rhan fwyaf o'r deunydd ar gyfer llyfrgell dyfarniadau caeedig yr RCJ. Beth bynnag, mewn gwirionedd, ychydig iawn o ddyfarniadau caeedig y JSA sy'n cynnwys unrhyw bwyntiau y gellid hyd yn oed eu cymhwyso'n gyffredinol. Maen nhw'n ymwneud yn bennaf â materion ffeithiol penodol a dogfennau penodol. Ychydig iawn o ddyfarniadau datgelu sy'n bodoli gyda nifer fach yn cynnwys pwyntiau cyffredinol am fathau penodol o dystiolaeth neu ffynonellau caeedig. Mae

barnwyr yn ymwybodol bod angen cymhwyso egwyddorion deunydd caeedig i ddeunydd agored lle bo'n bosib.

101. Gallai adfocadau'r GLD, drwy chwiliad ffeiliau, cof personol neu gorfforaethol, fod wedi gallu dyfynnu achosion weithiau na fyddai'r AA efallai'n ymwybodol ohonynt. Gallai'r ddwy ochr fod wedi bod yn y sefyllfa honno.

102. Fodd bynnag byddai elfen ddiangen o aneffeithlonrwydd ynghlwm wrth wrth baratoi'r achosion, gan yr AAau a'r GLD, a gyda defnyddio neu beidio â defnyddio penderfyniadau blaenorol a allai fod wedi bod yn berthnasol mewn achosion caeedig, mae'n debyg gyda datgelu. Gallai anawsterau gyda "llygru" wedi codi na fyddai'n berthnasol i adfocadau HMG, ac y gallai databas o grynodebau caeedig fod wedi helpu i'w datrys.

103. Mae'r ddadl dros ddarparu'r databas o ddyfarniadau caeedig i adfocadau'r GLD a'r AAau yn parhau. Yn wir, mae'r nifer gynyddol o ddyfarniadau caeedig, a'u hawdurdodaethau perthynol, gyda materion cyffredin yn debygol o godi ym mhob un, yn cadarnhau'r ddadl. A hefyd, mae anghenion AAau Gogledd Iwerddon a nifer yr achosion sy'n codi yno'n tanlinellu pwysigrwydd cael databas traws-DU. Mae dwysedd y deunydd yn gwneud adnabod y pwyntiau o egwyddor, neu rai y gellid eu cymhwyso'n ehangach na ffeithiau achos penodol, yn bwysig. Mae angen databas chwiliadwy.

104. Ni all llyfrgell gaeedig yr RCJ fodloni hynny: mae mewn lleoliad anhygyrch i lawer; nid yw'n ddatabas na'n chwiliadwy na'n adnodd cryno. Dylid cwrdd ag anghenion y JSA heb faich y problemau y mae'n rhaid i lyfrgell gaeedig yr RCJ eu goresgyn. Gallai ei manteision a'i phwrpas fod

wedi bodloni digon ar anghenion y JSA, ond byddai wedi gorfod bod yn eithaf gwahanol i wneud hynny'n iawn. Yn ei hanfod dylid gweld llyfrgell yr RCJ fel adnodd barnwrol, oherwydd mae SASO a'r GLD yn derbyn eu copïau eu hunain o bob dyfarniad caeedig, i'w reoli'n farnwrol gan y barnwr sy'n gyfrifol amdano. Ond nid mater i mi ei drafod yw hynny.

105. **ARGYMHELLIAD: Dylai HMG fynd ati'n ddioed i ddyfeisio a chynnal y databas crynodebau, ar ôl ymgynghori â SASO, ynghyd â system ar gyfer adnabod a chrynhoi'r pwyntiau a allai gael eu cymhwyso'n ehangach, a dull o sicrhau y byddai ar gael yn ddiogel ar ddyfais electronig i AAau ac adfocadau HMG fel ei gilydd yn eu lleoliadau diogel. Dylai ddilyn y strwythur a ddisgrifir yn y Daflen Ffeithiau uchod yn niffyg unrhyw resymau da dros ei newid.**

106. Mae'r argymhelliad yn arbennig o bwysig i Ogledd Iwerddon, lle y mae dybryd ei angen, a'r adnoddau yno wedi eu gwasgaru'n rhy denau. Byddai'r databas o werth mawr yno. Dylai'r databas chwiliadau a fyddai ar gael i AAau GI gynnwys rhai o Gymru a Lloegr, ac fel arall. Dylai fod yn un databas ar gael i AAau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae'r JSA yn Ddeddf traws-DU. Gallai fod, neu beidio, sensitifrwydd arbennig ynghylch cael mynediad at y dyfarniadau caeedig llawn yn GI. Fodd bynnag, nid yw'n rheswm dros beidio â chynnwys yr egwyddorion, pwyntiau ymarfer neu enghreifftiau da o atebion i faterion cymhwyso ar wahân i'r achos dan sylw, yn y crynodebau.

107. Beth bynnag, dylai fod gan AAau yng Ngogledd Iwerddon fynediad at ddyfarniadau llawn y DU yn yr un ffordd ag y mae gan SASO yn Llundain fynediad at ddyfarniadau caeedig yng Nghymru a Lloegr, ac efallai mewn rhai achosion at ddyfarniadau caeedig yn GI.

108. **ARGYMHELLIAD: Dylai'r databas crynodebau gynnwys achosion Gogledd Iwerddon hefyd a bod ar gael i AAau ac adfocadau HMG yno hefyd, yn gyfartal. Dylai dyfarniadau caeedig Cymru a Lloegr fod ar gael i AAau yng Ngogledd Iwerddon fel ag y maen nhw i SASO yn Llundain. Os gwrandewir achos JSA yn yr Alban, dylent fod ar gael iddynt hwythau hefyd.**

**M(ii) Cyhoeddi neu ddinistrio dyfarniadau caeedig yn y dyfodol**

109. Dywedodd un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth y dylai'r dyfarniadau caeedig fod yn gyhoeddus unwaith i'r niwed y byddai datgelu'n gyhoeddus yn ei wneud i ddiogelwch gwladol ddiflannu, naill ai ar ôl i amser fynd heibio neu fel arall. Dylid cael proses o adolygu, mae'n debyg wedi'i rheoli gan farnwr, bob tua deng mlynedd. Dywedodd ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth y dylai dyfarniadau gael eu cyhoeddi os na allai datgelu achosi niwed i fuddiannau diogelwch gwladol mwyach.

110. Nid wyf o blaid cyhoeddi dyfarniadau caeedig ymhen hir a hwyr, hyd yn oed os na allai'r deunydd caeedig wneud niwed i ddiogelwch gwladol mwyach, oni bai fod y risg y byddai'r partïon yn ceisio ail-agor yr achos ar ôl gweld y deunydd yn cael ei dileu. Mae gennyf fy amheuon am hynny. Ni chefais fy narbwyllo ychwaith y byddai cyfiawnhad i'r ymdrech o benderfynu, rhywdro yn y dyfodol, beth y gellid yna ei ryddhau, o ystyried y fantais ymylol i'r ymgyfreithiwr neu'r cyhoedd.

111. Roedd un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth yn cwestiynu'r ddarpariaeth ym mharagraff 3 y Cyfarwyddyd Ymarfer i ystyried dinistrio dyfarniadau caeedig os nad oeddent i gael eu cadw. Roedd yn pwyso na ddylid eu dinistrio. Dylai'r adolygiad hwn, meddai, ddarganfod a ddinistriwyd

unrhyw rai. Roedd ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth hefyd yn erbyn eu dinistrio.

112. Yn ei hymateb bellach, roedd y GLD hefyd yn erbyn dinistrio dyfarniadau caeedig gan bwyso y dylid eu cadw am byth.

113. Ni wyddai'r Uwch-Swyddog Gwybodaeth yn yr RCJ am unrhyw rai a ddinistriwyd. Mae penderfyniadau datgelu'n aml yn gyfres o benderfyniadau, a wneir yn llafar a heb eu trawsgrifio, am beth sydd ac sydd ddim i gael ei ddal yn ôl. Mae'n anodd bod yn sicr a oedd unrhyw fylchau: roedd y prif ddyfarniadau a'r dyfarniadau gweithdrefnol o bwys yn ymddangos i fod yno. Mae bylchau'n llawer mwy tebygol o godi heb drawsgrifio, neu un "dyfarniad" neu fethu â ffeilio trawsgrifiad yn y Llyfrgell.

114. Rhaid darllen paragraff 3 y Cyfarwyddyd Ymarfer gyda pharagraff 2. Mae paragraff 2 yn gofyn bod copi o bob dyfarniad caeedig yn cael ei ffeilio ag Uwch-Swyddog Gwybodaeth yr RCJ "i ystyried ei gynnwys yn y llyfrgell [hon] o ddyfarniadau caeedig". Y rhai y gwrthodir eu cynnwys yn y llyfrgell sy'n gorfod cael eu "gwaredu'n ddiogel". Mae'r pwyslais ar eu gwaredu'n ddiogel, os nad ydynt yn cael eu cynnwys. Nid mater o ddinistrio dyfarniadau y cawsant eu cynnwys unwaith ydyw. Os ffeilir pob dyfarniad caeedig ar gyfer ystyried eu cynnwys, rhaid gwaredu'n ddiogel y rhai nad ydynt yn cael eu cynnwys. Nid y pwynt olaf hwn sy'n bwysig ond a ddylai unrhyw ddyfarniad beidio â chael ei gynnwys a bod angen cynnwys yn awtomatig.

## N. Barnwyr

115. Lleisiodd y Llywodraeth y farn y dylid cyflwyno system o drwyddedu barnwyr diogelwch gwladol arbenigol, gyda phrofiad neu hyfforddiant priodol. Roedd ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth o'r un farn, er mwyn lleihau amser a chymhlethdod y weithdrefn. Dim ond barnwyr trwyddedig o'r fath a ddylai fod yn gallu delio â rheoli achosion CMP. Mae dau fater yn codi: a ddylid cael carfan o farnwyr arbenigol, ac ar ba lefel farnwrol y dylid rheoli'r achosion hyn?

116. Mae manteision i unrhyw broses drwyddedu, ffurfiol ac anffurfiol. Mae yna hefyd anfanteision, ac yn enwedig pe bai'n cael ei chymhwyso i gorff barnwrol cymharol fach yng Ngogledd Iwerddon, a allai fod yn arbennig o sensitif i broses o'r fath. Yn fy marn i, byddai'n well o lawer gadael y gwaith o drefnu barnwyr i Arglwydd Brif Ustusiaid Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac i'r Arglwydd Lywydd yn yr Alban, a fyddai'n gallu cydbwyso'r ffactorau anghytûn.

117. Derbyniaf awgrym y Llywodraeth, a adleisiwyd gan un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth, y dylai fod gan bob achos un barnwr yn gyfrifol am reoli'r achos. Byddai manteision o gael y barnwr hwnnw neu honno i reoli'r achos drwyddo, gan gynnwys y treial, ar yr unig amod y gallai'r barnwr fod wedi gweld deunydd a ddaliwyd yn ôl ar ôl y broses ddatgelu. Byddai'r partïon, yn enwedig yr AAau, yn gwybod am hynny, a'r barnwr. Gallai manteision bod yn gyfarwydd â'r gyfraith, esblygiad yr achos a'r dystiolaeth, fod yn sylweddol. Rwy'n deall y bydd trefniadau barnwrol yn golygu na fydd yn bosib cael yr un barnwr drwy gydol yr achos bob tro, ond hyn ddylai'r nod fod. Ac yn sicr, byddai'n dda gallu osgoi un achos yn mynd drwy ddwylo nifer o farnwyr.

118. Ni chredaf y dylai Meistri wneud penderfyniadau rheoli achosion. Mae'n glastwreiddio arbenigedd barnwrol yr Uchel Lys mewn maes lle nad yw achosion yn gyffredin. Mae'r achosion yn gynhenid sensitif. Mae llawer o faterion rheoli achosion yn bur gymhleth, nid yw'r problemau'n amlwg bob tro a gallent godi materion o egwyddor. Mae angen bod yn bwyllog gyda'r dogfennau ac wrth ysgrifennu'r dyfarniad. Dylid osgoi haen bosib o apêl ac oedi mewn maes lle y mae'r gweithdrefnau deunydd caeedig eisoes yn creu mwy o oedi nag ar hyn o bryd mewn achosion confensiynol. Ni ddylid diystyru'n rhy hawdd y manteision y byddai barnwr y treial maes o law'n ennill gwybodaeth gynnar am faterion a phroblemau achos

119. **ARGYMHELLIAD: Ni chredaf fod angen newid y rheolau i ddefnyddio'r un barnwr drwy gydol yr achos lle bo'n bosib, ond byddwn yn ei argymell fel strategaeth drefnu. O'i fabwysiadu, ymddengys nad oes angen newid y rheolau o ran Meistri. Ond os oes angen newid y rheolau bod achosion CMP i gael eu rheoli gan farnwyr Uchel Lys yn unig, yna byddwn yn ei argymell, o leiaf lle y mae'r mater rheoli achosion yn cyffwrdd neu'n ymwneud â deunydd caeedig.**

## O. Pwyntiau eraill yn yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth

120. Ni wyddai un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth a oedd gan y Llywodraeth bolisi ar gyfer ei phenderfyniadau ynghylch pryd i wneud cais am ddatganiad adran 6, neu wrth benderfynu pa ddeunydd na ddylid ei ddatgelu. Pwysai'r ymatebwr y dylai fod gan y Llywodraeth bolisi ar y pethau hyn ac y dylid ei gyhoeddi. Ni welaf fod angen polisi o'r fath;

mae'n gwneud cais am ddatganiad os yw'n credu bod yr achos yn cyfiawnhau hynny a datgelu beth y mae'n ystyried y gellir ei ddatgelu heb niwed i ddiogelwch gwladol, neu hyd yma, os yw'r llys wedi gwrthod caniatâd i'w ddal ei ôl.

121. Awgrymodd ymatebwr arall i'r alwad am dystiolaeth y dylai barnwyr gyhoeddi tystiolaeth sy'n cael ei datgelu i'r AAau ac sy'n dystiolaeth o "sathru'n ddifrifol ar hawliau dynol neu o fynd yn gwbl groes i gyfraith ddyngarol ryngwladol". Dylent wneud hyn lle na fyddai fel arall unrhyw atebolrwydd na rhwymedi effeithiol i'r dioddefwyr. Gallai fod angen cydbwyso'r buddiannau cyhoeddus sydd yn y fantol, gan gynnwys y niwed i ddiogelwch gwladol. Nid mater i'r adolygiad hwn yw datgelu a chyhoeddi deunydd diogelwch gwladol o'r fath, ond i'r Senedd.

122. Roedd ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth yn beirniadu barnwyr am fod yn rhy barod i dderbyn dadleuon y diffynyddion ynghylch pam y dylid dal deunydd yn ôl. Rwy'n deall y gallai anghytuno â phenderfyniad y barnwyr, lle y nodir yr egwyddorion mewn dyfarniadau agored. Gallai anghytuno â dyfarniad y llysoedd apêl ar yr egwyddorion hynny. Nid yw'n dystiolaeth ddefnyddiol nad yw'r system yn gweithio, neu'n gweithio fel y bwriadai'r Senedd iddi weithio. Fel arall, gall y farn hon ond rhoi argraff yr AAau o'r broses gaeedig, mewn achosion lle'r oedd yr adfocatiaeth yn eu hachos caeedig yn aflwyddiannus. Nid yw hyn yn ddefnyddiol ychwaith. Ni welais unrhyw dystiolaeth fod diffynyddion yn ymatal rhag datgelu'n agored ddeunydd na fyddent wedi ymatal rhag datgelu o dan PII o fewn gweithdrefnau cyfreitha confensiynol. Ni ddatgelir ar sail "dosbarth" ychwaith; mae'r broses ddatgelu'n edrych ar bob tystiolaeth. Wrth gwrs, rhaid cydnabod bod diogelwch gwladol fel arfer yn ymwneud â mathau penodol o dystiolaeth ac y gallai'r casgliad ar un darn o dystiolaeth fod

yn berthnasol i sawl darn arall o dystiolaeth. Ond ni all hynny fod yn feirniadaeth synhwyrol o weithrediad y JSA, os mai hynny oedd yr ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth yn ei feddwl.

123. Roedd ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth yn beirniadu'r hyn a welai, ar sail "y darlun sy'n cael ei greu o'r gyfraith achosion agored a phrofiadau ymarferwyr", fel "llai o graffu gan y llysoedd sy'n ymddangos i ni" i fod yn gweithredu ar y sail bod y broses yn gynhenid deg yn lle adolygu pob achos, ac i fod ag agwedd rhy gul at ddatgelu o dan Erthygl 6, sydd meddai "o bosib yn lefel llawer is o graffu na'r hyn sy'n digwydd o dan PII." Yn fy marn i, nid oes llawer o sail i'r farn ail law, argraffiadol a phetrusgar hon. Mae cam y datganiad yn arwain at CMP sy'n cynnwys craffu manwl o'r deunydd i'w ddatgelu. Mae'r broses o leiaf yr un mor bwyllog ag unrhyw un gan y llys mewn proses PII. Mae'r gwahaniaeth yn y canlyniad oherwydd gyda deunydd diogelwch gwladol PII, hyd y gwyddom, mae'n arwain at ei eithrio o'r achos. Wrth gwrs, gallai fod barn hollol wahanol am beth sy'n ofynnol o dan Erthygl 6. Ond mae barnwyr yn cymhwyso penderfyniadau sefydledig yn y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys a gellir apelio eu penderfyniadau os credir y gellid dadlau y cawsant eu cam-gymhwyso i sefyllfaoedd newydd.

124. Ni wnaf unrhyw argymhellion ar y pwyntiau hyn.

# Adran 5: Casgliadau Cyffredinol

1. Yn gyffredinol, cytunaf ag arfarniad y Llywodraeth ei bod wedi gallu amddiffyn hawliadau iawndal a hawliadau adolygiad barnwrol na fyddai wedi bod yn bosib heb weithdrefnau CMP. Yn wir yn fy marn i, mae'n glir bron o bob achos lle y gwnaed datganiad CMP fod y broses wedi cynorthwyo'r achosion i fynd yn eu blaenau a hebddi y byddent naill ai heb ddigwydd o gwbl neu y byddent wedi setlo oherwydd y byddai PII wedi rhwystro'r diffynyddion rhag cyflwyno deunydd a fyddai'n hanfodol neu'n bwysig i'w hachos. Mae'n anodd gwybod, pe na bai CMP ar gael, yn union pa hawliadau gyda dadleuon cadarn a fyddai wedi methu oherwydd na ellid defnyddio'r dystiolaeth berthnasol i'w symud ymlaen, a pha hawliadau heb ddadleuon cadarn a fyddai wedi llwyddo oherwydd na ellid defnyddio'r dystiolaeth berthnasol i'w trechu. Fodd bynnag, mae'n glir bod rhai ym mhob categori. Mae prif amcan darpariaethau'r Ddeddf yr wyf wedi bod yn ei drafod wedi cael ei gwrdd, ac yn wir wedi'i gwrdd i'r ddwy ochr.

2. Mae barnwyr wedi nodi mewn rhai achosion na allai'r hawliad fod wedi symud ymlaen neu na allai'r diffynyddion fod wedi ei amddiffyn heb y CMP: *CF a Mohamed* (achosion 1 a 2), *Belhaj* (achos 19)*.* Yn fy marn i hefyd, yn *K, A, a B* (achosion 28-30), lle y collodd yr hawlwyr, naill ai ni ellid bod wedi ei wrando o gwbl, neu ei amddiffyn o gwbl, heb y CMP. Byddai herio penderfyniadau datgelu SIAC wedi bod yn amhosib heb CMP; *SIAC ac AHK,* achos 21*.* Nodaf hefyd *CAAT* (achos 31) lle yr enillodd yr hawlydd yn y Llys Apêl. Mae'n glir bod llwyddo wedi dibynnu ar gael gweld deunydd caeedig, yn y CMP, i ddangos bod y

rhagdybiaeth rheoleidd-dra, a fyddai fel arall wedi cael ei defnyddio i drechu'r hawliad, wedi cael ei gwrthod. Lleisiodd Martin Chamberlain CF (Mr Ustus Chamberlain bellach), yn ymddangos ar ran yr hawlydd, y farn ei bod yn debygol, gan gymhwyso'r rhagdybiaeth rheoleidd-dra, y byddai'r hawliad wedi methu heb y CMP. Oherwydd byddai'r deunydd caeedig wedi bod yn annerbyniadwy yn yr achos; byddai'r hawliad PII yn ei gyswllt "bron yn sicr" wedi llwyddo; wele Reolau Trefniadaeth Sifil 20, Pennod 7 "National Security, Closed Material Procedures and Fair Trials".

3. Mewn achosion adolygiad barnwrol, mae'r Llywodraeth weithiau wedi ennill, dro arall wedi colli, achosion a fyddai wedi bod yn anodd neu'n amhosib eu gwrando heb CMP. Drwy drosglwyddo adolygiadau barnwrol o benderfyniadau eithrio a chenedligrwydd ar sail diogelwch gwladol i SIAC, bu'n bosib ystyried yr hawliadau hynny, fel arall roedd risg sylweddol eu dyfarnu fel rhai na ellid eu gwrando neu'n amhosib i'r hawlwyr eu hennill, a chymhwyso fy mhenderfyniad yn *AHK v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2012] EWHC (Gweinyddol) 1117.

4. Mae nifer y setliadau wedi bod yn uwch na'r disgwyl. Mae'n debyg na chafodd yr holl achosion Libiaidd eu rhagweld. Nid yw'r achosion a restrir yn cynnwys unrhyw hawliadau iawndal sifil wedi eu hamddiffyn gan y Llywodraeth nes cyrraedd treial, er mai un o'r prif resymau dros gyflwyno'r broses oedd bod angen amddiffyn y rhain yn iawn.

5. Dadl yr AAau yw mai nod y CMP oedd fel y gallai'r Llywodraeth gwffio achosion yn lle eu setlo; ac felly bod y nifer uchel o hawliadau iawndal a setlodd yn dangos nad yw pwrpas y JSA wedi cael ei gwrdd. Mae

hynny'n gorsymleiddio pethau'n arw. Ni wn i, ac yn wir ni all unrhyw un wybod, beth a fyddai wedi digwydd i'r achosion hynny heb CMP. Mae sail y setliadau'n anhysbys; maen nhw'n gyfrinachol. Roedd rhai'n cynnwys dim addefiad o atebolrwydd. Mae effaith y JSA ar lefel y setliadau, neu ar y materion a arweiniodd at setlo, yn anhysbys. Ni allwn wybod ychwaith i ba raddau oedd y setliad yn seiliedig ar haeddiant, na'r risg o gyfreitha o'i gymharu â chostau, lefel yr iawndal ac amser. Fodd bynnag, mae'r JSA yn creu rhywbeth tebycach i'r risgiau a asesir mewn cyfreitha arferol pan fydd setlo'n cael ei negodi, yn lle'r hap-ganlyniadau a fyddai'n digwydd hebddo, a fyddai'n digwydd oherwydd hap-effaith neu effaith fympwyol taflu'r hawliad allan pe na bai'n gallu symud ymlaen, neu byddai'r diffynnydd yn colli'n anochel os na allai amddiffyn ei hun. Ond byddai'r JSA, heb os, yn cynorthwyo'r diffynnydd a'r AAau i wybod pa dystiolaeth gaeedig a fyddai gerbron y barnwr yn y treial, a pha dystiolaeth y byddai'n rhaid ei datgelu neu wneud consesiynau yn ei chylch. Mae'n debygol iawn i'r setliad gael ei gyrraedd ar sail fwy cadarn gyda'r CMP na hebddi a phe na bai'r diffynnydd wedi gallu amddiffyn yr achos neu pe na bai'r hawlydd wedi gallu symud ymlaen â'r achos, ar wahân i beth bynnag y byddai PII wedi gorfodi ei gyflwyno fel tystiolaeth. Mae'r achosion yn cael eu dwyn, amddiffyn neu ildio ar sail fwy gwybodus ac ystyriol.

6. Nid yw ffaith eu setlo'n golygu bod yr amddiffyniad yn debygol o fod wedi methu. Fodd bynnag, ni all y Llywodraeth bellach ddadlau ei bod *wedi ei gorfodi* i setlo hawliadau anhaeddiannol i osgoi datgelu deunydd diogelwch gwladol oni bai, fel y gallai fod wedi digwydd, y gwrthodwyd caniatâd i ddal deunydd yn ôl y byddai ei ddatgelu'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol, a'r Llywodraeth wedi gwrthod ei ddatgelu.

O’r dechrau, roedd darpariaethau yn y Mesur a fyddai’n golygu, pe bai datgelu o’r fath yn ofynnol o dan Erthygl 6 yr ECHR, y byddai’n rhaid ei ganiatáu neu wneud consesiwn priodol, neu y byddid wedi gorfod ildio’r achos. Gallai’r ECHR ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau cyfiawnder mewn achos droi’r fantol yn erbyn buddiannau diogelwch gwladol.

7. Credaf felly fod amcanion Rhan 2 yn cael eu cwrdd a bod y Ddeddf yn gweithredu o fewn cwmpas cyffredinol bwriadau’r Senedd. Nid yw’r pryderon a leisiwyd wrth i’r Mesur fynd drwy’r Senedd am ei weithrediad ymarferol heb gael eu gwireddu.

8. Fodd bynnag, mae un pwynt pwysig a ddaeth allan o’r adolygiad hwn, ac sy’n destun argymhelliad, yn codi o’r nifer llawer mwy na’r disgwyl o setliadau. Ymddengys hefyd fod rhyw fath o batrwm i’r cam pryd y mae setlo’n digwydd mewn hawliadau iawndal: ar ôl i’r broses ddatgelu ddod i ben ond cyn datgelu unrhyw ddeunydd fel deunydd agored a allai fod yn ofynnol. Rhaid talu sylw llawer mwy i rôl yr AAau yn y broses setlo, a dylai hynny gynnwys mynychu cyfarfodydd cyfryngu. Dylid hefyd ystyried sut y gallai’r system gyfathrebu “LPP” ffurfiol gynorthwyo AAau i roi cyngor cyffredinol, pan ofynnir amdano gan y CAwyr, ar effaith y deunydd caeedig ar y gobaith o lwyddo neu ar ba mor dderbyniol yw’r setliad arfaethedig, lle bo angen gyda rhyw fath o weithdrefn llys i ddatrys unrhyw fater “datgelu”.

9. Mae amseru setliadau, pan fydd yr AAau a’r diffynyddion yn gwybod beth yw union gyflwr neu gyflwr tebygol y dystiolaeth gaeedig, a beth fydd angen i’r diffynyddion efallai ei ddatgelu, yn ychwanegu grym sylweddol i’r farn bod tegwch yn mynnu mwy o sgôp i gyfranogiad yr AAau.

10. Credai ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth nad oedd dadl lawn o gwbl wedi'i gwneud o blaid rhesymeg polisi'r CMP a bod y "dystiolaeth nawr yn cael ei gwrando'n ddirgel pryd o'r blaen y byddai wedi'i datgelu'n agored." Rwyf yn anghytuno. Ni welaf unrhyw sail bosib dros honni hyn. Mae'r hyn a fyddai o'r blaen wedi'i eithrio o dan PII bellach yn debygol o gael ei wrando'n gaeedig; roedd datgelu o dan PII, er y niwed i ddiogelwch gwladol, yn eithriadol brin os oedd yn digwydd o gwbl, a'r hyn nad oedd yn cael ei ddatgelu yna'n cael ei eithrio'n llwyr.

11. Mae CMP, yn ôl un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth, wedi dod yn fwy cyffredin na'r disgwyl ac nid yw'r cydbwysedd rhwng cyfiawnder agored a theg, a diogelwch gwladol, wedi'i daro fel yr addawyd. Rwyf yn anghytuno.

12. Ofnai un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth fod y CMP wedi dod yn "opsiwn i'r llys os yw'r opsiwn hwnnw'n weinyddol fwy cyfleus, er gwaetha'r posibilrwydd y gallai fod ffordd lai llym o warchod diogelwch gwladol". Mae hynny'n gwbl anghywir. Mae barnwyr wedi ei ystyried a dod i'r casgliad nad yw PII yn opsiwn gwirioneddol arall oherwydd y byddai ei effaith eithrio'n anghyson ar y cyfan â phwrpas sylfaenol y Ddeddf. Ni welais unrhyw enghraifft o achosion lle y gwrthodwyd PII gan farnwyr fel opsiwn llai cyfleus, neu oherwydd bod CMP yn "fwy cyfleus". Ni chefais fy narbwyllo gan natur betrusgar sylwadau'r AAau, a adroddwyd gan ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth, y gallai rhai achosion (heb eu henwi) fod wedi cael eu gwrando'n deg, a'r awgrym yw yn decach, drwy ddefnyddio PII i eithrio tystiolaeth. Nid yw ymdriniaeth o farnwriaeth o PII yn cadarnhau hyn.

13. Ystyriwyd dulliau eraill, fel aros yn ddienw a chylchoedd cyfrinachedd, mewn amrywiol achosion ac, am resymau amlwg, cawsant eu bod yn anfoddhaol o'u cymharu â CMP er bod rhai, yn enwedig aros yn ddienw, duo testun a chyfleu hanfod deunydd, yn cael eu defnyddio yn y broses ddatgelu.

14. Derbyniaf hefyd sylwadau cyffredinol y Llywodraeth ac AAau fod y broses CMP yn ymestyn yr amserlen gyfreitha'n sylweddol o'r hyn a fyddai'n digwydd pe na fyddai CMP, a dim proses PII yn ei lle. Mae'r broses adran 6 a'r broses ddatgelu'n cymryd amser. Fel y noda'r Llywodraeth yn glir, gall y broses ddatgelu gynnwys nifer o adrannau neu gyrff. Gall yr AA wneud cais am chwiliadau caeedig a datgelu pellach. Mae'r broses ddatgelu'n hirfaith a allai ymestyn dros nifer o fisoedd. Mae cam adolygu adran 7 yn ychwanegu at yr amserlen, er nad oes unrhyw achos o ddirymu wedi bod. Mae'r agweddau mwy beichus, a'r rhai sy'n gorgyffwrdd, ar y gwrandawiadau agored a chaeedig, y ffaith bod angen ystyried datgelu unrhyw ddeunydd newydd, y broses o symud o wrandawiadau agored i rai caeedig, y nifer fwy o adfocadau y mae'n rhaid ystyried a ydynt ar gael, y drafferth o gael AA arall os nad yw ar gael, bod dau ddyfarniad yn cael eu cynhyrchu, a'r broses glirio, i gyd yn gwneud y broses yn fwy cymhleth a thrwm ar amser ac adnoddau, ac yn fwy beichus. Ychydig iawn o staff llys sy'n mynd drwy'r broses glirio.

15. Mae'r cynnydd mewn amser cyfreitha a chostau'n arbennig o sylweddol yng Ngogledd Iwerddon lle, ar wahân i adnoddau, ac yng ngeiriau'r Llywodraeth, y mae "cefndir ffeithiol cymhleth i lawer o achosion etifeddol NI". Nid ymddengys fod hyn wedi cael ei ragweld na'i ddarparu ar ei gyfer fel y dylai, sy'n amlwg bellach.

16. Mae llawer o'r oedi'n deillio'n anochel o brosesau'r CMP. Ond mae camau y gellid eu cymryd, sy'n destun argymhellion, ac a allai helpu. Nid yw'r problemau cynhenid hyn yn cefnogi unrhyw farn y gwneir cais yn ysgafn am broses CMP, nac ychwaith er mwyn cuddio deunydd ymylol.

17. Mae'r AAau yn meddwl nad oes gan y Llywodraeth unrhyw wir gymhelliad dros weld yr achosion hyn yn cael eu datrys yn ddioed gan ddefnyddio cyfyngiadau amwys ar adnoddau i gyfiawnhau amserlenni llawer hirach nag a fyddai'n dderbyniol mewn achosion eraill. Ym marn y Llywodraeth, achosir yr oedi drwy iddynt dderbyn gormod o geisiadau datgelu, ac am gyfathrebu i'r CAwyr. Ni allaf farnu ar y math yma o anghydfod, ond gallai'r argymhelliad ar gyfer Cyfarwyddyd Ymarfer helpu i ganolbwyntio sylw'r Llywodraeth ar fod angen ystyried o ddifrif gwneud ei gorau i ddatgelu'r hyn y gellir ei ddatgelu, ac na ddylai'r AAau wneud ceisiadau i ddatgelu neu gyfathrebu sy'n gallu cymryd amser maith a heb lawer o werth na gobaith o lwyddo iddynt.

18. Yn bwysicach, a dyma brif fyrdwn yr argymhellion, yw'r adnoddau a'r cyfleusterau ar gyfer AAau ac yn enwedig AAau sy'n delio ag achosion yng Ngogledd Iwerddon, lle y mae'r sefyllfa'n arbennig o daer. Yn anochel mae'r broses CMP yn gofyn am fwy o adnoddau na chyfreitha arferol. Mae'r gofynion adnoddau ar gyfer PII yn llai o dan y CMP. Y prif ofynion yw hyfforddiant a staff cymorth (er efallai nad problem adnoddau'n unig fydd recriwtio staff o gofio bod gymaint o ddarpar-ymgeiswyr yn ymddangos i fod yn gyndyn o fynd drwy'r broses DV). Mae'r gofynion ar gyfer Gogledd Iwerddon yn fwy sylweddol ac yn cynnwys y lleoliadau lle y gellir gweld deunydd caeedig, y staff cymorth ym Melffast, y dulliau o gyfathrebu deunydd caeedig rhwng yr AAau,

diffynyddion a’r llysoedd, ac agweddau eraill ar AAau yn ymdrin â deunydd caeedig.

19. Er mwyn i’r system CMP fod mor deg â phosib, mae angen mwy a gwell adnoddau ar yr AAau. Mae’n broses ddrytach i’r Wladwriaeth na chyfreitha confensiynol er y byddai’r system PII yn gostus yn nhermau amser Gweinidogion, ac i AAau mae’n debyg o ran y gwrandawiadau llys i weld a ddylid derbyn tystysgrifau neu beidio. Rhaid darparu ar gyfer y gost ychwanegol honno’n ddi-gwestiwn, yn gyflym ac ymatebol. Ni ddylai fod yn broblem barhaus neu hirsefydlog a fyddai angen un Adolygydd Deddfwriaeth Derfysgaeth ar ôl y llall. Mae’n bosib, ac fe ddylid, rhoi sylw parod a brwd i’r diffyg aml-ochrog sylweddol hwn yng ngweithrediad y Ddeddf, gan roi blaenoriaeth i’r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon.

20. Rwyf hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion llai, yn bennaf er mwyn gwella gweithrediad y gweithdrefnau a rheolau’r llys. Ni welaf fod angen newid y Ddeddf i sicrhau bod bwriadau’r Senedd yn cael eu gweithredu’n briodol.

# Adran 6: Argymhellion

## Adroddiadau Blynyddol[12]

1. **Dylid gwella'r Adroddiadau Blynyddol drwy fabwysiadu fformat cyffredinol Atodiad 4 (Rhan 4) i'r adolygiad hwn, heb fod yn rhy benodedig am y mater. Dylid cofnodi data ar daenlen syml fel y daw i mewn. Ni ddylai fod angen archwilio pob ffeil achos ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Dylid cael un pwynt cyswllt, a ddylai fod o fewn y GLD, sy'n gweithredu ar ran llawer o bartïon yr amddiffyniad. Dylai fod gan y GLD wedyn systemau yn eu lle, y tu allan i'w ffeiliau achos, ar gyfer cofnodi pwnc cyffredinol yr achos, y partïon (yn ddi-enw os gorchmynwyd hynny) mewn achos, dyddiadau datganiadau a cheisiadau adran 6, y penderfyniadau ar ddatgelu, adolygu neu ddiddymu, a wnaed dyfarniad dros dro, terfynol, caeedig neu agored, a'r canlyniadau gan gynnwys a setlwyd yr achos. Dylai'r data adnabod gorchmynion a wnaed drwy gydsynio neu'n ddiwrthwynebiad, ond nid oes angen cofnodi cais neu ganiatâd gan yr AA i gyfathrebu â'r CAwyr. Dylai'r data nodi ar gyfer pob dyfarniad agored a oedd dyfarniad caeedig neu beidio. Dylid rhoi cyfeiriadau niwtral ar gyfer dyfarniadau agored. Wrth i achosion barhau o un flwyddyn i'r llall, byddai'r adroddiadau'n dilyn fformat treigl, gydag achosion a ddaeth i ben yn cael eu gollwng a data newydd achosion presennol yn cael ei ychwanegu. Mae hyn wrth gwrs i gyd yn dibynnu ar unrhyw orchmynion llys a wneir mewn achos. Dylai chwaer-adrannau'r GLD yng Ngogledd Iwerddon a'r**

[12] Wele adran 4, paragraffau 6–**Error! Reference source not found.**

**Alban wneud yr un peth ac anfon y wybodaeth ymlaen at y GLD fel y gall yr MoJ eu casglu ynghyd yn hwylus.**

## Penodi AAau: y 'gwiriad llygru' a cheisiadau am AA penodol[13]

2. **Dylid egluro'r arfer hwn mewn canllawiau wedi eu cymeradwyo gan y Twrnai Cyffredinol a'r Adfocadau Cyffredinol, a byddai hefyd yn syniad da eu cytuno â SASO, ar y sail bod "gwiriad llygru" yn offeryn rhesymol i amddiffyn diogelwch gwladol yn y cysylltiad rhwng CAwyr, eu cleientiaid a deunydd caeedig. Dylai'r canllawiau gyfleu o dan ba amgylchiadau y byddai'r gwiriad yn cael ei wneud, ei amserlen fwriedig, bod angen ymateb cryno ond gwybodus gyda rhesymau, ac adolygiad sydyn. Swyddogion y Gyfraith a ddylai fod yn gyfrifol, yn rhagweithiol, am y broses, oherwydd nhw sy'n penodi'r AA. Ni ddylai'r gwiriad fod yn awtomatig ar gyfer pob penodiad, ond byddai cais am AA penodol yn ymddangos i fod yn 'sbardun' rhesymol dros wneud "gwiriad llygru".**

3. **Dylai cofnod o ba AA oedd wedi cynrychioli buddiannau pwy ac ym mha achos alluogi'r corff sy'n gyfrifol am y deunydd cudd-wybodaeth i rybuddio'n ddioed os oes posibilrwydd y gallai problem godi, a phenodi AA nad oes problem bosib o'r fath wedi bod yn eu cylch.**

[13] Wele adran 4, paragraffau 12–**Error! Reference source not found.**

## Cyflwyno amddiffyniad caeedig drafft[14]

4. **Dylai rheolau'r llys ddarparu fel y gallai'r llys ei gwneud yn ofynnol bod amddiffyniad caeedig drafft neu grynodeb drafft yn cael ei gyflwyno, neu y gellid pledio mater penodol mewn drafft, cyn iddo ystyried neu ddyfarnu ar gais adran 6. Dylai'r rheol hefyd ddarparu na all y drafft fod yn destun unrhyw gais i'w ddatgelu fel deunydd agored neu gymhariaeth â fersiynau di-ddrafft diweddarach.**

## Clediadau Caeedig a Dadleuon Agored[15]

5. **Dylid diwygio rheolau'r llys fel yr awgryma'r AAau. Dylai fod gan y llys hefyd hawl i'w gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno seiliau her a phlediadau caeedig. Byddai hyn o werth er mwyn crynhoi'r dadleuon a gyflwynir gan yr AA hefyd, o ran y ffeithiau ac er mwyn rhoi fframwaith i'w dadleuon cyfreithiol. Gallai'r seiliau a'r plediadau caeedig hyn ategu'r rhai agored, gan dderbyn pwyntiau newydd neu rai a fynegir fel rhai amgen i'r rhai mewn gwrandawiad agored, yng ngoleuni'r deunydd caeedig. Fodd bynnag ni ddylid caniatáu iddynt wrthdaro â'r plediadau agored na'r seiliau.**

## Rôl AAau mewn cyfryngu[16]

6. **Dylai mynychu gweithdrefnau ADR, pe bai'r CAwyr yn dymuno, gael ei ychwanegu at swyddogaethau'r AAau yn rheolau'r llys. Credaf y dylai AAau fod yn gallu mynychu i wneud sylwadau'n breifat i'r**

[14] Wele adran 4, paragraffau 17–20

[15] Wele adran 4, paragraffau 28–30

[16] Wele adran 4, paragraffau **Error! Reference source not found.**–35

**diffynyddion ynghylch sut y maen nhw'n cyflwyno pethau mewn gweithdrefnau ADR.**

## Cyfuno Partïon[17]

7. **Dylid diwygio rheolau'r llys i ganiatáu ychwanegu parti a enwir dim ond mewn gwrandawiad caeedig, wedi'i gefnogi gan blediadau caeedig.**

## Cyfathrebu rhwng AAau a CAwyr heb ganiatâd y llys[18]

8. **Dylid diwygio rheolau'r llys fel nad oes angen anfon cais i'r llys am ganiatâd i gyfathrebu, os cytunir hyn gyda'r diffynnydd.**

## Sianel gyfathrebu gyfrinachol yr "LPP"[19]

9. **Dylid erbyn hyn cydnabod sianel gyfathrebu gyfrinachol yr "LPP" yn rheolau'r llys, ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.**

## Tystiolaeth yng Ngogledd Iwerddon[20]

10. **Dylid newid Rheolau Llys Barnweiniaeth GI fel bod datganiadau tyst ysgrifenedig fydd yn dystiolaeth mewn gwrandawiad caeedig yn cael eu cyflwyno i'r AAau a hefyd gan yr AAau ar gyfer unrhyw dystion caeedig sydd i'w galw ganddynt, mewn da bryd cyn y gwrandawiad lle y bwriedir eu defnyddio. Dywedaf "mewn da bryd"**

[17] Wele adran 4, paragraffau 38–39

[18] Wele adran 4, paragraffau **Error! Reference source not found.**–41

[19] Wele adran 4, paragraffau 42–43

[20] Wele adran 4, paragraffau 44–46

**er mwyn rhoi cyfle i ystyried datgelu pellach, ac os oes mwy'n cael ei ddatgelu, bod cyfarwyddyd yn cael ei gymryd arno.**

## Newidiadau i Reolau Llys Barnweiniaeth GI i leihau'r oedi[21]

11. **Dylid ystyried diwygio Rheolau Llys Barnweiniaeth GI i weld a ellir lleihau'r oedi mewn achosion etifeddol yn enwedig.**

## Dehongli CPR Rhan 82.23 (2) a (4) a fabwysiadwyd gan Bean J, yn Sarkandi [2014] EWHC 2359 (Gweinyddol), (achos 3)[22]

12. **Dylid adlewyrchu'r dehongliad hwn yn glir yn y CPR.**

## Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer CPR Rhan 82 a Rheolau Llys Barnweiniaeth GI, yn rhoi canllawiau ymarferol ar weithrediad y CMP[23]

13. **Dylid cael Cyfarwyddyd Ymarfer o dan CPR Rhan 82 a Gorchymyn 126 Rheolau Llys Barnweiniaeth GI a allai, ymhlith pethau eraill, gynnig atebion defnyddiol i'r materion uchod (adran 4, paragraffau** Error! Reference source not found.**–**Error! Reference source not found.**).**

[21] Wele adran 4, paragraffau 47–48

[22] Wele adran 4, paragraffau 49–50

[23] Wele adran 4, paragraffau **Error! Reference source not found.**–59

## Cymorth Cyfreithiol[24]

14. **Dylai LSANI, a'r awdurdodau cymorth cyfreithiol ym Mhrydain Fawr os yw'r un peth yn berthnasol iddynt, ystyried dileu'r gofynion bod angen awdurdod penodol i gyfranogi yn y broses CMP, os yw cymorth cyfreithiol eisoes wedi'i awdurdodi. Dylid rhoi cyfiawnhad cyhoeddus dros ei gadw.**

## Rheoli Costau[25]

15. **Dylid eithrio achosion CMP o dan y JSA rhag y darpariaethau rheoli costau yn rheolau'r llys.**

## Adnoddau ar gyfer AAau[26]

16. **Dylai Twrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr, ac Adfocad Cyffredinol Gogledd Iwerddon, y GLD a Swyddfa Gogledd Iwerddon, a SASO, roi sylw brys i'r hyn sydd ei angen a dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod yn gyfrifol am sicrhau y darperir yr hyn sydd ei angen, gan neilltuo'r cyllid angenrheidiol. Disgrifir y prif bynciau uchod. Dylai Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol gynnwys atodiad yn egluro pa broblemau cymorth sydd wedi eu datrys yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, a pha broblemau sy'n aros. Oherwydd na chafwyd unrhyw achosion Rhan 2 yn yr Alban, nid yw'r mater o adnoddau brys yn codi yno.**

[24] Wele adran 4, paragraffau 66–69

[25] Wele adran 4, paragraffau 70–71

[26] Wele adran 4, paragraffau **Error! Reference source not found.**–87

17. **Dylai'r Adroddiad Blynyddol hefyd roi sylw i argaeledd staff a basiodd y broses DV yn y system llysoedd ar gyfer achosion Rhan 2.**

## Databas o ddyfarniadau caeedig[27]

18. **Dylai HMG fynd ati'n ddioed i ddyfeisio a chynnal y databas crynodebau, ar ôl ymgynghori â SASO, ynghyd â system ar gyfer adnabod a chrynhoi'r pwyntiau a allai gael eu cymhwyso'n ehangach, a dull o sicrhau y byddai ar gael yn ddiogel ar ddyfais electronig i AAau ac adfocadau HMG fel ei gilydd yn eu lleoliadau diogel. Dylai ddilyn y strwythur a ddisgrifir yn y Daflen Ffeithiau uchod yn niffyg unrhyw resymau da dros ei newid.**

19. **Dylai'r databas crynodebau gynnwys achosion Gogledd Iwerddon hefyd a bod ar gael i AAau ac adfocadau HMG yno hefyd, yn gyfartal. Dylai dyfarniadau caeedig Cymru a Lloegr fod ar gael i AAau yng Ngogledd Iwerddon fel ag y maen nhw i SASO yn Llundain. Os gwrandewir achos JSA yn yr Alban, dylent fod ar gael iddynt hwythau hefyd.**

## Barnwyr[28]

20. **Ni chredaf fod angen newid y rheolau i ddefnyddio'r un barnwr drwy gydol yr achos lle bo'n bosib, ond byddwn yn ei argymell fel strategaeth drefnu. O'i fabwysiadu, ymddengys nad oes angen newid y rheolau o ran Meistri. Ond os oes angen newid y rheolau**

---

[27] Wele adran 4, paragraffau 88–108

[28] Wele adran 4, paragraffau 115–119

**bod achosion CMP i gael eu rheoli gan farnwyr Uchel Lys yn unig, yna byddwn yn ei argymell, o leiaf lle y mae'r mater rheoli achosion yn cyffwrdd neu'n ymwneud â deunydd caeedig.**

# Atodiad 1 – Cylch gorchwyl yr adolygiad o ddarpariaethau'r "weithdrefn deunydd caeedig" yn Neddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013

1. Yn unol ag a.13(1) a (2) Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 ("y Ddeddf"), dylid adolygu gweithrediad adrannau canlynol y Ddeddf dros y cyfnod rhwng 25 Mehefin 2013 a 24 Mehefin 2018:
    - Adran 6 (datganiad yn caniatáu ceisiadau deunydd caeedig mewn achos)
    - Adran 7 (adolygu a dirymu datganiad o dan adran 6)
    - Adran 8 (penderfyniad y llys ar geisiadau mewn achosion adran 6)
    - Adran 9 (penodi adfocad arbennig (AA))
    - Adran 10 (ac eithrio rheolau datgelu arferol)
    - Adran 11 (darpariaeth gyffredinol yn ymwneud ag achosion adran 6)

2. Yng nghyswllt yr uchod, adolygu gweithrediad adran 17(3)(e) (achosion datgelu) y Ddeddf, a'r rheolau gweithdrefnol hynny sy'n berthnasol i adrannau 6-11 y Ddeddf.

3. Adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

    Yn unol ag a.13(5) a (6) y Ddeddf, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi copi o adroddiad yr adolygydd gerbron y Senedd. Cyn gwneud hynny, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â'r adolygydd, eithrio o'r copi unrhyw ran o'r adroddiad a fyddai, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn

niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol pe bai’n cael ei gynnwys yn y copi gerbron y Senedd.

# Atodiad 2 – Galwad am dystiolaeth gan ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA ar ran yr adolygydd

## Amdan yr alwad am dystiolaeth hon

| | |
|---|---|
| **At:** | Yr holl bartïon budd |
| **Parhad:** | **O ddydd Mercher 7 Ebrill 2021 tan ddydd Mercher 30 Mehefin 2021** |
| **Ymholiadau:** | Ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA<br><br>E-bost: JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Er mwyn dod yn gyfarwydd, dylech ddarllen y rhannau “Sut i ymateb” a “Trin ymatebion” isod.<br><br>Dylech e-bostio eich ymateb erbyn **Dydd Mercher 30 Mehefin 2021** at<br><br>JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk |
| | *O ystyried y sefyllfa Covid-19 bresennol, mae mynediad i’r swyddfeydd yn gyfyngedig. Os hoffech dderbyn copi papur, neu os byddai’n well gennych anfon copi caled o’ch ymateb yn y post, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA drwy’r cyfeiriad e-bost uchod.* |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **CMP** | Gweithdrefn Deunydd Caeedig |
| **CPR** | Rheolau Trefniadaeth Sifil |
| **ECHR** | Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol |
| **JSA** | Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 |

# Cefndir

1. Mae adrannau 6-11 y JSA yn darparu ar gyfer datgelu deunydd sensitif mewn achosion sifil. Yn benodol, mae adran 6 y JSA yn rhoi'r pŵer i uwch-lysoedd ar draws y DU (y Goruchaf Lys, y Llys Apêl a'r Uchel Lys (gan gynnwys yng Ngogledd Iwerddon), a'r Llys Sesiwn (yn yr Alban)) wneud datganiad bod yr achos yn un y gellir gwneud cais deunydd caeedig ar ei gyfer lle y byddai datgelu'r deunydd yn niweidiol i ddiogelwch gwladol. Gall cais am ddatganiad o'r fath gael ei wneud gan Ysgrifennydd Gwladol, unrhyw un o bartïon yr achos, neu gan lys ohono'i hun. O dan adran 9 y JSA, gellir wedyn penodi "adfocad arbennig" (AA) i gynrychioli buddiannau'r parti sy'n cael eu hatal rhag gweld y deunydd sensitif ("y parti a eithriwyd"). Fel rheol, unwaith fydd yr adfocad arbennig wedi gweld y deunydd sensitif, nid ydynt yn gallu ymgynghori ymhellach â'r parti a eithriwyd.

2. O dan Adran 13 y JSA[29] rhaid adolygu sut y defnyddir y CMP o dan y Ddeddf, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl 5 mlynedd o'r dyddiad y daeth yr adran berthnasol o'r JSA i rym. Rhaid i'r adolygiad felly ymdrin â'r cyfnod rhwng 25 Mehefin 2013 a'r 24 Mehefin 2018. Yn gryno, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi adolygydd a rhoi adroddiad yr adolygydd gerbron y Senedd.

3. Ar 25 Chwefror 2021, cyflwynodd yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig i Senedd y DU yn ei hysbysu bod yr adolygiad wedi'i sefydlu, ei gylch gorchwyl ac enw'r adolygydd, Syr Duncan Ouseley. Rhoddir mwy o fanylion am y broses adolygu ar wefan GOV.UK[30].

4. Cylch gorchwyl yr adolygiad yw:

   *"1. Yn unol ag a.13(1) a (2) Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 ("y Ddeddf"), dylid adolygu gweithrediad adrannau canlynol y Ddeddf dros y cyfnod rhwng 25 Mehefin 2013 a 24 Mehefin 2018:*
   - *Adran 6 (datganiad yn caniatáu ceisiadau deunydd caeedig mewn achos)*
   - *Adran 7 (adolygu a dirymu datganiad o dan adran 6)*
   - *Adran 8 (penderfyniad y llys ar geisiadau mewn achosion adran 6)*
   - *Adran 9 (penodi adfocad arbennig (AA))*
   - *Adran 10 (cadw ar gyfer rheolau datgelu arferol)*
   - *Adran 11 (darpariaeth gyffredinol yn ymwneud ag achosion adran 6)*

   *2. Yng nghyswllt yr uchod, adolygu gweithrediad adran 17(3)(e) (achosion datgelu) y Ddeddf, a'r rheolau gweithdrefnol hynny sy'n berthnasol i adrannau 6-11 y Ddeddf.*

   *3. Adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.*

29 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/18/section/13/enacted

30 https://www.gov.uk/guidance/review-of-closed-material-procedure-in-the-justice-and-security-act-2013

*Yn unol ag a.13(5) a (6) y Ddeddf, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi copi o adroddiad yr adolygydd gerbron y Senedd. Cyn gwneud hynny, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â'r adolygydd, eithrio o'r copi unrhyw ran o'r adroddiad a fyddai, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol pe bai'n cael ei gynnwys yn y copi gerbron y Senedd."*

# Holiadur

5. Adolygiad o weithrediad y CMP yw hwn. Nid yw'n adolygiad o'r egwyddor gyffredinol o wneud CMP yn rhan o'r weithdrefn sifil mewn uwch-lysoedd ar draws y DU. Penderfynwyd hynny gan Senedd y DU yn 2013, a mater i Senedd y DU fydd penderfynu a ddylai'r weithdrefn hon aros, gan gynnwys drwy ystyried yr adolygiad hwn o'i gweithrediad. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ateb y cwestiynau isod.

## Thema 1 – Nodau'r CMP o dan y JSA

6. Beth yn eich barn chi yw'r rhesymeg dros ehangu defnyddio'r CMP o dan y JSA?

7. Pa ddehongliadau barnwrol o ddarpariaethau'r CMP a wnaed a sut yr effeithiodd y rhain ar ei gweithrediad, yn enwedig yng nghyswllt Erthygl 6 yr ECHR (hawl i dreial teg) ac ystyr "achos sifil", a sut yr effeithiwyd ar y cyfyngiadau ar ddatgelu a'r ddyletswydd i ddatgelu mewn achosion lle'r oedd Erthygl 6 yn berthnasol?

## Thema 2 – Sut y gweithiodd y CMP o dan y JSA ar lawr gwlad

8. Beth oedd effaith gwneud cais am CMP, y prosesau datgelu, ac ystyried parhau gyda'r CMP neu beidio, ar yr amserlen achosion?

9. Pa mor aml y cafodd datgelu o dan Erthygl 6 yr ECHR ei ddefnyddio a'i orchymyn? Sut y lluniwyd y profion ar gyfer cymhwyso Erthygl 6 yr ECHR ar gyfer yr achosion hynny? Pa wahaniaeth a wnaeth hyn i'r datgelu a gafodd ei orchymyn?

10. A wnaeth y diffynyddion wrthod datgelu tystiolaeth oedd heb ganiatâd i gael ei dal yn ôl, ac os do, beth oedd yr effaith ar sut y cynhaliwyd neu ar ganlyniad yr achos wedyn?

## Thema 3 – I ba raddau y mae'r CMP o dan y JSA wedi cwrdd â'i hamcanion gwreiddiol?

11. I ba raddau y mae amcanion Llywodraeth EM a Senedd y DU ar gyfer defnyddio'r CMP o dan y JSA wedi cael eu cwrdd? Pa bryderon a leisiwyd ynghylch sut y byddai'n gweithio a wireddwyd ar lawr gwlad?

12. A yw'n bosib gweld sut y byddai'r achosion wedi symud ymlaen (neu beidio) heb CMP?

## Thema 4 – A ddylid argymell newid y weithdrefn neu iaith y Ddeddf er mwyn gwella’r broses

13. Mae’r thema hon yn cynnwys, yn benodol, yr amser y mae’r weithdrefn yn ei gymryd yn gyffredinol, y gost gan gynnwys cymorth cyfreithiol, a rôl yr Adfocadau Arbennig.

14. A fyddai’n bosib symleiddio’r camau gweithdrefnol? A oes unrhyw ragofalon gweithdrefnol sy’n ddiangen, neu eraill sydd eu hangen, yn enwedig yng nghyswllt Erthygl 6 yr ECHR?

15. A oes unrhyw newidiadau i CPR Rhan 82[31] sydd angen eu gwneud?

16. A hoffai’r ymatebwyr wneud unrhyw bwyntiau eraill, nad yw’r cwestiynau uchod yn rhoi sylw iddynt, sy’n berthnasol i weithrediad y CMP?

[31] PART 82 - CLOSED MATERIAL PROCEDURE (justice.gov.uk)

# Sut i ymateb

## Manylion cyswllt ar gyfer, a fformat, yr ymatebion

17. Dylech e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau ar dud. 7-8 **erbyn dydd Mercher 30 Mehefin 2021** at JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk

18. O ystyried y sefyllfa Covid-19 bresennol, mae mynediad i'r swyddfeydd yn gyfyngedig. Os hoffech dderbyn copi papur, neu os byddai'n well gennych anfon copi caled o'ch ymateb yn y post, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA drwy'r cyfeiriad e-bost uchod.

19. Wrth baratoi eich ymateb, dylech ystyried y canllawiau canlynol:

- Byddem yn croesawu ymatebion cryno. Cofiwch gadw eich ymateb i 10 tudalen ar y mwyaf, neu 6,000 o eiriau.
- Dim ond un ymateb i bob ymatebwr.
- Lle bo'n berthnasol, gofynnir i grwpiau sy'n cynrychioli sefydliadau roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maen nhw'n eu cynrychioli wrth ymateb.
- Gofynnir i bob ymatebwr ddod yn gyfarwydd â'r adran isod ar "Trin ymatebion".

## Cwynion neu sylwadau

20. Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am broses yr ymgynghoriad, dylech gysylltu ag ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA drwy e-bostio JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk <mailto:JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk>

## Copïau ychwanegol

21. Gallwch ofyn am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn gan ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA drwy e-bostio JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk

# Y camau nesaf

22. Bydd yr ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth yn cael eu hystyried gan yr adolygydd wrth gyrraedd ei gasgliadau yn yr adroddiad.

23. Yn unol ag a.13(5) a (6) y JSA, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol roi copi o adroddiad yr adolygydd gerbron y Senedd. Cyn gwneud hynny, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â'r adolygydd, eithrio o'r copi unrhyw ran o'r adroddiad a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol pe bai'n cael ei gynnwys yn y copi gerbron y Senedd.

24. Rydym yn anelu at gwblhau'r broses hon yn 2021.

# Trin ymatebion

## Y dull cyffredinol

25. Bydd crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth yn cael ei gynnwys fel Atodiad i adroddiad yr adolygydd.

26. Mae ymatebion unigol yn destun deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) y DU, Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych eisiau i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch o dan y FOIA fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam y credwch fod y wybodaeth a roesoch inni'n wybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn ond ni allwn warantu y gallwn gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn orfodol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

27. O ran gwybodaeth bersonol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r rheolydd data a bydd yn prosesu unrhyw ddata o'r fath yn unol â'r GDPR a'r DPA.

28. Rhaid parchu'r ddyletswydd bod yn ddi-enw (er enghraifft lle y gwnaed parti neu dyst yn ddi-enw) o dan Orchymyn Llys ym mhob ymateb.

## Diogelwch gwladol

**29.** Os yw ymateb yn delio â'r hyn a ddigwyddodd yn rhan gaeedig y CMP mewn achos penodol, dylai fod yn ymateb ar wahân i unrhyw ymateb sy'n dibynnu ar ffynonellau agored. Ni fydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyhoeddi o gwbl a rhaid eu darparu o dan yr un weithdrefn a dosbarthiad diogelwch ag ar gyfer dogfennau a gynhyrchwyd yn y CMP. **Cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA (drwy e-bostio** JSA-CMP-statutoryreview@justice.gov.uk**)** **cyn** **i chi gyflwyno'r math yma o ymateb. Peidiwch ag anfon y math yma o ymateb heb drefnu ymlaen llaw ag ysgrifenyddiaeth adolygiad CMP y JSA.**

# Atodiad 3 – Crynodeb cyffredinol o’r ymatebion i’r alwad am dystiolaeth

1. Cynhaliwyd galwad am dystiolaeth ar ran yr adolygydd rhwng 7 Ebrill a 30 Mehefin 2021 (wele’r Atodiad ar wahân). Roedd cwestiynau (wedi eu hailadrodd isod mewn teip du) yr alwad am dystiolaeth wedi eu grwpio o dan bedair thema:

- Thema 1: nodau’r CMP (gweithdrefn deunydd caeedig) o dan y JSA (Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013);
- Thema 2 – sut y gweithiodd y CMP o dan y JSA ar lawr gwlad;
- Thema 3 – i ba raddau y mae’r CMP o dan y JSA wedi cwrdd â’i hamcanion gwreiddiol;
- Thema 4 – a ddylid argymell newid y weithdrefn neu iaith y Ddeddf er mwyn gwella’r broses.

2. Derbyniwyd 18 ymateb i gyd ac, er mwyn hwylustod, cawsant eu grwpio’n bedwar categori cyffredinol:
   - Llywodraeth;
   - Adfocadau Arbennig;
   - Sefydliadau anllywodraethol ac ymatebion unigol (mae’r grŵp hwn yn cynnwys elusennau, ymarferwyr cyfreithiol proffesiynol, ac academyddion); ac
   - Aelodau o’r farnwriaeth.

3. Teimlai’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn y grŵp “aelodau o’r farnwriaeth” nad oedd yn briodol gwneud sylw ar weithrediad y CMP hyd yn hyn; cyfeiriodd un at sylw oedd eisoes wedi’i adrodd yn gyhoeddus mewn

dyfarniad agored, sef y byddai rheol 82.23(3) y CPR (Rheolau Trefniadaeth Sifil) yn elwa o fod yn fwy eglur y dylai gwrandawiad ar gyfer cais am CMP, dim ond lle bo angen, ddigwydd heb i'r hawlwyr, eu cyfreithwyr a'r cyhoedd fod yn bresennol, ac y byddai ond angen gwneud hyn os oedd bwriad i gyfeirio at y deunydd caeedig.

4. Roedd para. 25 ym mhapur yr alwad am dystiolaeth yn nodi "Bydd crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth yn cael ei gynnwys fel Atodiad i adroddiad yr adolygydd". Felly, yr hyn sy'n dilyn yw crynodeb cyffredinol o'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr yn y tri grŵp arall (Llywodraeth, Adfocadau Arbennig, a sefydliadau anllywodraethol ac ymatebwyr unigol) yn eu hatebion i'r cwestiynau ym mhapur yr alwad am dystiolaeth.

## Thema 1 – Nodau'r CMP o dan y JSA

**Beth yn eich barn chi yw'r rhesymeg dros ehangu defnyddio'r CMP o dan y JSA? Pa ddehongliadau barnwrol o ddarpariaethau'r CMP a wnaed a sut yr effeithiodd y rhain ar ei gweithrediad, yn enwedig yng nghyswllt Erthygl 6 yr ECHR (hawl i dreial teg) ac ystyr "achos sifil", a sut yr effeithiwyd ar y cyfyngiadau ar ddatgelu a'r ddyletswydd i ddatgelu mewn achosion lle'r oedd Erthygl 6 yn berthnasol?**

### Llywodraeth

5. Roedd y Llywodraeth yn dadlau mai pwrpas y CMP oedd fel y gallai'r llysoedd ystyried deunydd caeedig perthnasol os oedd hawliadau sifil yn cael eu dwyn yn erbyn y Llywodraeth. Byddai'r llysoedd wedyn yn gallu ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol cyn gwneud dyfarniad. Nodau'r CMP o dan y JSA, fel y cawsant eu disgrifio ym Mhapur Gwyrdd

Cyfiawnder a Diogelwch Hydref 2011, oedd: arfogi'r llysoedd yn well i ddyfarnu mewn achosion yn ymwneud â gwybodaeth sensitif; gwarchod diogelwch gwladol y DU drwy atal datgelu deunydd gwirioneddol sensitif a fyddai'n niweidiol i ddiogelwch gwladol; a moderneiddio craffu barnwrol i wella hyder y cyhoedd bod pŵer y Weithrediaeth yn cael ei ddal i gyfrif yn llawn.

6. O ran Erthygl 6 yr ECHR (Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol), hyd y gwyddai'r Llywodraeth, nid yw datgelu fel yn *AF (Rhif 3)* wedi'i orchymyn ond mewn achosion yn ymwneud â chamau gan y weithrediaeth (gan gynnwys achosion heb fod yn rhai CMP-JSA fel mesurau TPIM – Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth – a gorchmynion rhewi asedau). Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r dull hwn. Mae'r llysoedd wedi tueddu i ystyried y cwestiwn o ba lefel ddatgelu sydd ei angen mewn achosion y mae Erthygl 6 yr ECHR, ond nid *AF (Rhif 3*) yn berthnasol iddynt drwy geisio cydbwyso, fesul achos, hawl yr hawlwyr i dreial teg a budd y cyhoedd mewn cadw deunydd diogelwch gwladol sensitif yn gaeedig. Cyfeiriodd at gyfraith achosion.

7. O ran ystyr "achos sifil", yng nghyswllt achos gydag elfen droseddol, cyfeiriodd y Llywodraeth at un hawliad adolygiad barnwrol a oedd yn "achos sifil" i bwrpas y JSA er yn ymwneud ag achos troseddol dramor, ond hefyd at ddyfarniad y Goruchaf Lys bod yr adolygiad barnwrol o benderfyniad i beidio ag erlyn, gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, yn dod o fewn cwmpas "achos neu fater troseddol" ac felly nad oedd yr achos hwn yn dod o fewn cwmpas "achos sifil".

### Adfocadau Arbennig

8. Eglurodd yr Adfocadau Arbennig mai'r rhesymeg a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyrdd oedd fel y gallai'r Llywodraeth amddiffyn ei hun yn erbyn hawliadau sifil y byddai fel arall yn gorfod eu setlo neu a fyddai'n cael eu datgan yn rhai na ellid eu gwrando. Y gosodiad oedd bod y CMP yn deg ac effeithiol. Pwysleisiai'r Adfocadau Arbennig fod y gosodiad hwn yn destun her gan yr Adfocadau Arbennig, a gan lawer o rai eraill a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd. Pwysleisiai'r Adfocadau Arbennig hefyd na all y CMP byth fod yn 'deg', o'i chymhwyso i achosion cyfreithiol, oherwydd ei bod yn ddifrifol groes i egwyddorion cyfiawnder agored a naturiol. Rhaid i unrhyw resymeg o blaid CMP, yn ôl yr Adfocadau Arbennig, fod ei bod yn llai annheg na'r opsiynau eraill, os oes deunydd sensitif sy'n ganolog berthnasol i'r materion mewn achos. Eglurodd yr Adfocadau Arbennig hefyd, ar lefel egwyddor, y dylid delio â dehongliadau barnwrol drwy gyfeirio at gyfraith achosion agored.

### Sefydliadau anllywodraethol ac ymatebwyr unigol

9. Lleisiodd un ymatebwr bryderon difrifol am y rhesymau dros ddefnyddio CMP o dan y JSA gan bwysleisio bod angen cydymffurfio â dyletswyddau'r DU o dan gyfraith hawliau dynol ryngwladol, yn enwedig o ran yr hawl i dreial teg. Credai'r ymatebwr hefyd fod y CMP wedi cael ei defnyddio'n anghymesur yng Ngogledd Iwerddon; gan awgrymu y dylid ailystyried ei defnydd presennol, gan gynnwys adolygu sut y cymhwysir a.7 y JSA ("adolygu a dirymu datganiad o dan adran 6"). Roedd yr ymatebwr hefyd yn dadlau yn erbyn ehangu'r CMP.

10. Roedd gan ymatebwr arall amheuon tebyg am ddefnyddio'r CMP, a'i bod yn bwysig bod y DU yn cydymffurfio â'i dyletswyddau hawliau dynol

rhyngwladol. Roedd yr ymatebwr hefyd wedi lleisio pryderon am ehangu’r CMP i Ogledd Iwerddon.

11. Lleisiodd un ymatebwr bryderon difrifol tebyg am ddefnyddio’r CMP (gan bwysleisio bod angen i’r DU gydymffurfio â’i dyletswyddau hawliau dynol rhyngwladol), gan ddadlau: y defnyddiwyd y CMP yn barhaus i guddio tystiolaeth o rôl y DU mewn achosion difrifol o gam-drin hawliau dynol, ac i guddio camweddau’r Wladwriaeth rhag y broses graffu (cyfeiriodd yr ymatebwr at amryw o hawliadau sifil yn erbyn HMG yn ymwneud ag anfon pobl i wlad dramor gan gymharu’r sefyllfa cyn ac ar ôl y JSA, gan gynnwys achosion fel Binyam Mohammed, ac Abdel Hakim Belhaj a’i wraig); bod y CMP wedi lledaenu’n beryglus ar draws y system gyfiawnder, gan fynd ymhell y tu hwnt i’r rhesymau polisi a gynigiwyd i’r Senedd (soniodd am y cynnydd yn ei defnydd o dan y JSA dros y blynyddoedd, gan gynnwys o bosib mewn achosion teulu, a’i defnydd anghymesur yng Ngogledd Iwerddon); a bod y rhagofalon statudol yn y JSA ar ei defnyddio’n aneffeithiol, ac y dangoswyd eu bod wedi cael fawr ddim effaith ers 2013. Roedd yr ymatebwr hefyd yn erbyn ehangu defnyddio’r CMP.

12. Dywedodd un ymatebwr fod defnyddio’r CMP yn gynhenid annheg a sylfaenol anghyson â’r traddodiad cyfraith gyffredin o gyfiawnder sifil lle y mae achosion yn agored, cyfartal a gwrthwynebol eu natur. Mae ei defnydd ar draws y system gyfiawnder, yn ôl yr ymatebwr, yn bygwth yr hawl i dreial teg ac atebolrwydd y Llywodraeth. Roedd yr ymatebwr yn gryf yn erbyn ehangu’r system bresennol.

13. Roedd un ymatebwr yn argymell, wrth adolygu gweithrediad adrannau 6-11, y dylai’r adolygiad weithredu ar sail sy’n cydnabod bod y

darpariaethau sy’n destun yr adolygiad yn effeithio ar egwyddor sylfaenol rheol y gyfraith, gan gynnwys cyfiawnder agored a naturiol ac ‘arfau cyfartal. Roedd yr ymatebwr yn dyfynnu’r pryderon a godwyd ynghylch hyn ar adeg y Papur Gwyrdd a’r Mesur, gan ddadlau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol heddiw, gan gynnwys y cyfrinachedd sy’n rhan annatod o’r CMP a’r diffyg eglurder o ran faint o achosion y bu’n rhaid i’r Llywodraeth eu setlo cyn ac ar ôl y JSA. Cyfeiriodd yr ymatebwr hefyd at y risg y gallai’r CMP ddod yn gred gyffredinol am sut y dylai’r llysoedd ymdrin â thystiolaeth diogelwch gwladol sensitif.

14. Lleisiodd un ymatebwr bryderon am y rhesymeg dros y CMP, ar adeg y Mesur ac erbyn hyn (yn enwedig yng nghyswllt cyfiawnder agored ac ‘arfau cyfartal’), a’i gorddefnyddio yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr ymatebwr yn argymell y dylid rhoi’r gorau i’r CMP yn syth a diddymu’r ddeddfwriaeth berthnasol; ac yn y cyfamser bod angen ymchwiliad priodol o dan adran 7 y JSA i weld pam oedd y CMP yn cael ei defnyddio gymaint yng Ngogledd Iwerddon; na ddylid ehangu o gwbl ar ddefnyddio’r CMP yn gyffredinol, ac yn enwedig yng nghyswllt proses barhaus y Cwestau Etifeddol yng Ngogledd Iwerddon. Nododd yr ymatebwr hefyd nad oes unrhyw achos o ddirymu’r CMP wedi bod o ganlyniad i broses adolygu’r llys o dan y JSA.

15. Lleisiodd un ymatebwr bryderon nad oedd y CMP yn gydnaws â’r hawl i dreial teg yn unol ag Erthygl 6 yr ECHR, ac am y cyfyngiadau yr oedd y CMP yn ei roi ar natur wrthwynebol treialon (er enghraifft, y cyfyngiadau ar Adfocadau Arbennig i herio tystiolaeth drwy fethu â chyfathrebu â’r cleient), gan wneud achosion yn anodd eu cyfreitha a mynd yn groes i’r egwyddor o ‘arfau cyfartal’. Dywedodd yr ymateb hefyd y gellid defnyddio PII a phrawf *Wiley* yn lle’r CMP i daro cydbwysedd rhwng gweinyddu

cyfiawnder a budd y cyhoedd. Dywedodd yr ymatebwr hefyd nad oedd ehangu'r defnydd o'r CMP o dan y JSA wedi'i gyfyngu, ar ôl 2013, i nifer gyfyngedig o hawliadau, yn groes i'r hyn yr oedd y Llywodraeth wedi'i awgrymu ar adeg y Papur Gwyrdd a'r Mesur. Lleisiodd yr ymatebwr bryderon hefyd am y diffyg gwybodaeth am sut yr oedd a.7 y JSA (y dull o adolygu datganiadau CMP) yn gweithio, ac yn fwy cyffredinol am y wybodaeth annigonol a roddir yn yr adroddiadau blynyddol statudol ar ddefnyddio'r CMP o dan y JSA. Roedd yr ymatebwr yn poeni am ehangu'r CMP ymhellach.

## Thema 2 – Sut y gweithiodd y CMP o dan y JSA ar lawr gwlad

**Beth oedd effaith gwneud cais am CMP, y prosesau datgelu, ac ystyried parhau gyda'r CMP neu beidio, ar yr amserlen achosion? Pa mor aml y cafodd datgelu o dan Erthygl 6 yr ECHR ei ddefnyddio a'i orchymyn? Sut y lluniwyd y profion ar gyfer cymhwyso Erthygl 6 yr ECHR ar gyfer yr achosion hynny? Pa wahaniaeth a wnaeth hyn i'r datgelu a gafodd ei orchymyn? A wnaeth y diffynyddion wrthod datgelu tystiolaeth oedd heb ganiatâd i gael ei dal yn ôl, ac os do, beth oedd yr effaith ar sut y cynhaliwyd neu ar ganlyniad yr achos wedyn?**

### Llywodraeth

16. Roedd y Llywodraeth yn dadlau y byddai'r CMP, yn anochel, yn hwyhau'r amserlen gyfreitha'n sylweddol mewn rhai achosion, yn enwedig os oedd deunydd caeedig yn ganolog i'r achos a llawer o ddeunydd i'w ddatgelu. Roedd angen adnoddau sylweddol ar adeg gwneud y cais o dan y JSA, gydag oedi'n cael ei briodoli i'r prosesau datgelu dwys yr oedd angen i'r

Llywodraeth eu dilyn, yn aml ar draws nifer o adrannau ac mewn rhai achosion i rai nad ydynt yn bartïon yn yr achos. Ar y pwynt hwn mewn proses CMP oedd ceisiadau datgelu caeedig hefyd yn cael eu gwneud gan yr Adfocadau Arbennig.

17. Dywedodd y Llywodraeth mai un mater penodol a gododd mewn rhai achosion oedd trefn penderfyniadau ar gyfer cais adran 6 a chyflwyno amddiffyniad caeedig. Ar adegau, mae'r llysoedd wedi barnu bod yn rhaid cyflwyno amddiffyniad caeedig cyn penderfynu'r cais. Roedd y Llywodraeth hefyd yn dadlau bod hyn yn tanseilio egwyddor yr JSA a bod angen gwneud datganiad adran 6 cyn i CMP ddod i rym a phryd y gallai'r llys ddal deunydd caeedig yn ôl (er enghraifft, mae diffyg eglurder ynghylch beth a fyddai statws amddiffyniad caeedig a ffeiliwyd cyn gwrandawiad adran 6 pe bai'r llys yn penderfynu peidio â gwneud datganiad adran 6). Dadl arall gan y Llywodraeth oedd ei bod yn anghymesur ei gwneud yn ofynnol i amddiffyniad caeedig gael ei ffeilio cyn gwrandawiad adran 6 o ystyried y gallai'r Llywodraeth benderfynu peidio â herio hawliad os oedd cais adran 6 yn methu.

18. Dywedodd y Llywodraeth hefyd ei bod wedi profi oedi gyda'r ffordd y mae'r CMP yn gweithio yng Ngogledd Iwerddon, oedd wedi cynyddu'n sylweddol barhad a chostau'r achosion yno.

19. O ran datgelu o dan Erthygl 6 yr ECHR, tynnodd y Llywodraeth sylw y gallai gorchymyn i ddatgelu o dan Erthygl 6 arwain at fod angen i'r Llywodraeth ddatgelu deunydd a oedd yn bodloni'r prawf a ddyfarnwyd mewn achos gorchymyn rheoli gan Dŷ'r Arglwyddi (*AF (Rhif 3)*) cyn i'r JSA ddod i rym. Os nad oedd y llys yn fodlon â lefel y datgelu, gallai'r Llywodraeth benderfynu ildio mater yn lle datgelu deunydd a fyddai'n

niweidiol i ddiogelwch gwladol, neu y gellid gofyn y cwestiwn a oedd yr achos yn parhau i fod yn bosib ei wrando o dan *Carnduff.* Cyfeiriodd y Llywodraeth hefyd at gyfraith achosion pryd y byddai'r llys, pe bai Erthygl 6 yn cael ei defnyddio, yn taro cydbwysedd priodol rhwng gofynion diogelwch gwladol a hawl unigolyn i warchodaeth farnwrol effeithiol, ar ôl ystyried yr holl ffeithiau yn yr achos. Awgrymodd y Llywodraeth hefyd fod y safon datgelu yn *AF (Rhif 3)* yn benodol i'r achos ac felly, mewn amgylchiadau lle'r oedd Erthygl 6 yr ECHR a datgelu o dan *AF (Rhif 3)* yn berthnasol, mai mater i'r llys drwy edrych ar yr achos fyddai penderfynu a oedd y datgelu mewn sesiwn agored yn bodloni safon *AF (Rhif 3)* ac a oedd yr achos ei hun yn cydymffurfio ag Erthygl 6. Dywedodd y Llywodraeth hefyd nad oedd cymhwyso *AF (Rhif 3)* i ddatgelu'n fater penodol i'r CMP o dan y JSA (er enghraifft, roedd y llysoedd yn ei gymhwyso i achosion cadw'n gaeth, gorchmynion rhewi asedau ac i Fesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth).

20. Dywedodd y Llywodraeth hefyd nad yw erioed wedi dal deunydd, na chrynodeb o ddeunydd, yn ôl o dan adran 8(2) y JSA, lle y gwrthodwyd caniatâd i'w ddal yn ôl.

## Adfocadau Arbennig

21. Fe wnaeth yr Adfocadau Arbennig nifer o sylwadau.
    - Yn gyffredinol, roedd y CMP yn hwyhau'n sylweddol yr amser a gymerai i ddatrys achosion a mynd drwy bob un o'r camau; a phur anaml yr oedd gan y Llywodraeth gymhelliad i ddatrys achosion CMP yn gyflym. Roedd yr AAau yn dadlau bod ystyriaethau adnoddau (a allai gyflwyno cyfyngiadau logistaidd a phur anaml yn cael eu cyflwyno'n dryloyw) yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan

ddiffynyddion i gyfiawnhau amserlen oedd yn llawer hirach nag a fyddai'n dderbyniol mewn achosion eraill.

- Hyd yn oed lle'r oedd y partïon wedi cytuno i wneud datganiad a.6, gallai'r Llywodraeth fynnu ar wneud cais, gan arwain at oedi diangen. Roedd yr AAau yn dadlau hefyd mai'r farn oedd bod y rheidrwydd i ystyried PII (Imiwnedd Budd y Cyhoedd) o dan a.6(7), mewn gwirionedd, yn ychwanegu dim at y ddau brif amod yn a.6. Mae'r llysoedd yn tueddu i dderbyn yn ddi-gwestiwn ddatganiad byr gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yr ystyriwyd bod PII yn ddigonol. Ar lawr gwlad, nid oedd yr amodau ar gyfer gwneud datganiad adran 6 yn feichus. O ganlyniad, dadleuai'r Adfocadau Arbennig, o leiaf mewn rhai achosion, roedd achosion lle y gellid o'r blaen fod wedi cynnal treial teg yn defnyddio PII a dulliau ategol (gan gynnwys hanfod gwybodaeth a chylchoedd cyfrinachedd), yn destun datganiad a.6. Cyn belled ag y mae'r dulliau statudol yn rhoi gwarchodaeth, roedd hyn drwy weithrediad proses ddatgelu adran 8 y CMP yn hytrach na cham adran 6.
- Roedd faint o amser y cymerai'r broses ddatgelu'n benodol i bob achos, ond ym mhob achos roedd yn hwyhau'r amserlen. Yn yr achosion gyda'r gwaith papur trymaf, yn ôl dadl yr Adfocadau Arbennig, gallai'r Llywodraeth fynnu ar amserlen dros nifer o fisoedd, weithiau dros flwyddyn, a mynnu nad oedd yn realistig bosib datgelu'n gynt. Roedd yr AA yn egluro y cyfeiriwyd at gyfyngiadau adnoddau a blaenoriaethau anghytûn (fel arfer yn ymwneud â gofynion diogelwch gwladol) i gefnogi hyn. Roedd y llysoedd, efallai'n anochel, yn gyndyn o wrthod gofynion y Llywodraeth, oedd yn tueddu i gael eu hateb yn y cyfarwyddiadau a orchmynnwyd. Dadleuai'r AAau felly fod y broses adran 8 yn tueddu i fod yn llawer

hirach a mwy beichus nag y byddai pe bai’r Llywodraeth yn cydnabod dyletswydd i fod yn agored ar ddechrau’r broses.

- Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd yr adolygiad a.7 yn gam rhy hir ond bod angen darparu ar ei gyfer i bob cyfeiriad, gan felly hwyhau’r amserlen. Ni allai’r Adfocadau Arbennig adnabod unrhyw achos lle’r oedd yr adolygiad wedi arwain at ddirymu datganiad CMP.
- Roedd y prif wrandawiadau’n llawer hirach drwy gynnwys elfennau caeedig yn ogystal ag agored. Yn fwy cyffredinol, roedd yr AAau wedi adnabod ystod o broblemau a phryderon yn codi o weithrediad y CMP o dan y JSA ar lawr gwlad. Roedd y rhain yn ymwneud, er enghraifft, â: y ddyletswydd i fod yn agored; cyflwyno ceisiadau a.6 heb roi sylw dyledus i PII ac a oedd deunydd sensitif hanesyddol yn parhau i fod yn sensitif ar ôl i amser fynd heibio; argaeledd cyfleusterau llys caeedig; gwrthwynebiadau i’r AAau yn mynychu cyfarfod cyfryngu rhwng y partïon; pryderon yn ymwneud â chymhwyso CMP anstatudol i achosion teulu, drwy ddefnyddio awdurdodaeth gynhenid y llys i reoleiddio ei weithdrefn (a’r awgrym i gyflwyno rheolau yn y cyswllt hwn i sicrhau mwy o sicrwydd a thryloywder).
- Eglurodd yr AAau bod gofynion Erthygl 6 yr ECHR yn cael eu cymhwyso i’r rhan fwyaf o achosion o dan y JSA, er nid bob tro. Nid yw hynny i ddweud, dadleuai’r AAau, y dyfarnir mai’r lefel ddatgelu sy’n ofynnol o dan Erthygl 6 yw’r lefel safonol yn *AF (Rhif 3)*. Gellir ond ateb y cwestiynau hyn ar sail yr hyn sy’n hysbys mewn llys agored ym mhob achos o dan y JSA. Eglurodd yr AAau hefyd y bydd gofynion *AF (Rhif 3)* fel arfer yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i faint o ddatgelu sydd ei angen. Hyd yn oed pe bai’n ofynnol o dan

Erthygl 6, gallai'r Llywodraeth wrthod datgelu'r deunydd, gan ddewis yn hytrach ildio'r rhan hwnnw o'r achos.

**Sefydliadau anllywodraethol ac ymatebwyr unigol**

22. Awgrymodd un ymatebwr fod cais CMP yn rhwystro'r broses gyfreitha'n sylweddol mewn achosion etifeddol yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys oherwydd y nifer fach o Adfocadau Arbennig sydd â phrofiad o'r achosion hyn. Pwysleisiodd yr ymatebwr hefyd ei bod yn anodd i hawlwyr hyd yn oed wybod a oedd diffynyddion wedi gwrthod datgelu tystiolaeth, gan felly'r awgrym bod angen adolygu gweithrediad a.7 y JSA ar lawr gwlad.

23. Roedd gan un ymatebwr bryderon tebyg, yn enwedig pan ddefnyddir y CMP mewn achosion yn ymwneud ag achosion difrifol o gam-drin hawliau dynol gan bwysleisio bod angen sicrhau nad yw'r CMP wedi creu rhwystrau i atebolrwydd neu atal hawl dioddefwyr i dreial teg a rhwymedi effeithiol, o blaid cyfrinachedd a diogelwch.

24. Awgrymodd un ymatebwr fod peth amwysedd o ran pryd y byddai'n "deg a chyfiawn" gorchymyn CMP. Awgrymodd yr un ymatebwr mai'r llysoedd a ddylai wneud y penderfyniad terfynol bob tro wrth asesu a oedd gorchymyn CMP yn deg a chyfiawn. Gallai canllawiau ar ym mha amgylchiadau y gellid gwrthod CMP felly fod yn ddefnyddiol. Awgrymodd yr un ymatebwr ei bod yn amheus a oedd y dull 'sbectrwm dwysedd' o ddatgelu (hynny yw, lle'r oedd achosion CMP yn destun amrywiol ofynion datgelu gan ddibynnu ar sut yr oedd y llys yn eu dosbarthu) o dan Erthygl 6 yr ECHR yn briodol, oherwydd ei fod yn gweithio'n anghyson ac, mewn rhai achosion, yn annheg yn ei farn ef; awgryma'r ymatebwr y dylai'r llysoedd fod yn ofalus i beidio â gwanhau'r gwarchodaethau

hanfodol o dan Erthygl 6 a theimlo’n gyffyrddus yn gorchymyn datgelu os oedd angen gwneud hynny.

25. Dywedodd un ymatebwr mai ychydig iawn o Adfocadau Arbennig sydd ag arbenigedd mewn achosion yn ymwneud â’r helyntion yng Ngogledd Iwerddon. O ystyried nifer yr achosion hyn yng Ngogledd Iwerddon, a’r defnydd o’r CMP, lleisiodd un ymatebwr bryderon am oedi pellach diangen i ymgyfreithwyr oedd eisoes efallai’n oedrannus neu’n fregus fel arall. Dywedodd yr ymatebwr hefyd nad oedd ffordd o wybod a oedd diffynyddion mewn achosion CMP yn gwrthod datgelu tystiolaeth oherwydd natur gyfrinachol y broses o wneud cais am CMP.

## Thema 3 – I ba raddau y mae’r CMP o dan y JSA wedi cwrdd â’i hamcanion gwreiddiol

**I ba raddau y mae amcanion Llywodraeth EM a Senedd y DU ar gyfer defnyddio’r CMP o dan y JSA wedi cael eu cwrdd? Pa bryderon a leisiwyd ynghylch sut y byddai’n gweithio a wireddwyd ar lawr gwlad? A yw’n bosib gweld sut y byddai’r achosion wedi symud ymlaen (neu beidio) heb CMP?**

### Llywodraeth

26. Dywedodd y Llywodraeth ei bod wedi gallu amddiffyn nifer o adolygiadau barnwrol a hawliadau cyfraith breifat drwy fod yn gallu cyflwyno tystiolaeth i’w hamddiffyn, na fyddai fel arall wedi bod yn bosib heb fod yn gallu defnyddio’r CMP o dan y JSA. Mae hyn felly, dadleuai’r Llywodraeth, hefyd wedi sicrhau y gallai hawlwyr wneud hawliadau heb iddynt fod yn debygol o gael eu taflu allan gan awdurdodaeth *Carnduff*. Pwysleisiodd y Llywodraeth hefyd nad oedd bodolaeth CMP yn tanseilio

dyletswyddau'r partïon, gan gynnwys y Llywodraeth, i ystyried a chynnig ffyrdd eraill o ddatrys anghydfod drwy gydol gwahanol gamau'r achos.

### Adfocadau Arbennig

27. Roedd yr Adfocadau Arbennig yn dadlau, yn yr hawliadau sifil mawr am iawndal, nad oedd y Llywodraeth wedi defnyddio'r CMP i gwffio'r achos hyd at dreial, ond bod yr hawliadau wedi cael eu setlo (bron bob tro ar delerau cyfrinachol – ac fel arfer dim ond ar ôl i'r achos gael ei hwyhau'n sylweddol gan weithdrefnau'r CMP). Yn ôl yr Adfocadau Arbennig nid oedd yr amcan oedd mewn golwg, sef y byddai'r JSA yn golygu y gallai'r Llywodraeth gwffio achosion y byddai fel arall yn gorfod eu setlo, yn ymddangos i fod wedi digwydd mewn hawliadau iawndal cyfraith breifat, oedd yn un o'r rhesymau dros gyfiawnhau'r CMP mewn achosion sifil. Roedd yr Adfocadau Arbennig yna'n gwneud nifer o arsylwadau ychwanegol:

- Sef bod yr amcanion, ar draws yr amrywiol geisiadau adolygiad barnwrol pryd y defnyddiwyd y JSA, efallai wedi eu cyflawni'n gliriach (ond dywedodd yr ymatebwr hefyd na chafodd achosion adolygiad barnwrol, yn y Papur Gwyrdd, eu hadnabod na'u cynnig fel y brif sail dros ddarpariaethau'r CMP yn y JSA).
- Eglurodd yr Adfocadau Arbennig fod y Llywodraeth wedi ennill (dro arall wedi colli) achosion a bod o leiaf rhai ohonynt mae'n debyg yn rhai a fyddai wedi bod yn anodd neu'n amhosib eu gwrando heb CMP.
- Cyfeiriodd yr Adfocadau Arbennig at ymateb yr AAau i'r Papur Gwyrdd oedd yn rhestru cyfres o bryderon ymarferol am y cynnig i ehangu'r CMP i achosion sifil cyffredin o dan y penawdau canlynol: (a) cyllid a mynediad at gyfiawnder; (b) derbynioldeb y dystiolaeth;

(c) dulliau gwarchod costau (yn enwedig Rhan 36); (d) cyngor ar y gobaith o lwyddo; (e) llygru'r gyfraith gyffredin (drwy ddatblygu corff o gyfraith achosion cyfrinachol); (f) ariannu Adfocadau Arbennig ac achosion caeedig. I raddau mwy neu lai, roedd yr Adfocadau Arbennig yn dadlau bod pob un o'r problemau disgwyliedig hyn wedi eu profi ar lawr gwlad. Pwysleisiodd yr Adfocadau Arbennig fod pwynt (e) yn waeth nag ofnwyd, oherwydd nad oedd databas o ddyfarniadau caeedig ar gael iddynt ar yr un telerau ag adfocadau'r diffynyddion.

- Dywedodd yr Adfocadau Arbennig hefyd fod cais a.6 wedi'i wrthod mewn rhai achosion a bod achosion eraill wedi symud ymlaen heb CMP er bod datganiad a.6 wedi'i wneud.

**Sefydliadau anllywodraethol ac ymatebwyr unigol**

28. Lleisiodd un ymatebwr bryderon am y defnydd anghymesur, i bob golwg, o'r CMP yng Ngogledd Iwerddon gan dynnu sylw at y dadleuon ar y Mesur Cyfiawnder a Diogelwch yn 2012-13 pryd yr oedd Llywodraeth y DU wedi awgrymu mai dim ond mewn nifer fach iawn o achosion y dylid defnyddio'r CMP (o dan y JSA nes ymlaen). Awgrymodd yr ymatebwr y gellid defnyddio PII yn lle CMP.

29. Cododd un ymatebwr bryderon am ddefnyddio'r CMP yng Ngogledd Iwerddon gan awgrymu y dylid ond defnyddio'r CMP yn niffyg popeth arall pan oedd y broses PII wedi'i disbyddu'n llwyr.

30. Awgrymodd un ymatebwr nad oedd HMG wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos a oedd y CMP yn cwrdd â'i nod polisi dywededig o atal achosion rhag cael eu gollwng rhag ofn y byddai deunydd sensitif yn cael ei ddatgelu, ac nad oedd HMG wedi cyflwyno gwybodaeth am faint o

achosion a fyddai wedi cael eu setlo cyn 2013 a aeth ymlaen i dreial gyda CMP, a faint o achosion y bu’n bosib eu gwrando ers hynny’n defnyddio CMP. Pwysleisiodd yr un ymatebwr fod ehangu’r defnydd o’r CMP hefyd wedi arwain at ymlediad awdurdodaeth gyfrinachol, corff cynyddol o gyfraith gyfrinachol sydd ond yn hysbys i rai sy’n cael mynediad i achosion caeedig. Dadleuai’r ymatebwr nad oedd system o adrodd cyfraith ar hyn o bryd i sicrhau bod materion cyfraith a benderfynir gan farnwyr mewn sesiynau caeedig yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. O ganlyniad roedd y gyfraith ei hun, a ddatblygwyd fesul achos mewn achosion CMP, yn cael ei chadw’n gyfrinach rhag y cyhoedd a’r Senedd, er y gallai effeithio ar rai o hawliau mwyaf sylfaenol y cyhoedd neu hyd yn oed ar rôl y DU mewn arteithio pobl. Mae hyn yn bygwth sylfeini cyfiawnder agored yn y DU fel bod y Llywodraeth yn gallu cyweirio’r gyfraith mewn achosion caeedig heb graffu cyhoeddus. Mae hefyd yn gwarafun i’r Senedd ei hawl i ddiwygio a newid y gyfraith oherwydd ni fyddai ASau byth yn gwybod sut yr oedd y gyfraith gyfrinachol hon yn cael ei datblygu gan farnwyr y tu ôl i ddrysau caeedig. Awgrymodd yr ymatebwr y gellid defnyddio PII yn lle CMP.

31. Dywedodd un ymatebwr nad oedd dadl wedi’i chyflwyno dros y rhesymeg bolisi ar gyfer cyflwyno CMP drwy’r JSA a bod tystiolaeth nawr yn cael ei gwrando’n gyfrinachol, pryd o’r blaen byddai wedi’i datgelu’n agored. Roedd yr ymatebwr yn cydnabod y gellid cyfiawnhau’r CMP o ran ei bod yn caniatáu i achosion gael eu dwyn na fyddai’n cael eu dwyn fel arall, oherwydd diffyg tystiolaeth neu drwy eu taflu allan fel rhai na ellid eu gwrando. Fodd bynnag, dadleuai’r ymatebwr na ddylid defnyddio’r fantais gyfyngedig hon yn anghymesur i realiti, yn enwedig o ystyried effaith y CMP ar weinyddu cyfiawnder yn deg. Hefyd, roedd yr

ymatebwr yn bryderus bod dull y Llywodraeth o weithredu'r CMP yn tanseilio'r sicrwydd na fyddai'r CMP yn dod yn gyffredin ac y byddai cydbwysedd main rhwng cyfiawnder agored a theg, a diogelwch gwladol, yn cael ei daro. Poenai'r ymatebwr hefyd fod y llysoedd yn ymddangos i fod yn rhy barod i dderbyn hawliadau'r Llywodraeth dros ddal gwybodaeth yn ôl. Awgrymodd yr ymatebwr hefyd, gan adleisio'r AAau, na ddylai'r Llywodraeth ystyried y cwestiwn a ddylid gwneud cais i ddatgelu deunydd yn gaeedig fel ymgyfreithiwr gwrthwynebol, gan geisio dechrau'n eang a diweddu gyda chanlyniad cul mwy rhesymol; dylai ond ceisio dal yn ôl yr hyn sydd wir angen ei ddal yn ôl a cheisio cyfyngu effaith y CMP ar gyfiawnder naturiol, yr anfanteision i achos yr hawlydd ac i fudd y cyhoedd mewn sicrhau cyfiawnder agored. Awgrymodd yr ymatebwr y gellid defnyddio PII yn lle CMP.

32. Yn ôl un ymatebwr roedd achosion CMP yn gwneud mwy na dychwelyd carcharorion oedd yn cael eu cadw'n gaeth yn Guantanamo a bod ceisiadau CMP y Llywodraeth yn tueddu i lwyddo. Roedd y ddwy ystyriaeth yma'n awgrymu y bwriedir defnyddio mwy ar y CMP yn y dyfodol gyda phryderon am dryloywder ac atebolrwydd. Dadleuodd hefyd y dylid rhoi sylw arbennig i'r defnydd a wneir o'r CMP yng Ngogledd Iwerddon (yn enwedig os oedd yn ehangu i'r holl ymchwiliadau hanesyddol), oedd yn wynebu heriau gweithredol, fel y nifer fach o Adfocadau Arbennig yno. Lleisiodd bryderon hefyd mai ychydig iawn o wybodaeth am y CMP o dan y JSA oedd ar gael (yn benodol yr adroddiadau blynyddol statudol i'r Senedd ar ddefnyddio'r CMP) a ddim yn cael ei chyflwyno mewn ffordd ddefnyddiol; cyfeiriodd at broblemau fel oedi gyda chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol, diffyg gwybodaeth fanwl yn yr adroddiadau ac nad oeddent yn cynnwys penderfyniadau interim.

Dadleuodd hefyd y dylai'r adolygiad edrych ar oedi blaenorol ac y dylai'r adroddiadau gynnwys gwybodaeth fwy penodol yn y dyfodol, gan gynnwys argymell bod rhestr ar wahân o faterion lle y gofynnwyd am CMP ar gael yn gyhoeddus. Cododd bryderon hefyd am yr oedi gyda sefydlu'r adolygiad, ac awgrymodd y dylai'r adolygiad edrych ar hyn gan argymell y dylai adolygiad bob pum mlynedd o ddarpariaethau'r CMP ddod yn nodwedd barhaol o'r JSA.

33. Credai un ymatebwr y defnyddiwyd y CMP o dan y JSA yn anghymesur yng Ngogledd Iwerddon yn yr achosion etifeddol parhaus yn ymwneud â'r Helyntion, gan ailadrodd ei bryderon am natur gyfrinachol y weithdrefn. Awgrymodd hefyd nad oedd y defnydd helaeth o'r CMP yn gydnaws â'r sicrwydd a roddwyd pan oedd y JSA yn mynd drwy'r Senedd. Cyfeiriodd hefyd at PII fel dull arall yn lle defnyddio'r CMP er yn lleisio pryderon y defnyddiwyd PII yng Ngogledd Iwerddon i dynnu gwybodaeth allan o dystiolaeth y treial.

## Thema 4 – A ddylid argymell newid y weithdrefn neu iaith y Ddeddf er mwyn gwella'r broses

**Mae'r thema hon yn cynnwys, yn benodol, yr amser y mae'r weithdrefn yn ei gymryd yn gyffredinol, y gost gan gynnwys cymorth cyfreithiol, a rôl yr Adfocadau Arbennig. A fyddai'n bosib symleiddio'r camau gweithdrefnol? A oes unrhyw ragofalon gweithdrefnol sy'n ddiangen, neu eraill sydd eu hangen, yn enwedig yng nghyswllt Erthygl 6 yr ECHR? A oes unrhyw newidiadau i CPR Rhan 82 sydd angen eu gwneud? A hoffai'r ymatebwyr wneud unrhyw bwyntiau eraill, nad yw'r cwestiynau uchod yn rhoi sylw iddynt, sy'n berthnasol i weithrediad y CMP?**

**Llywodraeth**

34. Fe wnaeth y Llywodraeth amrywiol argymhellion ar weithrediad y CMP yn y dyfodol.

35. Yn gyntaf, awgrymodd y dylid diwygio’r JSA i nodi’n gliriach a ellid defnyddio PII gyda deunydd sensitif a allai fod yn niweidiol i gysylltiadau rhyngwladol, pe bai’r llys yn gorchymyn na ellid dal y deunydd yn ôl o dan y JSA.

36. Yn ail, awgrymodd y Llywodraeth y dylid bod yn gliriach ar CPR Rhan 82: bod angen diffinio rôl yr Adfocadau Arbennig yn well; darbwyllo cynrychiolwyr agored (CA) i beidio â gofyn am Adfocadau Arbennig penodol; bod y Rheolau’n cadarnhau’r arfer anffurfiol presennol bod angen i’r Adfocadau Arbennig a phartïon y Llywodraeth gytuno ar gynnwys y ceisiadau i gyfathrebu, heb fod angen trafferthu’r llys bob tro y mae’r Adfocadau Arbennig eisiau cyfathrebu â’r cynrychiolwyr agored (CAwyr); sefydlu cyfyngiadau rhesymol ar bwrpas a chynnwys y ceisiadau i gyfathrebu (sy’n cael eu defnyddio, yn ôl y Llywodraeth, i wneud deunydd caeedig yn agored, ac sy’n tueddu i fod yn drwm ar adnoddau a risg i ddiogelwch gwladol).

37. Awgrymodd y Llywodraeth hefyd fod digon o hyblygrwydd yn y JSA a CPR Rhan 82 er mwyn gallu byrhau’r broses mewn achosion priodol, er enghraifft drwy uno gwrandawiad adran 6 ac adran 8; ond pwysleisiodd y Llywodraeth fod angen cadw pob cam gweithdrefnol ffurfiol i sicrhau tegwch yn gyffredinol.

38. Argymhellodd y Llywodraeth fod angen ystyried newidiadau pellach i CPR Rhan 82; eithrio achosion CMP o’r darpariaethau rheoli costau yn y

CPR; cyflwyno system lle mai ond barnwyr gyda phrofiad / hyfforddiant o faterion diogelwch gwladol a fyddai'n gwrando achosion diogelwch gwladol ac yn rhan o reoli achosion CMP; cyflwyno (fel Cyfarwyddyd Ymarfer ar wahân) canllawiau ymarferol ar weithrediad CMP; defnyddio'r un datganiad CMP drwy gydol yr achos (o'r gwrandawiad cyntaf un i'r apêl) heb fod angen gofyn am ddatganiad adran 6 fwy nag unwaith mewn cyfres o wrandawiadau.

39. Yn olaf, roedd y Llywodraeth y gwahodd yr adolygydd i ystyried beth y gallai rheolau'r llys ei gynnwys ar gyfer llysoedd teulu er mwyn darparu'n benodol ar gyfer defnyddio CMP o dan y JSA (yn lle dibynnu ar awdurdodaeth gynhenid y llys yn unig); eglurodd yr ymatebwr fod senarios pryd y gellid defnyddio CMP o dan y JSA yn y llysoedd teulu'n cynnwys achosion lle'r oedd plant yn cael eu hailwladoli o awdurdodaethau tramor risg uchel lle y gallai fod deunydd i ddangos pryderon diogelu o ran ble y gellid lleoli'r plant hynny.

**Adfocadau Arbennig**

40. Fe wnaeth yr Adfocadau Arbennig sylwadau helaeth ar y thema hon.

- Y prif fater diogelwch gweithdrefnol a ystyriwyd i fod yn ddiangen ganddynt, ac oedd yn rhwystr i weithrediad effeithlon y CMP, oedd bod y gwaharddiad ar gyfathrebu rhwng Adfocadau Arbennig a Chynrychiolwyr Agored yn cynnwys materion gweithdrefnol pur. Cwestiynodd yr Adfocadau Arbennig ba sail gyfreithlon a chyfiawnhad ymarferol oedd i'r broses 'gwiriad llygru' (hynny yw, adolygiad y Llywodraeth o'r achosion CMP blaenorol lle'r oedd AA penodol wedi bod yn rhan ohonynt, ac a oedd risg o ddatgelu'n

ddiarwybod wrth gyfathrebu rhwng yr Adfocad Arbennig a'r Cynrychiolwyr Agored).

- Cyfeiriodd yr AAau at amrywiol newidiadau posib i CPR Rhan 82 ac at Orchymyn 126 yn Rheolau Llys Barnweiniaeth Gogledd Iwerddon (er enghraifft, pan fydd Adfocadau Arbennig yn galw tystiolaeth, ac o ran tystiolaeth tystion yng Ngogledd Iwerddon).
- Fe wnaeth yr AAau ailadrodd eu pryderon sylweddol am weithrediad y CMP, gan gynnwys pryderon yn codi o fethiannau'n dilyn monitro ac adolygu. Dadl yr Adfocadau Arbennig oedd bod gofynion y Senedd i fonitro ac adolygu'r defnydd o'r CMP o dan y JSA wedi eu rhwystro gan y Llywodraeth (oherwydd yr oedi diangen ac anghyfreithlon - ym marn yr Adfocadau Arbennig - gyda chomisiynu'r adolygiad a'r oedi anesboniadwy a chynyddol gyda chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol statudol ar ddefnyddio'r CMP). Hefyd, cwynai'r Adfocadau Arbennig fod y Llywodraeth yn ddiweddar wedi ceisio gwahardd trafodaeth rhwng yr AAau a chyrff oedd â diddordeb mewn cyfrannu i'r adolygiad hwn.
- Roedd y ffordd y defnyddiwyd y CMP gan bartïon y Llywodraeth, yn ôl yr Adfocadau Arbennig, yn cynyddu'r annhegwch a hynny ar wahân i'r annhegwch sy'n rhan annatod o'r system CMP a gymeradwywyd gan y Senedd. Yn benodol, pwysleisiodd yr AAau fethiant y Llywodraeth i anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaed ar adeg y JSA i roi digon o gymorth ac adnoddau i'r system Adfocadau Arbennig sydd mor ganolog i weithrediad y CMP. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant i AAau a'r addewid y byddai databas o ddyfarniadau caeedig ar gael.
- Hefyd, tynnodd yr AAau sylw penodol at fethiant neilltuol a dybryd i ddarparu'r cyfleusterau a'r cymorth angenrheidiol ar gyfer y CMP yng

Ngogledd Iwerddon, fel y gallai'r AAau weithio'n effeithiol yn yr awdurdodaeth honno. Yn gwbl wahanol i'r sefyllfa yn Llundain ar gyfer Adfocadau Arbennig sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr, yng Ngogledd Iwerddon roedd yr Adfocadau Arbennig yn pwysleisio nad oedd unrhyw gyfleusterau pwrpasol i AAau gael gweithio ar ddeunydd caeedig; dim SASO (Swyddfa Gymorth Adfocadau Arbennig) bwrpasol ym Melffast; a dim dull na ffordd i 'glirio' cyfathrebiadau cyfrinachol gan yr AAau i'r CAwyr. Mae'r diffygion hyn, dadleuai'r Adfocadau Arbennig, wedi cyfrannu at oedi sylweddol gyda chynnydd unrhyw achosion CMP yng Ngogledd Iwerddon, ar wahân i'r oedi sy'n rhan gynhenid o weithrediad y CMP. Eglurodd yr AAau hefyd nad oedd cyrff y Wladwriaeth, mewn achosion penodol, yn cydnabod na'n gweithredu'n unol â dyletswyddau: i ddiweddaru'r Cynrychiolwyr Agored mor llawn â phosib, yn amodol dim ond i gyfyngiadau statudol yr achos; i ddatgelu'n agored gymaint o ddeunydd â phosib, mor fuan â phosib; i neilltuo digon o adnoddau i symud achosion caeedig ymlaen er mwyn eu datrys mewn amser rhesymol.

**Sefydliadau anllywodraethol ac ymatebwyr unigol**

41. Awgrymodd un ymatebwr y dylid gwrthod defnyddio'r CMP yn llwyr mewn achosion sifil yn yr uwch-lysoedd a diddymu'r rhannau perthnasol o'r JSA i adlewyrchu hynny.

42. Awgrymodd un ymatebwr bod angen ehangu'r broses adroddiadau blynyddol statudol ar ddefnyddio'r CMP o dan y JSA drwy gynnwys mwy o wybodaeth am yr achosion a adroddwyd, er enghraifft gallai'r adroddiadau egluro o dan ba amgylchiadau y gofynnir am ac y caniateir

CMP, y dyfarniadau a benderfynodd yr achosion, neu roi rhesymau dros beidio â chynnwys y wybodaeth yma yn yr adroddiad. Roedd yr un ymatebwr hefyd yn argymell cymryd camau i sicrhau bod llyfrgell gynhwysfawr o ddyfarniadau caeedig ar gael ac yn hygyrch i dimau cyfreithiol a barnwyr yng Ngogledd Iwerddon.

43. Awgrymodd un ymatebwr y dylid cyflwyno, fel mesur dros dro’n unig (hyd nes y byddai’r CMP yn cael ei diddymu’n llwyr, gan bwyso bod angen hynny), system ‘baner goch’ i sicrhau bod unrhyw gamweddau’n dod i’r golwg, y dylid diwygio adran 8 y JSA fel bod gan y llysoedd bŵer i orchymyn datgelu tystiolaeth o gam-drin hawliau lle’r oedd hynny er budd y cyhoedd. Pwysleisiodd yr un ymatebwr fod y rhagofalon presennol o dan y JSA wedi bod yn aneffeithiol (nid oedd un datganiad CMP wedi cael ei ddirymu) a lle’r oedd hawliau sylfaenol person yn y fantol (yn enwedig gwahardd arteithio) o fewn CMP, bod tegwch yn mynnu y dylid datgelu o leiaf “lleiafswm anostwng” o ddeunydd i’r person hwnnw neu honno fel y gallent ymateb yn effeithiol i’r achos.

44. Roedd un ymatebwr yn argymell: gwella adroddiadau blynyddol y Llywodraeth ar y CMP o dan y JSA (er enghraifft, dywedodd yr ymatebwr y dylai’r adroddiadau blynyddol gynnwys dyfarniadau ar ddatgelu, cyfeiriadau a dyddiadau’r amrywiol gofnodion, gan nodi a oedd achos CMP wedi ei setlo neu ei dynnu’n ôl, a heriwyd cais am CMP ac a wrthodwyd datganiad CMP); y dylai’r Llywodraeth fod yn adeiladol wrth weithredu’r CMP a cheisio sicrhau ei bod yn cael yr effaith leiaf bosib ar gyfiawnder agored, achos yr hawlydd a’r hawl i dreial teg; y dylai’r Llywodraeth ddarparu gwybodaeth am ei phrosesau mewnol wrth benderfynu gofyn am ddal deunydd yn ôl mewn achosion caeedig neu beidio, ac mewn faint o achosion y daeth y Llywodraeth i’r casgliad nad

oedd CMP yn briodol ar eu cyfer; cael un barnwr rheoli achosion mewn achosion lle'r oedd cais am CMP wedi'i wneud a'i ganiatáu; bod angen ystyried dadl dros sefydlu carfan o farnwyr arbenigol ar gyfer achosion CMP; a Chyfarwyddyd Ymarfer yn nodi'r broses rheoli achosion yn glir, ac y dylai dyfarniadau caeedig barhau i fod ar gael (yr olaf i fod ar gael i farnwyr ac Adfocadau Arbennig sy'n rhan o achosion CMP); a chyflwyno system gwarchod costau ar gyfer hawlwyr mewn achosion CMP.

45. Roedd un ymatebwr wedi gwneud amrywiol argymhellion ar fonitro a gweithredu'r CMP yn y dyfodol.

- O ran cynnal a chadw ac argaeledd llyfrgell o ddyfarniadau caeedig, roedd yn argymell: peidio â dinistrio unrhyw ddyfarniad caeedig (ac y dylai'r adolygiad edrych i weld a oedd unrhyw ddyfarniadau wedi cael eu dinistrio); y dylai fod system glir, gynhwysfawr ac egwyddorol yn ei lle i reoli dyfarniadau caeedig (ac y dylai'r wybodaeth am y system hon fod ar gael i'r cyhoedd yn ddigyfyngiad cyn belled â phosib); ac y dylai rhestr o'r dyfarniadau caeedig a wnaed o dan y JSA fod ar gael i'r cyhoedd. Roedd yr ymatebwr yna wedi gwneud awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid adlewyrchu'r argymhellion uchod yn y Cyfarwyddyd Ymarfer a'r canllawiau presennol i'r llysoedd.
- Roedd yr ymatebwr hefyd wedi argymell creu system fel y gellid adolygu dyfarniadau caeedig bob yn hyn a hyn fel y gellid eu cyhoeddi'n agored (yn llawn neu'n rhannol) os na fyddai hynny'n cyflwyno risg i ddiogelwch gwladol; dylai'r system adolygu sicrhau, dadleuai'r ymatebwr, mai'r llysoedd sy'n penderfynu beth i'w gyhoeddi a beth a fyddai'n aros yn gaeedig (awgrymodd hefyd y

dylai manylion pellach y system adolygu hon fod yn destun ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid).

- Yn olaf, cyfeiriodd at ddefnyddio'r CMP mewn achosion teulu gan ystyried: y byddai'n ddymunol cael sicrwydd ar statws y JSA ar gyfer achosion teulu (dadleuai'r ymatebwr mai dim ond diffyg rheolau trefniadaeth teulu ar y CMP sy'n ymddangos i fod yn atal hyn); y dylai'r JSA ddod yn sail ar gyfer CMP mewn achosion teulu i'r Uchel Lys lle y defnyddir CMP am resymau diogelwch gwladol (er mwyn rhoi sail statudol gliriach a sicrhau adrodd gan yr Ysgrifennydd Gwladol); ac y dylid diwygio'r CPR i adlewyrchu hyn (awgrymodd yr ymatebwr y gellid 'trawsblannu' y darpariaethau CPR perthnasol i'r rheolau trefniadaeth teulu, gan adael lle i'r llysoedd teulu ymarfer disgresiwn).

46. Roedd un ymatebwr yn argymell diddymu darpariaethau'r CMP yn y JSA. Lleisiodd yr ymatebwr wrthwynebiad cryf iawn i unrhyw ehangu ar y CMP i gwestau, yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon gyda chwestau etifeddol.

47. Roedd ymatebwr arall yn dadlau y dylai Adfocadau Arbennig gael cyfathrebu â chleientiaid, hyd yn oed os na allent ddatgelu manylion penodol y dystiolaeth, fel y gallai'r parti a eithriwyd gyflwyno eu hachos yn well. Roedd hefyd yn nodi'r oedi gyda'r broses CMP yng Ngogledd Iwerddon gan argymell terfynau amser a chanllawiau ar reoli achosion. Yn fwy cyffredinol, lleisiodd bryderon am y defnydd anghymesur o'r CMP yng Ngogledd Iwerddon.

48. Cyfeiriodd un ymatebwr at yr argraffiad diweddaraf o lyfr cyfreithiol ar ddiogelwch gwladol sy'n cynnwys gwybodaeth am y CMP.

## Ôl-ddilyn yr alwad am dystiolaeth

49. Ar ôl adolygu'r dadleuon a gyflwynwyd i'r alwad am dystiolaeth, gofynnodd yr adolygydd gwestiynau ôl-ddilyn mwy penodol i'r Llywodraeth, yr Adfocadau Arbennig, yr awdurdodau yng Ngogledd Iwerddon, ac i'r Cynrychiolwyr Agored mewn achosion CMP. Roedd y cwestiynau'n ymwneud ag amrediad o bethau gan gynnwys: y rhestr o achosion CMP a'u canlyniadau; y databas o achosion CMP; dinistrio dyfarniadau caeedig; costau; cymorth cyfreithiol; a chyfryngu mewn achosion CMP.

# Atodiad 4 – Rhan A – Rhestr o achosion CMP

| Achos rhif[32] | Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol) | Math o achos a natur yr honiadau | Cais am CMP a.6[33] | Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu | Manylion y gwrandawiadau CMP | Cyfeirnod yr achos AGORED | Dyfarniad CAEEDIG (ie / na) | Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)[34] | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | CF | Iawndal – rôl y DU mewn cadw'n gaeth a dychwelyd yr hawlwyr i'r DU. | 12/07/2013, SSFCA[35] | 07/11/2013, gwrandawiad | a.6: 29-31 Gorff. 2013 Gwrandawiad datgelu pellach i benderfynu | a.6/PII[36]: [2013] EWHC 3402 (QB) Erthygl 6 / AF (Rhif 3): [2014] | a.6/PII: Ie Erthygl 6 / AF (Rhif 3): Ie | CAEEDIG: 31/01/2014 AGORED: 17/06/2014 | Hawliad wedi'i daflu allan 01/12/2014 oherwydd methiant yr hawlydd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau |

32 Mae'r atodlen yn dilyn dyddiad y cais adran 6 ac eithrio, er hwylustod, lle'r oedd cysylltiad o ryw fath rhwng yr achosion. Mae achos 42 yn achos teulu, ac achosion 43 ymlaen yn achosion yng Ngogledd Iwerddon.

33 Gweithdrefn Deunydd Caeedig.

34 O ystyried natur achosion CMP, yn aml iawn maen nhw'n cynnwys nifer o agweddau datgelu a thystiolaeth AGORED a CHAEEDIG, gyda rhai dogfennau'n cael eu hagor yn rhannol neu'n llawn i fyny at y penderfyniad terfynol. Mae'r atodlen hon yn cynnwys dyddiadau datgelu allweddol ond nid yr holl wahanol ddyddiadau datgelu. Mae'n rhoi dyddiad y datgelu CAEEDIG cyntaf i'r Adfocadau Arbennig (fel arfer y cais a.8), ond mewn rhai achosion cafodd y deunydd i gyd wedi ddatblygu yng ngham a.6), a dyddiad y datgelu AGORED terfynol, yn dilyn y broses a.8 neu fel arall. Lle nad oedd unrhyw ddatgelu AGORED pellach, er enghraifft os setlwyd yr achos neu os tynnwyd yr achos yn ôl cyn cwblhau'r broses a.8, neu os caniatawyd i'r diffynnydd ddal y wybodaeth sensitif yn ôl yn llawn, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oedd unrhyw ddatgelu AGORED o gwbl, oherwydd fel arfer byddai peth datgelu hollol AGORED wedi bod yn ystod achos.

35 Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad.

36 Imiwnedd Budd y Cyhoedd.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dadleuon o dan Erthygl 6/AF (Rhif 3): 24-25 Meh. 2014 | EWHC 3171 (QB) | | | |
| 2 | Mohamed Ahmed Mohamed (yn ddi-enw o'r blaen fel CC) | Iawndal – rôl y DU mewn cadw'n gaeth a dychwelyd yr hawlwyr i'r DU. | 12/07/2013, SSFCA | 07/11/2013, gwrandawiad | a.6: 29-31 Gorff. 2013. Gwrandawiad datgelu pellach i benderfynu dadleuon o dan Erthygl 6/AF (Rhif 3): 24-25 Meh. 2014 | a.6/PII: [2013] EWHC 3402 (QB) A6/AF(No.3): [2014] EWHC 3171 (QB) | a.6/PII: Ie Erthygl 6 / AF (Rhif 3): Ie. | CAEEDIG: 31/01/2014 AGORED: 17/06/2014 | Hawliad wedi'i daflu allan oherwydd bod yr hawlydd wedi ffoi o fechnïaeth a methu ag erlyn yr hawliad |
| 3 | Sarkandi | Adolygiad Barnwrol – cynnig gan y DU i ychwanegu C at fesurau sancsiynau'r UE. | 05/12/2013, SSFCA | 11/07/2014, gwrandawiad | a.6 – AGORED: 07/03/2014 a.6 CAEEDIG: 28/04/2014 Apêl a.6: 9-10 Meh. 2015 | a.6: [2014] EWHC 2359 (Gwein) Apêl a.6: [2015] EWCA Sifil 687 | Na | CAEEDIG: 05/12/2013 Nid yw'n ymddangos bod datgelu AGORED pellach wedi bod oherwydd cafodd yr hawliad ei ollwng cyn y broses a.8. | Wedi'i dynnu'n ôl drwy gyflwyno hysbysiad gollwng achos 24/06/2014 |
| 4 | Martin McGartland a Joanne Asher | Iawndal – methu â darparu gofal seiciatrig a / neu fynediad at fudd-daliadau. | 14/02/2014, SSHD | 08/07/2014, gwrandawiad | a.6: 19-20 Meh. 2014 Apêl a.6: 19-20 Mai 2015 | a.6: [2014] EWHC 2248; Apêl a.6: [2015] EWCA Sifil 686 | a.6: Na Apêl a.6: Na | Amherthnasol – CMP heb ei defnyddio. | Yn parhau |

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Al-Fawwaz | Adolygiad Barnwrol – gwrthod darparu cudd-wybodaeth oedd yn berthnasol i lys yn UDA. | 21/10/2014, SSHD[37] | 20/11/2014, gwrandawiad | a.6: 20/11/2014<br>a.8: 03/12/2014<br>Gwrandawiad terfynol: 17-19 Rhag. 2014 | a.6: [2015] EWHC 468 (Gwein)<br>a.8: [2015] EWHC 469 (Gwein)<br>Gwrandawiad terfynol: [2015] EWHC 166 (Gwein) | a.6: Na<br>a.8: Na<br>Gwrandawiad terfynol: Ie | CAEEDIG: 13/11/2014<br>Dim datgelu AGORED pellach: Y diffynnydd wedi cael caniatâd i ddal deunydd sensitif yn ôl yn llawn. | Hawliad wedi'i daflu allan |
| 6 | AZ | Adolygiad Barnwrol – gwrthod rhoi dogfen deithio. | 21/04/2015, SSHD | 30/04/2015, gwrandawiad | a.6: 30/04/2015<br>a.8: dim<br>Materion rhagarweiniol[38] 12-13 Tach. 2015<br>Apêl ar y materion rhagarweiniol: 29/11/2016 | a.6: Dyfarniad ar y pryd.<br>Materion rhagarweiniol: [2015] EWHC 3695 (Gwein)<br>Apêl: [2017] EWCA Sifil 35 | a.6: Na<br>Materion rhagarweiniol: Na<br>Apêl: Na | CAEEDIG: 01/06/2015<br>AGORED: 10/11/2015 | Y prif hawliad wedi'i dynnu'n ôl drwy orchymyn cydsynio a seliwyd 22/05/2018 |
| 7 | XH[39] | Adolygiad Barnwrol – herio canslo pasbort. | 13/05/2015, SSHD | 08/10/2015, gwrandawiad | a.6: 08/10/2015<br>a.8: dim – materion datgelu wedi eu datrys drwy gytundeb | a.6: [2015] EWHC 2932 (Gwein)<br>Gwrandawiad terfynol: [2016] | a.6: Na<br>Gwrandawiad terfynol: Na<br>Apêl: Na | CAEEDIG: 21/12/2015<br>Datgelu AGORED pellach a chytuno ar | Her wedi'i gwrthod gan y Llys Adrannol a'r apêl wedi'i gwrthod gan y COA[41] |

37 Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

38 Gwrandawiad o'r seiliau gweithdrefnol rhagarweiniol.

39 Hwn oedd yr achos arweiniol mewn nifer o achosion yn herio gwrthod / canslo pasbort yn defnyddio'r Uchelfraint Frenhinol. Mae'r achosion hyn wedi eu grwpio gyda'i gilydd i bwrpas y tabl.

41 Y Llys Apêl.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhwng SSHD / AAau[40]<br>a.7: cais C a'r AAau i ddirymu wedi'i wrando yn yr apêl. Ystyriwyd y cais gan y Llys Apêl a gorchymyn bod y partïon i gytuno ar gyfarwyddiadau. Nid yw'n ymddangos y gwnaed hyn.<br>Gwrandawiad terfynol: 7-8 Gorff. 2015 (wedi'i wrando gyda AI)<br>Apêl: 13-14 Rhag. 2016 (gyda AI) | EWHC 1898 (Gwein)<br>Apêl: [2017] EWCA Sifil 41 | | hanfod y wybodaeth, 03/05/2016. | |
| 8 | AI | Adolygiad Barnwrol – herio canslo pasbort. | 22/03/2016, SSHD | 22/03/2016, ar y papurau. | Prif wrandawiad[42]: 7-8 Gorff.<br>Apêl: 13-14 Rhag. 2016 (gyda XH) | Prif wrandawiad: [2016] EWHC 1898 (Gwein) | Prif wrandawiad: Na<br>Apêl: Na | CAEEDIG: 15/06/2016<br>AGORED: dim wedi'i wneud yn agored cyn | Seiliau AGORED wedi eu gwrthod;<br>Seiliau CAEEDIG wedi eu tynnu'n ôl drwy |

[40] Adfocadau Arbennig.

[42] Yn yr achos hwn, gwrandawyd y seiliau gweithdrefnol AGORED gyda XH, cyn cwblhau'r broses a.8. Apeliodd yr hawlwyr yn y ddau achos a chafodd y seiliau CAEEDIG yn AI eu hatal hyd nes y byddai canlyniad yr apêl yn hysbys. Cafodd y seiliau CAEEDIG yna eu tynnu'n ôl.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Apêl: [2017] EWCA Sifil 41 | | i'r achos CAEEDIG gael ei ollwng. | orchymyn cydsynio dyddiedig 04/07/2018 |
| 9 | Miah | Adolygiad Barnwrol – herio penderfyniad SSHD i wrthod rhoi pasbort Prydeinig i'r hawlydd. | 13/05/2015, SSHD | Amh. – achos wedi'i dynnu'n ôl cyn penderfynu'r cais. | Amh. | Amh. | Amh. | CAEEDIG: 13/05/2015 | Wedi ymuno â XH ond yn dilyn tynnu cymorth cyfreithiol yn ôl, yr achos wedi'i dynnu'n ôl drwy orchymyn cydsynio a seliwyd 23/07/2015[43] |
| 10[44] | Kamoka ac Eraill (C1-5, cais i daflu allan) | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion i Libia – nifer o hawlwyr. | 06/05/2015, SSHD | 01/07/2015, gwrandawiad | a.6: 30/06-01/07/2015<br>a.7: egwyddorion datgelu: 15/10/2015<br>a.8: 16-17 Tach. 2015<br>taflu allan: 15-18 Rhag. 2015<br>apêl yn erbyn taflu allan: 18-25 Gorff. 2017 | a.6: [2015] EWHC 60 (QB)<br>a.7: egwyddorion datgelu: [2015] EWHC 3307 (QB)<br>a.8: dim dyfarniad. | a.6: Ie<br>a.7: egwyddorion datgelu: Na<br>a.8: dim dyfarniad.<br>taflu allan: Ie<br>apêl yn erbyn taflu allan: Ie | CAEEDIG: 25/09/2015<br>AGORED: 02/12/2015 | Hawliad wedi'i daflu allan gan yr Uchel Lys ond apêl C wedi'i chaniatáu a'r hawliad wedi'i adfer. |

[43] Cyn tynnu'n ôl, cafodd yr achos hwn ei gyfuno â XH, a aeth ymlaen i wrandawiad terfynol.

[44] Mae hanes gweithdrefnol Kamoka yn gymhleth, gydag amryw byd o geisiadau o dan Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013. Cafodd y prif achos sifil ei ddwyn gan 12 o hawlwyr, y byddwn yn cyfeirio atynt yma fel C1-C12. Erbyn i'r achos gael ei setlo, roedd 19 o hawlwyr (C1-C19) ac roedd eu hawliadau naill ai wedi eu cyfuno neu wedi eu hatal y tu ôl i'r achos cychwynnol. Hefyd, roedd tri o'r hawlwyr wedi dwyn achosion adolygiad barnwrol i gydredeg (C11, C12 a C19). I hwyluso cyfeirio, rydym wedi gosod allan pob cais a.6, ac unrhyw gamau CMP o ganlyniad, ar linell wahanol yn y tabl.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | taflu allan: [2016] EWHC 769 (QB) apêl yn erbyn taflu allan: [2017] EWCA Sifil 1665 | | | |
| 11 | Kamoka ac Eraill (C1-5, prif wrandawiad) | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion Libia – nifer o hawlwyr. | 27/04/2018, SSHD | 14/12/2018, gwrandawiad | a.6: 14/12/2018 Materion diogelu, CMC: 16/07/2019 | a.6: [2019] EWHC 290 (QB)[45] CMC: [2019] EWHC 2383 (QB) | a.6: Ie CMC: Na | CAEEDIG: 25/01/2019 Dim datgelu AGORED pellach[46] | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |
| 12 | Abushima ac Eraill (C6-9) | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion Libia – nifer o hawlwyr. | 25/05/2018, SSFCA | 14/12/2018, gwrandawiad | a.6: 14/12/2018 | a.6: [2019] EWHC 290 (QB) | a.6: Ie | CAEEDIG: 25/01/2019 Dim datgelu AGORED pellach | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |
| 13 | Saleh Mohamed (C10) | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion Libia – nifer o hawlwyr. | 25/05/2018, SSFCA | 14/12/2018, gwrandawiad | a.6: 14/12/2018 | a.6: [2019] EWHC 290 (QB) | a.6: Ie | CAEEDIG: 25/01/2019 Dim datgelu AGORED pellach | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |

[45] Mae'r dyfarniad hwn yn bennaf ar gais yr Hawlwyr ar gyfer dyfarniad diannod ar gyfer C1-C5, ond mae'r ceisiadau a.6 ar gyfer C1-C10 yn cael eu hystyried yn fyr.

[46] Er nad oedd mwy o drafod AGORED yn y prif achos cyn setlo, roedd datgeliad blaenorol wedi'i wneud i'r Hawlwyr am yr achos a daflwyd allan uchod, lle'r oedd y broses a.8 wedi cael ei chwblhau.

| Achos rhif[32] | Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol) | Math o achos a natur yr honiadau | Cais am CMP a.6[33] | Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu | Manylion y gwrandawiadau CMP | Cyfeirnod yr achos AGORED | Dyfarniad CAEEDIG (ie / na) | Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)[34] | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Khaled (C11) | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion Libia – nifer o hawlwyr. | 13/07/2015, SSFCA | 11/12/2015, drwy gydsynio. | a.8 a PII: 5-6 Gorff. 2016<br>s.8 adnewyddu'r PTA[47]: 22/06/2017 | a.8 a PII: [2016] EWHC 1727 (QB)<br>s.8: adnewyddu'r PTA: [2017] EWCA Sifil 1349 | a.8 a PII: Ie<br>s.8: adnewyddu'r PTA: Na | CAEEDIG: 26/02/2016<br>AGORED: 21/07/2016 | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |
| 15 | Khaled (C11, JR[48]) | Adolygiad Barnwrol – herio cyfyngiadau ariannol. | 27/01/2017, SSFCA | 23/02/2017, ar y papurau. | Egwyddorion datgelu: 07/06/2017 | Egwyddorion datgelu: [2017] EWHC 1422 (Gwein)[49] | Egwyddorion datgelu: Na | CAEEDIG: 24/02/2017<br>Dim datgelu AGORED pellach[50] | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |
| 16 | Maftah (C19) | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion Libia – nifer o hawlwyr. | 17/02/2017, SSFCA | 23/02/2017, ar y papurau. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh.[51] | Wedi'i dynnu'n ôl drwy orchymyn cydsynio dyddiedig 10/08/2017. |

[47] Caniatâd i apelio.

[48] Adolygiad barnwrol.

[49] Roedd yr Hawlwyr wedi gwneud cais am PTA o'r penderfyniad hwn a chafodd yr achos ei atal tan y byddai'r apêl wedi bod. Penderfynodd yr Hawlwyr wedyn dynnu'r apêl yn ôl.

[50] Ni chafodd y broses a.8 ei chwblhau rhwng codi'r ataliad ar yr achos a setlo'r achos, fodd bynnag roedd yr ymarfer datgelu bron wedi'i gwblhau yn yr hawliad sifil, oedd yn delio â'r un deunydd mwy neu lai.

[51] Hawliad wedi'i dynnu'n ôl cyn y broses a.8.

| Achos rhif[32] | Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol) | Math o achos a natur yr honiadau | Cais am CMP a.6[33] | Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu | Manylion y gwrandawiadau CMP | Cyfeirnod yr achos AGORED | Dyfarniad CAEEDIG (ie / na) | Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)[34] | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Maftah (C19, JR) | Adolygiad Barnwrol – herio cyfyngiadau ariannol. | 17/02/2017, SSFCA | 23/02/2017, ar y papurau. | Egwyddorion datgelu: 07/06/2017 | Egwyddorion datgelu: [2017] EWHC 1422 (Gwein) | Egwyddorion datgelu: Na | CAEEDIG: 14/09/2017 Dim datgelu AGORED pellach | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |
| 18 | Abdulrahim (C12)[52] | Iawndal – camau'r DU yn erbyn dinasyddion Libia – nifer o hawlwyr. | 13/07/2015, SSFCA | Amh.[53] | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Wedi setlo ar 25/07/2019 heb addef unrhyw fai. |
| 19 | Belhaj PLC | Iawndal – rôl y DU mewn anfon i wlad dramor yn all-gyfreithiol. | 08/06/2017, SSFCA | 21/07/2017, gwrandawiad | a.6: 10-11 Gorff. 2017 | a.6: [2017] EWHC 1861 (QB) | a.6: Na | CAEEDIG: 10/11/2017 Yr achos wedi'i setlo cyn datgelu AGORED pellach. | Hawliad wedi'i setlo drwy orchmynion cydsynio a seliwyd 22/05/2018 |
| 20 | Belhaj (DPP) | Adolygiad Barnwrol – herio penderfyniad i | 08/08/2017, SSFCA | Dim datganiad a.6 wedi'i wneud. | Mater rhagarweiniol[54]: 2-3 Tach. 2017 | Mater rhagarweiniol: [2017] EWHC 3056 (Gwein) | Mater rhagarweiniol: Na Apêl: Na | Amh. – datgelu CAEEDIG heb ei ddarparu oherwydd | Hawliad wedi'i dynnu'n ôl drwy orchymyn cydsynio a seliwyd 18/05/2018 |

[52] Roedd Abdulrahim hefyd wedi gwneud hawliad Adolygiad Barnwrol oedd yn cydredeg â Khaled (C11) a Maftah (C19), ond cafodd hawliad Adolygiad Barnwrol Abdulrahim ei atal cyn i'r cais a.6 gael ei wneud, felly nid yw hwn wedi cael ei gynnwys yn y tabl.

[53] Ataliwyd yr hawliad sifil cyn penderfynu'r achos a.6 ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach yn yr achosion hyn cyn setlo.

[54] Gwrandawiad o'r mater rhagarweiniol ynghylch a oedd yr achos yn "achos neu fater troseddol" neu beidio fel y byddent yn disgyn y tu allan i awdurdodaeth y Llys i wneud datganiad a.6. Yn achos y llys cyntaf, dyfarnwyd bod gan y Llys awdurdodaeth i dderbyn cais ond cafodd hyn ei wrthdroi ar apêl i'r Goruchaf Lys.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | beidio ag erlyn (am eu rôl honedig mewn anfon allan o'r wlad yn all-gyfreithiol). | | | Apêl ar y mater rhagarweiniol: 22/03/2018 | Apêl: [2018] UKSC 33 | | datganiad a.6 heb ei ganiatáu. | |
| 21 | SIAC (AHK) | Adolygiad Barnwrol – her gan SSHD i benderfyniadau rhagarweiniol gan SIAC[55] | 15/01/2015, SSHD | 20/01/2015, gwrandawiad | a.6: 20/01/2015<br>a.8: dim<br>Gwrandawiad terfynol: 10/02/2015 | a.6: dyfarniad ar y pryd.<br>Gwrandawiad terfynol: [2015] EWHC 681 (Gwein)<br>Dyfarniad ychwanegol yn ymwneud â datganiad a chostau: [2015] EWHC 1236 (Gwein) | Gwrandawiad terfynol: Ie | CAEEDIG: 26/01/2015<br>Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddatgelu AGORED pellach wedi bod. | Datganiad wedi'i wneud o ran lefel y datgelu mewn achosion eithrio a dinasfreinio gan SIAC. |
| 22 | MR | Adolygiad Barnwrol – herio canslo pasbort. | 15/02/2016, SSHD | 24/03/2016, drwy gydsynio. | a.8: 16-17 Meh. 2016 (AGORED a CHAEEDIG) & 27 Gorff. 2016 (CAEEDIG yn unig).<br>Gwrandawiad terfynol: 1-2 Rhagfyr 2016 | a.8: [2019] EWHC 1622 (Gwein)<br>Terfynol: [2017] EWHC 469 (Gwein) | a.8: dyfarniad ar y pryd ar gyfer y ddau wrandawiad CAEEDIG.<br>Terfynol: Ie | CAEEDIG: 04/04/2016<br>AGORED: 24/11/2016 | Hawliad wedi'i wrthod. |

[55] Y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | TH | Adolygiad Barnwrol – gwrthod adnewyddu pasbort. | 15/02/1016, SSHD | 27/06/2016, drwy gydsynio. | Amh. - a.6 ac a.8 drwy gydsynio a'i dynnu'n ôl cyn y gwrandawiad terfynol. | Amh. | Amh. | CAEEDIG: 21/09/2016 AGORED: 23/06/2017 | Achos wedi'i dynnu'n ôl drwy hysbysiad gollwng achos dyddiedig 30/11/2017 |
| 24 | AS | Adolygiad Barnwrol – herio canslo pasbort. | 13/05/2016, SSHD | 17/10/2017, drwy gydsynio. | a.8: 23/02/2018 Gwrandawiad terfynol: 15-16 Mai 2018 | a.8: dim dyfarniad AGORED. Gwrandawiad terfynol: [2018] EWHC 1792 (Gwein) | a.8: dyfarniad CAEEDIG ar y pryd. Terfynol: Ie | CAEEDIG: 08/12/2017 AGORED: 23/03/2018 | Hawliad wedi'i wrthod. |
| 25 | KCM | Adolygiad Barnwrol – herio tynnu pasbortau'n ôl. | 17/06/2016, SSHD | 08/11/2016, drwy gydsynio. | Amh. – a.6 drwy gydsynio a thynnu'n ôl cyn y gwrandawiadau a.8 a therfynol. | Amh. | Amh. | CAEEDIG: 10/02/2017 Tynnu'n ôl cyn unrhyw ddatgelu AGORED pellach. | Wedi'i dynnu'n ôl drwy orchymyn cydsynio a seliwyd 30/10/2018. Pasbort wedi'i roi. |
| 26 | B [achosion gwahanol wedi eu rheoli a'u gwrando gyda'i gilydd] | Adolygiad Barnwrol – herio canslo pasbort. | 17/01/2018, SSHD | 25/01/2018, drwy gydsynio. | a.8: 11 a 13 Ebrill 2018 Terfynol: 17-18, 21 a 24 Mai 2018 | a.8: dim Terfynol: [2018] EWHC 2651 (Gwein) | a.8: dyfarniad CAEEDIG ar y pryd Terfynol: Ie | CAEEDIG: 26/02/2018 AGORED: 20/04/2018 | Hawliad wedi'i wrthod. |
| 27 | ND | Adolygiad Barnwrol – herio canslo pasbort. | 08/02/2018, SSHD | 19/02/2018, ar y papurau. | a.8: 11 a 13 Ebrill 2018 Terfynol: 17-18, 21 a 24 Mai 2018 | a.8: dim Terfynol: [2018] EWHC 2651 (Gwein) | a.8: dyfarniad CAEEDIG ar y pryd. Terfynol: Ie | CAEEDIG: 26/02/2018 AGORED: 20/04/2018 | Hawliad wedi'i wrthod. |

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28-29-30 | K, A a B [tri hawliad ar wahân, wedi eu rheoli a'u gwrando gyda'i gilydd] | Adolygiad Barnwrol - honni tor-dyletswydd tuag at sifiliaid Affganistan yn honni eu bod yn ffynonellau cudd-wybodaeth. | 22/06/2015, SSD[56] | 06/07/2015, gwrandawiad. | a.6: 06/07/2015 amrywiol wrandawiadau a.8 / datgelu, fel a ganlyn:<br>1. 08/09/2015<br>2. 17-18 Tach. 2015 a 29/02/2016<br>3. 22-23 Medi 2016 (apêl o wrandawiad 2)<br>4. 26/01/2017<br>5. 31/10/2017 adolygiad a.7 (drwy gydsynio)[57]: 05/09/2018<br>Terfynol: 4-5 Hydref 2018[58] | a.6: dyfarniad ar y pryd.<br>Gwrandawiadau a.8 / datgelu:<br>1. Dim<br>2. [2016] EWHC 1261 (Gwein)<br>3. [2016] EWCA Sifil 1149<br>4. [2017] EWHC 830 Gwein)<br>5. Dim<br>Terfynol: [2019] EWHC 1757 (Gwein) | a.6: Na<br>Gwrandawiadau a.8 / datgelu:<br>1. dyfarniad CAEEDIG ar y pryd.<br>2. Ie<br>3. Ie<br>4. Na<br>5. Ie<br>Terfynol: Ie | CAEEDIG: 01/09/2015<br>AGORED: 21/08/2018 | Hawliad wedi'i wrthod. |
| 31 | *Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros* | Adolygiad Barnwrol – y DU yn trwyddedu gwerthu arfau i Sawdi Arabia. | | Rhwng Mehefin a Medi 2016. | | [2017] EWHC 1726 (Gwein); [2019] EWCA Sifil 1020 | | | Yr hawlydd wedi ennill ar apêl ar un sail. |

[56] Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn.

[57] Drwy ganiatâd, cytunwyd y dylai'r datganiad a.6 aros.

[58] Gyda thystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyniadau pellach wedi eu darparu gan y partïon 15/03/2019-24/05/2019.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Fasnach Ryngwladol* (Amnesty International ac eraill yn ymyrryd) | | | | | | | | |
| | CAAT 2 | Adolygiad Barnwrol – herio penderfyniad trwyddedu allforio (a wnaed ar ôl yr apêl Adolygiad Barnwrol CAAT cyntaf). | 22/01/2021 | 20/04/2021 | | | | | |
| 32 | YR[59] | Iawndal – rôl y DU mewn cadw Iraciaid yn gaeth. | 26/08/2016, SSFCA | 22/03/2017, gwrandawiad [60] | a.6: 7-8 Maw 2017 gwrandawiad datgelu[61]: 15/10/2019 | a.6: [2017] EWHC 547 (QB) datgelu: [2019] EWHC 3849 (QB) | a.6: Na datgelu: Ie | CAEEDIG: 17/05/2019 Dim datgelu AGORED pellach cyn setlo. | Wedi'i setlo. |
| | AA | Iawndal – rôl y DU mewn | 26/08/2016, SSFCA | 22/03/2017, gwrandawiad . | a.6: 7-8 Maw 2017 | a.6: [2017] EWHC 547 (QB) | a.6: Na datgelu: Ie | CAEEDIG: 17/05/2019 | Wedi'i setlo. |

[59] Cafodd achosion YR ac AA eu rheoli gyda'i gilydd, ond nid eu cyfuno'n ffurfiol.

[60] Cafodd y ceisiadau a.6 yn YR, ZZ, HTF, ZMS ac XYZ eu gwrando gyda'i gilydd.

[61] Cafodd y mater o gyfraith berthnasol hefyd ei wrando ar yr un pryd a dyfarniad ar wahân ei wneud arno: [2019] EWHC 3172 (QB).

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cadw Iraciaid yn gaeth. | | | gwrandawiad datgelu: 15/10/2019 | datgelu: [2019] EWHC 3849 (QB) | | Dim datgelu AGORED pellach cyn setlo. | |
| 33 | Ullah | Adolygiad Barnwrol – herio penderfyniad yr NCA[62] i beidio â chaniatáu iawndal a gytunwyd yn AA. | 12/02/2021, SSHD | 23/07/2021, drwy gydsynio. | Amh. | Amh. | Amh. | CAEEDIG: 25/06/2021<br>Dim datgelu AGORED pellach eto oherwydd mae'r broses a.8 yn parhau. | Yn parhau. |
| 34 | ZMS a HTF[63] | Iawndal – honiadau yn erbyn lluoedd UDA o gadw'n gaeth a cham-drin yn anghyfreithlon ar ôl eu trosglwyddo gan luoedd y DU. | 17/10/2016, SSD | 22/03/2017, gwrandawiad | a.6: 7-8 Maw 2017<br>a.8 a PII: 19-20 Meh. 2018 | a.6: [2017] EWHC 547 (QB)<br>a.8 a PII: [2018] EWHC 1623 (QB) | a.6: Na<br>a.8 a PII: Na | CAEEDIG: 25/09/2017 (tystiolaeth ddogfennol); 23/02/2018 (tystiolaeth tystion)<br>OPEN: 27/07/2018 (doc evidence); 13/08/2018 (witness evidence) | Wedi'i setlo. |

[62] Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol.

[63] Achosion arweiniol ar gyfer Hawlwyr Atodlen 3 yn yr achosion gan ddinasyddion preifat o Irac.

| Achos rhif[32] | Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol) | Math o achos a natur yr honiadau | Cais am CMP a.6[33] | Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu | Manylion y gwrandawiadau CMP | Cyfeirnod yr achos AGORED | Dyfarniad CAEEDIG (ie / na) | Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)[34] | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 35 | XYZ[64] | Iawndal – honni bod lluoedd UDA wedi eu cadw a'u cam-drin yn anghyfreithlon ar ôl eu trosglwyddo gan luoedd y DU. | 17/10/2016, SSD | 22/03/2017 – datganiad a.6 wedi'i wrthod. | a.6: 7-8 Maw 2017 | a.6: [2017] EWHC 547 (QB) | a.6: Na | CAEEDIG: 25/09/2017 Yr achos wedi'i atal cyn unrhyw ddatgelu AGORED. | Wedi'i setlo. |
| 36 | W2 ac IA | Adolygiad Barnwrol – amddifadu o ddinasyddiaeth (gydag apêl SIAC). | 09/03/2017, SSHD | 10/03/2017, ar y papurau. | Gwrandawiad adnewyddu[65]: 23-24 Maw 2017 Apêl: 26-27 Hyd 2017 | Adnewyddu: [2017] EWHC 928 (Gwein) Apêl: [2017] EWCA Sifil 2146 | Adnewyddu: Ie Apêl: Ie | CAEEDIG: 09/03/2017 Dim datgelu AGORED pellach oherwydd bod caniatâd wedi'i wrthod. | Mesurau unioni dros dro a chaniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol wedi'i wrthod. Apêl wedi'i gwrthod. |
| 37 | Abdule, Yusuf ac Eraill[66] | Iawndal – rôl honedig y DU mewn cadw'n gaeth ac arteithio. | 01/05/2018, SSFCA | 21/12/2018, gwrandawiad | a.6: 21/11/2018 | a.6: [2018] EWHC 3594 (QB) | a.6: Ie | CAEEDIG: 05/04/2019 Dim datgelu AGORED pellach oherwydd wedi'i | Wedi'i dynnu'n ôl drwy orchymyn cydsynio dyddiedig 25/06/2019 |

64 Cafodd achos XYZ ei reoli i ddechrau gyda ZMS a HTF, fodd bynnag ataliwyd yr achos hwn nes y byddai capasiti XYZ i gyfreitha'r achos wedi ei asesu, ac yna ei setlo.

65 Gwrthodwyd ceisiadau'r hawlwyr am ryddhad interim a chaniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol a phenderfynodd yr Hawlwyr fynd am wrandawiad llafar newydd.

66 Ataliwyd yr achos hwn y tu ôl i achos Belhaj PLC.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | dynnu'n ôl cyn y broses a.8. | |
| 38 | Motasim | Iawndal – yn ymwneud ag ymddygiad HMG[67] mewn achos erlyn oedd wedi'i ollwng. | 15/01/2019, SSHD | 03/08/2021, drwy gydsynio. | Amh. | Amh. | Amh. | Dim eto – y broses a.8 yn parhau. | Cais i daflu allan wedi'i wrthod - Master Davison [2017] EWHC 2071 (QB) Apêl yn erbyn gwrthod taflu allan wedi'i gwrthod [2018] EWHC 562 QB |
| 39 | Ffederasiwn yr Heddlu, John Murray | Adolygiad Barnwrol – herio penderfyniad i beidio â rhyddhau deunydd sensitif i'r CPS[68] at ddiben erlyniad posib. | 23/11/2017, hawlwyr. | 09/03/2018 – datganiad a.6 wedi'i wrthod ar sail y papurau. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Caniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol wedi'i wrthod ar sail y papurau a heb ei adnewyddu i wrandawiad llafar. |
| 40 | KA[69] | Iawndal – rôl honedig y DU mewn cadw'n gaeth ac arteithio. | 06/03/2018, SSFCA | 17/05/2018, gwrandawiad | a.6: 17/05/2018 | a.6: [2018] EWHC 2723 (QB) (heb ei adrodd) | a.6: Na | CAEEDIG: 06/03/2018 Dim datgelu AGORED pellach oherwydd wedi'i | Wedi'i dynnu'n ôl ar ôl i'r diffynnydd wneud cais i daflu allan drwy orchymyn cydsynio dyddiedig 12/07/2018. |

[67] Llywodraeth Ei Mawrhydi.

[68] Gwasanaeth Erlyn y Goron.

[69] Cyfeirir ato hefyd fel Abdusalam. Ataliwyd yr achos hwn y tu ôl i achos Belhaj PLC.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | dynnu'n ôl cyn y broses a.8. | |
| 41[70] | Eric Kind | Adolygiad Barnwrol – herio penderfyniad yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol i wrthod DV[71] | 20/01/2020, SSHD | 03/03/2020, drwy gydsynio. | a.8: 06/10/2020 Terfynol: 16-17 Chwe 2021 | a.8: Dim Terfynol: [2021] EWHC 710 (Gwein) | a.8: dyfarniad CAEEDIG ar y pryd. Terfynol: Ie | CAEEDIG: 08/06/2020 AGORED: 26/10/2020 | Adolygiad Barnwrol wedi'i ganiatáu ar sail 3 yn unig. Gorchymyn diddymu wedi'i wneud. |
| 42 | Parthed: H | Achos wardiaeth. | | 14/11/2016 | | | | | Wedi'i setlo. Dim dyfarniad, agored na chaeedig. |
| 43 | *McCafferty v Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon* | Iawndal - GI wedi cadw'n gaeth, cam-ddefnyddio awdurdod, torri Erthyglau 5 ac 8 yr ECHR a thorri dyletswydd statudol. | 19/06/2014 | 26/05/2016 | | [2016] NIQB 47 | Na | | Yn parhau. Nifer o adolygiadau; y mwyaf diweddar wedi'i ohirio yn Chwefror 2020 i'w drafod rhwng cwnsler y diffynnydd a'r AA. |
| 44 | Parthed: Cais Gallagher am | Adolygiad Barnwrol – her i GI am fethu â | | 01/12/2016 | | [2016] NIQB 43 | Na<br><br>Ie | | Dyfarniad rhesymegol terfynol ar 8 Hydref 2021. Yn dadlau bod y |

[70] Y tu allan i gyfnod yr adolygiad ond yn dangos yr ystod o achosion y mae'r CMP yn berthnasol iddynt a'r anhawster o ddelio â'r hawliad hebddo.

[71] Fetio Uwch.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adolygiad Barnwrol | chynnal ymchwiliad cyhoeddus i allai bom Omagh fod wedi cael ei atal. | | | | [2021] NIQB 85 | | | Llywodraeth wedi torri Erthygl 2 yr ECHR; ei gorchymyn i gynnal ymchwiliad cydymffurfio ag Erthygl 2 yr ECHR gyda thystiolaeth agored a chaeedig. |
| 45 | Logan v Prif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon | Iawndal – GI – cam-arestio. | 28/04/2016 | | | [2017] NIQB 70 | | | Datganiad a.6 heb ei wneud. |
| 46 | Higgins a Lee v Prif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon | Iawndal - GI - cam-arestio a chamweddau eraill yn deillio o honni y plannwyd dyfais ffrwydrol ar gais yr RUC[72]. | 09/03/2016 | 28/06/2016 | | [2016] NIQB 81 | Na | | Yn parhau. |
| 47 | Margaret Keeley a 31 Achwynydd arall v Prif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu | Iawndal – GI – amrywiol gamweddau'n deillio o gam-arestio a chadw'n gaeth yn | Dechreuwyd yn 2008; y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ymuno yn 2011. | Ymddengys o ddyfarniad 2021 bod datganiad a.6 wedi'i wneud ar ryw bwynt. | | [2021] NIQB 81 | | | Y diffynyddion yn atal y cais hyd nes cwblhau'r achos troseddol a'r ymchwiliadau, Operation Kenova, a wrandawyd yn Ebrill 2017; dim dyfarniad. Cais wedi ei |

[72] Heddlu Brenhinol Wlster

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd Iwerddon, Scappaticci a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. | anghyfreithiol yn 1994. Y rhan fwyaf o'r 32 Achwynydd wedi dwyn achosion gwahanol. | | | | | | | ail-wrando ym Mehefin 2021 a'i wrthod ym Medi 2021. Cyfarwyddiadau i'w rhoi ym mis Hydref ar gamau i'r dyfodol. |
| 48 | Morley v Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Peter Keeley a Phrif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon . | Iawndal - GI – honni bod PSNI[73] wedi achosi neu ganiatáu llofruddiaeth mab P. | | 23/01/2017 | | [2017 NIQB 8; (datganiad a.6)<br>[2020] NIQB 77 – datgelu deunydd trydydd parti (Ombwdsmon). | | | Wedi'i setlo. |
| 49 | Monaghan E | Iawndal - GI | 08/03/2017 Cais gan gyfreithwyr P. | | | | | | |
| 50 | Heenan | Iawndal - GI | Ie; cais gan gyfreithwyr P. | Dim. | | | | | Yn parhau. |
| 51 | Gabriel Magee | Difrod – GI – cam-arestio, carcharu ar gam ac ymosod. | 08/05/2017 cais gan gyfreithwyr P. | Dim. | | | | | Yn parhau. |

[73] Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

| Achos rhif[32] | Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol) | Math o achos a natur yr honiadau | Cais am CMP a.6[33] | Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu | Manylion y gwrandawiadau CMP | Cyfeirnod yr achos AGORED | Dyfarniad CAEEDIG (ie / na) | Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)[34] | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 52 | Colin Keys | Iawndal – GI – cyn swyddog gyda'r RUC yn honni esgeulustod yn erbyn yr RUC yn 1983 am fethu'n anghyfreithlon ag atal ymosodiad a lladrad gan y P-IRA[74]. | 28/09/2017 | 30/11/2018; roedd amrywiol ffactorau wedi achosi oedi gan gynnwys y cysylltiad ag adolygu'r achosion etifeddol er bod rhai'n wrandawiadau caeedig cyn y datganiad. | | | | | Atebolrwydd wedi'i setlo yn Hydref 2020, felly ni ddefnyddiwyd y CMP. |
| 53 and 54 | James Martin a Veronica Ryan (achosion ar wahân). | Adolygiad Barnwrol – GI – gwrthod iawndal o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988. | 19/01/2018 | Cais wedi'i ohirio a heb ei ddatrys ar ôl cytuno ar y materion dan sylw a dim angen CMP. | | | | | Dim cais am ddatganiad a.6 – dim CMP wedi'i dechrau. |
| 55 | Anton Craig | Iawndal – GI – honiadau o gam-arestio a chadw'n gaeth yn 2006, ac | 22/05/2018 | Dim penderfyniad oherwydd nid yw'r AAau eisiau derbyn | | | | | Yn parhau. |

74 Byddin Gweriniaeth Iwerddon.

| **Achos rhif**[32] | **Achos (yn ddi-enw lle bo'n briodol)** | **Math o achos a natur yr honiadau** | **Cais am CMP a.6**[33] | **Datganiad CMP a.6 wedi'i ganiatáu** | **Manylion y gwrandawiadau CMP** | **Cyfeirnod yr achos AGORED** | **Dyfarniad CAEEDIG (ie / na)** | **Dyddiadau datgelu allweddol (y gwrandawiad CAEEDIG cyntaf a'r gwrandawiad datgelu AGORED terfynol yn dilyn gwrandawiad a.8 neu wahanol)**[34] | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | aelodaeth o'r P-IRA. Rhyddfarnu yn 2010 o achosi ffrwydrad gyda bwriad. Honni bod prepiwr wedi gweithredu ar ran y PSNI a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. | | y deunydd caeedig nes eu bod wedi gweld ffeiliau eraill yr erlyniad, sy'n destun cais darganfod penodol. | | | | | |

# Atodiad 4 – Rhan B – Crynodeb o'r achosion JSA a adroddwyd

Nid yw'r holl achosion yn yr atodlen yn haeddu cael eu crynhoi yma; soniwyd am rai'n ddigon manwl yn rhywle arall; yn achos eraill, nid oedd fawr mwy nag esgyrn gweithdrefnol moel ar eu cyfer.

**1 a 2. *CF v Y Gwasanaeth Diogelwch ac Eraill; Mohamed (CC yn flaenorol) v Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ac Eraill* [2013] EWHC 3402 (QB); [2014] EWHC 3171 QB**

1. Achosion iawndal wedi eu dwyn gan ddau ddinesydd Prydeinig oedd y rhain, a honnodd y cawsant eu harestio, cadw'n gaeth a'u holi yn Somalia gan awdurdodau'r wlad honno ar gais neu gyda chymorth asiantau'r diffynyddion, a oedd yn union neu'n anuniongyrchol wedi arwain at eu cadw'n gaeth, ymosod arnynt a'u harteithio. Ar ôl tri mis cawsant eu symud yn anghyfreithlon allan o'r DU. Roedd y diffynyddion yn gwadu'r honiadau yn y plediadau ond yn dadlau na allent ychwanegu manylion heb achosi niwed gwirioneddol i fuddiannau'r cyhoedd: a bod yr hawlwyr yn aelodau o rwydwaith terfysgaeth ac yn cefnogi eithafiaeth dreisgar yn Nwyrain Affrica. Roeddent wedi gofyn am ddatganiad adran 6. Roedd y deunydd sensitif yn cynnwys asesiadau o'r bygythiad terfysgaeth yn Nwyrain Affrica, faint a wyddai'r diffynyddion am hyn a'u ffynonellau, ac yn dangos faint o wybodaeth oedd gan yr hawlwyr.

2. Roedd Irwin J wedi gwrthod dadl yr hawlwyr bod angen achos PII bob tro cyn gwneud cais am ddatganiad deunydd caeedig; byddai hynny'n groes i gynllun y Ddeddf. Roedd y deunydd sensitif yn ganolog berthnasol i'r

achos. Hebddo, ni fyddai gan y llys atebion i gwestiynau hanfodol; ni allai'r un llys wrando'r achos yn deg hebddo, a hebddo hefyd roedd yn eithriadol debygol y byddai un ochr yn ennill a'r llall yn colli drwy ddiffyg. Roedd hefyd yn eithriadol debygol y byddai'r cais PII yn llwyddiannus gyda pheth o'r deunydd. Gellid naill ai cyflwyno'r deunydd hwn yn ei hanfod neu fel crynodeb heb i'r hanfod fod yn rhy amwys na'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol. Ni allai hanfod o'r fath osgoi'r ffaith bod angen CMP[75] na chynorthwyo i ddwyn achos effeithiol.

3. Roedd Irwin J hefyd wedi gwrthod dadleuon yr hawlwyr y gellid defnyddio dulliau eraill i osgoi'r angen am CMP. Nid oeddent yn cyfiawnhau'r casgliad bod gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol yn fwy tebygol drwy ddefnyddio'r dulliau hyn yn hytrach na'r CMP. Oherwydd na ellid derbyn yr hawlwyr i'r cylchoedd cyfrinachedd, ni allai eu cyfreithwyr siarad gyda nhw am y dystiolaeth; ac roedd y risg o ddatgelu'n ddiarwybod yn uchel, hyd yn oed drwy "dawelwch trwm". Ni fyddai unrhyw AA[76] ar eu cyfer yng nghyswllt deunydd yn y cylch cyfrinachedd. Gyda'r CMP, byddai gan yr hawlwyr eu cynrychiolwyr cyfreithiol a allai gyfathrebu'n rhydd gyda nhw, a hefyd AA a allai weld yr holl ddeunydd caeedig, ac a fyddai ganddynt dystiolaeth yr hawlwyr y cafodd yr hawliad ei seilio arni.

4. Fe wnaeth y llys hefyd gyflawni proses PII ar ddeunydd sensitif oherwydd y niwed difrifol y gallai ei ddatgelu ei achosi i gysylltiadau rhyngwladol na chyn ei ddatgelu, fel pe na bai unrhyw gais adran 6. Ni allai'r deunydd hwn fod yn sail i ddatganiad bod yr achosion yn rhai adran 6, oherwydd nid oedd yn sensitif oherwydd y niwed i ddiogelwch

[75] Gweithdrefn Deunydd Caeedig

[76] Adfocad Arbennig

gwladol y byddai ei ddatgelu'n ei achosi. Byddai cryn dipyn o ddeunydd ar gael yn agored, yn llawn neu fel hanfod neu grynodeb. Nid oedd y deunydd a fyddai'n cael ei eithrio gan PII yng nghyswllt cysylltiadau rhyngwladol yn ganolog i'r achos, ac fe lwyddodd y cais am PII. Cafwyd dyfarniad caeedig. Nid oedd apêl.

5. Yn ddiweddarach yn achos *CF* yn [2014] EWHC 3171 QB, penderfynodd Irwin J yn enw tegwch nad oedd angen datgelu deunydd a fyddai'n niweidiol i ddiogelwch gwladol. Roedd yr hawlydd eisoes wedi cyflwyno ei achos yn llawn ac er y gallai fod wedi rhoi mwy o fanylion mewn ymateb i dystiolaeth y diffynyddion, gellid delio â hynny ar sail *ad hoc* drwy holi ac ateb fel bo'r angen yn codi. Er y byddai croesholi tystion y diffynyddion yn cael ei gwtogi mewn llys agored, ni fyddai'n cael ei gwtogi mewn llys caeedig. Byddai'n cadw mewn cof y cyfyngiadau y gallai peidio â datgelu eu rhoi ar ddod i gasgliadau anffafriol lle nad oedd pwynt wedi'i ateb gan yr hawlydd. Cafodd y ddau achos eu taflu allan yn y diwedd oherwydd na wnaeth yr hawlwyr gydymffurfio â chyfarwyddiadau.

### 3. *R (Sarkandi ac Eraill) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad* [2014] EWHC 2359 (Gwein); [2015] EWCA Sifil 687

6. Gofynnodd y pum hawlydd am adolygiad barnwrol o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnig i Gyngor yr UE y dylid eu hychwanegu at y rhestr o bobl y byddai mesurau cyfyngu'n cael eu cymryd yn eu herbyn, o dan ddeddfwriaeth yr UE i'r pwrpas o atal gweithgareddau ymledu niwclear gan Iran. Gofynnwyd hefyd am orchymyn yn cynnig dad-restru a

thalu iawndal. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol gais am ddatganiad o dan adran 6 a ganiatawyd gan Bean J a'i gadarnhau ar apêl.

7. Fe wnaeth Bean J un pwynt ar eiriad CPR82.23(4), sydd ym mhob un o'r tair cyfres o reolau llys: mae'n ymddangos bod angen gwrando'r cais cyfan am ddatganiad yn absenoldeb y partïon a gynrychiolir yn arbennig a'u cynrychiolwyr cyfreithiol. Barnodd, oherwydd nad oedd angen gwrando'r cais i gyd yn eu habsenoldeb, y dylid darllen y rheol fel un berthnasol dim ond fel bo angen, hynny yw fel bo angen i atal datgelu deunydd a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol.

8. Gwrthwynebwyd y cais am y datganiad ar y sail ei bod yn bosib penderfynu'r her i resymoledd cynnig yr Ysgrifennydd Gwladol i Gyngor yr UE ar sail deunydd na fyddai'n achosi unrhyw niwed i ddiogelwch gwladol. Gwrthwynebodd yr AA y cais gan ddadlau y byddai ystyried y deunydd o dan broses PII yn ddigon i alluogi'r llys i symud ymlaen yn y ffordd arferol; nid oedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried defnyddio PII mewn gwirionedd o gwbl. Roedd Bean J yn fodlon bod PII wedi cael ei ystyried. Barnodd nad oedd datganiad adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys asesu gobaith y diffynnydd o lwyddo, ar wahân i fod yn fodlon bod gan y diffynnydd, ar sail yr holl ddeunydd, achos haeddiannol. Roedd y ddau amod wedi eu bodloni.

9. Ar apêl, nododd y llys y broblem gyffredin bod deunydd caeedig yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i gyflwyno'n hwyr, a'r trafferthion yr achosai hyn i'r AA yn enwedig. Pwysleisiodd y llys fod gan y CMP botensial fel y gallai weld yr holl ddeunydd yr oedd y penderfyniad i gynnig cynnwys enwau'r pump ar restr yr UE yn seiliedig arno, a'r holl ddeunydd perthnasol arall hefyd. Nid oedd angen i'r llys ragweld canlyniad achos y

datganiad. Nid oedd ychwaith angen, wrth ystyried yr amod cyntaf, ystyried mwy na’r posibilrwydd o hawliad PII; nid oedd angen iddo ragweld canlyniad hawliad o’r fath. Roedd y sgôp i gyfleu hanfod ar hawliad PII yn fwy perthnasol i’r ail amod.

10. Roedd yr hawlwyr yn dadlau na ddylid dyfarnu bod yr ail amod wedi’i fodloni o ystyried annhegwch y weithdrefn CMP, oedd yn mynd yn ddifrifol groes i egwyddorion cyfiawnder agored a naturiol. Roedd Richards LJ wedi ailadrodd, fel yn *McGartland*, mai Rhan 2 y Ddeddf oedd y ffordd yr oedd y buddiannau cyhoeddus anghytûn wedi cael eu cydbwyso ac nad oedd angen unrhyw ystyr cul neu gyfyngus heblaw’r hyn oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Roedd gan Bean J hawl i gasglu y byddai hawliad PII yn eithrio manylion y deunydd a fyddai ar gael i’w hystyried gan wneuthurwr y penderfyniad, manylion oedd yn hanfodol i werthuso’r prif achos. Gyda PII, nid oedd angen ystyriaeth fanwl i’r pwrpas hwnnw o dan yr adran. Roedd y Llys Apêl yn fodlon bod amgylchiadau’r achos yn rhoi’r hawl i Bean J gasglu bod y ddau amod wedi cael eu bodloni.

### 4. *McGartland ac Arall v Y Twrnai Cyffredinol* [2014] EWHC 2248 (QB); [2015] EWCA Sifil 686

11. Roedd yr hawlydd cyntaf yn honni iddo fod yn asiant i’r RUC[77] neu Gangen Arbennig yng Ngogledd Iwerddon gan ofyn am iawndal am fethiant honedig swyddogion gwladwriaeth y DU i roi cymorth a chyngor digonol iddo ef a’i bartner i sicrhau bod eu bywydau a’u lles yn ddiogel,

[77] Heddlu Brenhinol Wlster

ar ôl iddo honni bod ei fywyd mewn perygl wedi i eraill ddod i wybod pwy oedd o.

12. Roedd y diffynnydd wedi gwneud cais am ddatganiad adran 6 a'r hawlwyr wedi gwneud cais am orchymyn bod y diffynnydd i ddechrau'n pledio'n agored ac mewn manylder i'r honiadau gan ddadlau nad oedd cyfiawnhad dros safiad y diffynnydd na fyddai'n cadarnhau na'n gwadu bod yr hawlydd cyntaf wedi bod yn asiant.

13. Gwrthododd Mitting J gais yr hawlwyr gan ganiatáu cais y diffynnydd am ddatganiad. Roedd y deunydd caeedig oedd yn berthnasol i'r datganiad yn berthnasol i gais yr hawlwyr ac ni ellid ei benderfynu heb ystyried y deunydd caeedig. Nid oedd y Ddeddf yn caniatáu ystyried eu cais fel rhan ategol o'r cais adran 6. Ni ellid ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd ffeilio amddiffyniad oedd yn gwbl agored. Byddai'n rhaid i'r diffynnydd ddibynnu ar ddeunydd caeedig i amddiffyn ei safiad gan gynnwys sut yr oedd 'rheolwyr' yr asiantau'n cael eu hyfforddi, a'r mesurau a gymerid i ddiogelu rhai a oedd mewn perygl. Ni ellid gwneud y manylion hynny'n gyhoeddus na'u datgelu i rai oedd heb fod drwy'r broses DV, neu nad oedd angen DV oherwydd eu swydd. Gwrthododd awgrym yr hawlwyr y dylai'r ail hawlydd a'r tîm cyfreithiol fynd drwy'r broses fetio hon. Roedd y deunydd diogelwch gwladol yn rhan bwysig o'r achos ac ni ellid penderfynu'r hawliad yn deg ac effeithiol hebddo. Roedd problemau anodd wedi codi ynghylch sut i ddatrys tystiolaeth anghyson ac roedd yn well yn awr i'r achos symud ymlaen o dan adran 6, hyd nes y byddai achosion y ddwy ochr yn barod a phryd y gallai'r datganiad deunydd caeedig yna gael ei adolygu, ond ar sail gwbl wybodus.

14. Cadarnhawyd y penderfyniad ar apêl fel penderfyniad rheoli achos cwbl briodol i’r barnwr ei wneud. Yn ôl Richards LJ, oherwydd bod Rhan 2 yn cyfleu cydbwysedd y Senedd rhwng buddiannau anghytûn cyfiawnder agored a naturiol ar yr un llaw a diogelwch gwladol ar y llaw arall, gyda darpariaeth neilltuol i sicrhau cydymffurfio ag Erthygl 6 y ECHR[78], nid oedd rheswm, er bod y ddarpariaeth yn un eithriadol, rhoi ystyr cul na chyfyngus iddi oni bai ei bod yn ofynnol gan y Ddeddf Hawliau Dynol. Er bod llawer o ddeunydd agored i gefnogi dadl yr hawlydd cyntaf iddo fod yn asiant, nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol iddo fod yn asiant i’r Gwasanaeth Diogelwch fel yr oedd yn ei honni, nag iddo chwarae rhan yn ei ail-setlo. Ni ellid penderfynu ar unrhyw gam heblaw “Nac yn Cadarnhau na’n Gwadu” (NCND) heb ystyried amddiffyniad caeedig llawn a’r deunydd amddiffyn craidd cysylltiedig. Roedd hefyd ymhell o fod yn amlwg bod yr hawlwyr yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol.

15. Roedd rhai pwyntiau penodol yn codi. Mae CPR[79] 82.6(1), a’i rheolau cyfatebol yn y ddwy gyfres arall o reolau llys, yn cyfeirio at wrandawiadau y mae angen eithrio parti a’i gynrychiolwyr cyfreithiol ohonynt ond a fynychir gan yr AA fel gwrandawiad preifat, felly hefyd CPR82.6(2). Gallai hyn arwain at y farn bod 82.6(2) yn cyfeirio at wahanol fath o wrandawiad preifat, un lle y mae’r partïon i gyd yn bresennol ond y mae’r cyhoedd a’r wasg wedi eu heithrio ohonynt. Credai Richards LJ ei bod yn well darllen CPR82.6(2) fel un nad oedd yn cynnwys y math olaf o wrandawiad (ni welaf fod angen diwygio’r CPR

78 Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

79 Rheolau Trefniadaeth Sifil

oherwydd mae’r sefyllfa mewn realiti’n glir, o leiaf yn dilyn y dyfarniad hwn).

16. Nid oedd dyfarniad caeedig yn y naill gam na’r llall. Yn y diwedd, penderfynwyd peidio â defnyddio’r CMP.

**5. *R (Al-Fawwaz) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2015] EWHC 166 a 469 (Gwein)**

17. Mae gan yr achosion hyn gysylltiad agos â’r penderfyniad y cyfeiriwyd ato yn adran 2 ar sgôp “achos neu fater troseddol”. Y penderfyniad a heriwyd oedd gwrthodiad yr Ysgrifennydd Cartref i gydymffurfio â Llythyrau Gofyn gan farnwr yn Efrog Newydd yn nhreial hawlydd a gyhuddwyd o gynllwynio mewn cysylltiad â bomio terfysgol Islamaidd dwy lysgenhadaeth UDA yn Nwyrain Affrica. Roedd yr hawlydd yn ystyried bod y deunydd yn gymorth i’w achos. Caniatawyd y datganiad adran 6, yn ddi-her. Gwrthodwyd yr her. Cafwyd dyfarniad caeedig. Mae’n anodd gweld sut y gellid bod wedi gwrando rhannau o’r hawliad heb CMP, na sut y gallai PII fod wedi helpu. Trafodir datgelu i gylch cyfrinachedd yn y dyfarniad diweddarach yn [9-15] gan Wyn Williams J a wrthodwyd am y rhesymau a roddwyd.

**6. *AZ v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2015] EWHC 3695 (Gwein); [2017] EWCA Sifil 35**

18. Roedd yr achos yn ymwneud â gwladolyn Syria oedd wedi’i gydnabod fel ffoadur a gyda chaniatâd i aros yn y DU. Gwrthododd yr Ysgrifennydd Gwladol ei gais am ddogfen deithio ffoadur ar seiliau diogelwch gwladol: honnwyd ei fod yn eithafwr Islamaidd oedd eisiau mynd i Syria i ymladd. Gwnaed datganiad o dan adran 6; nid yw’n glir a gafodd ei wneud yn

ddiwrthwynebiad. Heriwyd y penderfyniad i wrthod dogfen deithio ar y sail nad oedd digon o rybudd wedi'i roi i'r hawlydd, cyn gwneud y penderfyniad, o'r pryderon oedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac felly nad oedd wedi gallu ateb y pryderon cyn gwneud y penderfyniad, a bod rhesymau annigonol wedi eu rhoi am y penderfyniad ei hun i'r hawlydd fod wedi gallu herio'r gwrthodiad.

19. Mae'r achos yn nodedig oherwydd y dadansoddiad o natur amrywiol y ddyletswydd i ddatgelu mewn achosion diogelwch gwladol. Roedd rhai amgylchiadau pryd y byddai hawl yr hawlydd i wybod beth oedd craidd yr achos yn ei erbyn yn troi'r fantol yn erbyn buddiannau diogelwch gwladol, fel mewn Gorchymyn Rheoli, Gorchymyn Rhewi Asedau, ac atal dinasyddion yr UE rhag ymarfer eu hawl i symudiad rhydd. Nid oedd gwrthod dogfen deithio ffoadur yn yr un cae â'r pethau hyn. Cadarnhawyd y penderfyniad, am y rhesymau a roddwyd gan Nicol J, gan y Llys Apêl.

**7 ac 8. *XH v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref*; [2015] EWHC 2932 (Gwein) (a6 XH); a gydag *AI v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2016] EWHC 1898 (Gwein) (prif wrandawiad); [2017] EWCA Sifil 41**

20. Caniatawyd datganiad adran 6 mewn achos adolygiad barnwrol wedi'i ddwyn yng nghyswllt defnyddio'r Uchelfraint Frenhinol i ganslo pasbort Prydeinig yr hawlydd ar y sail ei fod wedi cymryd rhan mewn terfysgaeth. Honnwyd fod y penderfyniad yn torri Erthygl 8 yr ECHR ac amrywiol hawliau ar symudiad rhydd o dan gyfraith yr UE; gofynnwyd hefyd am iawndal. Roedd y llys wedi ystyried cyfreitheg Llys Lwcsembwrg ar ofynion cyfraith yr UE mewn achosion a ddisgrifiwyd gan Lys Lwcsembwrg fel rhai "diogelwch gwladol". Derbyniodd yr hawlydd, yn

amodol i'r gofynion datgelu lleiaf oedd yn ofynnol, fod cyfiawnhad i ddatganiad adran 6. Ond yn gyntaf, roedd yr hawlydd yn dadlau bod angen i'r llys benderfynu a oedd hawliau'r UE yn berthnasol oherwydd gallai hynny effeithio ar natur y gofynion datgelu maes o law. Derbyniwyd ar ran y diffynnydd y byddai'n rhaid cyflawni'r broses ddatgelu ar sail y dybiaeth bod gan yr hawlydd hawliad o dan gyfraith yr UE. Barnodd y llys, fodd bynnag, y byddai penderfynu a oedd gan yr hawlydd hawliad o dan gyfraith yr UE cyn gwneud datganiad adran 6 yn rhoi'r cert o flaen y ceffyl. Dylai cwestiynau manwl, am ba ddeunydd caeedig y dylid ei ddatgelu neu gyfleu yn ei hanfod, ddilyn fel y cam nesaf ar ôl gwneud y datganiad.

21. Roedd y Llys Adrannol wedi mabwysiadu dull Richards LJ yn y Llys Apêl yn *Sarkandi.* Gwrthododd ddadleuon yr AA fod yn rhaid i'r diffynnydd, er mwyn gallu gwneud cais am ddatganiad, ddangos ei bod yn amlwg na fyddai PII a chyfleu hanfod y deunydd yn cwrdd â chyfiawnder yr achos; byddai angen i'r ymarfer PII a'r cais adran 6 wedyn symud ymlaen gyda'i gilydd. Byddai'r llys fel arfer mewn sefyllfa i farnu ynghylch a fyddai PII a chyfleu hanfod deunydd yn debygol o gyflwyno digon o ddeunydd i ran agored yr achos er mwyn bodloni cyfiawnder yr achos. Fodd bynnag roedd yn debygol iawn, pe bai cais am PII yn cael ei wneud yn hytrach na CMP, y byddai'r deunydd yn cael ei warchod rhag cael ei ddatgelu; mater i'r llys fyddai cyflawni'r ymarfer cydbwyso oedd wedi'i ragweld gan *R v Prif Gwnstabl Gorllewin Canolbarth Lloegr, ex parte Wiley* [1994] UKHL 8, [1995] 1 AC 274:

> "Y deunydd y byddai'r hawlydd yn hoffi ei weld, ac y mae angen i'r llys ei gael i ddatrys y materion cyfreithiol, fyddai'r union ddeunydd a fyddai bron yn sicr o gael ei warchod rhag cael ei ddatgelu." Er y

gellid gwneud peth deunydd yn agored heb niwed, a chyfleu hanfod peth ohono, "mae'n glir y byddai hawliad PII yn arwain at eithrio manylion pwysig y deunydd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn dibynnu arno i wneud ei phenderfyniad. Roedd angen y manylion hynny er mwyn gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol yn yr achos."

22. Roedd y llys yn cydnabod bod ganddo ddisgresiwn i wrthod datganiad, hyd yn oed pe bai'r ddau amod statudol wedi eu bodloni, ond credai y byddai achosion o'r fath yn debygol o fod yn brin iawn. Roedd y Senedd yn debygol o fod wedi bod yn sensitif i beidio â mynnu sut y dylai'r llys weithredu yn y math yma o achos.

23. Gwrandawyd y prif achos hwn yn 2016 a gwrthodwyd yr her, ynghyd ag achos arall oedd wedi codi materion tebyg: *AI.* Roedd datganiad adran 6 wedi'i wneud yn *AI* er nad yw'n glir a oedd yn ddiwrthwynebiad, neu a wnaed dyfarniad arno neu beidio. Mae dyfarniad agored helaeth ar y materion cyfreithiol niferus sy'n benodol i'r categori hwnnw o achosion. Roedd gwrandawiad caeedig wedi'i gynnal i ddelio â'r dystiolaeth gaeedig, ond dim dyfarniad caeedig. Roedd hyn, fel i'r Llys Apêl ei nodi'n glir yn [20], oherwydd bod yr AA wedi derbyn nad oedd achos iawn i ddadlau bod tystiolaeth annigonol yn y deunydd caeedig i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi gallu amau ar seiliau gwrthrychol bod XH wedi cymryd rhan mewn eithafiaeth Islamaidd.

24. Gwrthododd y Llys Apêl yr apêl. Barnodd fod craidd yr achos yn erbyn yr hawlydd wedi'i ddatgelu fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb berthnasol yr UE a chyfreitheg Lwcsembwrg. Gwrthododd yr amrywiol seiliau, gan gynnwys y disodlwyd yr Uchelfraint Frenhinol gan ddarpariaeth statudol y

mesurau TPIM[80], a bod hawliau'r UE i symudiad rhydd wedi eu torri. Roedd hefyd wedi ystyried y safonau datgelu sy'n ofynnol pan fydd hawl o dan yr UE o'r natur hon yn codi.

**10-13 *Kamoka ac Eraill v Y Gwasanaeth Diogelwch ac Eraill* [2015] EWHC 60 (QB); [2015] EWHC 3307(QB); [2016] EWHC 769 (QB); [2017] EWCA Sifil 1665; [2019] EWHC 290 (QB); [2019] EWHC 2383 (QB)**

25. Ar ôl darganfod amrywiol ddogfennau yn swyddfeydd gwasanaethau diogelwch Cyrnol Gadhafi'n ymwneud ag Islamiaid o Libia ac eraill, roedd Mr Kamoka ac 11 arall wedi dwyn achos yn honni y cawsant eu cadw'n gaeth yn anghyfreithlon yn y DU, neu y cyfyngwyd ar eu rhyddid yn anghyfreithlon yma, neu y cawsant eu henwebu'n anghyfreithlon i'r Cenhedloedd Unedig gan y DU, ar gyfer rhewi eu hasedau fel terfysgwyr. Roedd yr hawliad yn ymwneud â'r ffordd, yn ystod y cyfnod pan oedd Llywodraethau'r DU a Libia wedi closio ar ôl ymosodiadau terfysgol 9/11, yr oedd eu cydweithrediad ar wrthderfysgaeth, gan gynnwys yn erbyn Grŵp Ymladd Islamaidd Libia, wedi cynnwys meddid, rôl anuniongyrchol Llywodraeth y DU, a hynny'n wybod i Lywodraeth Libia, mewn rhaglen fyd-eang gan y CIA o anfon pobl i wlad dramor ac arteithio. Roeddid wedi dibynnu ar beth a ddigwyddodd i unigolion eraill. Roeddent yn honni y dangosai'r dogfennau fod Llywodraeth y DU yn euog o'r camwedd o garcharu ar gam neu gam-ddefnyddio awdurdod oherwydd y daliwyd dogfennau perthnasol yn ôl mewn achosion SIAC blaenorol[81], ac wedi cam-drin ei phŵer, a bod eu cadw'n gaeth nes cael eu hallgludo neu'n destun cyfyngiadau Gorchmynion Rheoli, neu rewi asedau o dan Orchmynion Rhewi Asedau, felly'n anghyfreithlon. Roedd

80 Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth

81 Y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig

rhai o’r hawlwyr wedi apelio’n llwyddiannus gerbron SIAC, yn erbyn ymdrechion yr Ysgrifennydd Gwladol i’w hallgludo i Libia gan roi sicrwydd ynghylch eu triniaeth yno. Roedd rhai yna’n destun Gorchmynion Rheoli, oedd wedi eu hadolygu yn y llysoedd. Roedd y diffynyddion wedi gofyn am i’r hawliadau gael eu taflu allan neu wrthod ar y sail eu bod wedi eu rhagwahardd gan ystatud neu eu bod yn cam-drin proses y llys, gan ail-gyfreitha yng nghysgod hawliadau iawndal cyfraith breifat, materion y gellid ond mynd â nhw ymhellach drwy apelio mewn achos adolygu neu SIAC.

26. Gwrthododd Irwin J y dadleuon bod yr hawliadau wedi eu gwahardd gan ystatud. Gwrthododd ddyfarnu eu bod yn cam-drin y broses, yn rhannol oherwydd ni welai sut y gellid disgwyl i hawlydd wybod beth oedd yn y deunydd caeedig yn yr achosion cynharach hynny er mwyn barnu beth bellach oedd yn newydd; roedd y rhwymedïau eraill posib yn hynod ansicr, technegol a gweithdrefnol gymhleth. Nid oedd ar y pwynt hwn wedi ystyried unrhyw ddeunydd caeedig. Golygai hynny na allai gymharu’r deunydd oedd o flaen SIAC na’r barnwr oedd yn adolygu’r Gorchmynion Rheoli i weld faint o’r deunydd oedd wedi’i ddarganfod yn Libia oedd yn newydd mewn gwirionedd, ac yn ddeunydd y gallai’r diffynyddion fod wedi’i ddatgelu i’r AA. Rhoddodd gyfle i’r diffynyddion adnewyddu eu cais iddo i daflu’r hawliad allan, y tro hwn gyda mantais y deunydd caeedig. Fe wnaeth Irwin J ddatganiad adran 6 ar 1 Gorffennaf 2015 gyda dyfarniad agored a chaeedig. Mae’r datganiad yn un i’w nodi oherwydd ymddengys ei fod ond yn ymwneud â’r cam cyntaf dadleuol hwn yn yr achos, y cais gan y diffynyddion i daflu’r hawliad allan. Os oedd y cais i daflu allan yn methu, y disgwyl oedd y byddai cais am ddatganiad CMP yn cael ei wneud yn y prif achos.

27. Cafodd y datganiad CMP hwnnw wedyn ei adolygu o dan orchymyn gan Irwin J o dan adran 7(2) a (3), pa un bynnag a fyddai'n berthnasol, [2015] EWHC 3307(QB). Roedd yr adolygiad wedi'i wneud cyn cwblhau'r broses ddatgelu yn y cais i daflu allan. Dadleuai'r hawlwyr y byddai'r ymgais i daflu'r hawliad allan yn siŵr o fethu ac felly nad oedd rheswm i'r datganiad CMP presennol barhau. Gwrthododd Irwin K y cais y dylid dirymu'r datganiad ar y pwynt hwnnw: dylai aros nes y byddai'r broses ddatgelu wedi'i chwblhau, ac am resymau gweithdrefnol eraill.

28. Roedd prif fyrdwn y dyfarniad yn ymwneud â'r egwyddorion i'w cymhwyso i'r broses ddatgelu, oedd ar y pwynt hwnnw ond yn ymwneud â'r cais i daflu allan. Roedd llawer o'r un ffactorau'n berthnasol yr un fath ag i'r broses ddatgelu yn y prif hawliad. Un ffactor wahanol fyddai mai cais ydoedd gan y diffynyddion i daflu'r hawliad allan yn hytrach nag achos gan yr hawlydd yn erbyn y diffynyddion. Tynnodd Irwin J sylw na allai'r prawf "cyfiawnder teg ac effeithiol" o dan y Ddeddf ddefnyddio holl egwyddorion tegwch y gyfraith gyffredin, oherwydd byddent yn gwrthdaro â'r Ddeddf: rhaid oedd sicrhau "cysoni egwyddorion tegwch y gyfraith gyffredin â darpariaethau'r ystatud. Rhaid i degwch olygu "mor deg â phosib fel y bo'n gyson â darpariaethau'r Ddeddf..." Disgrifiodd fod hyn yn broblem gyfarwydd i'r gyfraith gyffredin gan bwysleisio bod y gyfraith gyffredin yn gallu addasu a bod yn hyblyg ac nad oedd yn gyfres o reolau diwyro. Nid oedd y gyfraith gyffredin yn cynnwys "gofyniad i ddatgelu lleiafswm anostwng o wybodaeth, hyd yn oed pe byddai hynny'n groes i'r warchodaethau'r Ddeddf." Roedd yn golygu y dylai datgelu gyflwyno gymaint o ddeunydd â phosib i'r hawlwyr, yn gyson â darpariaethau'r Ddeddf i warchod deunydd diogelwch gwladol, ac os na

ellid datgelu'r deunydd i gyd, y dylid ei grynhoi mor llawn â phosib, eto'n gyson â'r Ddeddf.

29. Cytunwyd fod yr egwyddorion a gyflwynwyd gan y Goruchaf Lys yn *AF (Rhif 3) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2010] 2 AC 269 yn ymwneud ag Erthygl 6 yr ECHR, yn berthnasol lle'r oedd rhyddid yr unigolyn dan sylw. Y tu allan i'r meysydd hynny, roedd dadansoddiad Irwin J o'r awdurdodau o dan ddarpariaethau statudol eraill yn dangos nad oedd Erthygl 6 yn mynnu ar yr holl ddarpariaethau arferol sy'n ategu tegwch neu arfau cyfartal. Nid oedd elfennau craidd proses deg yn absoliwt na'n benodedig; nid oedd safon unffurf gyson y dylid ei chymhwyso i bob cyd-destun, ffeithiau ac amgylchiadau; *Tariq v Y Swyddfa Gartref* [2012] 1 AC 452. Lle'r oedd rhyddid y person dan sylw yn y fantol, dylid rhoi digon o wybodaeth i'r person oedd yn cael ei gadw'n gaeth am yr honiadau yn ei erbyn fel y gallai roi cyfarwyddyd effeithiol i'r AA, hyd yn oed pe byddai gwneud hynny'n achosi niwed i fuddiannau diogelwch gwladol.

30. Nid oedd yr achos presennol yn ymwneud â neb oedd yn cael neu'n wynebu risg o gael ei gadw'n gaeth ar hyn o bryd, ond yn ymwneud â'r hawl i ryddid a gwarchod rhag cadw'n gaeth ar fympwy, felly roedd sicrhau cyfiawnder yn flaenoriaeth uchel. Roeddent yn ceisio profi a oedd y rhai mewn awdurdod wedi cam-drin eu pŵer. Ond nid oedd mor bwysig â chael eu rhyddhau, fel gyda gwrit habeas corpus. Roedd Irwin J wedi rhoi'r achosion presennol yn is ar y sbectrwm nag achosion lle'r oedd preswylwyr hirsefydlog neu a oedd yn briod â dinasyddion y DU wedi eu heithrio o'r DU. Roedd yn ystyriol o faint o ddeunydd oedd eisoes ar gael, a natur yr achosion taflu allan. Gellid gwneud gwahanol benderfyniadau am beth oedd angen ei ddatgelu pe bai'r taflu allan yn

aflwyddiannus a safiad yr hawlwyr ar wahanol faterion yn cael ei egluro. Roedd y digwyddiadau a warchodwyd gan ddiogelwch gwladol wedi digwydd i eraill ac wedi eu cyfeirio atynt oherwydd safiad yr hawlwyr bod yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw’n berthnasol i’r cwestiwn a allai’r hawlwyr byth fod wedi cael eu dychwelyd yn iawn i Libia. Roedd hefyd yn ei gwneud yn annhebygol y byddai gan yr hawlwyr unrhyw gyfarwyddyd i’w roi ar daflu allan, pe bai’r deunydd hwnnw’n cael ei ddatgelu. Materion cyfreithiol yn eu hanfod oedd y rhai taflu allan. Roedd y gyfraith gyffredin a chymhwyso Erthygl 6 yn pwyntio i’r un cyfeiriad.

31. Roedd cais y diffynyddion i daflu allan yna wedi’i adnewyddu ar ôl datgelu’r deunydd caeedig i’r AAau. Rhoddir dyfarniad Irwin J ar y cais newydd i daflu allan yn [2016] EWHC 769 (QB). Yn y dyfarniad agored, roedd yn fodlon meddai bod “datgelu eang wedi bod o’r dogfennau tra chyfrinachol oedd yn berthnasol i bryderon yr hawlwyr, yn ogystal â thystiolaeth lafar gaeedig bwysig. Mae adolygiad o’r datgelu a wnaed i SIAC yn fy arwain at gasgliad clir nad oedd unrhyw *suppressio veri*.” Ni ystyriodd y ffaith bod tystiolaeth gaeedig o flaen SIAC wedi rhagwahardd taflu allan llwyddiannus ar y sail bod yr hawliad newydd yn ailgyfreitha’r canfyddiadau neu’r hawliad blaenorol. Gallai hawliadau newydd fod yn her anuniongyrchol ac felly’n cam-drin y broses. Felly taflodd allan yr hawliadau’n ymwneud â’r adolygiadau Gorchymyn Rheoli a SIAC, gyda rhai gwahaniaethau posib y caniatawyd i’r hawlwyr geisio eu hunioni. Fe wnaed dyfarniad caeedig hirfaith. Ni wnaed unrhyw wahaniaeth mawr rhwng yr apelwyr gerbron SIAC a enillodd eu hapeliadau, a’r rhai na symudodd eu hapeliadau ymlaen oherwydd yng ngoleuni penderfyniad SIAC na fyddai’r eithafwyr Islamaidd hynny’n ddiogel ar ôl iddynt ddychwelyd, a chafodd yr achosion allgludo yn erbyn y lleill eu gollwng.

32. Cafodd y penderfyniad taflu allan hwn ei ystyried gan y Llys Apêl yn [2017] EWCA Sifil 1665. Casglodd nad oedd yr achos wedi cam-drin y broses. Er yn amharod i ddyfarnu na allai achos lle y defnyddiwyd CMP fod yn sail dros daflu allan ar sail cam-drin y broses mewn achos nes ymlaen, ni allai fod yn gam-drin proses bod parti mewn achos blaenorol yn dibynnu, mewn achos nes ymlaen, ar bwyntiau neu honiadau na wyddai amdanynt o'r blaen ac a oedd â rheswm da dros beidio â gwybod amdanynt. Roedd y llys yna wedi ystyried a oedd sefyllfa'r AA, a'i wybodaeth, yn gwneud unrhyw wahaniaeth, fel y byddai pe bai'r AA yn "gyd-gyfranogwr" neu gyda "chyd-fudd" â'r hawlydd yn yr achos, fel y byddai cyfreithiwr neu adfocad arferol. Roedd rôl yr AA, sydd wedi'i gyfyngu'n statudol, o gofio nad oedd yr AA yn cynrychioli'r hawlydd na gyda pherthynas cyfreithiwr / cleient â fo, yn golygu nad oedd yn gyd-gyfranogwr yn yr achos; ni allai'r hawlydd felly wybod beth a wyddai'r AA neu y dylai fod wedi ei wybod. Nid oedd gan y rhai na wrandawyd eu hapeliadau 'gyd-fudd' ychwaith. Gan gymryd safbwynt eang "aml-ffactor" ar gam-drin proses, casglodd y llys nad oedd yr achos yn cam-drin proses y llys; nid mater i'r llys mewn sesiwn agored oedd trafod pam na chymrodd yr AA amrywiol bwyntiau yn yr achos SIAC, ond dywedodd nad oedd sail dros eu beirniadu o gwbl yn yr achos blaenorol yng ngoleuni adolygiad y llys o'r deunydd. Gwnaed datganiad o dan adran 6 yn y prif achos ym mis Chwefror 2017.

**14-17. *Khaled a Maftah v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad* [2017] EWHC 1422 (Gwein); [2016] EWHC 1727 QB**

33. Roedd dau achos yng nghyswllt yr uchod, gyda datganiad adran 6 wedi'i wneud ym mhob un. Gwnaed datganiad adran 6 mewn achos adolygiad barnwrol lle'r oedd yr hawlwyr wedi herio penderfyniad yr Ysgrifennydd

Gwladol i'w henwebu ar gyfer eu rhestru gan Bwyllgor Sancsiynau'r Cenhedloedd Unedig fel rhai a gymrodd ran mewn terfysgaeth, a'i benderfyniad pellach i beidio â gofyn am eu dad-restru. Yn y dyfarniad agored yn 2017 roedd Jay J yn delio â'r ddadl, er nad oedd y rhain yn hawliadau yr oedd Erthygl 6 yr ECHR yn berthnasol iddynt oherwydd nad oeddent yn penderfynu hawliau sifil, bod safon y datgelu oedd yn ofynnol o dan gyfraith gyffredin yr un fath ag yn *AF (Rhif 3),* sef fel y gallai'r hawlwyr roi cyfarwyddyd effeithiol i'w AA. Barnodd nad oedd hawl o'r fath, i'r graddau bod y lefel yma o ddatgelu'n ofynnol o dan y gyfraith gyffredin, oherwydd na fyddai'n gyson ag iaith y Ddeddf.

34. Roedd yr hawlwyr hefyd wedi dwyn hawliad sifil am iawndal yn codi o'r un penderfyniad. Mae dyfarniad Irwin J yn [2016] EWHC 1727 QB yn cyfeirio at y datganiad adran 6 a wnaed drwy gydsynio yn achos y QB (Mainc y Frenhines). Craidd yr hawliad oedd bod y diffynyddion yn gwybod bod y deunydd yr oeddent yn ceisio dibynnu arno wedi'i gael yn anghyfreithlon, drwy arteithio, ac yn annibynadwy. Er bod Erthygl 6 yn berthnasol, nid oedd y gofyniad datgelu yn *AF (Rhif 3)* yn berthnasol. Nid oedd yr hawliad am iawndal yn cario'r un pwysau â cholli rhyddid neu gyfyngiadau difrifol ar ryddid neu rewi asedau.

35. Ar ryw bwynt, roedd yr hawliadau gan Mr Maftah a Mr Khaled wedi eu cysylltu i'r lleill. Yn [2019] EWHC 290 (QB), roedd Jay J wedi gwrthod cais agored yr hawlwyr i daflu'r amddiffyniad allan. Cytunwyd pe byddai hynny'n digwydd, nad oedd rheswm da dros wrthwynebu gwneud datganiad adran 6: Ystyriodd y gellid gwneud cais pellach i daflu allan unwaith yr oedd y deunydd caeedig wedi cael ei gyflwyno i'r AA. Casglodd na fyddai mewn sefyllfa i farnu'r rhagofalon oedd yn eu lle yng nghyswllt honiadau'r Meistri Belhaj ac Al Saadi y cawsant eu cam-drin

heb weld y deunydd i gyd, ac ni allai ychwaith farnu bod deunydd hanfodol bwysig wedi'i anwybyddu oni bai ei fod yn gwybod am bopeth oedd wedi'i ystyried.

36. Cyflwynodd Jay J ddyfarniad agored ar amrywiol faterion rheoli achosion mewn dyfarniad agored [2019] EWHC 2383 (QB). Roedd cylch cyfrinachedd dros dro yn ei le, ar gais anghyffredin yr hawlwyr, yn ymwneud â'u hadroddiadau meddygol cyfrinachol, ac a fyddai wedi cyfyngu'r rhai ar ochr y diffynyddion oedd wedi gallu eu gweld. Ofnid y byddai MI5 neu MI6 yn eu defnyddio. Nid oedd y barnwr yn barod i barhau â'r mater, oherwydd nad oedd y dadleuon drosto'n gadarn.

37. Cafodd yr achosion i gyd eu setlo.

**19. *R (Belhaj) v Straw ac Eraill* [2017] EWHC 1861 (QB)**

38. Roedd y diffynyddion wedi gwneud cais am ddatganiad adran 6 a'r hawlydd, oedd yn wladolyn Libia, yn honni iddo gael ei herwgipio'n anghyfreithlon gan asiantau'r wladwriaeth o Falaysia drwy Wlad Thai i Libia, lle y cafodd ei arteithio a'i ddedfrydu i farwolaeth, a bod y diffynyddion wedi cyfranogi drwy ddarparu'r gudd-wybodaeth a arweiniodd at ei anfon i wlad dramor gan wybod bod risg o arteithio pe bai'n dychwelyd i Libia, ac yn darparu cwestiynau i'w gofyn i'r hawlydd yn Libia; roeddent hefyd yn bresennol yn ystod ei gaeth-holi yno. Honnwyd fod dogfennau perthnasol wedi dod i'r golwg ar ôl cwymp Gadhafi. Gwnaed y datganiad gan Popplewell J: nid oes dyfarniad caeedig.

39. Dywedodd y barnwr fod PII yn berthnasol i ystod ehangach o fuddiannau cyhoeddus na diogelwch gwladol, ac nad oedd y Ddeddf yn berthnasol i'r olaf; felly gallai cais PII redeg yn gyfochrog â'r weithdrefn adran 6, ar

gyfer y buddiannau eraill hynny. Ond roedd y ddwy broses yn rhoi canlyniadau tra wahanol o ran y dystiolaeth oedd ar gael i'r barnwr. Roedd y Ddeddf yn cydnabod y gallai gweithdrefnau eithrio PII atal unrhyw dreial teg o gwbl gan geisio cywiro'r diffyg hwn drwy'r CMP. Mae paragraffau 21-32 yn cynnwys crynodeb defnyddiol o bwrpas a gweithrediad y Ddeddf.

40. Gwrthododd Popplewell J y ddadl bod yn rhaid penderfynu'r cais am y datganiad drwy gyfeirio at faterion o bwys canolog neu at yr honiadau craidd, neu fod yn rhaid i'r deunydd sensitif fod yn hynod berthnasol. Nid mater i'r llys ychwaith ar y pwynt hwnnw oedd llunio barn o ryw fath am achos y diffynyddion, o'r gwadu cyffredinol neu drwy iddynt gwestiynu honiadau pwysig, cyn iddo gael ei ateb. Nid oedd gwerthuso cryfder achos y diffynyddion yn rhan o'r ymarfer adran 6. Pe gellid gwneud datganiadau adran 6 ar gyfer rhan o'r hawliad yn unig, ac roedd y barnwr yn amau hyn, byddai'n well ei ddatrys drwy benderfyniadau rheoli achos ar ôl cwblhau'r broses ddatgelu. Er y gellid gorchymyn amddiffyniad caeedig cyn gwneud y datganiad, os nad oedd gorchymyn o'r fath, y cam nesaf yn yr achos fyddai'r gorchymyn ar gyfer amddiffyniad caeedig. Nid oedd diffyg amddiffyniad caeedig, er yn golygu nad oedd y materion dan sylw wedi eu diffinio'n dda, yn rhwystr i wneud y datganiad. Nid oedd diffyg amddiffyniad caeedig ychwaith yn golygu ei bod yn afresymol i'r diffynnydd ystyried hawliad PII posib.

41. Roedd y ddau amod wedi eu bodloni. Ar yr ail amod, dywedodd y barnwr ei bod yn berthnasol bod yr achos wedi'i ddwyn nid yn unig yn erbyn y Llywodraeth ond hefyd yn erbyn dau unigolyn wedi eu henwi, oedd am gael cyfle gwirioneddol a theg i amddiffyn eu hunain. Tynnodd Popplewell J hefyd sylw yng nghyswllt yr ail amod statudol:

"(52) Y rhag-amod yn a.6(7) yw y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi ystyried gwneud neu gynghori rhywun arall i wneud hawliad PII. Nid yw'n golygu bod hawliad yn ofynnol. Nid yw ychwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried a fyddai hawliad PII wedi llwyddo neu'n well na gweithdrefn deunydd caeedig i bwrpas y rhag-amod hwn. Mae hynny'n glir o eiriad a.6(7) a CPR82.22(2) a dyma'r dull hefyd a ddefnyddir yn gyson yn yr awdurdodau: wele *F v Y Gwasanaeth Diogelwch* a dyfarniad Irwin J ym mharagraff 37; McGartland ym mharagraff 47(vii) a (viii); XH ym mharagraff 12. Mae Datganiad Rhesymau Agored Caeedig yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau ei fod wedi ystyried gwneud neu gynghori rhywun arall i wneud cais PII ac yn egluro pam y daeth i'r casgliad y byddai gweithdrefn deunydd caeedig yn well. Dylid gwrthod dadleuon Mr Hermer y dylwn drin y penderfyniad fel un afresymol oherwydd nad yw'r materion dan sylw wedi eu hadnabod yn ddigonol. Nid yn unig oedd y materion yn codi ar ddatganiadau'r achos wedi eu hadnabod yn ddigonol, am y rhesymau a roddaf uchod, nid yw ychwaith yn dilyn o'r ffaith bod gan y llys a'r hawlwyr ond y materion a gafodd eu hadnabod yn yr Amddiffyniadau agored mai hynny oedd yr holl wybodaeth oedd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol neu a oleuodd y cyngor a roddwyd iddo. Beth bynnag, nid yw cais a.6 yn achlysur i ofyn am adolygiad barnwrol o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Y cwbl sy'n ofynnol o dan a.6(7) yw ystyried y cwestiwn, ac mae'n glir bod hynny wedi digwydd. Mae rhag-amod PII wedi'i fodloni yn yr achos hwn."

42. Yn ôl un ymatebwr i'r alwad am dystiolaeth, roedd hyn yn wahanol i'r hyn a ddywedodd Stephens J yn *McCafferty* bod gan y llys ddyletswydd i ystyried tegwch penderfyniad y diffynnydd i beidio â gwneud cais am PII.

43. Meddai Popplewell J hefyd:

> "60(5). Er bod hyn yn fater i'w ystyried yn fwy manwl yng ngham a.8, ymddengys i mi y byddai'n annhebygol iawn y gellid gwneud y deunydd yn agored neu ar gael i'r hawlwyr neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol mewn ffordd a fyddai'n gwneud mwy na gweithdrefn deunydd caeedig i hyrwyddo treial teg ac effeithiol. Fel i mi arsylwi, gellir ond deall a phwyso a mesur llawer o'r deunydd yn iawn yng nghyd-destun cyfran helaeth o'r deunydd yn gyffredinol, felly byddai cyfleu hanfod yn annhebygol o gynnig ateb realistig yn y rhan fwyaf o achosion. Mae eisteddiadau mewn sesiynau preifat a / neu ddefnyddio cylchoedd cyfrinachedd yn annhebygol o gynnig ateb boddhaol oherwydd y risg o ddatgelu, hyd yn oed yn ddiarwybod, ac oherwydd yr effaith o lyffetheirio achos yr hawlwyr pe bydden nhw eu hunain, a fyddai bron yn anochel, yn cael eu heithrio o'r cylch cyfrinachedd. Mae'r problemau gyda chylchoedd cyfrinachedd, yng nghyswllt diogelwch gwladol, yn hysbys ddigon ac wedi eu cyfleu mewn nifer o achosion, gan gynnwys gan Irwin J yn *F v Y Gwasanaeth Diogelwch* ym mhara. 51, ac mae ei sylwadau'r un mor berthnasol i'r achos presennol."

**21. *R (Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref) v Y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig ac AHK* [2015] EWHC 681 (Gwein)**

44. Her drwy adolygiad barnwrol oedd hwn i benderfyniad gan SIAC o ran faint o'r deunydd yr oedd SIAC wedi gorchymyn iddo fod ar gael i'r AA a

fyddai'n cael ei ddatgelu iddynt yn ystyr y gair hwnnw mewn cyfreitha arferol, ac a fyddai yna'n cael ei ystyried ar gyfer ei ddatgelu ymlaen i'r hawlydd a'i adfocad arferol neu ei CA.[82] Roedd yr achosion lle'r oedd y mater hwn wedi codi'n adolygiadau statudol gan SIAC o benderfyniadau i wrthod dinasfreinio, ac mewn un achos i eithrio hawlydd o'r DU. Roedd y rhesymau'n gyfyngedig; eu thema oedd bod pob hawlydd yn eithafwr gyda chysylltiadau i grwpiau oedd yn elyniaethus i'r DU. Roedd Ouseley J wedi gwneud datganiad CMP a oedd, hyd y gallai gofio, yn ddiwrthwynebiad, am y rheswm amlwg mai dim ond AAau a allai gyflwyno dadleuon gwybodus yn erbyn y Llywodraeth; roedd dyfarniad llafar wedi'i wneud ar y pryd arno. Dadleuai'r SSHD[83] na ddylai SIAC fod wedi gorchymyn datgelu dim mwy na'r deunydd a ystyriwyd gan wneuthurwr y penderfyniad. Gwrthododd y llys y ddadl hon ond hefyd y ffordd y deliodd SIAC â'r mater, pe bai wedi bwriadu i bopeth y gallai swyddog neu awdur y crynodeb fod wedi gallu ei weld, p'un ai y gwnaeth hynny neu beidio, gael ei ddatgelu. Rhywbeth rhwng y ddau oedd yr ateb, a eglurwyd yn llawnach yn y dyfarniad agored. Gwnaed dyfarniad caeedig hefyd. Gwnaed dyfarniad diweddarach ar ffurf y gorchymyn a chostau; [2015] EWHC 1236 (Gwein). Ni wnaed gorchymyn costau.

### 22. *R (MR) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2016] EWHC 1622 (Gwein); [2017] EWHC 469 (Gwein)

45. Achos arall yw hwn lle y cafodd basport gwladolyn Prydeinig ei ganslo o dan yr Uchelfraint Frenhinol, ar y sail ei fod yn rhan o derfysgaeth, ac yn rhoi ychydig iawn o fanylion. Roedd seiliau'r her adolygiad barnwrol yn debyg i'r rhain yn *XH:* seiliau cyfraith gyhoeddus ar sail afresymoledeb,

[82] Cynrychiolydd Agored

[83] Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

diffyg tystiolaeth, anwybyddu ystyriaethau pwysig, a diffyg cyfiawnhad dros ymyrryd yn ddifrifol â hawliau'r Undeb Ewropeaidd i symudiad rhydd. Roedd datganiad wedi'i wneud drwy gydsynio o dan adran 6. Mae'r dyfarniad cyntaf yn ymdrin â maint y ddyletswydd i ddatgelu yng nghyd-destun hawliau'r UE i symudiad rhydd. Mae dyfarniad terfynol agored y Llys Adrannol yn cynnwys hanfod y deunydd caeedig a gafodd ei ddatgelu.

**26 a 27. *B ac ND v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2018] EWHC 2651 (Gwein)**

46. Her adolygiad barnwrol oedd yr achos hwn gan ddau wladolyn Prydeinig yn honni bod eu pasbortau wedi eu canslo'n anghyfreithlon. Dywedwyd eu bod yn cefnogi eithafiaeth Islamaidd dreisgar ac yn bwriadu bod yn rhan o gonfoi cymorth i Syria i'r perwyl hwnnw. Gwnaed datganiad adran 6 yn Ionawr 2018. Gwrthodwyd yr her; roedd y gwrandawiad o fewn cyfnod yr adolygiad hwn a'r dyfarniad y tu allan iddo. Eglurodd Nicol J fod y dadleuon a'r dystiolaeth gaeedig yn cadarnhau casgliadau'r dyfarniad agored.

**28-30. *R (K, A, a B) v Yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Amddiffyn a Materion Tramor a'r Gymanwlad* [2016] EWHC 1261 (Gwein); [2016] EWCA Sifil 1149; [2017] EWHC 830 (Gwein); [2019] EWHC Gwein 1757**

47. Gwnaed datganiad o dan adran 6 yn 2015. Roedd yr hawlwyr, oedd yn wladolion Affganistan, yn honni iddynt fod wedi gweithio i Lywodraeth y DU fel ffynonellau cudd-wybodaeth dirgel, honiad nad oedd yn cael ei dderbyn na'i wadu ym mhob achos. Roeddent yn honni bod eu gwaith fel

CHIS[84] wedi rhoi eu bywydau a'u lles mewn perygl gan ofyn am gymorth ariannol tuag at gostau symud i fyw yn Affganistan. Gwnaed cais i ddatgelu mwy ar y deunydd y cafodd y diffynyddion ganiatâd i'w ddal yn ôl. Dadleuai'r hawlwyr y gellid dadlau bod yr hawliad yn ymwneud â phenderfynu eu hawliau sifil, a fyddai'n effeithio ar faint o ddatgelu yr oedd ganddynt hawl iddo. Roeddent yn honni i bolisi (wedi neu heb ei ddatgelu) gael ei gam-gymhwyso a bod y penderfyniadau'n mynd yn groes i'w hawliau o dan Erthyglau 2, 3 ac 8 yr ECHR. Barnodd y Llys Adrannol y gellid dadlau nad oedd yr hawliadau'n ymwneud â phenderfynu eu hawliau sifil. Penderfynodd y Llys Apêl ganiatáu'r apêl ar y sail y gallai dehongliad o bolisi neu ei gymhwysiad, os oedd yn bodoli, ymwneud â phenderfynu hawliau sifil. Credai ei bod yn annhebygol iawn, yng ngoleuni Deddf 2013, bod hawl ddatgelu ar ei phen ei hun yn bodoli. Barnodd y Llys Apêl hefyd, fel sylw wrth basio, nad oedd yr hawlwyr o fewn yr awdurdodaeth i bwrpas yr ECHR.

48. Trosglwyddwyd yr achos i'r Llys Adrannol i ystyried pa ddatgelu pellach, os o gwbl, oedd ei angen yng ngoleuni gofynion Erthygl 6. Fodd bynnag, gwrthododd y llys y dadleuon fod gofynion llawn achos *AF (Rhif 3)* yn berthnasol; *K, A, B v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn* [2017] EWHC 830 (Gwein). Trafodwyd y berthynas rhwng datgelu, hawliau dynol a diogelwch gwladol:

> "11. Sut felly y dylid dehongli'r JSA a CPR yn unol â dyletswydd a.14? Dylai'r llys yn gyntaf sicrhau nad oes unrhyw ddeunydd ar ôl y gellid ei ddatgelu heb wneud niwed i ddiogelwch gwladol. Rhaid iddo wedyn adnabod pa ddeunydd sydd angen ei ddatgelu i bwrpas

84 Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddirgel

Erthygl 6. Mae yna'n gwrthod caniatâd i ddal y deunydd hwnnw'n ôl, gan ddarllen y dyletswyddau clir i'r gwrthwyneb bod yn rhaid iddynt gwrdd â'r gofyniad nad ydynt yn berthnasol os oes angen datgelu o dan Erthygl 6. Nid yw hynny'n newid hawl yr Ysgrifennydd Gwladol i wrthod ei ddatgelu. Nid yw'r llys yn gorchymyn datgelu; nid yw gwrthod datgelu'n mynd yn groes i orchymyn llys; mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i benderfynu peidio â datgelu'r deunydd hwnnw ond ni all wedyn ddibynnu arno, p'un ai yw'r achos yn parhau o dan CMP neu beidio. Gwneir y penderfyniad am ba ddeunydd na ddylid caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ddal yn ôl heb ystyried yr effaith ar yr achos, yn y CMP neu gyda'r posibilrwydd o ddirymu, oedd yn fater yr anghytunai'r partïon arno i raddau. Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gyrraedd penderfyniad ar ddatgelu, gallai fod angen i'r llys ystyried a ddylid dirymu'r CMP o dan a.7. Byddai hyn yn cael ei wneud gan wybod i ba raddau yr oedd Erthygl 6 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu deunydd nad oedd y llys wedi'i dderbyn. Gallai penderfyniad ar ddirymu gynnwys cymharu cyfyngiadau treial o dan CMP, â'r cyfyngiadau ar dreial pe bai'r achos yn cael ei dynnu allan o'r CMP. Gallai Erthygl 6 felly drosglwyddo'r achos yn ôl i gyfyngiadau'r trac agored."

49. Roedd y llys wedi dadansoddi'r awdurdodau blaenorol gan weld bod sbectrwm yn hytrach na hierarchaeth o ofynion datgelu oedd yn gydnaws â chymhwyso Erthygl 6; nid oedd Erthygl 6 yn gofyn bod *AF (Rhif 3)* yn cael ei gymhwyso bob tro.

"23. Er nad oes achosion penodol o gymhwyso Erthyglau 2 a 3 yr ECHR wedi bod gerbron y llys hwn a nodir yr hawl i un o dan gyfraith gyhoeddus gan olygu elfen o werthuso a allai fod yn agored i

adolygiad barnwrol, mae'r hawliadau'n seiliedig ar ddyletswyddau dywededig cyfraith gyhoeddus o ran y risg o niwed i fywyd a chorff. Mae hyn ym mhen uchaf y sbectrwm neu'r raddfa o ran tegwch gweithdrefnol. Yn fy marn ni, mae ar lefel uwch na'r cyd-destun cyflogaeth yn Tariq a Kiani ond nid yw ar lefel Gorchymyn Rheoli na rhewi asedau na chyfyngiad arall fel bod angen datgelu o dan *AF (Rhif 3).* Ni chymerwyd camau gweithredol yn erbyn yr hawlwyr i gyfyngu ar eu rhyddid neu sefyllfa ariannol neu hawliau symudiad. Nid yw'r risgiau dywededig oddi wrth eraill ychwaith yn codi o'r camau a gymrodd y diffynyddion yn erbyn yr hawlwyr. Hawliadau gwarchod sy'n parhau yw'r rhain mewn amgylchiadau lle y dywedir bod y risgiau'n codi o beth allai eraill fod wedi neu y gallent ei wneud....

27. Yn bedwerydd, mae natur yr hawliad yn bwysig, tuag at ben uchaf y sbectrwm, fel yr eglurais. Yn bumed, felly hefyd y ffordd benodol y cyfyd y mater o ddiogelwch gwladol, fel y cyfeirir ato yn Tariq, a ZZ yn y Llys Apêl. Barnodd Strasbwrg na all hawlydd ymarfer ei hawliau llawn i ddisgwyl datgelu hanfod deunydd os byddai ymarfer yr hawliau hynny'n "rhoi effeithlonrwydd y drefn fetio ei hun yn y fantol", gw. Kiani [23], yn dyfynnu Tariq [159]. Yn fy marn i, os yw hawlwyr yn gwneud hawliad sy'n codi o'u rhan wirfoddol ddywededig mewn gwaith diogelwch gwladol, rhaid o reidrwydd iddynt dderbyn na ddylai'r weithdrefn sydd i'w defnyddio, er mwyn ystyried yn deg unrhyw hawliadau am sut y cawsant neu y dylent fod wedi cael eu trin, roi'r union system yr oeddent yn honni bod yn rhan ohoni'n wirfoddol ac yn wybod iddynt yn y fantol. Ni ellir honni perthynas o'r fath heb dderbyn y cyfyngiad cysylltiedig ar wneud

niwed i ddiogelwch gwladol sy'n rhan annatod o fodolaeth perthynas o'r fath. Mae'r polisi NCND yn un o gonglfeini'r warchodaeth o rai sydd, neu y dywedir eu bod yn CHIS, fel y dylai'r hawlwyr fod wedi'i ddeall ac y maen nhw mewn ffaith yn cydnabod eu bod yn dibynnu arno, ac mae cryfder cydlynus y polisi'n deillio o gael ei gymhwyso'n gyson. Ar sail yr hyn a honnir gan yr hawlwyr, ni fedrant fod mewn sefyllfa well o ran datgelu na'r rhai a gyflogwyd mewn gwaith a fetiwyd o ran diogelwch, a ddylai fod wedi gwybod bod cyfyngiadau ar beth y gellid ei ddatgelu pe bai anghydfod yn codi."

50. Roedd y rhesymau'n cynnwys na allai'r hawlwyr ychwanegu dim o ran bodolaeth neu ddehongliad o bolisi perthnasol, y gallai'r AA ei ddefnyddio. Roeddent hefyd wedi gallu cyflwyno'n llawn eu fersiwn eu hunain o'r hyn a ddigwyddodd yn Affganistan a beth oedd eu sefyllfa. Roedd y llys yn rhan o broses o adolygu penderfyniadau'r diffynyddion ac nid o broses o benderfynu ei hun lle y gorweddai'r gwirionedd mewn achos. Ffactor bwysig arall oedd sail yr hawliad ei hun. Ni wnaed dyfarniad caeedig ar yr egwyddorion hynny.

51. Gwnaed datgelu pellach. Gwrandawyd yr hawliadau hyn yn 2018 a gwrthodwyd yr hawliadau adolygiad barnwrol yn 2019. Gwnaed dyfarniad caeedig.

### 31. *R (Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol (Amnesty International ac eraill yn ymyrryd)* [2017] EWHC 1726 (Gwein) a [2019] EWCA Sifil 1020

52. Roedd yr hawliad hwn am adolygiad barnwrol yn dadlau bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd i atal, dros dro, trwyddedau cyfredol i allforio arfau i Sawdi Arabia a pheidio â chaniatáu rhai newydd er mwyn

cydymffurfio â pholisi’r llywodraeth o wrthod trwyddedau o’r fath os oes “risg amlwg y gellid defnyddio’r arfau i fynd yn ddifrifol groes i Gyfraith Ddyngarol Ryngwladol.” Roedd datganiad adran 6 eisoes wedi’i wneud. Taflwyd yr hawliad allan; gwnaed dyfarniad caeedig. Nid yw’n bosib gweld sut y gallai’r achos hwn fod wedi symud ymlaen heb y deunydd caeedig, nac y gallai PII fod wedi bod yn fanteisiol i achos yr hawlydd o gwbl:

> “212. Mantais y weithdrefn deunydd caeedig yw y cawsom fynediad llawn at yr holl ffeithiau a’r deunydd y dibynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol arnynt....mae’r deunydd caeedig, yn ein barn ni [Burnett a Haddon-Cave LJJ], yn ategu, yn werthfawr ac ychwanegol, y casgliad bod dyfarniadau’r Ysgrifennydd Gwladol yn rhai rhesymegol.”

53. Gwnaed apêl lwyddiannus yn erbyn y penderfyniad hwn gan yr hawlydd. Roedd yr apêl y tu allan i gyfnod yr adolygiad ond cyfeiriaf ato oherwydd roedd yn apelio penderfyniad a wnaed o fewn cyfnod yr adolygiad, sy’n ddefnyddiol i ddeall gweithrediad y CMP ar lawr gwlad. Llwyddodd yr apêl ar y sail y dylai’r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi ystyried bod achosion blaenorol o dorri cyfraith ddyngarol ryngwladol yn berthnasol i’r risg y gallai ddigwydd yn y dyfodol. Gwnaed dyfarniad ar sail deunydd agored a chaeedig.

**32-35. *Rahmatullah (YR) v Y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Arall, Ali (AA) v Y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Arall; XYZ, ZMS a HTF v Y Weinyddiaeth Amddiffyn* [2017] EWHC 547 QB; [2018] EWHC 1623(QB); [2019] EWHC 3849 QB**

54. Roedd y diffynyddion wedi gwneud cais am ddatganiad adran 6 yn yr achosion cysylltiedig hyn. Roedd dau hawlydd, YR ac AA, a gadwyd yn gaeth gan luoedd Prydain yn Irac, wedi cael eu trosglwyddo i garchar yn UDA a'u cludo i Affganistan lle y cawsant eu cadw'n gaeth am 10 mlynedd. Roeddent yn honni y cawsant eu cadw'n gaeth, eu trin a'u trosglwyddo'n anghyfreithlon gan luoedd Prydain a bod lluoedd Prydain hefyd yn atebol am eu cadw'n gaeth a'u trin yn wael gan luoedd UDA yn Affganistan. Roedd eu hawliadau'n seiliedig ar gamweddau a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Arestiwyd dau arall gan luoedd Prydain a honnwyd bod lluoedd Prydain wedi ymosod arnynt ar y diwrnod y cawsant eu cadw'n gaeth ac y cawsant wedyn eu trosglwyddo'n anghyfreithlon i luoedd UDA oedd wedi eu cadw'n gaeth am flwyddyn a'u trin yn ddifrifol wael. Roedd XYZ wedi'i gadw'n gaeth gan luoedd UDA ond wedi'i roi yn nwylo lluoedd Prydain dros dro cyn ei ddychwelyd i ddwylo lluoedd UDA. Honnodd iddo gael ei drin yn ddifrifol wael gan luoedd Prydain ac UDA ac y gwyddai lluoedd Prydain, wrth ei drosglwyddo, y byddai'n cael ei drin yn ddifrifol wael gan luoedd UDA. Gwnaed datganiadau ym mhob achos heblaw XYZ. Ni wnaed dyfarniad caeedig.

55. Wrth ddod i'w benderfyniadau ar y ceisiadau, roedd Leggatt J wedi ailadrodd mai dim ond agor y drws i CMP fyddai gwneud datganiad; dyma gam cyntaf y broses ac nid oedd yn rhagnodi sut y byddai'r treial yn symud ymlaen; rhaid oedd parhau i adolygu'r weithdrefn. Nid oedd yn rhaid i'r diffynyddion gyflwyno i'r llys, wrth ofyn am ddatganiad, yr holl

ddeunydd sensitif y byddent efallai'n dibynnu arno wedyn. Wrth ystyried a oedd datganiad yn fuddiol i weinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol, dylai'r llys ganolbwyntio ar benderfynu a oedd y deunydd y dibynnwyd arno yng ngham y cais am ddatganiad yn angenrheidiol i ddatrys y materion oedd yn codi yn yr achos.

56. Roedd Leggatt J yn fodlon yn achos YR bod llawer o'r deunydd, heb os, yn sensitif; gallai ei ddatgelu ddangos faint o wybodaeth oedd gan y DU am derfysgwyr dan amheuaeth, a sut y cafwyd y wybodaeth honno. Nid oedd amser wedi dileu'r niwed y byddai ei ddatgelu'n ei achosi i ddiogelwch gwladol. Ni ellid gwrando'r hawliad yn iawn heb dystiolaeth o ran pam oedd YR yn Irac ac wedi'i arestio, ac oni bai fod gan yr AA gyfle i brofi dibynadwyedd y deunydd a'r casgliadau yr oedd y diffynnydd yn ceisio dod iddynt ar ei sail. Yn achos AA, roedd yr un pwyntiau'n berthnasol ond dywedodd AA hefyd iddo gael ei arestio ar sail cudd-wybodaeth ffug a cham-adnabod pwy ydoedd. Credai Leggatt J fod hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth bod y llys yn ystyried y deunydd oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r pwynt hwnnw.

57. Roedd ZMS wedi gwneud datganiadau manwl iawn am ei driniaeth ar ôl ei arestio; roedd achos HTF yn cyflwyno nodweddion tebyg. Er mwyn asesu hygrededd yr honiadau, byddai angen ymchwilio'n fanwl i'r cynllunio a'r paratoadau ar gyfer y cyrch, y gudd-wybodaeth yr oedd yn seiliedig arni, hyfforddiant y milwyr, y dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r cyrch, ac unrhyw fonitro a wnaed o'r rhai a gymrodd ran. Byddai angen ystyried deunydd sensitif ar gyfer rhai o'r pethau hyn o leiaf. Roedd yn fodlon "nad oedd dewis arall ymarferol neu a fyddai'n gweithio ond gweithdrefn deunydd caeedig." Ni fyddai cylch cyfrinachedd ychwaith yn gweithio oherwydd byddai cyfreithiwr yr hawlydd yn derbyn y deunydd ar

delerau a fyddai'n atal ei gyfathrebu i'r hawlydd ac roedd y deunydd yn uniongyrchol berthnasol i wirionedd ei dystiolaeth a'i gyfarwyddiadau.

58. Fodd bynnag, gwrthodwyd y datganiad yn achos XYZ oherwydd ni ellid barnu'r cais yn iawn cyn i'r diffynnydd bledio i fater penodol; nid oedd y deunydd sensitif y dibynnwyd arno'n cyfiawnhau'r datganiad ar y pwynt hwnnw. Hyd yn oed pe byddai angen datgelu'r ddwy ddogfen a welodd y barnwr, nid oedd yn llwyr wrthod y syniad o gylch cyfrinachedd ar eu cyfer. Mewn llawer o achosion, byddai cylch o'r fath yn anymarferol ond nid oedd yr achos hwn o reidrwydd yn un o'r rheiny: ni fyddai cyfreithwyr yr hawlydd o reidrwydd yn teimlo embaras o fethu â gallu cyfathrebu amdanynt gyda fo ac ni welai ychwaith y byddai datgelu cyfyngedig, yn hytrach na'r cyhoeddusrwydd o ddefnyddio'r deunydd mewn llys agored, yn niweidiol i ddiogelwch gwladol.

59. Ym Mehefin 2018, dyfarnodd Males J ar safon y datgelu oedd i'w chymhwyso yn achosion *HTF* a *ZMS*, [2018] EWHC 1623(QB). Roedd hefyd hawliad PII ar gyfer un categori dogfennau, y cyflwynodd yr AA ddadleuon yn ei gylch. Ni wnaed dyfarniad caeedig. Pe bai'n rhaid datgelu'r deunydd yr oedd y diffynnydd eisiau ei ddal yn ôl, neu grynodeb ohono, i gydymffurfio â dyletswyddau Erthygl 6, roedd yn rhaid gwrthod caniatâd i'w ddal yn ôl, beth bynnag a fyddai'r canlyniadau i ddiogelwch gwladol; ac roedd gan y diffynnydd yna ddewis o ddatgelu'r deunydd neu'r crynodeb, neu o wneud consesiynau priodol. Mater i'r llys oedd penderfynu a fyddai datgelu'n niweidiol i ddiogelwch gwladol, gan roi pwysau priodol i farn y weithrediaeth. Roedd gofynion Erthygl 6 yn cynnwys sbectrwm o ddatgelu sy'n dibynnu ar achos a chyd-destun, fel y barnodd y Llys Adrannol yn *K, A, B v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn* [2017] EWHC 830 (Gwein). Yn un pen y sbectrwm Adran 6

oedd achosion yn ymwneud â chyfyngiadau sylweddol ar ryddid, fel gyda Gorchmynion Rheoli, lle'r oedd y safon yn *SSHD v AF (Rhif 3)* [2009] UKHL 28 yn berthnasol, pryd y bu'n rhaid cyflwyno digon o wybodaeth fel y gallai'r unigolyn roi cyfarwyddyd effeithiol ynghylch yr honiadau yn ei erbyn. Ond nid oedd yn berthnasol i bob achos Erthygl 6, lle'r oedd angen penderfynu ar hawliau sifil mewn gwahanol amgylchiadau. Nid oedd un safon "unffurf a diwyro i'w chymhwyso i bob cyd-destun, ffeithiau ac amgylchiadau." Gallai fod achosion lle y gellid bodloni'r safon honno heb i unrhyw wybodaeth am y deunydd a ddaliwyd yn ôl gael ei rhoi, gan ddibynnu ar natur yr achos a'r amgylchiadau. Gallai rhywbeth oedd yn annerbyniol mewn achos lle'r oedd rhyddid personol yn y fantol fodloni Erthygl 6 os oedd rhywbeth llai yn y fantol. Roedd K, A a B yn honni eu bod wedi bod yn ffynonellau cudd-wybodaeth dirgel i'r DU yn Affganistan gan hawlio gwarchodaeth, symud i fyw ac iawndal o ganlyniad. Nid oedd angen datgelu o dan *AF (Rhif 3).* Gofynnodd yr hawlwyr yn yr achos hwn am ddatgelu ai lluoedd arbennig y DU oedd yr unedau oedd wedi eu dal, a manylion pellach am y rhesymau pam y cafodd ZMS eu cadw'n gaeth fel targed cyrch penodol.

60. Roedd Males J yna wedi trafod cymhwysiad y polisi "Nac yn cadarnhau na'n gwadu" (NCND) yng nghyswllt rôl y lluoedd arbennig, lle'r oedd yr hawlydd wedi gofyn am gael gwybod a oeddent yn rhan o'i gadw'n gaeth. Ar ôl trafod yr awdurdodau perthnasol, casglodd fod angen cymhwyso'r polisi'n gyson a bod yn rhaid rhoi pwysau i bolisi cyson gwahanol lywodraethau, oedd yn fater o synnwyr cyffredin yng ngoleuni'r bygythiadau o bob tu a wynebai'r DU. Casglodd y byddai datgelu a chwaraeodd y lluoedd arbennig ran neu beidio'n niweidiol i ddiogelwch gwladol, ac na fyddai dim llai na CMP yn briodol. Nid oedd yn poeni ar y

pwynt hwnnw am daro cydbwysedd rhwng buddiannau diogelwch gwladol a gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol. Trodd wedyn at beth oedd yn ofynnol o dan Erthygl 6. Mae’r ffordd yr ystyriwyd y mater yn berthnasol. Nid oedd risg ar hyn o bryd i’r un o’r hawlwyr; cawsant eu rhyddhau o gaethiwed 9 mlynedd yn ôl ac roeddent yn gofyn am iawndal. Ond roedd yr honiadau’n ymwneud â materion o bryder cyhoeddus cyfreithlon. Ni effeithiwyd ar eu gallu i roi cyfarwyddyd effeithiol gan beidio â gwybod pwy oedd yr unedau oedd yn gyfrifol am eu dal; nid oedd yn berthnasol i raddau helaeth o gwbl. Roedd gan yr hawlwyr amheuon cryf am bwy oedd yr unedau, y gallent eu defnyddio wrth baratoi am y treial. Nid oedd angen gwybod pwy oeddent i gynnal hyder y cyhoedd yn rheol y gyfraith. Pe bai gwybod pwy oeddent yn dod yn berthnasol, gallai’r AA brofi’r dystiolaeth, gan wybod beth a ddywedai’r hawlwyr amdani.

61. Roedd ZMS wedi cael gwybod yr honnwyd bod ganddo gysylltiadau â grwpiau Iranaidd oedd yn symud arfau, a dangoswyd lluniau iddo o bobl y dywedwyd fod ganddo gysylltiad â nhw. Roedd eisiau manylion pellach am y gudd-wybodaeth yr oedd hynny’n seiliedig arni. Byddai hynny’n niweidiol i ddiogelwch gwladol a gofynnodd yr AA am ddatgelu crynodeb yn unig. Byddai peth effaith ar allu ZMS i roi cyfarwyddyd ond ni fyddai effaith sylweddol ar ei allu i roi cyfarwyddyd effeithiol. Gallai roi cyfarwyddyd i’r AA ynghylch rhai o’r bobl yr oedd yn amau’n gryf eu bod yn y grwpiau dan sylw; a byddai’r AA a fyddai gan y manylion i gyd yn gallu gwarchod ei fuddiannau. Beth bynnag, yr hyn oedd yn bwysig i gyfreithlondeb ei gadw’n gaeth oedd a oedd sail resymol dros y farn bod angen ei gadw’n gaeth am resymau diogelwch gwladol. Lle’r oedd ei honiad bod y rhai y credir eu bod yn perthyn i grwpiau o’r fath yn fwy

tebygol o gael eu cam-drin yn y cwestiwn, yr hyn oedd yn bwysig oedd cred y rhai oedd wedi'i gadw'n gaeth ac nid cywirdeb y gred honno. Nid oedd cynnal hyder y cyhoedd yn gofyn am ddatgelu pellach.

62. Cadarnhawyd yr hawliad PII yng nghyswllt y dogfennau gan y Groes Goch, a fyddai wedi achosi niwed sylweddol i fudd y cyhoedd pe cawsant eu rhyddhau. Roedd cydbwysedd *Wiley* yn erbyn eu datgelu; nid oeddent o arwyddocad penodol i'r achos. Defnyddiwyd PII oherwydd nad oedd y dogfennau'n ymwneud â diogelwch gwladol.

63. Ymddengys bod dyfarniad Turner J ar [2019] EWHC 3849 QB yn *Rahmatullah and Ali* yn cyfeirio at faint i'w ddatgelu i'r AA ac nid at ddatgelu ymlaen i'r CA.

64. Setlwyd y grŵp hwn o achosion. Yn *R (Ullah) v Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol*, cafodd achos pellach ei ddwyn y tu allan i gyfnod yr adolygiad yn herio penderfyniad yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA) i beidio â chadarnhau talu'r iawndal a gytunwyd wrth setlo un o'r achosion o leiaf. Gwnaed cais am ddatganiad adran 6 yn Chwefror 2021 ond nid yw wedi'i benderfynu eto.

**36. *R (W2 ac AI) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2017] EWHC 928 (Gwein); [2017] EWCA Sifil 2146**

65. Amddifadwyd W2 o'i ddinasyddiaeth Brydeinig pan oedd allan o'r DU. Heriodd y penderfyniad drwy adolygiad barnwrol. Gwnaed datganiad adran 6 ac ymddengys nad oedd dyfarniad. Gwrthodwyd caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol oherwydd roedd seiliau'r her yn ddi-ddadl neu'n codi materion y gallai ac felly y dylai SIAC ddelio â nhw; ni fyddai adolygiad barnwrol ar gael os oedd unrhyw rwymedi arall priodol

ar gael.  Gwrthodwyd yr apêl ar y sail bod sylwedd yr her yn dod o fewn awdurdodaeth SIAC, ac y byddai'r apêl yn rhwymedi effeithiol i apelydd oedd allan o'r wlad. Ystyriwyd tystiolaeth gaeedig ac agored, a dadleuon perthnasol i hynny, yn y gwrandawiad cyntaf ac ar apêl. Gwnaed dyfarniad caeedig yn y gwrandawiad cyntaf ond nid ar apêl.

**37. *Abdule a thri Arall v Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad* [2018] EWHC 692 (QB), Master McCloud; [2018] EWHC 3594 (QB) Nicol J**

66. Dechreuodd yr achos hwn dros gyfnod yr adolygiad a gwnaed y dyfarniad cyntaf, ond nid yr ail, yn ystod y cyfnod. Roedd yr hawliad hwn am iawndal, am ymosod, carcharu ar gam a cham-ddefnyddio awdurdod mewn swydd gyhoeddus, wedi'i ddwyn gan fam, oedd yn wladolyn Prydeinig, a'i thri phlentyn a aeth i Somalia i ymuno â'i gŵr a'u tad ac a oedd, meddai, wedi torri ei gysylltiad â'r grŵp terfysgaeth al-Shabaab. Honnai y cafodd ei chadw'n gaeth, ei hymosod arni a'i chaeth-holi gan luoedd Puntland Somalia. Honnai fod y DU wedi bod yn rhan o'i chaeth-holi gan wybod o dan ba amodau yr oedd yn cael ei chadw a'r driniaeth yr oedd yn ei dderbyn. Fe wnaeth y diffynnydd gais am ddatganiad adran 6. Cyn gwrando'r cais, fe wnaeth yr hawlwyr gais am orchymyn i gyflwyno amddiffyniad agored ynghyd â chyflwyno amddiffyniad caeedig drafft i'r AA cyn gwrando'r cais hwnnw, fel y gallai oleuo'r dyfarniad ynghylch yr angen am a thegwch caniatáu'r datganiad. Gorchmynnodd Meistr McCloud fod y ddau'n cael eu cyflwyno. Casglodd y dylai'r partïon a'r llys gael eu rhoi yn y sefyllfa orau i farnu'r profion statudol ar gyfer gwneud datganiad a bod tegwch ac effeithlonrwydd yn gofyn, o leiaf yn yr achos hwn, cael gweld achos yr amddiffyniad mor fuan â phosib er mwyn gallu gweld yn fwy manwl pa faterion oedd yn codi. Casglodd hefyd, ar ôl dadansoddi'r wybodaeth, fod gan y Meistr awdurdodaeth i

gynnal gwrandawiad cais adran 6 ond, fel mater o ddisgresiwn, yn bennaf oherwydd natur yr achos a diffyg cyfleusterau diogel fel y gallai'r Meistri ddelio â deunydd caeedig, y dylid rhyddhau'r achos i farnwr yn yr Uchel Lys. Dylid ymarfer awdurdodaeth y Meistr hyd at y pwynt o wneud y gorchmynion paratoi angenrheidiol ar gyfer y gwrandawiad hwnnw.

67. Roedd yr ail ddyfarniad yn benderfyniad ar y cais adran 6 a ganiatawyd gan Nicol J, yn cymhwyso'r egwyddorion mewn penderfyniadau blaenorol fel *Belhaj*, *Rahmatullah* a *Sarkandi.* Nodaf o ran cylch cyfrinachedd nad oedd y cwnsler agored o blaid un, oherwydd nad oedd am gael ei roi yn y sefyllfa o fod ym meddiant gwybodaeth na allai ei thrafod â'i gleient. Nid oedd y deunydd sensitif yn ymylol i'r achos. Roedd y barnwr yn effro i'r posibilrwydd, a ganfasiwyd yn *Maguire*, y gallai diffynnydd geisio dibynnu ar ddeunydd caeedig ymylol er mwyn sicrhau CMP na fyddai cyfiawnhad drosti fel arall.

**38. *Momen Motasim v Gwasanaeth Erlyn y Goron, Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan, y Gwasanaeth Diogelwch a'r Gwasanaeth Cudd-Wybodaeth* [2017] EWHC 2071 QB; [2018] EWHC 562 (QB)**

68. Yn yr achos hwn, a ddechreuodd yn 2017, mae'r hawlydd yn gofyn am iawndal gan honni bod ei gadw'n gaeth ar ôl ei gyhuddo a hyd at bwynt ei ryddfarnu ar gyhuddiadau terfysgaeth difrifol yn groes i Erthygl 5 yr ECHR. Gofynnodd Wasanaeth Erlyn y Goron am PII ar gyfer deunydd a ystyriwyd i fod yn tanseilio achos yr erlyniad. Gorchmynnodd farnwr y treial ei ddatgelu. Cafodd yr erlyniad yna ei ollwng. Gwrthodwyd cais y diffynyddion i daflu'r cais allan gan Meistr Davison yn [2017] EWHC 2071 QB. Gwrthodwyd yr apêl; [2018] EWHC 562(QB). Aeth yr achos yn ei flaen; gwnaed datganiad o dan adran 6 yn 2019, yn ddiwrthwynebiad.

Rwy'n ei nodi yma dim ond oherwydd yr amgylchiadau y cafodd yr hawliad ei ddwyn ac y caniatawyd y cais adran 6 o danynt.

**41. *R (Kind) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref* [2021] EWHC 710 (Gwein)**

69. Rwy'n nodi'r achos hwn oherwydd yr amgylchiadau anghyffredin. Roedd yr achos yn herio penderfyniad anffafriol y diffynnydd ar y broses DV ar gyfer ymgeisydd, oedd yn llwyddiannus fel arall, am y swydd o Bennaeth Ymchwiliadau yn Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio. Ni wn pryd y gwnaed y datganiad adran 6 ond mae'n annhebygol o fod wedi bod yn ystod cyfnod yr adolygiad. Mae dyfarniad agored llawn ar y rhan fwyaf o'r pwyntiau perthnasol, a dyfarniad caeedig yn ategu'r rhesymau agored.

**43. *McCafferty v Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon* [2016] NIQB 47**

70. Roedd aelod o'r Gwir IRA, a ryddhawyd ar drwydded o'i ddedfryd 12 mlynedd am droseddau ffrwydron, wedi'i alw'n ôl i'r carchar am dorri amodau ei drwydded. Gorchmynnodd y Comisiynydd ei ryddhau oherwydd na roddwyd digon o wybodaeth i Mr McCafferty am y rhesymau dros ei alw'n ôl fel y gallai herio'r rhesymau hynny. Fe wnaeth Mr McCafferty gais i'r Ysgrifennydd Gwladol am iawndal am gam-ddefnyddio awdurdod mewn swydd gyhoeddus, tresbas i'r person, cam-arestio, cadw'n gaeth yn anghyfreithlon a charcharu ar gam. Roedd y diffynnydd eisiau dibynnu ar y deunydd caeedig a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau'r penderfyniad i alw Mr McCafferty'n ôl ond oedd heb ei ddatgelu iddo yn y gwrandawiad galw'n ôl. Fe wnaeth y diffynnydd gais am ddatganiad adran 6. Gwrthwynebodd Mr McCafferty'r cais ar y sail y byddai'n ei rwystro rhag cael treial teg; nid oedd y diffynnydd ychwaith

wedi cydbwyso buddiannau diogelwch gwladol a gweinyddu cyfiawnder, sy'n rhan gynhenid o *Wiley.*

71. Barnodd Stephens L fod y ddau amod statudol wedi eu bodloni. Fe'u disgrifiodd fel bod yn agor y drws i weithdrefn barhaus a fyddai'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Cafodd *Sarkandi* a *XH* eu cymhwyso. Nid oedd sail dros ymarfer y disgresiwn i beidio â gwneud datganiad, a byddai'r achosion lle y dylid ei ymarfer yn ddigon prin. Er mwyn ateb y cwestiwn a fyddai'r CMP yn deg ac effeithiol, roedd angen i'r llys lunio barn am y wybodaeth oedd ar gael iddo, gan adolygu'r dyfarniad hwnnw'n rheolaidd. Nid oedd yr achos yn sicr o fod yn annheg. Ni ellid gwrando'r hawliad na'r amddiffyniad yn deg yn yr achos hwn heb y CMP. Roedd manylion y deunydd sensitif yn hanfodol i werthuso'r prif fater oedd yn codi yn yr achos sifil. Dim ond os oedd y deunydd caeedig wedi'i brofi y gallai'r llys benderfynu a oedd cyfiawnhad i'r seiliau dros alw'n ôl. Ni fyddai PII yn cyflawni hynny. Nid oedd yn ofynnol cymhwyso proses PII na chydbwysedd *Wiley* i'r Ddeddf. Barnodd Stephens J:

> "[27] Wrth ystyried yr agwedd hon ar y cynllun statudol, credaf ei bod yn berthnasol cofio beth yw gwahanol effeithiau tystysgrif PII a CMP. Os yw tystysgrif PII yn cael ei chadarnhau, mae'r dystiolaeth dan sylw'n cael ei heithrio'n llwyr o'r achos. Ni all yr un parti ddibynnu arni, na'r llys ychwaith. Nid yw hynny'n wir gyda deunydd caeedig y gall y diffynnydd drwy'r weithdrefn honno barhau i ddefnyddio a dibynnu ar ddeunydd caeedig er nad yw'r achwynydd a'i gynrychiolwyr cyfreithiol yn gallu gweld y deunydd hwnnw. Gellid awgrymu bod gadael i'r diffynnydd ddewis rhwng PII a CMP yn annheg oherwydd bod y diffynnydd yn gallu penderfynu a fydd y dystiolaeth yn cael ei heithrio'n llwyr o dan PII neu ei defnyddio o dan

y CMP. Credaf fod y rhag-amod statudol, neu fel arall yr ail amod statudol yn Adran 6(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried tegwch penderfyniad y diffynnydd i beidio â gwneud cais am PII."

72. Y cwestiwn fodd bynnag, meddai, oedd a fyddai'r CMP yn deg ac effeithiol, ac ni fyddai'n deg ac effeithiol pe bai PII yn ffordd decach o symud ymlaen ar ôl ystyried buddiannau'r ddwy ochr. Ni wnaed dyfarniad caeedig.

**44. *Re Cais Gallagher am Adolygiad Barnwrol* [2016] NIQB 43; [2021] NIQB 85**

73. Hawliad oedd hwn am adolygiad barnwrol o wrthodiad yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r bomio yn Omagh yn 1998. Roedd yr hawlydd yn rhiant i un o'r rhai a fu farw. Honnodd y gwyddai'r Llywodraeth neu y dylai fod wedi gwybod fod y bomio wedi'i gynllunio a'i bod wedi methu â chymryd camau rhesymol i'w atal. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol gais am ddatganiad adran 6, a ganiatawyd. Roedd Maguire J wedi cymhwyso, yn eithaf cyffredinol, achos *Sarkandi,* ac ar ddisgresiwn, y dadansoddiad yn *XH.* Barnodd y barnwr nad oedd yn briodol llunio barn ar y pwynt hwnnw am gryfder dadleuon yr amddiffyniad na chryfder eu hachos. Ond roedd yn briodol ystyried a oedd y deunydd caeedig yn rhan gyfreithlon ac angenrheidiol o'r amddiffyniad, ac nid yn fater o hwylustod yn unig iddo. Roedd y barnwr yn fodlon nad oedd yn cael ei gyflwyno dim ond fel mater o hwylustod; a bod angen cyfreithlon gallu rhoi cyfrif manwl o'r ymchwiliad gerbron y llys. Nid oedd yr amddiffyniad yn ddi-ddadl ac er mwyn ateb hynny byddai'n rhaid rhoi deunydd gerbron y llys y byddai ei ddatgelu'n gyhoeddus yn niweidiol i ddiogelwch gwladol. Byddai PII yn eithrio'r

deunydd hwnnw. Cytunodd y barnwr â'r hyn a ddywedwyd mewn achosion eraill am y problemau ymarferol gyda chylch cyfrinachedd. Gwrthododd y barnwr hefyd y ddadl bod y Senedd wedi bwriadu i'r broses deunydd caeedig fod ar gael dim ond mewn achosion lle'r oedd y Wladwriaeth yn wynebu problem annatrys mewn hawliadau iawndal oedd yn ei hatal rhag paratoi amddiffyniad, ac felly y dylid gwrthod y datganiad fel mater o ddisgresiwn.

74. Casglodd y dyfarniad agored terfynol y gellid dadlau bod y Llywodraeth wedi mynd yn groes i'w dyletswyddau gwarchod o dan Erthygl 2 yr ECHR ac wedi gorfod cynnal ymchwiliad cydymffurfio ag Erthygl 2 i fesurau y gallai fod wedi eu cymryd i atal y bomio, gan gynnwys deunydd caeedig. Gwnaed dyfarniad caeedig hefyd.

**45. *Logan v Prif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon* [2017] NIQB 70**

75. Arestiwyd yr achwynydd o dan y Ddeddf Terfysgaeth a'i ryddhau ychydig dros ddiwrnod yn ddiweddarach. Penderfynodd ddod ag achos iawndal yn y Llys Sirol am gam-arestio. Trosglwyddwyd yr achos i'r Uchel Lys er mwyn gallu gwneud cais am adran 6. Pan wnaed y cais, cafwyd ei fod yn ddiangen oherwydd mai'r mater a fyddai'n penderfynu a arestiwyd yr achwynydd ar gam neu beidio oedd beth oedd ym meddwl y swyddog arestio ac nid unrhyw ddadansoddiad o ddeunydd sensitif na fyddai wedi gwybod amdano. Roedd Stephens J wedi rhoi cyfle i'r achwynydd ofyn am ei anghymhwyso oherwydd iddo weld deunydd caeedig yn ystod y cais adran 6, er na allai ei gofio, heblaw iddo weld affidafid nad oedd yn rhan o ddeunydd y treial ac na fyddai'r un o'r ddwy ochr yn dibynnu arno.

Ni wnaed cais i'w anghymhwyso. Mae'n dangos problem bosib, ac un y deliwyd â hi yn y ffordd arferol gan y barnwr.

**46. *Higgins a Lee v Prif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon* [2016] NIQB 81**

76. Achos iawndal yn ymwneud ag amrywiol gamweddau oedd hwn gyda'r Achwynwyr yn honni bod 'prepiwr gyda rôl weithredol', a hynny'n wybod i Heddlu Brenhinol Wlster (RUC), wedi plannu dyfeisiau ffrwydrol arnynt fel y byddent yn cael eu darganfod wrth chwilio wedyn. Fe wnaeth y diffynnydd gais am ddatganiad adran 6. Gwnaed y datganiad. Gwrthododd Stephens J yr honiad bod y ddadl gyhoeddus ynghylch a oedd yr unigolyn dan sylw'n 'brepiwr' yn golygu nad oedd ei wir sefyllfa'n fater o ddiogelwch gwladol nac ychwaith nad oedd yn bosib cymhwyso'r polisi NCND. Roedd y ffaith bod y camymddwyn honedig wedi digwydd rai blynyddoedd yn ôl, a bod dulliau ac arferion diogelwch efallai wedi newid, yn fater i'r barnwr ei ystyried wrth farnu sensitifrwydd y deunydd caeedig.

**47. *Margaret Keeley v Prif Gwnstabl Gogledd Iwerddon, Scappaticci, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn* [2021] NIQB 81**

77. Mae'r hawliad hwn yn un o grŵp o 32 o hawliadau, gwahanol gan fwyaf, a gafodd eu dwyn gan Achwynwyr yn hawlio iawndal yn codi o gamweddau honedig gan y diffynyddion o ganlyniad i weithgareddau Mr Scappaticci, aelod o'r P-IRA y dywedid ei fod yn gweithio i Lywodraeth y DU fel asiant dwbl, "Stakeknife". Mae'r hawliadau'n ymwneud â digwyddiadau rhwng 1987 a 1994. Roedd yr achosion, a ddechreuodd yn ei hachos hi yn 2008, ac yn achos y lleill, wedi wynebu oedi tra bo'r ymchwiliad, Cyrch Kenova, i weithgareddau Mr Scappaticci'n cael ei

gwblhau ac erlyniadau troseddol o ganlyniad yn cael eu cynnal. Nid yw'r hawliad wedi symud ymlaen ymhellach na gwrando a gwrthod cais i atal, tra bo'r ymchwiliad ac unrhyw erlyniadau'n cael eu cynnal. Mae'r dyfarniad yn ymwneud â'r mater hwn. Ymddengys y gwnaed datganiad adran 6 mewn rhai ond nid ym mhob achos; gwnaed cais amdano'n sicr mewn rhai achosion oherwydd bod AAau wedi eu penodi.

**48. *Morley v Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Peter Keeley a Phrif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon* [2017] NIQB 8 a [2020] NIQB 77**

78. Roedd yr hawlydd yn gofyn am iawndal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn fel 'rheolwr' honedig Mr Keeley y dywedid ei fod yn asiant i'r MoD[85]; honnwyd ei fod wedi llofruddio ei fab, ar gyfarwyddyd neu'n wybod i'r MoD a bod yr MoD wedi methu â chymryd camau priodol i warchod ei mab a bod yr RUC yna wedi methu â chynnal ymchwiliad iawn i'r llofruddiaeth. Fe wnaeth yr MoD gais am ddatganiad adran 6, a ganiatawyd. Roedd Stephens J wedi dadansoddi'r darpariaethau statudol, gan gymhwyso *McGartland.* Ni allai'r AA, a welodd beth o leiaf o'r deunydd sensitif, weld unrhyw sail realistig dros wrthwynebu'r datganiad. Cyflwynodd yr adfocadau agored nifer o ddadleuon ynghylch sut y dylid delio â rhai agweddau ar y deunydd caeedig, ac roedd Horner J wedi gwneud sylw arnynt. Barnodd fod y manylion yn y deunydd sensitif a welodd yn hanfodol i werthuso'r prif faterion yn yr hawliad ac nad oedd unrhyw "ddewis arall ymarferol" heblaw am y datganiad os oedd y materion i'w gwrando'n deg.

79. Mae'r penderfyniad nes ymlaen yn ymwneud â chais i ddatgelu deunydd trydydd parti, gan Ombwdsmon Heddlu Gogledd Iwerddon. Mae'n delio

85 Y Weinyddiaeth Amddiffyn

â'r egwyddorion a'r ymarfer ynghlwm â datganiad o'r fath o fewn y CMP, a bod Ombwdsmon Heddlu Gogledd Iwerddon (PONI) yn gallu gofyn ei hun am ddatganiad adran 6 er mwyn gallu delio â'r materion datgelu, gan gynnwys datgelu i'r adfocadau agored. Tynnodd Horner J sylw, fel gyda chais cam-drin proses *Kamoka* a daflwyd allan gan y Llys Apêl, at y cyfyngiadau ar ddatgelu deunydd trydydd parti i AAau, oedd heb gyd-fudd yn achos yr hawlydd. Rwy'n cynnwys y penderfyniad gweithdrefnol diweddarach hwn oherwydd ei fod yn berthnasol i achosion a ddechreuodd dros gyfnod yr adolygiad ac i weithrediad y Ddeddf yn gyffredinol.

80. Setlwyd yr hawliad.

## Hawliadau ar ôl cyfnod yr adolygiad

81. Roedd atodlen achosion yr AAau yn cynnwys achosion lle y gwnaed cais am ddatganiad a.6 hyd at fis Mai 2021. Ni edrychais ar y rheiny heblaw fel y nodaf yn y Rhagarweiniad i'r Adolygiad hwn. Cafwyd lleihad, ar ôl dyddiad yr adolygiad, yng nghyfran achosion Gogledd Iwerddon (3/19) - un achos yn ymwneud â herio penderfyniad interim gan SIAC, felly hefyd achos dros gyfnod yr adolygiad, 6 yn ymwneud â mewnfudo, gan gynnwys penderfyniadau pasbort, ac un yn achos mewnfudo'n codi o gadw'n gaeth. Roedd tri arall yn ymwneud â herio, neu iawndal yn ymwneud â honiadau bod milwyr wedi lladd sifiliaid yn Affganistan, a thrin rhai oedd yn cael eu cadw'n gaeth yn anghyfreithlon, gan gynnwys rôl y DU mewn anfon i wlad dramor ac arteithio. Os yw adolygiad barnwrol ar gael fel dull o herio penderfyniadau'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio, gallai arwain at geisiadau adran 6, ac mae her i

gyfreithlondeb rhan o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 wedi arwain at gais am ddatganiad adran 6.

E02717323

978-1-5286-3179-2